# BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

Yn ymgorfforiʼr Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Mawrth 2019

# BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Pwyllgor Cyllid ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn wreiddiol, cafodd ei baratoi a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Hydref 2017, a gosodir Memorandwm Esboniadol yn awr yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## Datganiad

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), a gyflwynwyd ar 2 Hydref 2017, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Mawrth 2019

# Cynnwys

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL** ..... 5

**1. Disgrifiad o'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)** ..... 5

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol** ..... 6

**3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael** ..... 7

Diben y bennod hon ..... 7
Y cefndir ..... 7
Y rheswm dros y Bil ac esboniad o’r amseru ..... 8
Y prif newidiadau a wnaed i’r Bil ..... 11
Llwyth achosion ..... 12
Y sefyllfa bresennol ..... 15
Trosolwg a bwriadau polisi'r Bil ..... 15

**4. Ymgynghori** ..... 26

Diben y bennod hon ..... 26
Yr ymgynghoriad ar gynigion i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon ..... 26
Ystyried yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ..... 27

**5. Y Bil** ..... 30

Diben y bennod hon ..... 30
Derbyn cwynion llafar ..... 30
Ymchwilio ar ei liwt ei hun ..... 30
Ymdrin â chwynion ar draws y sector cyhoeddus ..... 32
Ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd ..... 33

**6. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth** ..... 34

**7. Codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru** ..... 44

**8. Tabl tarddiadau** ..... 45

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL** ..... 49

**9. Crynodeb – Asesiad Effaith Rheoleiddiol** ..... 49

**Diben y bennod hon** ..... 49

**Crynodeb** ..... 49

**10. Opsiynau Polisi** ..... 55

Diben y bennod hon ..... 55
Trosolwg ..... 55
Y pŵer i gael cwynion llafar ..... 55
Y pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun ..... 56
Ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. ..... 56

Y pŵer i ymgymryd â rôl mewn perthynas â'r safonau a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. ....... 57

**11. Costau a manteision ....... 59**

Diben y bennod hon ....... 59
Y cefndir ....... 59
Tystiolaeth ....... 60
Ymgysylltu â rhanddeiliaid ....... 60
Crynodeb Gweithredol ....... 62
Tybiaethau ac ansicrwydd ....... 66
Crynodeb o'r costau a'r manteision ....... 80
Gwneud dim ....... 81
'Osgoi costau' ....... 83
Y pŵer i gael cwynion llafar ....... 86
Ymchwilio ar ei liwt ei hun ....... 101
Ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon er mwyn gallu ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat ....... 108
Y pŵer i ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau o ran ymdrin â chwynion. ....... 116

**12. Asesiadau Effaith Penodol ....... 124**

Diben y bennod hon ....... 124
Dyletswyddau statudol a dyletswyddau eraill ....... 124
Asesiad Hawliau Dynol ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ....... 124
Yr effaith ar y Gymraeg ....... 130
Datblygu cynaliadwy ....... 131
Iechyd a llesiant ....... 132
Effaith ar faterion gwledig ....... 132
Asesu cystadleuaeth ....... 132
Yr effaith ar fusnesau bach ....... 133
Effaith ar y trydydd sector ....... 133
Effaith ar breifatrwydd ....... 133

**RHAN 3 – ADOLYGIAD AR ÔL GWEITHREDU ....... 134**

**13 Adran 72 – Adolygiad o’r Ddeddf ....... 134**

**14 Adolygiad ar ôl gweithredu ....... 134**

**ATODIAD A – NODIADAU ESBONIADOL ....... 138**

**ATODIAD B – MYNEGAI O OFYNION Y RHEOLAU SEFYDLOG ....... 176**

**ATODIAD C - CWYNION AM GYRFF CYHOEDDUS YN ÔL CORFF CYHOEDDUS181**

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad o'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

1.1. Bwriedir i'r Bil hwn ddisodli'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n rheoli swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ('Deddf 2005').

1.2. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch swydd yr Ombwdsmon a swyddogaethau ymchwilio'r rôl. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion ynghylch gweithdrefnau awdurdodau rhestredig ar gyfer ymdrin â chwynion ac yn galluogi'r Ombwdsmon i gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion.

## 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

2.1. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ('y Bil') yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi eu nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.

2.2. Mae paragraff 14 o Atodlen 7 yn nodi cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ynghylch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.3. Mae paragraff 14, o'i ddarllen ynghyd ag adran 108, yn rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad wneud y darpariaethau a gynhwysir yn y Bil.

2.4. Yn ogystal â hyn, mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â phynciau eraill yn Atodlen 7. Er enghraifft, mae Rhannau 3 a 5 o'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ombwdsmon ymchwilio er mwyn gallu gwneud gwelliannau mewn pynciau datganoledig er enghraifft: trin salwch (paragraff 9) tai a digartrefedd (paragraff 11); dyletswyddau awdurdodau lleol (paragraff 12); llesiant plant a gofal personau agored i niwed (paragraff 15); rheoli perygl llifogydd (paragraff 19). Yn yr un modd, mae Rhan 4 o'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ombwdsmon gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion er mwyn gallu gwneud gwelliannau ar draws ystod eang o wasanaethau cyhoeddus datganoledig a ddarperir gan awdurdodau rhestredig.

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

## Diben y bennod hon

3.1. Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael er mwyn rhoi'r Bil yn ei gyd-destun. Mae'n nodi awdurdodaeth yr Ombwdsmon o dan y ddeddfwriaeth bresennol a'r pwerau ychwanegol a gynigir yn y Bil.

## Y cefndir

3.2. Cafodd rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ei sefydlu gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ('Deddf 2005'). Roedd Deddf 2005 yn dwyn swyddogaethau a phwerau blaenorol yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru at ei gilydd.

3.3. Bwriad Deddf 2005 oedd:

- peri bod gwasanaeth yr Ombwdsmon yng Nghymru ar gael yn fwy hwylus i'r cyhoedd, gan fod pobl naill ai heb wybod am wasanaeth yr Ombwdsmon neu'n drysu pa un o'r Ombwdsmyn i droi ato;
- galluogi'r Ombwdsmon i ddatblygu system gynhwysfawr a chydlynol ar gyfer ymchwilio i gwynion ar draws ystod eang o gyrff cyhoeddus; a
- sefydlu atebolrwydd clir drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon lunio adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') am sut y mae ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni.

3.4. O dan Ddeddf 2005, mae rôl yr Ombwdsmon yn ymrannu'n ddwy ran benodol:

- ystyried cwynion gan aelodau'r cyhoedd am gamweinyddu neu am fethiannau gan awdurdodau rhestredig (a rhestrir yn Atodlen 3 i Ddeddf 2005) wrth ddarparu gwasanaethau.

  Mae'r awdurdodau rhestredig yn cynnwys:

  - llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned);
  - y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion);
  - landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai); a
  - Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi.

- ystyried cwynion y gall aelodau neu weithwyr awdurdodau lleol fod wedi torri cod ymddygiad perthnasol.

3.5. Ym mis Tachwedd 2014, cafodd pwerau'r Ombwdsmon eu hymestyn i gynnwys cwynion am wasanaethau cymdeithasol yn y sector preifat.

3.6. O fis Ebrill 2016 ymlaen, diwygiwyd rôl yr Ombwdsmon yng nghyswllt cwynion Cod Ymddygiad hefyd gan:
- Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016; a
- Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016.

## Y rheswm dros y Bil ac esboniad o'r amseru

3.7. Mae gan yr Ombwdsmon ran hollbwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n credu ei fod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi drwy gamweinyddu neu drwy fethiant yng ngwasanaeth corff cyhoeddus yn gallu gwneud cwyn gyda'r sicrwydd y bydd yr Ombwdsmon yn ymdrin â'r gŵyn mewn modd teg ac annibynnol.

3.8. Mae Deddf 2005 wedi ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gafael ar wasanaethau'r Ombwdsmon.  Mae wedi galluogi anghydfodau i gael eu datrys ac wedi rhoi iawn i unigolion. Wrth ganolbwyntio ar ymdrin â chwynion yn y sector cyhoeddus, mae Deddf 2005 wedi arwain at welliannau wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus hefyd.

3.9. Er bod rôl gyfredol yr Ombwdsmon yn gweithio'n effeithiol ac er y barnwyd yn gyffredinol fod Deddf 2005 yn batrwm o ddeddfwriaeth ar gyfer Ombwdsmyn, cafwyd galwadau ers 2013 i ymestyn ei bwerau.

3.10. Bu Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a Phwyllgor Cyllid y pedwerydd Cynulliad yn ystyried ehangu rôl yr Ombwdsmon. Cynhaliwyd trafodaethau am y mater hefyd gyda Llywodraeth Cymru.

3.11. Ym mis Mai 2013, ysgrifennodd yr Ombwdsmon ar y pryd (Peter Tyndall) at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn nodi ei farn ynglŷn â newidiadau i Ddeddf 2005. Pan roedd ei gyfnod yn y swydd yn dod i ben, aeth Peter Tyndall i un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 6 Tachwedd 2013 i drafod ei adroddiad blynyddol.

3.12. Yn sgil y cyfarfod, ysgrifennodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y pryd, Lesley Griffiths, i ofyn am ei barn ar ddiwygio Deddf 2005. Yn ei ymateb, dywedodd y Gweinidog fod yr Ombwdsmon wedi codi pwyntiau gwerthfawr. Er hynny, roedd yn credu bod angen

ystyriaeth a thrafodaeth fanylach ar y materion, a ddylai gynnwys trafod gyda'r Ombwdsmon parhaol newydd pan gâi hwnnw ei benodi.

3.13. Ar 6 Tachwedd 2014, fel rhan o ystyriaethau'r Pwyllgor Cyllid ar Amcangyfrifon yr Ombwdsmon ar gyfer 2015-16, clywodd yr Aelodau gan yr Ombwdsmon newydd (Nick Bennett) ei fod yn credu bod awydd diweddaru Deddf 2005. Yn ei adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid fod yr Ombwdsmon a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ar amserlen ar gyfer diwygio'r Ddeddf.[1]

3.14. Wrth ymateb i'r argymhelliad i ddiweddaru Deddf 2005, nododd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar y pryd, Jane Hutt AC, y byddai'n fwy priodol pe bai'r Cynulliad yn cymryd yr awenau ynglŷn ag unrhyw newid yn y ddeddfwriaeth, gan fod Llywodraeth Cymru yn gorff cyhoeddus yr oedd yr Ombwdsmon yn cael craffu ar ei waith. Dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn bwydo'i barn i unrhyw ystyriaethau ar bwerau'r Ombwdsmon ond y dylai'r sylwadau hynny gael eu hystyried ochr yn ochr â sylwadau cyrff eraill a oedd yn destun gwaith craffu gan yr Ombwdsmon.

3.15. Ar 11 Rhagfyr 2014, fel rhan o drafodaeth ar adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon, clywodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gan yr Ombwdsmon, er bod Deddf 2005 wedi bod yn ddarn effeithiol o ddeddfwriaeth, fod yna feysydd yr oedd angen eu cryfhau er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n addas ar gyfer y dyfodol ac yn canolbwyntio ar ddinasyddion.

3.16. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid i ddweud bod yna rinwedd mewn adolygu'r ddeddfwriaeth ond y byddai'n anodd iddo roi'r amser angenrheidiol i hynny, a chan fod y Pwyllgor Cyllid wedi mynegi diddordeb yn y maes o'r blaen, y gallai hyn fod yn rhywbeth yr hoffai'r Pwyllgor Cyllid fynd ar ei drywydd.

3.17. Ar 21 Ionawr 2015, daeth yr Ombwdsmon i'r Pwyllgor Cyllid i drafod ei gynigion ar gyfer ymestyn ei bwerau ac ar ôl hynny, cyflwynodd bapur cefndir yn rhoi ragor o wybodaeth fanwl am y cynigion hyn.[2]

3.18. Ar ôl y sesiwn hon, cytunodd y Pwyllgor Cyllid i gynnal ymchwiliad. Roedd hyn yn cynnwys:

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015-16, Tachwedd 2014. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10012%20-%20report%20of%20the%20finance%20committee's%20%20-%20scrutiny%20of%20public%20services%20ombudsman%20for%20wales%e2%80%99%20draft%20estimates%20for%202015/cr-ld10012-w.pdf

[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Papur yn dilyn y dystiolaeth a roddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2015. Ar gael yn: **http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s37196/Additional%20Information%20from%20PSOW%20from%20evidence%20session%2021%20January%202015.pdf**

- cynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 26 Ionawr 2015 a 20 Mawrth 2015 i lywio ei waith;
- gofyn am farn Gweinidogion Cymru am sut y byddai cynigion yr Ombwdsmon yn effeithio ar sectorau penodol yng nghylch gorchwyl Llywodraeth Cymru; a
- chynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda nifer o dystion.

3.19. Ym mis Mai 2015, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad cychwynnol a oedd yn nodi'r argymhellion a ddeilliodd o'r ymchwiliad.[3] Roedd y rhain yn cynnwys argymhelliad y dylid cyflwyno'r Bil yn y Cynulliad gan fod y dystiolaeth wedi argyhoeddi'r Aelodau y dylid adolygu pwerau'r Ombwdsmon.

3.20. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad 12 wythnos ar strwythur a chynnwys Bil drafft. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd adroddiad ar ei ystyriaethau a'i gasgliadau ar sail yr ymatebion a gafwyd, gan gynnwys newidiadau i'r Bil drafft a gyhoeddwyd ar gyfer yr ymgynghoriad. Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai un o bwyllgorau'r Cynulliad yn y dyfodol gyflwyno Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) cyn gynted â phosibl yn y Pumed Cynulliad.[4] Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid hefyd y dylai'r Ombwdsmon gyfrannu at Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gostio'n llawn i gyd-fynd â'r Bil, y byddai modd olrhain ei hynt drwy'r cyllidebau a gyflwynir yn y dyfodol gan yr Ombwdsmon i'r Cynulliad. Ar 14 Rhagfyr 2016, cyflwynodd yr Ombwdsmon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Pumed Cynulliad.

3.21. Rhoddodd yr Ombwdsmon dystiolaeth ynghylch yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2017. Ar ôl y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at yr Ombwdsmon i ofyn am ragor o wybodaeth yn ymwneud yn benodol ag amcangyfrif o'r gost debygol i'r cyrff cyhoeddus eraill y mae darpariaethau'r Bil yn effeithio arnynt (neu gostau 'anuniongyrchol'). Darparodd yr Ombwdsmon y wybodaeth hon i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar 28 Ebrill 2017. Rhoddodd yr Ombwdsmon ragor o wybodaeth[5] mewn ymateb i

---

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Mai 2015. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10200/cr-ld10200-w.pdf

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Mawrth 2016. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10644/cr-ld10644-w.pdf

[5] Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – 24 Mai 2017: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s65395/Letter%20from%20the%20Chair%20to%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%2024%20May%202017.pdf

llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor[6] yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor Cyllid ar y Bil yn ei gyfarfod ar 17 Mai 2017. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod y Bil yn ei gyfarfodydd ar 5 a 19 Gorffennaf 2017 hefyd.

## Y prif newidiadau a wnaed i'r Bil

3.22. Yn Nhabl 1 nodir y prif newidiadau a wnaed yn sgil trafodaethau'r Pwyllgor Cyllid ynghylch y Bil drafft. Mae'r cyfeiriadau yn Nhabl 1 yn cyfeirio at yr adrannau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Nid yw'r tabl yn cynnwys mân newidiadau drafftio.

**Tabl 1: Y prif wahaniaethau rhwng y Bil drafft a'r Bil fel y'i cyflwynwyd**

| Adran | Y newid a wnaed a'r rheswm |
|---|---|
| Adrannau 5 a 45 | Er mwyn rhoi'r meini prawf ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun o dan adran 5 a 45 ar wyneb y Bil (gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn llythyr yr Ombwdsmon dyddiedig 7 Mehefin 2017), gyda phŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r meini prawf (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol). |
| Adran 16(2) | Er mwyn cyfyngu ar ddisgresiwn yr Ombwdsmon yn adran 16(2) fel nad oes yn rhaid paratoi cynnig ymchwilio o dan amgylchiadau cyfyngedig (h.y. nid oes angen unrhyw gynnig ymchwilio pan fo cysylltiad sylweddol rhwng ymchwiliad newydd ar ei liwt ei hun ac unrhyw ymchwiliad blaenorol). |
| Adran 65 | Er mwyn diwygio adran 65 i'w gwneud yn glir bod yn rhaid i'r Ombwdsmon hysbysu ac ymgynghori â'r personau a bennir yn adran 65(2) (sy'n cynnwys comisiynwyr a chynghorwyr statudol a gaiff eu creu gan y Cynulliad yn y dyfodol) pa bryd bynnag y bydd mater y gallai'r Ombwdsmon a'r person penodol ymchwilio iddo.<br><br>O ran y comisiynwyr penodol sydd eisoes yn bodoli, mae pŵer i gydweithio ar faterion hefyd. |
| Adran 72 | Er mwyn rhoi'r ddyletswydd am adolygu gweithrediad y Ddeddf yn adran 72 ar y Cynulliad, yn hytrach nag ar Weinidogion Cymru. |

[6] Llythyr oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru - 7 Mehefin 2017: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s65396/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20to%20the%20Chair%207%20June%202017.pdf

| Adran | Y newid a wnaed a'r rheswm |
|---|---|
| | Gellir cynnal adolygiad unrhyw bryd, ac mae'n rhaid cynnal adolygiad ar ôl y pum mlynedd gyntaf. |
| Atodlen 5 | Mae'r diwygiadau canlyniadol yn Atodlen 5 wedi cael eu hailddrafftio er mwyn symleiddio ac egluro'r darpariaethau o ran gweithio ar y cyd a chydlafurio. Mae yna hefyd ddiwygiad canlyniadol newydd i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn egluro y gall yr Ombwdsmon a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gydweithio. |
| Atodlen 1 | Mae'r paragraff 21 newydd yn egluro y bydd y person sy'n Ombwdsmon y diwrnod cyn i'r Ddeddf gael ei phasio yn parhau i fod yn Ombwdsmon ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio (ac ni fydd toriad yn nhymor y swydd, sef saith mlynedd). |

3.23. Mae'r gwelliannau i'r Bil, fel y'u derbyniwyd yn ystod trafodion Cyfnod 2 yn unol â Rheol Sefydlog 17.34,[7] wedi'u nodi yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli,[8] sydd ar gael ar dudalen y Bil ar wefan y Cynulliad.

## Llwyth achosion

3.24. Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a Phwyllgor Cyllid y Pumed Cynulliad sy'n craffu ar waith yr Ombwdsmon ac ystyriaethau ariannol ei swydd. Mae angen Amcangyfrifon i nodi'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn i'r Ombwdsmon gyflawni ei swyddogaethau statudol, ac eithrio cyflog yr Ombwdsmon ei hun (a chostau cysylltiedig), a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.

3.25. Wrth graffu ar y Amcangyfrif ar gyfer 2017-18, nododd y Pwyllgor Cyllid fod llwyth gwaith yr Ombwdsmon yn parhau i gynyddu.[9] Rhwng 2010-11 a 2015-16, nododd fod cyfanswm y llwyth achosion – yn cynnwys Ymholiadau, Cwynion am Gyrff Cyhoeddus a Chwynion Cod Ymddygiad – wedi cynyddu 112 y cant, gyda chynnydd o 4 y cant o ran achosion yn

---


[7] Mae Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael yn http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/Pages/bus-assembly-guidance.aspx

[8] Mae'r Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli ar gael ar dudalen y Bil ar wefan y Cynulliad yn http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=20012

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18, Tachwedd 2016. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10815/cr-ld10815-w.pdf

ystod y flwyddyn rhwng 2014-15 a 2015-16. Mae Ffigur 1 yn dangos y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch cwynion am gyrff cyhoeddus i'w gweld yn Nhabl 2, sy'n dangos nifer y cwynion rhwng 2011-12 a 2016-17 yn ôl y math o gorff cyhoeddus. Dangosir nifer y cwynion a wnaed ynghylch cyrff cyhoeddus unigol yn 2015-16 a 2016-17, at ddibenion eglurhaol, yn Atodiad C.

Ffigur 1: Llwyth achosion yr Ombwdsmon fesul blwyddyn, 2010-11 i 2016-17 (Nifer y Cwynion ac ymholiadau)




Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru u 2016-17.[10]

[10] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2016-17. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10815/cr-ld10815-w.pdf

Tabl 2: Cwynion am gyrff cyhoeddus yn ôl y math o gorff cyhoeddus a'r flwyddyn, 2011-12 i 2016-17

**Cwynion am gyrff sector cyhoeddus**

| **Corff cyhoeddus** | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynghorau Sir/Cynghorau Bwrdeistref Sirol | 842 | 814 | 891 | 938 | 906 | 881 |
| Cyrff GIG[a] | 527 | 682 | 759 | 769 | 798 | 863 |
| Tai Cymdeithasol | 122 | 171 | 165 | 213 | 175 | 191 |
| Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi | 69 | 73 | 75 | 86 | 59 | 68 |
| Cynghorau Cymuned | 25 | 24 | 23 | 39 | 30 | 28 |
| Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | 17 | 18 | 15 | 9 | 8 | 5 |
| Darparwyr annibynnol – iechyd a gofal cymdeithasol[b] | | | | 8 | 14 | 13 |
| Awdurdodau Tân | - | 4 | 3 | 2 | 1 | 3 |
| Awdurdodau Heddlu | - | 2 | - | - | - | 3 |
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru[c] | - | - | - | 1 | 1 | 1 |
| Eraill[d] | 3 | 2 | 1 | | | |
| Cyfanswm y cwynion am gyrff sector cyhoeddus | 1,605 | 1,790 | 1,932 | 2,065 | 1,992 | 2,056 |
| Cwynion am Godau Ymddygiad | 412 | 291 | 226 | 231 | 276 | 236 |
| **Cyfanswm cwynion** | **2,017** | **2,081** | **2,158** | **2,296** | **2,268** | **2,292** |

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 2011-12 i 2016-17

Nodiadau:

a Mae cwynion i gyrff y GIG yn cynnwys y rhai a wnaed ynghylch Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Cynghorau Iechyd Cymuned, deintyddion, Meddygon Teulu, Optegwyr a Fferyllwyr.

b Ym mis Tachwedd 2014, cafodd pwerau'r Ombwdsmon eu hymestyn i gynnwys darparwyr gofal annibynnol yn y sector preifat. Felly, nid oedd llwyth achosion yr Ombwdsmon cyn 2014-15 yn cynnwys unrhyw gwynion mewn perthynas â'r sector hwn.

c Er ei fod o fewn awdurdodaeth, ni chafodd yr Ombwdsmon unrhyw gwynion am Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn 2014-15.

d Mae cwynion nad ydynt yn perthyn i'r categorïau a nodir uchod wedi'u cynnwys o dan 'Eraill'.

3.26. Nododd y Pwyllgor Cyllid hefyd ei fod yn rhagweld cynnydd o 10 i 12 y cant yn nifer y cwynion yn 2016-17 a rhwng pump a chwech y cant y flwyddyn ddilynol.[11] Mae'r ffigurau gwirioneddol, sydd i'w gweld yn Ffigur 1, yn dangos cynnydd o 13 y cant yn llwyth achosion yr Ombwdsmon yn 2016-17 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ers mis Tachwedd 2014, mae darparwyr gofal cymdeithasol annibynnol a hosbisau wedi bod o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, dywed yr Ombwdsmon mai dim ond effaith fach y mae'r newid hwn wedi ei chael ar ei lwyth achosion hyd yma; mae'r Ombwdsmon

[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2016, paragraff 21. Mae trawsgrifiad ar gael yn:
http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s54790/5%20October%202016.pdf

wedi cael cyfanswm o 29 o achosion rhwng 2014-15 a 2016-17 (yn cynnwys 5, 15 a 9 o achosion yn 2014-15, 2015-16 a 2016-17 yn y drefn honno).[12]

## Y sefyllfa bresennol

3.27. Ystyriwyd bod y darpariaethau o safon uchel neu'n torri tir newydd ar y pryd, ond mae arfer gorau a safonau rhyngwladol wedi symud ymlaen ers cyflwyno Deddf 2005 yng Nghymru. Mae'r datblygiadau hynny'n cynnwys atgyfnerthu pwerau'r ombwdsmyn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

3.28. Mae'n bwysig bod pwerau'r Ombwdsmon yn adlewyrchu arfer gorau, nid yn unig yng ngweddill y DU, ond yn ehangach. Mae hefyd yn hanfodol bod yr Ombwdsmon yn parhau i chwarae rhan i sicrhau bod gennym wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion yng Nghymru. Mae angen i'r cyhoedd gael ffydd yn yr Ombwdsmon i ymchwilio pan fyddant yn credu eu bod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan awdurdod rhestredig (a restrir yn Atodlen 3 i'r Bil). Bydd ailddatgan darpariaethau Deddf 2005 ac ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn y pedwar prif faes a nodir yn y Bil yn gwella rôl yr Ombwdsmon a ffydd y cyhoedd ynddo.

## Trosolwg a bwriadau polisi'r Bil

3.29. Mae'r paragraffau a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r Bil a'i fwriadau polisi.

### Gwella cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal

3.30. Mae adran 5(1) o Ddeddf 2005 yn dweud bod yn rhaid i bob cwyn i'r Ombwdsmon gael ei gwneud neu ei hatgyfeirio yn ysgrifenedig. Serch hynny, mae yna bŵer dewisol o dan adran 2(4) sy'n caniatáu i'r Ombwdsmon dderbyn cwyn heblaw cwyn ysgrifenedig os yw hynny'n briodol, ar sail yr achos unigol. Wrth arfer y disgresiwn hwn, bydd y tîm sy'n cynghori ar gwynion yn swyddfa'r Ombwdsmon yn trawsgrifio cwyn sydd wedi'i gwneud ar lafar; ac yna'n anfon y trawsgrifiad at yr achwynydd er mwyn iddo ei lofnodi a'i ddychwelyd.

3.31. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 21 Ionawr 2015 a 25 Mawrth 2015, nododd yr Ombwdsmon:

- fod tystiolaeth bod y lefelau llythrennedd Lefel 1 saith pwynt canran yn is yng Nghymru nac ydynt ledled y DU. Nododd fod hyn yn golygu,

[12] Data a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mehefin 2017.

*mewn theori, fod yna garfan uwch o'r boblogaeth a allai deimlo'n ddigalon ac yn anghyfforddus wrth gyflwyno cwyn ysgrifenedig*[13]; a

- er bod y niferoedd yn gymharol fach, nid oedd tua 50 y cant o'r rhai yr oedd ei swyddfa wedi anfon cofnod ysgrifenedig atynt wedi dychwelyd y cofnod hwnnw. Yn fwy cyffredinol, dywedodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth bod un person nad yw'n cwyno ar gyfer pob un sy'n barod i wneud hynny.[14]

3.32. Cymerwyd y data ar lefelau llythrennedd a nodir uchod o'r Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010.[15] Mae hyn yn nodi y gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a'r asesiadau a oeddent wedi cael eu geni yng Nghymru, y tu allan i Gymru ond yn y DU ynteu y tu allan i'r DU. Yn ôl ffynhonnell arall nad yw'n gwahaniaethu yn dibynnu ar ble y ganwyd pobl sy'n byw yng Nghymru, nid oes gan 25 y cant o oedolion 16-64 oed lefel sylfaenol o lythrennedd (Lefel 1). Roedd hyn yn uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr.[16] Gellid dadlau felly nad yw chwarter yr oedolion yng Nghymru yn gallu defnyddio gwasanaethau'r Ombwdsmon ar hyn o bryd ac mae'n debygol efallai na fyddai'r bobl hynny am orfod gofyn am ddisgresiwn i wneud cwyn ar lafar. Fel y nodwyd uchod, dywedodd yr Ombwdsmon pan fydd ei staff yn cymryd cwyn ar lafar ac yn gofyn am gadarnhad o gywirdeb y datganiad ysgrifenedig, nad ydynt bob amser yn cael ymateb.

3.33. Byddai darpariaethau'r Bil yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu Cymru deg a chyfiawn. Ni fyddai'n ofynnol i'r Ombwdsmon ddefnyddio ei ddisgresiwn mwyach a byddai'n gallu nodi mewn canllawiau sut i wneud cwynion, gan gynnwys ar lafar. Byddai hyn yn hwyluso neu'n gwella'r broses o wneud cwynion gan y rhai mwyaf bregus a difreintiedig yn y gymdeithas, fel pobl ag anawsterau dysgu a phobl ddigartref. Byddai'n cael gwared ar stigma ac yn gwella cyfiawnder cymdeithasol; gan sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau llythrennedd a rhifedd a galluoedd amrywiol o ran rheoli gohebiaeth a thasgau gweinyddol.

3.34. Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i ddileu

---

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2015, paragraff 41. Mae trawsgrifiad ar gael yn:
http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s35941/21%20January%202015.pdf

[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Mawrth 2015, paragraff 195. Mae trawsgrifiad ar gael yn:
http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s38637/25%20March%202015.pdf

[15] Llywodraeth Cymru, Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010, paragraff 3.2.6. Ar gael yn http://llyw.cymru/docs/caecd/research/111208NatSurvAdultSkillsWales2010cy.pdf [cyrchwyd Mehefin 2017].

[16] Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2004 ac Arolwg Skills for Life 2002/03. Ar gael yn: http://www.poverty.org.uk/w59/index.shtml [cyrchwyd Mehefin 2017].

gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a lleihau anfantais wrth gyflawni eu swyddogaethau. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid, nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y gallai mynnu bod cwyn yn cael ei gwneud mewn ysgrifen cyn i unrhyw gamau gael eu cymryd fod yn rhwystr i rai pobl hŷn a phobl eraill â nodweddion gwarchodedig:

> Byddwn yn gobeithio yn unol ag egwyddorion a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, y gellid gwneud addasiadau rhesymol er mwyn caniatáu pobl i gyflwyno cwynion drwy e-bost, yn bersonol neu dros y ffôn, a ellid yn ddiweddarach gael eu cadarnhau yn ysgrifenedig neu drwy gyfrwng arall, e.e. gyda chefnogaeth gan eiriolwr neu, lle bo'n berthnasol, drwy gyfieithydd ar y pryd.[17]

3.35. Drwy gael gwared ar y gofyniad i wneud cwyn yn ysgrifenedig, mae'r Bil hefyd yn sicrhau mynediad i wasanaethau'r Ombwdsmon yn y dyfodol ac yn caniatáu i'w swyddfa ddatblygu canllawiau i ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol, fel newidiadau i ddulliau cyfathrebu electronig a datblygiadau ym maes technoleg.

**Amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed**

3.36. Mae amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod disgwyl i gyfanswm poblogaeth Cymru gynyddu tua 188,000 (neu 6 y cant) rhwng canol 2014 a chanol 2039.[18] Fodd bynnag, disgwylir i gyfansoddiad y boblogaeth newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw:

- yn nhermau absoliwt, gyda'r disgwyliad y bydd nifer y bobl dros 65 oed yn cynyddu 22 y cant o ganol 2014 i ganol 2039 (gan gynyddu o 669,000 i 814,000 o ganol 2014 i ganol 2039); ac
- erbyn canol 2039, bydd nifer y bobl oedran pensiwn yn adlewyrchu cyfran gynyddol o boblogaeth Cymru. Er y disgwylir i gyfran y boblogaeth sy'n blant aros yn weddol gyson dros yr un cyfnod, bydd cyfran y bobl oedran gweithio yn gostwng o 60.4 y cant i 57.9 y cant. Bydd cyfran y bobl oedran pensiwn yn cynyddu i bron un o bob pedwar (neu 25 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru).

3.37. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl hŷn yn arwyddocaol gan fod oes hirach yn golygu y bydd llawer mwy o bobl ag anghenion gofal a chymorth, yn deillio o gyfuniad o gyflyrau iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gan

[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 04, Chwefror 2015. Ar gael yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s37908/PSOW%2004%20-%20Older%20Peoples%20Commissioner%20for%20Wales.pdf
[18] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tabl A1-5, Prif Amcanestyniad – Crynodeb Cymru (Rhyddhawyd Hydref 2015), Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea15principalprojectionwalessummary [cyrchwyd Mehefin 2017].

gynnwys dementia a gwendid oherwydd eu henaint.[19] Efallai bod ystyriaethau eraill ar waith hefyd, er enghraifft ofn ynglŷn â'r ôl-effeithiau ar ôl gwneud cwyn, gan gynnwys poeni y bydd y gŵyn yn arwain at chwalu'r berthynas a darparwyr gofal neu golli gofal preswyl, yn enwedig os bydd llai o leoedd ar gael. Oherwydd yr amodau a'r ystyriaethau hyn, nid yw rhai pobl yn gallu neu'n dymuno gwneud cwyn ar eu pen eu hunain.

3.38. Mae pwerau'r Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion am awdurdodau rhestredig wedi'u cynnwys yn Rhan 2 o Ddeddf 2005. Dim ond os oes cwyn wedi'i gwneud iddo neu wedi'i hatgyfeirio ato y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio ar hyn o bryd. Mae darpariaethau'r Bil yn caniatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i fater pa un a fydd cwyn wedi ei wneud ai peidio. Bydd y disgresiwn i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun yn sicrhau bod awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn unol â'r arfer gorau. Y tu allan i'r DU, dim ond pum aelod o Gyngor Ewrop (Gwlad Belg, Lwcsembwrg, Azerbaijan, Kyrgyzstan a Liechtenstein) sydd ag ombwdsmyn nad oes ganddynt bwerau i gynnal ymchwiliadau ar eu liwt eu hunain.[20]

3.39. Bydd y pŵer hwn i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun yn ffordd o amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed a rhoi sylw i urddas unigolion, gan gynnwys pobl sydd ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl a'r henoed. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy arfer y pwerau mewn sefyllfaoedd fel y rhai a ganlyn:

- pan fo gwybodaeth wedi dod i'r amlwg yn ystod ymchwiliad sy'n awgrymu y dylid hefyd adolygu camau gweithredu corff gwasanaeth cyhoeddus arall sydd o fewn awdurdodaeth.
  Er enghraifft, efallai y bydd ymchwiliad i fwrdd iechyd yn arwain at gwestiynau ynghylch gweithredoedd Meddyg Teulu. O dan Ddeddf 2005, byddai'n rhaid i'r achwynydd wneud cwyn ar wahân i'r Ombwdsmon.[21]
- pan fo'r gŵyn yn deillio o fethiannau gan un corff gwasanaeth cyhoeddus sy'n codi pryderon y gallai'r un methiannau systemig fodoli mewn cyrff eraill yn yr un sector(au) (neu rai eraill) yn y gwasanaeth

---

[19] The King's Fund, Social Care for Older People, Medi 2016,tudalen 6. Ar gael yn: https://www.kingsfund.org.uk/publications/social-care-older-people [cyrchwyd Mehefin 2017].

[20] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2016, paragraff 4.3. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64290/Llythyr%20gan%20yr%20Ombwdsmon%20Gwasanaethau%20Cyhoeddus%20at%20y%20Cadeirydd%20-%20Asesiad%20Effaith%20Rheoleiddiol%20-%2014%20R.pdf

[21] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth Atodol,Atodiad A, tudalen 14. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

cyhoeddus. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi ei argymhellion o dan adran 16 o Ddeddf 2005 ac mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau nad yw'r un methiannau systemig i'w gweld mewn mannau eraill. Byddai'r ddarpariaeth yn y Bil yn galluogi'r Ombwdsmon i fod yn rhagweithiol yn hyn o beth.

Er enghraifft, efallai y bydd ymchwiliad i gŵyn am fwrdd iechyd yn arwain at bryderon bod y dull a fabwysiadwyd gan y bwrdd yn rhy gyfyngedig; arfer y gallai byrddau iechyd eraill yng Nghymru ei fabwysiadu hefyd. Byddai cael y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn galluogi'r Ombwdsmon i fod yn rhagweithiol ac ymchwilio ai dyma'r achos ai peidio.[22]

- pan fo'r Ombwdsmon wedi cael cwyn ddienw, yn rhoi tystiolaeth o gamweinyddu/methiant gwasanaeth tebygol gan gorff gwasanaeth cyhoeddus.
- pan fo'r Ombwdsmon yn cael gwybod am bryderon am gyflwyno gwasanaethau ar gyfer sector cyfan, neu ran o sector, yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, heb gael cwynion uniongyrchol. Gallai hyn fod oherwydd bregusrwydd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

3.40. Ni fyddai'r Ombwdsmon yn defnyddio ei bwerau i ymchwilio ar ei liwt ei hun oni bai fod sail a rhesymeg gadarn dros gynnal ymchwiliad. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer unrhyw ymchwiliadau eang y mae'r Ombwdsmon yn dymuno eu cynnal ar ei liwt ei hun. Bydd risg i'w enw da yn ffactor sylfaenol i unrhyw ombwdsmon; ni fyddai unrhyw ombwdsmon am beryglu ei enw da drwy fynd ar hynt ymchwiliad proffil uchel heb gael tystiolaeth gadarn yn gyntaf bod yna faterion o bryder y mae angen ymchwilio iddynt.

3.41. Mae Adran 5 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr Ombwdsmon i gyhoeddi meini prawf i'w defnyddio wrth benderfynu a ddylid dechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun o dan adran 4. Mae Adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori â Gweinidogion Cymru, awdurdodau rhestredig, a phersonau eraill y mae'r Ombwdsmon yn eu hystyried yn briodol, ar y meini prawf drafft cyn eu gosod gerbron y Cynulliad. Mae'r Bil hefyd yn pennu'r gofynion ar gyfer cymeradwyo'r set o feini prawf.

3.42. Mae adran 4 o'r Bil yn cynnwys mesurau i ddiogelu yn erbyn defnyddio'r pŵer yn adran 4 i ddechrau ymchwiliad. Mae'n dweud bod yn rhaid i'r Ombwdsmon, cyn iddo gychwyn ymchwiliad o dan adran 4, fod yn fodlon bod defnyddio'r pŵer yn adran 4 er budd y cyhoedd, rhaid iddo

---

[22] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth Atodol, Atodiad A, tudalen 15. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

ymgynghori â'r personau priodol a rhaid iddo roi sylw i'r meini prawf a gyhoeddwyd o dan adran 5. Hefyd, rhaid i'r Ombwdsmon amau'n rhesymol:

- y bu camweinyddu systemig; neu
- mewn achos pan fo’r mater yn ymwneud â darparu iechyd neu ofal cymdeithasol, fod anghyfiawnder systemig wedi ei ddioddef o ganlyniad i arfer barn broffesiynol.

3.43. At hynny, mae adran 18 yn nodi gofynion gweithdrefnol penodol sy’n gymwys i ymchwiliadau’r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun. Er enghraifft, mae gofyniad i roi gwybod i’r awdurdod rhestredig perthnasol ac unrhyw berson arall (heblaw'r awdurdod rhestredig perthnasol) a adwaenir yn yr ymchwiliad mewn ffordd negyddol, am yr ymchwiliad a rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau ar yr ymchwiliad.

3.44. Yn unol â Deddf 2005, mae'r Bil yn rhoi gofyniad ar yr Ombwdsmon i ymgynghori a chydweithio ag ombwdsmyn eraill. Os gallai mater hefyd fod yn destun ymchwiliad gan eraill, fel comisiynwyr a - lle bo'r mater yn ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol - Weinidogion Cymru, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon hysbysu ac ymgynghori â’r personau hynny, ac, mewn rhai achosion, iddo gydweithio/cydlafurio â'r personau hynny (gweler Rhan 6 o'r Bil).

**Bod yn fwy ymatebol i ddinasyddion**

3.45. Mae'r pŵer i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun nid yn unig yn ffordd o amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed, ond mae'n cynnig manteision ehangach hefyd. Mae'n effeithio ar amseriad a chwmpas gwaith yr Ombwdsmon er budd dinasyddion Cymru. Mae'n galluogi'r Ombwdsmon i edrych ar fethiannau systemig cyn i unigolion gyflwyno cwynion. Drwy gael gwared ar yr heriau o ran cadw'r gwaith o fewn union baramedrau cwyn, mae'n caniatáu i'r Ombwdsmon fod yn fwy ymatebol i ddinasyddion, gan ei fod yn caniatáu iddo ymchwilio i'r gwasanaeth (neu’r gwasanaethau) yn ehangach. Mae ymestyn y pwerau hyn hefyd yn galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i faterion a gyfeirir ato yn ddienw gan unigolion sydd wedi bod yn dyst i fethiant difrifol mewn gwasanaeth. Mae'r manteision hyn rhoi llais cryfach i ddinasyddion ac yn sicrhau bod gwaith yr Ombwdsmon yn canolbwyntio arnynt.

3.46. Mae pwerau'r Ombwdsmon yn cael eu hymestyn hefyd i sicrhau na fydd ymchwiliadau'n cael eu cyfyngu i sector neu faes penodol a'u bod yn rhydd i ddilyn trywydd y dinesydd. O dan Ddeddf 2005, mae gan yr Ombwdsmon awdurdodaeth i ymchwilio pan fo’r GIG yn comisiynu triniaeth feddygol breifat i gleifion ond nid oes gan yr Ombwdsmon

awdurdodaeth pan fo triniaeth o’r fath yn cael ei chomisiynu gan gleifion eu hunain. Pan fydd cleifion yn comisiynu triniaeth feddygol breifat, mae'n rhaid i unigolion wneud cwynion ar wahân ar hyn o bryd i’r Ombwdsmon a’r darparwr iechyd preifat yn eu tro ar gyfer elfennau cyhoeddus ac elfennau preifat y driniaeth neu'r gofal dan sylw.

3.47. Nid yw hyn yn foddhaol ar gyfer dinasyddion yng Nghymru, yn enwedig o ystyried bod gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio fwyfwy er mwyn trin poblogaeth sy'n heneiddio.

3.48. Mae'r Bil yn rhoi pŵer atodol i'r Ombwdsmon i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd am gŵyn mewn llwybr cyhoeddus / preifat. Mae Adran 16(4) yn diffinio gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd fel unrhyw wasanaeth meddygol, deintyddol, offthalmig, nyrsio, bydwreigiaeth neu fferyllol. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw wasanaeth arall a ddarperir mewn cysylltiad ag iechyd corfforol neu feddyliol person (ond nid yw'n cynnwys gweithdrefnau arbennig sy'n cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017). Bydd hyn yn galluogi'r Ombwdsmon i edrych ar gŵyn yn ei chyfanrwydd o dan amgylchiadau o'r fath, gan olygu bod y broses gwyno yn dilyn y dinesydd ac nid y sector.

**Hybu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac wrth ymdrin â chwynion**

3.49. Mae polisi cwynion enghreifftiol ar waith yng Nghymru i helpu i sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus. Er ei fod yn cael ei annog yn gryf, mae mabwysiadu'r polisi cwynion enghreifftiol yn wirfoddol. Mae'r Ombwdsmon wedi nodi, er bod y sefyllfa yn gwella, nad yw'r polisi'n cael ei fabwysiadu'n gyson ar draws y sector.[23]

3.50. Bydd darpariaethau'r Bil yn darparu sail statudol ar gyfer unrhyw ganllawiau a roddir gan yr Ombwdsmon, a thrwy hynny'n cefnogi gwelliannau o ran ymdrin â chwynion yn y sector cyhoeddus. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi ac ymgynghori ar ddatganiad drafft o egwyddorion ynghylch gweithdrefnau'r awdurdodau rhestredig o ran ymdrin â chwynion cyn ei osod gerbron y Cynulliad. Mae hefyd yn pennu'r gofynion ar gyfer cymeradwyo'r datganiad o egwyddorion.

3.51. Mae'r Bil yn galluogi'r Ombwdsmon i gyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol o ran ymdrin â chwynion ar gyfer awdurdodau rhestredig. Yr Ombwdsmon, yn ôl ei ddisgresiwn, sydd i benderfynu pa awdurdodau

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Mai 2015, paragraff 125. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10200/cr-ld10200-w.pdf

rhestredig i gyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Fodd bynnag, mae'r Ombwdsmon yn gyfrifol am sicrhau nad yw'r gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion a gyhoeddir ar gyfer awdurdodau rhestredig yn anghyson ag unrhyw ofynion statudol ar gyfer ymdrin â chwynion (er enghraifft, y rheoliadau 'Gweithio i Wella' sy'n gymwys i'r GIG yng Nghymru). Fel yn achos cyfrifoldebau eraill, wrth gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion, mae'r Ombwdsmon yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol y gyfraith gyhoeddus (gan gynnwys dyletswydd i weithredu'n rhesymol, yn gymesur ac i roi sylw i ystyriaethau perthnasol, fel goblygiadau o ran adnoddau).

3.52. Rhoddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban dystiolaeth i Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn ystod ei ymchwiliad. Yn ei dystiolaeth, soniodd am y cynnydd a wnaed yn yr Alban ers sefydlu'r Awdurdod Safonau Cwynion:

> in the year and a half, two years, that we've been operating the Complaints Standards Authority standardised procedures, the number of premature complaints coming to my office, and that is people who are coming to me who should have gone to a local authority, or to a health board, or to a university or wherever, has fallen from 54% to 31%."[24]

3.53. Mantais fwyaf arwyddocaol y rôl ymdrin a chwynion fyddai'r ffaith y byddai data rheolaidd, dibynadwy a chymaradwy ar gael – am y tro cyntaf – am gwynion o bob rhan o'r sector cyhoeddus. Bydd hyn yn ysgogi atebolrwydd a gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus, tryloywder wrth gyflwyno adroddiadau ac yn grymuso'r broses graffu y mae data a gwybodaeth yn hanfodol iddi. Byddant hefyd yn fanteisiol i enw da sefydliadau.

3.54. Rhoddodd yr Ombwdsmon wybod fod trafodaethau â byrddau iechyd lleol yng Nghymru yn awgrymu bod cefnogaeth i rôl safonau cwynion os yw'n arwain at fwy o gysondeb. Roedd barn gyffredinol hefyd y byddai darpariaethau'r Bil yn helpu pobl i ddysgu a gwella wrth ymdrin â chwynion ledled Cymru.

3.55. Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd yr Ombwdsmon ei adroddiad thematig 'Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Beunyddiol: Dysgu Gwersi o Ddelio'n Wael â Chwynion'.[25] Dywedodd yr Ombwdsmon fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dweud, ar adeg yr adroddiad hwn, y

---

[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Mai 2015, paragraff 130. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10200/cr-ld10200-w.pdf

[25] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Beunyddiol: Dysgu Gwersi o Ddelio'n Wael â Chwynion, Mawrth 2017. Ar gael yn: https://www.ombwdsmon.cymru/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2018/04/Rhoi-Diwedd-ar-yr-Un-Hen-G%C3%A2n-Beunyddiol-Dysgu-Gwersi-o-Ddelion-Wael-%C3%A2-Chwynion.pdf [cyrchwyd Mehefin 2017].

byddai'r Bil yn arwain at fwy o gysondeb a gwelliannau o ran ymdrin â chwynion.

### Cyfrannu at gyflawni nodau llesiant

3.56. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol i weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.[26]

3.57. Er nad yw'r Ombwdsmon yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae darpariaethau'r Bil yn cyfrannu at rai o'r amcanion a nodir yn y Ddeddf (y 'nodau llesiant'):

- Cymru iachach – bydd y ffocws ar ddysgu'n ehangach o gwynion yn berthnasol i bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac ymdrin â chwynion. Gan fod dros draean o'r cwynion am gyrff cyhoeddus i'r Ombwdsmon yn 2016-17 yn ymwneud â gwasanaethau iechyd,[27] bydd y gwaith o ran safonau cwynion ac ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella gwasanaethau iechyd yng Nghymru.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – bydd derbyn cwynion llafar yn golygu y bydd y rhai na allant gwyno'n ysgrifenedig yn cael mynediad priodol i'r Ombwdsmon ac mae hynny'n cefnogi mynediad priodol i bob math o wasanaeth cyhoeddus. Byddai defnyddio pwerau i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i wahaniaethau o ran safon gwasanaethau ledled Cymru a helpu i roi sylw i hyn. Bydd data sy'n cymharu perfformiad wrth ymdrin â chwynion yn cefnogi hyn.
- Cymru o gymunedau cydlynus – bydd safon gyson o ran gwasanaethau ac ymdrin â chwynion ledled Cymru yn cyfrannu at y nod hwn.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – byddai cwynion llafar yn cael eu clywed yn Gymraeg, gan gefnogi'r rhai sy'n hyderus ac yn hapus i siarad Cymraeg ond nid i ysgrifennu'n Gymraeg; ac mae'r Bil yn ychwanegu'r Ombwdsmon at y rhestr o gyrff yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

---

[26] Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yr Hanfodion, tudalen 5. Ar gael yn: http://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf [cyrchwyd Mehefin 2017].
[27] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2016-17, tudalen 21. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10815/cr-ld10815-w.pdf

3.58. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i *gyrff cyhoeddus ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.*[28] Mae'r Bil yn gyson â'r disgwyliadau y dylai cyrff cyhoeddus:

- gydweithio yn well – bydd gwaith yr Ombwdsmon ar ei liwt ei hun a gwaith o ran safonau cwynion yn hyrwyddo dysgu ar y cyd a chydweithio er mwyn cyflawni safonau a dulliau gweithredu cyffredin. Yn benodol, bydd y rôl safonau cwynion yn cynnwys dod â staff o bob rhan o Gymru at ei gilydd i rannu a dysgu.
- cynnwys pobl, gan adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau – mae'r pŵer i glywed cwynion llafar yn cefnogi'r rhai na allant wneud cwyn ysgrifenedig a hefyd y rhai sy'n dymuno gwneud cwyn yn y Gymraeg ond na allant wneud hynny'n ysgrifenedig.
- edrych i'r tymor hir, yn ogystal â chanolbwyntio ar y presennol – bydd y darpariaethau yn y Bil yn gweithio tuag at symud y ffocws i wella ac atal yn hytrach nag ymchwiliadau unigol a chanfyddiadau ar ôl y digwyddiad.
- cymryd camau atal problemau rhag gwaethygu – bydd darpariaethau'r Bil yn gwella atal. Bydd data ar ymdrin â chwynion a phwerau i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun yn cefnogi hyn drwy nodi materion cwynion yn gynnar a chefnogi ymchwiliadau rhagweithiol mewn meysydd sy'n peri pryder heb orfod aros am gŵyn benodol. Gellir annog pobl i weithredu ledled Cymru ac fe wneir hynny.

## Egwyddorion Nolan

3.59. Mae'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus[29] (a elwir yn 'Egwyddorion Nolan') yn gymwys i bob un sy'n dal swydd gyhoeddus, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi'u penodi neu eu hethol i swydd gyhoeddus. Mae hefyd yn cynnwys yr holl bobl sy'n gweithio yn:

- y gwasanaeth sifil;
- llywodraeth leol;
- yr heddlu;

---

[28] Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael yn: http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy [cyrchwyd Mehefin 2017].
[29] Mae canllawiau ynghylch y saith egwyddor bywyd cyhoeddus ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life.

- y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf;
- cyrff cyhoeddus anadrannol; a'r
- gwasanaethau iechyd, addysg, cymdeithasol a gofal.

Mae hefyd yn gymwys i bawb sy'n gweithio mewn sectorau eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

3.60. Wrth ddal swydd gyhoeddus neu weithio yn y sector cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon ac awdurdodau rhestredig roi sylw i'r egwyddorion a ganlyn wrth gyflawni eu gwaith:

- anhunanoldeb;
- uniondeb;
- gwrthrychedd;
- atebolrwydd;
- bod yn agored;
- gonestrwydd; ac
- arweinyddiaeth.

# 4. Ymgynghori

## Diben y bennod hon

4.1. Mae'r bennod hon yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd â rhanddeiliaid ar gynigion i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon a'r Bil drafft.

## Yr ymgynghoriad ar gynigion i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon

4.2. Rhwng 26 Ionawr 2015 a 20 Mawrth 2015, cynhaliodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ei ymchwiliad i'r cynigion i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon. Daeth 43 o ymatebion ysgrifenedig i law.

4.3. Ysgrifennodd y Pwyllgor at Weinidogion Cymru hefyd i ofyn eu barn am sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar sectorau penodol yng nghylch gorchwyl Llywodraeth Cymru. At hynny, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda thystion o 13 o sefydliadau a chydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 21 Ionawr 2015 a 25 Mawrth 2015.

4.4. Ym mis Mai 2015, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i hysbysu ei waith, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad cychwynnol.[30] Roedd yr adroddiad yn nodi bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi argyhoeddi'r Aelodau y dylai pwerau'r Ombwdsmon gael eu diwygio.

4.5. Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylid cyflwyno Bil i'r Cynulliad. Byddai'r Bil yn adlewyrchu'r rhan fwyaf o'r materion a ystyriwyd yn ystod yr Ymchwiliad, ond nid pob un ohonynt. Yn fwyaf nodedig, ni fyddai'r Bil yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â'r cysylltiadau â'r llysoedd y gwnaeth Comisiwn y Gyfraith argymhellion mewn perthynas â hwy, sy'n berthnasol i rôl yr Ombwdsmon, yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2011, *The Public Services Ombudsmen.*[31] Roedd argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys gwella mynediad at yr Ombwdsmon drwy addasu'r 'bar statudol', gan greu pŵer newydd i ohirio cais am adolygiad barnwrol a chaniatáu i'r Ombwdsmon gyfeirio pwynt cyfreithiol i'r llysoedd. O ran hynny, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y materion hyn gyda Llywodraeth y DU fel rhan o'r trafodaethau ar ddatganoli yn y dyfodol.

---

[30] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Mai 2015. Ar gael yn:
http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10200/cr-ld10200-w.pdf

[31] Comisiwn y Gyfraith, Adroddiad 'The Public Services Ombudsmen', Gorffennaf 2011. Ar gael yn:
http://www.lawcom.gov.uk/project/public-services-ombudsmen/#public-services-ombudsmen [cyrchwyd Mehefin 2017].

4.6. Er mwyn sicrhau ei fod yn ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a chyrff cyhoeddus y mae'r ddeddfwriaeth a'r bwriadau polisi yn effeithio arnynt, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylid cynnal ymarfer ymgynghori ar ddrafft cynnar o Fil.

## Ystyried yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

4.7. Ym mis Hydref 2015, galwodd y Pwyllgor am dystiolaeth ar ddrafft cynnar o'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ('y Bil drafft').[32] Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar strwythur a chynnwys y Bil drafft. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2016. Cafwyd 34 o ymatebion gan ystod o ymatebwyr, gan gynnwys sefydliadau mewn gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol a GIG Cymru), y sector addysg uwch, cyrff cynrychiadol, cynghorau tref a chymuned a'r cyhoedd. Roeddent hefyd yn cynnwys ymatebion gan nifer o'r cyrff cyhoeddus y mae'r cynigion yn effeithio arnynt (fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru), yn ogystal ag Ombwdsmyn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

4.8. Ym mis Mawrth 2016, nododd y Pwyllgor Cyllid ei gasgliadau a'i argymhellion.[33] Dywedodd fod y rhai a ymatebodd yn cefnogi darpariaethau'r Bil drafft yn gyffredinol.

4.9. Roedd rhai o'r ymatebion yn nodi awgrymiadau i wella'r ddeddfwriaeth. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid y rhain, ac o ganlyniad, cytunodd i wneud y newidiadau a ganlyn i'r Bil drafft:

- Mewn perthynas â phob ymchwiliad:
  - rhoi pŵer i'r Ombwdsmon weithio gyda rheoleiddwyr (fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) a holl gomisiynwyr ac ymgynghorwyr statudol y dyfodol a gaiff eu creu gan Ddeddfau'r Cynulliad, er mwyn sicrhau gwaith effeithiol a chydlynol ar faterion; a

---

[32] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd ar 21 Hydref 2015. Ar gael yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s45205/Consultation%20letter.pdf
Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=204

[33] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Mawrth 2016. Ar gael yn:
http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10644/cr-ld10644-w.pdf

  - rhoi hawl i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun pa un a yw'n ymwneud â chamau a gymerwyd cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol neu ar ôl hynny.
- Mewn perthynas ag ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat:
  - dylid ehangu'r diffiniad o 'wasanaethau iechyd preifat' i gynnwys triniaeth feddygol a gofal nyrsio; a
  - dylid cynnwys adran newydd, *Pŵer i fynnu costau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat,* er mwyn caniatáu i'r Ombwdsmon roi hysbysiad adennill costau i ddarparwr gofal iechyd preifat fel ffordd o adennill y costau ychwanegol yr aeth yr Ombwdsmon iddynt pan fydd y darparwr wedi rhwystro'r Ombwdsmon.
- Mewn perthynas â'r awdurdodau rhestredig o dan Atodlen 3 i'r Bil:
  - dylai'r rheolau ar ddiwygio'r rhestr o dan Atodlen 3 fod yr un fath â'r rhai a nodir ar hyn o bryd yn Neddf 2005 (h.y. y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir ychwanegu person at y rhestr yn Atodlen 3);
  - dylid cynnwys y cyrff a ganlyn fel awdurdodau a restrir yn Atodlen 3:
    - Byrddau Cadwraethwyr Coity Walia;
    - Awdurdodau harbwr;
    - Awdurdodau porthladd;
    - Cymwysterau Cymru;
    - Bwrdd Cadwraethwyr Towyn Trewan;
    - Swyddfa Archwilio Cymru;
    - Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru; ac
    - Awdurdod Refeniw Cymru.
- Dylai cyfnod anghymhwyso'r Ombwdsmon (neu'r Ombwdsmon dros dro) o restr o rolau amrywiol barhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol y peidiodd yr Ombwdsmon â dal y swydd.
- O ran y Gymraeg ac adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ar y newidiadau a ganlyn i destun y Bil drafft:
  - adran newydd i roi dyletswydd ar yr Ombwdsmon i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg; ac
  - adran newydd sy'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth ar ôl pum mlynedd o'r dyddiad y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol, ac adolygiadau pellach ar ôl hynny, fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

4.10. Er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gryf o blaid dod â gofal cymdeithasol a lliniarol o fewn y broses ymchwilio brif ffrwd, ar ôl

myfyrio a thrafod ymhellach, penderfynodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad gadw gofal cymdeithasol a lliniarol fel cyfundrefn ar ei phen ei hun. Y rheswm am hyn oedd natur benodol gofal cymdeithasol a lliniarol, a'r ffaith y byddai uno'r ddwy gyfundrefn yn creu un gyfundrefn gymhleth a dyrys iawn. Felly, roedd yn well gan Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad y dull a fabwysiadwyd yn y Bil drafft a oedd yn darparu ar gyfer dwy gyfundrefn ymchwilio clir ar wahân.

4.11. Gan nad oedd digon o amser yn y Pedwerydd Cynulliad i gyflwyno Bil, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylid bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth cyn gynted ag y bo modd yn y Pumed Cynulliad. Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid hefyd y dylai'r Ombwdsmon gyfrannu at Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gostio'n llawn i gyd-fynd â Bil drafft, y gellid ei olrhain mewn cyllidebau a gyflwynir gan yr Ombwdsmon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol.

4.12. Mae newidiadau wedi'u gwneud i'r Bil drafft i adlewyrchu ystyriaethau'r Pwyllgor Cyllid yn ystod y Pumed Cynulliad. Mae'r prif newidiadau i'w gweld yn Nhabl 1. Nid yw'r tabl yn cynnwys mân newidiadau drafftio.

4.13. Gwnaethpwyd gwelliannau i'r Bil hefyd yn ystod trafodion Cyfnod 2. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.23, nodir y rhain yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli.[34]

---

[34] Mae'r Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli ar gael ar dudalen y Bil ar wefan y Cynulliad yn http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=20012

# 5. Y Bil

## Diben y bennod hon

5.1. Diben y bennod hon yw rhoi trosolwg o'r Bil.

5.2. Mae'r Bil wedi'i rannu yn saith rhan sy'n cynnwys 80 o adrannau a phum Atodlen. Mae'r Bil yn ailddatgan Deddf 2005 ac yn nodi pwerau newydd mewn pedwar prif faes, gan alluogi'r Ombwdsmon i wneud y canlynol:

- derbyn cwynion llafar;
- ymchwilio ar ei liwt ei hun;
- ymchwilio i wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd a ddarperir gan gyrff preifat mewn llwybr iechyd cyhoeddus / preifat pan fo'r Ombwdsmon hefyd yn ymchwilio i awdurdod rhestredig; a
- ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau o ran ymdrin â chwynion.

## Derbyn cwynion llafar

5.3. Mae adran 8 o'r Bil yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gŵyn gael ei 'gwneud yn briodol'. Mae adran 8(1)(a) yn nodi bod yn rhaid i'r gŵyn fod ar ffurf a bennir gan yr Ombwdsmon mewn canllawiau. Mae adran 8(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r canllawiau hyn.

5.4. Mae adran 8(4) o'r Bil yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ei wneud os gwneir cwyn ar lafar sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd. Rhaid i'r Ombwdsmon:

*a) esbonio i'r person a wnaeth y gŵyn fod cwyn wedi'i gwneud yn briodol yn unol â'r Ddeddf hon, a'r goblygiadau o wneud cwyn o'r fath; a*

*b) gofyn i'r person a yw'r person yn awyddus i'r gŵyn barhau i gael ei thrin yn gŵyn a wnaed yn briodol.*

5.5. Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gadw cofrestr o'r holl gwynion, gan gynnwys y rhai a wnaed ar lafar.

## Ymchwilio ar ei liwt ei hun

**Adran 4 – Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun**

5.6. Mae adran 4 o'r Bil yn nodi pŵer yr Ombwdsmon i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi'r Ombwdsmon i gychwyn

ymchwiliadau i fater pa un a oes cwyn wedi'i gwneud ai peidio. Felly, mae'n caniatáu i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r pŵer i ymchwilio o dan adran 3, dim ond i ymchwilio i faterion o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon y gellir defnyddio'r pŵer newydd yn adran 4 o'r Bil drafft. Mae adrannau 11 i 16 yn nodi'r materion y caniateir ymchwilio iddynt.

**Adran 5 – Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun**

5.7. Mae adran 5 o'r Bil yn ymwneud â'r meini prawf y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw iddynt cyn y gellir defnyddio'r pŵer yn adran 4 er mwyn ymchwilio i fater. Wrth benderfynu a ddylid defnyddio'r pŵer yn adran 4, mae'n rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i fudd y cyhoedd wrth gychwyn ymchwiliad. Rhaid i'r Ombwdsmon hefyd fod ag amheuaeth resymol bod camweinyddu systemig wedi digwydd neu, mewn cysylltiad â darparu gofal iechyd a chymdeithasol, fod yr anghyfiawnder systemig hwnnw wedi'i digwydd o ganlyniad i arfer barn broffesiynol. Os gallai mater hefyd fod yn destun ymchwiliad gan eraill, fel comisiynwyr a Gweinidogion Cymru (lle bo'r mater yn ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol), mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon hysbysu ac ymgynghori â'r personau hynny, ac, mewn rhai achosion, iddo gydweithio/cydlafurio â'r personau hynny. Rhaid i'r Ombwdsmon hefyd fodloni'r meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, y mae'n rhaid iddo'u cyhoeddi. Mae'r Bil yn nodi'r gofynion ar gyfer ymgynghori a chymeradwyo'r meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.

**Ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun: gweithdrefn**

5.8. Mae adran 18(2) o'r Bil yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan fydd yr Ombwdsmon yn defnyddio'r pŵer yn adran 4 i gychwyn ymchwiliad. Mae'r weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon roi cyfle i awdurdodau rhestredig a phersonau eraill roi sylwadau ar yr ymchwiliad. Hefyd, rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio, h.y. cynnig sy'n cynnwys y rhesymau am yr ymchwiliad a'r modd y bodlonir y meini prawf a gyhoeddir o dan adran 5.

5.9. Rhoddir disgresiwn i'r Ombwdsmon fel nad oes yn rhaid iddo baratoi cynnig ymchwiliad o dan yr amgylchiadau cyfyngedig a nodir yn adrannau 18(3) ac 18(4).

5.10. Mae adrannau 18(5) i 18(13) yn pennu gofynion eraill ar yr Ombwdsmon mewn perthynas ag ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Mae'r rhain yn

cynnwys y gofyniad bod yr Ombwdsmon yn cyhoeddi'r weithdrefn y bydd yn ei dilyn wrth gynnal ymchwiliad o dan adran 3 neu 4.

**Adrannau 64 i 67 – Cydlafurio ag ombwdsmyn eraill, comisiynwyr, a Gweinidogion Cymru**

5.11. Mae adran 64 o'r Bil yn nodi'r gofynion ar gyfer ymgynghori a chydweithredu ag ombwdsmyn eraill os bydd testun cwyn neu ymchwiliad a wnaed i'r Ombwdsmon yn destun ymchwiliad gan unrhyw un o'r ombwdsmyn a grybwyllir yn adran 64(7).

5.12. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon hysbysu ac ymgynghori â phersonau a nodir yn adran 65(2) os bydd mater y mae ganddo hawl i ymchwilio iddo hefyd yn destun archwiliad gan unrhyw un o'r personau hynny. Mae adran 65 yn caniatáu i'r Ombwdsmon a phersonau a bennir gydweithio ar rai materion. Mae hyn yn cynnwys comisiynwyr Cymreig penodol ac, os yw'r mater yn ymwneud â gofal iechyd neu gymdeithasol, Weinidogion Cymru.

5.13. Mae adran 66 yn nodi beth y mae angen i'r Ombwdsmon ei wneud os bydd yn gweld y gallai mater fod yn destun archwiliad gan Gomisiynwyr Cymreig penodol ac mae'n caniatáu i'r Ombwdsmon a'r Comisiynwyr hynny gydlafurio.

5.14. Mae adran 67 yn caniatáu i'r Ombwdsmon ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gydweithio, pan fo hynny'n briodol.

## Ymdrin â chwynion ar draws y sector cyhoeddus

**Adran 35 – Ymdrin â chwynion: datganiad o egwyddorion**

5.15. Mae adran 35 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion sy'n ymwneud â gweithdrefnau'r awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3 ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori ar y datganiad cyntaf o'r fath ac unrhyw newidiadau perthnasol ac mae adran 35 yn nodi'r gofynion ar gyfer cymeradwyo'r datganiad o egwyddorion.

5.16. Yn ôl adran 35(13) ystyr 'gweithdrefnau ymdrin â chwynion' yw *gweithdrefnau awdurdodau rhestredig sy'n archwilio cwynion neu'n adolygu penderfyniadau mewn perthynas â chamau gweithredu a gymerwyd gan awdurdod rhestredig pan fo'r mater o dan sylw yn un y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo o dan Ran 3 [o'r Bil].*

5.17. Mae adran 35(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau rhestredig fod â gweithdrefn (neu weithdrefnau) ymdrin â chwynion a rhaid i'r

gweithdrefnau hynny gydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion a gyhoeddwyd.

**Adrannau 36 i 40 - Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion**

5.18. Mae adran 36 yn galluogi'r Ombwdsmon i gyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol o ran ymdrin â chwynion ('gweithdrefn enghreifftiol') ar gyfer awdurdodau rhestredig. Rhaid i weithdrefnau enghreifftiol hefyd gydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon. Mae adran 36(5)(b) yn rhoi cyfrifoldeb ar yr Ombwdsmon i sicrhau na fydd unrhyw weithdrefnau enghreifftiol y mae'n eu cyhoeddi yn gwrthdaro ag unrhyw ofynion statudol ar gyfer ymdrin â chwynion sy'n gymwys i'r awdurdod rhestredig.

5.19. Mae adrannau 37 i 40 yn gwneud darpariaethau pellach o ran gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion, gan gynnwys yr amgylchiadau pan na fyddant yn gymwys i awdurdodau rhestredig.

## Ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd

**Adran 16 – Pŵer i ymchwilio i wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd**

5.20. Mae adrannau 16(1) a (2) o'r Bil yn rhoi pŵer ategol i ganiatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i rai materion sy'n ymwneud â gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd, a ddiffinnir yn adran 16(4). Mae adran 16(2) o'r Bil yn diffinio'r amgylchiadau lle caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'n galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd pan fydd o'r farn na allai, heb wneud hynny, ymchwilio'n effeithiol nac yn gyflawn i'r camau gweithredu perthnasol gan yr awdurdod rhestredig.

# 6. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

6.1 Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau. Mae Tabl 3 yn nodi:

- disgrifiad o'r pwerau yn y Bil;
- pam ei bod yn briodol i'r pŵer gael ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru;
- gweithdrefn y Cynulliad sy'n berthnasol i'r pŵer dirprwyedig; a
- pham ei bod yn briodol i'r pŵer dirprwyedig ddilyn gweithdrefn y Cynulliad.

**Tabl 3: Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth**

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| **Adran 5(12)**: mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun. | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau priodol i'r meini prawf, fel bod ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun bob amser yn cynnig ateb effeithiol i'r anghyfiawnder a'r caledi a ddioddefir gan bobl.<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon, awdurdodau rhestredig ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn eu barn hwy cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon. | Cadarnhaol | Pŵer yw hwn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac i ddylanwadu ar y cwmpas o ran pryd y gellir cynnal ymchwiliadau.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. |
| **Adran 14(2)**: mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau priodol i'r | Cadarnhaol | Pŵer yw hwn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac i newid y cwmpas o ran y materion y caiff yr |

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| rheoliadau i newid y rhestr o faterion na chaiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt o dan Ran 3 o'r Bil. | rhestr o faterion na chaiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt.<br><br>Mae'r pŵer hwn wedi bod ar gael o'r dechrau yn Neddf 2005 ac fe'i defnyddiwyd unwaith yn unig mewn ffordd gul.<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon. | | Ombwdsmon ymchwilio iddynt.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae'n fesur diogelu ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a geir yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon. |
| **Adran 30(2)**: mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y rhestr o awdurdodau rhestredig. | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau priodol i'r rhestr o awdurdodau rhestredig.<br><br>Os bydd y Cynulliad yn creu corff newydd a ddylai fod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon, mae hyn yn golygu y gellid ei gynnwys yn gyflym fel awdurdod rhestredig. Hefyd, os bydd awdurdod rhestredig yn dod i ben, gellid dileu'r cofnod hwnnw'n gyflym o'r rhestr.<br><br>Os bydd rheoliadau'n ychwanegu person fel awdurdod rhestredig, mae adran 30(3) o'r Bil yn caniatáu i'r rheoliadau hynny | Cadarnhaol | Pŵer yw hwn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac i newid y rhestr o awdurdodau y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae'n fesur diogelu ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a geir yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon (ynghyd â'r cyfyngiadau eraill ar y pŵer hwn yn adran 31). |

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| | addasu'r ffordd y cymhwysir y Ddeddf i'r person hwnnw a ychwanegwyd. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru deilwra rhannau penodol o'r Ddeddf ar gyfer y person sydd newydd gael ei ychwanegu.<br><br>Mae'r pŵer hwn wedi bod ar gael o'r dechrau yn Neddf 2005 ac fe'i defnyddiwyd unwaith yn unig mewn ffordd gul (ond nid yw'r pŵer wedi cael ei ddefnyddio erioed i deilwra Deddf 2005 ar gyfer awdurdod rhestredig sydd newydd gael ei ychwanegu).<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn eu barn hwy cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon.<br><br>Mae'r pŵer yn yr adran hon hefyd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a bennir yn adran 31. Er enghraifft, ni ellir defnyddio'r pŵer yn adran 30(2) i hepgor Llywodraeth Cymru na Chomisiwn Cynulliad | | |

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| | Cenedlaethol Cymru (gweler adran 31(1)). | | |
| **Adran 41(3)**: mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y rhestr o faterion na chaiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt o dan Ran 5 o'r Bil. | Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu'r pŵer yn adran 14(2), felly mae'r un rhesymau yn berthnasol o ran dirprwyo'r pŵer i Weinidogion Cymru.<br><br>Mae'r pŵer hwn wedi bod ar gael o dan Ddeddf 2005 ers iddo gael ei fewnosod yn y Ddeddf gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Felly, mae'r Cynulliad wedi craffu ar y pŵer hwn yn ddiweddar.<br><br>Nid yw'r pŵer hwn wedi cael ei ddefnyddio ers iddo gael ei gynnwys yn Neddf 2005. | Cadarnhaol | Pŵer yw hwn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac i newid y cwmpas o ran y materion y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae'n fesur diogelu ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a geir yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon. |
| **Adran 44(12)**: mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun. | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau priodol i'r meini prawf, fel bod ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun bob amser yn cynnig ateb effeithiol i'r anghyfiawnder a'r caledi a ddioddefir gan bobl.<br><br>Mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r Ombwdsmon, | Cadarnhaol | Pŵer yw hwn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac i ddylanwadu ar y cwmpas o ran pryd y gellir cynnal ymchwiliadau.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. |

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| | awdurdodau rhestredig ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn eu barn hwy cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon. | | |
| **Adran 64(8)**: mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y rhestr o ombwdsmyn y caiff yr Ombwdsmon ymgynghori a chydweithio â hwy. | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau priodol i'r rhestr o ombwdsmyn eraill y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â hwy ac y caiff gydweithio â hwy.<br><br>Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os bydd un o'r ombwdsmyn presennol yn newid enw neu'n peidio â bodoli, gellir diwygio'r rhestr yn adran 64(7) yn unol â hynny. Fel arall, os caiff ombwdsmon newydd ei greu a bod gan yr ombwdsmon hwnnw swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion, yna dylid ychwanegu'r ombwdsmon newydd yn gyflym at y rhestr o ombwdsmyn eraill y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â hwy.<br><br>Mae'r pŵer hwn wedi bod ar gael o dan Ddeddf 2005 ers iddo gael ei fewnosod yn y Ddeddf gan Ddeddf Gwasanaethau | Cadarnhaol | Pŵer yw hwn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac i newid y rhestr o ombwdsmyn y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â hwy ac y caiff gydweithio â hwy.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae'n fesur diogelu ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a geir yn y Bil i sicrhau na ellir ychwanegu person at y rhestr oni bai fod ganddo swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion. |

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| | Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Felly, mae'r Cynulliad wedi craffu ar y pŵer hwn yn ddiweddar.<br><br>Nid yw'r pŵer hwn wedi cael ei ddefnyddio ers iddo gael ei gynnwys yn Neddf 2005. | | |
| **Adran 65(6)**: mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y rhestr o bersonau y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â hwy a chomisiynwyr y caiff yr Ombwdsmon gydweithio â hwy. | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau priodol i'r rhestr o bersonau y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â hwy a chomisiynwyr y caiff yr Ombwdsmon gydweithio â hwy.<br><br>Er enghraifft, os bydd y Cynulliad yn creu comisiynydd newydd, gellir ychwanegu'r comisiynydd newydd hwnnw yn gyflym at y rhestr fel y gellir sicrhau cydweithrediad ac effeithlonrwydd.<br><br>Mae'r pŵer hwn wedi bod ar gael o dan Ddeddf 2005 ers iddo gael ei fewnosod yn y Ddeddf gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Felly, mae'r Cynulliad wedi craffu ar y pŵer hwn yn ddiweddar. | Cadarnhaol | Pŵer yw hwn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol a newid y rhestr o bersonau y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â hwy a chomisiynwyr y caiff yr Ombwdsmon gydweithio â hwy.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. |

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| | Nid yw'r pŵer hwn wedi cael ei ddefnyddio ers iddo gael ei gynnwys yn Neddf 2005. | | |
| **Adran 75(1)**: mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddod â'r Ddeddf i rym. | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i'r Ddeddf ddod i rym ar yr adeg iawn, sy'n bwysig o ystyried y pwerau newydd a geir yn y Bil (ac i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw drefniadau trosiannol sydd eu hangen wrth symud o gyfundrefn Deddf 2005 i'r drefn newydd hon). | Dim gweithdrefn | Mae'n arferol peidio â chael unrhyw weithdrefn ar gyfer gorchmynion cychwyn. |
| **Adran 76(1)**: Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiffinio "tribiwnlys perthnasol" mewn rheoliadau. | Mae hyn yn caniatáu i reoliadau nodi swyddogaethau gweinyddol tribiwnlysoedd penodol yng Nghymru at ddibenion cul adran 11(7), fel y'i darllenir gydag adran 11(4)(e).<br><br>Mae'r pŵer hwn wedi bod ar gael ers cyflwyno Deddf 2005 a dim ond unwaith y mae wedi cael ei ddefnyddio (i nodi bod y tribiwnlys pridio yn dribiwnlys perthnasol). | Cadarnhaol | Er bod cwmpas y pŵer hwn yn gul, mae'n dal yn rhoi'r pŵer i newid deddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae'n fesur diogelu ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a geir yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy. |
| **Adran 76(3)**: mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion | Cadarnhaol | Pŵer yw hwn i ddiwygio rhai o'r diffiniadau mewn |

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniadau o "ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru", "darparwr annibynnol yng Nghymru" a "landlord cymdeithasol yng Nghymru". | Cymru wneud newidiadau priodol i'r diffiniadau hyn, er enghraifft, pan fydd newid i'r drefn o ran contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol neu os bydd newid yn y ffordd y darperir gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.<br><br>Mae'r pŵer hwn wedi bod ar gael o'r dechrau yn Neddf 2005 ac fe'i defnyddiwyd mewn ffordd gul iawn (er enghraifft, diwygiwyd y diffiniad o "darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru" er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r newidiadau a wnaed i Ddeddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993).<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau priodol cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon. | | deddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae'n fesur diogelu ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a geir yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy. |
| **Adran 77(1)**: mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru addasu'r ffordd y cymhwysir y | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'n briodol y ffordd y cymhwysir y Ddeddf os bydd cwyn yn cael ei | Cadarnhaol | Pŵer yw hwn i ddiwygio rhai o'r diffiniadau mewn deddfwriaeth sylfaenol. |

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| Ddeddf i gyn-ddarparwyr gofal iechyd, landlordiaid cymdeithasol, darparwyr gofal cymdeithasol a darparwyr gofal lliniarol. | gwneud yn erbyn person a oedd, ar yr adeg berthnasol, yn ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru, yn ddarparwr annibynnol yng Nghymru neu'n landlord cymdeithasol yng Nghymru, ond sydd wedi peidio â bod yn awdurdod rhestredig o'r fath ers hynny.<br><br>Er enghraifft, efallai y bydd angen addasu adrannau'r Ddeddf sy'n ymwneud â rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau yn eu cais i'r darparwyr hyn.<br><br>Cafodd y pŵer hwn ei gynnwys yn Neddf 2005 yn wreiddiol ac mae wedi cael ei ymestyn ers hynny gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, felly mae'r Cynulliad wedi craffu ar y pŵer estynedig hwn yn ddiweddar.<br><br>Nid yw'r pŵer yn yr adran hon wedi cael ei ddefnyddio. | | Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. |
| **Adran 78(1)**: mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati yn yr | Cadarnhaol | Mae'n briodol craffu'n iawn ar bwerau o'r fath.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i |

| Disgrifiad o'r pŵer | A yw'n briodol ei ddirprwyo? | Gweithdrefn | Pa mor briodol yw'r weithdrefn? |
|---|---|---|---|
| canlyniadol, trosiannol ac ati. | amgylchiadau a nodir yn adran 78(1). | | sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. |
| **Adran 79 (1):** mae hyn yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Bil yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, ac i wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati. | Mae'n addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru deilwra'r rheoliadau i adlewyrchu amgylchiadau gwahanol ac i wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati briodol. | Cadarnhaol | Mae'n briodol craffu'n iawn ar bwerau o'r fath.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. |

# 7. Codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru

7.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(xi), pan fo'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, mae'n ofynnol bod y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy’n nodi ei farn ynghylch a yw’r gwariant a godir yn briodol ai peidio.

7.2 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cadarnhau:

> Rwyf yn hapus, fodd bynnag, i adrodd, ar ôl ystyried y Bil, fy mod o'r farn fod y darpariaethau costau uniongyrchol ym mharagraffau 9 a 10 o Atodlen 1 i'r Bil yn briodol. Mae paragraff 9 yn darparu ar gyfer codi tâl ar y WCF am gyflog a phensiwn yr Ombwdsmon. Mae hyn yn parhau’r mesur sydd wedi ei hen sefydlu i ddiogelu annibyniaeth deiliad y swydd drwy ei gwneud yn bosibl codi tâl am gydnabyddiaeth i ddeiliad y swydd ar y WCF, yn hytrach na'i wneud yn destun cymeradwyaeth flynyddol drwy gynnig cyllideb yn y Cynulliad. Mae paragraff 10 i bob pwrpas yn indemnio’r Ombwdsmon a'i staff ef neu hi a'i gontractwyr o ran torri dyletswydd. Mae hwn yn hen ddull costeffeithiol a phriodol o ddarparu yswiriant indemniad proffesiynol.[35]

[35] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Tystiolaeth ysgrifenedig PSOW29 Swyddfa Archwilio Cymru, paragraff 17. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s69417/PSOW%2029%20-%20Wales%20Audit%20Office.pdf

## 8. Tabl tarddiadau

8.1 Mae'r bennod hon yn rhoi canllaw i darddiad pob adran o'r Bil.

8.2 Mae'r rhan fwyaf o'r adrannau'r Bil yn deillio o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ('Deddf 2005'). Mae rhai adrannau yn deillio o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban 2002 ('Deddf 2002') a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 2016 ('Deddf 2016'). Mae rhai o'r adrannau yn newydd.

8.3 Pan fydd adran o'r Bil yn deillio o Ddeddf 2005, Deddf 2002 neu Ddeddf 2016 a'i bod wedi'i haddasu'n arwyddocaol, nodir hynny yn Nhabl 4.

**Tabl 4: Tabl tarddiadau**

| Adran o'r Bil | Yn tarddu o |
|---|---|
| **RHAN 1** | |
| Trosolwg | Newydd |
| **RHAN 2** | |
| 2 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Newydd |
| **RHAN 3** | |
| 3 Pŵer i ymchwilio i gwynion | Adran 2 o Ddeddf 2005 |
| 4 Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun | Adran 8 o Ddeddf 2016, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 5 Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun | Adran 9 o Ddeddf 2016, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 6 Dulliau amgen o ddatrys materion | Adran 3 o Ddeddf 2005 |
| 7 Pwy sy'n cael cwyno | Adran 4 o Ddeddf 2005 |
| 8 Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon | Adran 5 o Ddeddf 2005, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 9 Gofynion: cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon | Adran 6 o Ddeddf 2005, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 10 Cofnodion o gwynion | Newydd |
| 11 Materion y caniateir ymchwilio iddynt | Adran 7 o Ddeddf 2005, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 12 Eithrio: materion nad ydynt yn ymwneud â Chymru | Adran 8 o Ddeddf 2005 |
| 13 Eithrio: rhwymedïau eraill | Adran 9 o Ddeddf 2005 |
| 14 Materion eithriedig eraill | Adran 10 o Ddeddf 2005 |
| 15 Penderfyniadau a wnaed heb gamweinyddu | Adran 11 o Ddeddf 2005 |
| 16 Pŵer i ymchwilio i wasanaethau eraill sy’n gysylltiedig ag iechyd | Newydd |

| Adran o'r Bil | Yn tarddu o |
|---|---|
| 17 Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio neu i ddod ag ymchwiliad i ben | Adran 12 o Ddeddf 2005 |
| 18 Gweithdrefn ymchwilio | Adran 13 o Ddeddf 2005, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 19 Gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau | Adran 14 o Ddeddf 2005 |
| 20 Rhwystro a dirmygu | Adran 15 o Ddeddf 2005 |
| 21 Pŵer i fynnu costau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat | Newydd |
| 22 Adroddiadau ar ymchwiliadau | Adran 16 o Ddeddf 2005 |
| 23 Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau | Adran 17 o Ddeddf 2005 |
| 24 Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau: darparwyr gofal iechyd | Adran 18 o Ddeddf 2005 |
| 25 Camau gweithredu ar ôl i adroddiad ddod i law | Adran 19 o Ddeddf 2005 |
| 26 Adroddiadau: gweithdrefn amgen | Adran 21 o Ddeddf 2005 |
| 27 Adroddiadau arbennig | Adran 22 o Ddeddf 2005 |
| 28 Adroddiadau arbennig: atodol | Adran 23, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 29 Adroddiadau arbennig sy’n ymwneud â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru . | Adran 24 o Ddeddf 2005 |
| 30 Awdurdodau rhestredig | Adran 28 o Ddeddf 2005 |
| 31 Cyfyngiadau ar bŵer i ddiwygio Atodlen 3 | Adran 29 o Ddeddf 2005 |
| 32 Darpariaethau mewn rheoliadau sy'n ychwanegu personau at Atodlen 3 | Adran 30 o Ddeddf 2005, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 33 Pŵer i ddyroddi canllawiau | Adran 31 o Ddeddf 2005 |
| 34 Digolledu’r person a dramgwyddwyd | Adran 34 o Ddeddf 2005 |
| **RHAN 4** | |
| 35 Ymdrin â chwynion: datganiad o egwyddorion | Adran 16A o Ddeddf 2002 |
| 36 Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion | Adran 16B o Ddeddf 2002 |
| 37 Gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion: manyleb awdurdodau rhestredig | Adran 16C o Ddeddf 2002 |
| 38 Datganiadau o beidio â chydymffurfio | Adran 16D o Ddeddf 2002 |

| Adran o'r Bil | Yn tarddu o |
|---|---|
| 39 Cyflwyno disgrifiad o weithdrefnau ymdrin â chwynion: cyffredinol | Adran 16E o Ddeddf 2002 |
| 40: Gweithdrefnau ymdrin â chwynion: hybu arferion gorau etc | Adran 16G o Ddeddf 2002 |
| **RHAN 5** | |
| 41 Materion y mae'r Rhan hon yn gymwys iddynt | Adran 34A o Ddeddf 2005 |
| 42 Pŵer i ymchwilio i gwynion | Adran 34B o Ddeddf 2005 |
| 43 Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun | Adran 8 o Ddeddf 2016, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 44 Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun | Adran 9 o Ddeddf 2016, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 45 Dulliau amgen o ddatrys materion | Adran 34C o Ddeddf 2005 |
| 46 Pwy sy'n cael cwyno | Adran 34D o Ddeddf 2005 |
| 47 Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon | Adran 34E o Ddeddf 2005, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 48 Gofynion: cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon | Adran 34F, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 49 Cofnodion o gwynion | Newydd |
| 50 Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio i gwynion neu i ddod ag ymchwiliadau i ben | Adran 34G o Ddeddf 2005 |
| 51 Gweithdrefn ymchwilio | Adran 34H, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 52 Gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau | Adran 34I o Ddeddf 2005 |
| 53 Rhwystro a dirmygu | Adran 34J o Ddeddf 2005 |
| 54 Adroddiadau am ymchwiliadau | Adran 34K o Ddeddf 2005 |
| 55 Cyhoeddusrwydd pellach i adroddiadau am ymchwiliadau | Adran 34L o Ddeddf 2005 |
| 56 Camau gweithredu ar ôl i adroddiadau am ymchwiliadau ddod i law | Mae adran 34M o Ddeddf 2005 |
| 57 Adroddiadau: gweithdrefn amgen | Adran 34N o Ddeddf 2005 |
| 58 Amgylchiadau lle caiff adroddiadau arbennig eu paratoi | Adran 34O o Ddeddf 2005 |
| 59 Adroddiadau arbennig | Adran 34P o Ddeddf 2005 |
| 60 Cyhoeddusrwydd pellach i adroddiadau arbennig | Adran 34Q o Ddeddf 2005 |
| 61 Ystyr “cartref gofal” a “darparwr cartref gofal” | Adran 34R o Ddeddf 2005 |
| 62 Ystyr "gofal cartref " a "darparwr gofal cartref" | Adran 34S o Ddeddf 2005 |
| 63 Ystyr "gwasanaeth gofal lliniarol" a "darparwr gofal lliniarol annibynnol" | Adran 34T o Ddeddf 2005 |

| Adran o'r Bil | Yn tarddu o |
|---|---|
| **RHAN 6** | |
| 64 Ymgynghori a chydweithredu ag ombwdsmyn eraill | Adran 34U o Ddeddf 2005 |
| 65 Cydweithio â phersonau a bennir | Adran 34V o Ddeddf 2005, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 66 Cydlafurio â Chomisiynwyr | Adran 34W, ond gyda newidiadau sylweddol |
| 67 Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru | Newydd |
| 68 Datgelu gwybodaeth | Adran 34X o Ddeddf 2005 |
| 69 Datgeliad niweidiol i ddiogelwch Gwladol neu yn groes i fudd y cyhoedd | Adran 34Y o Ddeddf 2005 |
| 70 Diogelu rhag hawliadau difenwi | Adran 34Z o Ddeddf 2005 |
| **RHAN 7** | |
| 71 Safonau'r Gymraeg | Newydd |
| 72 Adolygiad o'r Ddeddf | Newydd |
| 73 Ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 42 a 43 i rym | Newydd |
| 74 Diddymiadau, arbedion a diwygiadau canlyniadol | Newydd |
| 75 Cychwyn | Newydd |
| 76 Dehongli | Adran 41 o Ddeddf 2005 |
| 77 Cyn-ddarparwyr gofal iechyd, cyn-landlordiaid cymdeithasol, cyn-ddarparwyr gofal cymdeithasol a chyn-ddarparwyr gofal lliniarol: addasiadau | Adran 42 o Ddeddf 2005 |
| 78 Darpariaethau canlyniadol, trosiannol etc | Adran 43 o Ddeddf 2005 |
| 79 Rheoliadau a chyfarwyddydau | Adran 44 o Ddeddf 2005 |
| 80 Enw byr | Newydd |
| Atodlen 1 (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Penodi etc) | Atodlen 1 i Ddeddf 2005 |
| Atodlen 2 (materion eithriedig: Rhan 3) | Atodlen 2 i Ddeddf 2005 |
| Atodlen 3 (awdurdodau rhestredig) | Atodlen 3 i Ddeddf 2005 |
| Atodlen 4 (materion eithriedig: Rhan 5) | Atodlen 3A i Ddeddf 2005 |
| Atodlen 5 (diwygiadau canlyniadol) | Newydd |

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 9. Crynodeb – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

### Diben y bennod hon

9.1. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno costau a manteision darpariaethau'r Bil.

### Crynodeb

| |
|---|
| **Yr opsiwn a ffefrir:**<br>Cyflwyno Bil sy'n ailddatgan Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ('Deddf 2005'), sydd eisoes yn bodoli, gan nodi pwerau newydd mewn pedwar prif faes, gan alluogi'r Ombwdsmon i wneud y canlynol:<br>- derbyn cwynion llafar;<br>- ymchwilio ar ei liwt ei hun;<br>- ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr iechyd cyhoeddus / preifat; ac<br>- ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau o ran ymdrin â chwynion. |
| **Costau presennol, 2017-18 (Deddf 2005)**<br>Cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Gwariant Adnoddau Net) 2017-18:[36]<br>£4,248,000 |
| **Cyfnod arfarnu:** 2018-19 – 2022-23 (5 mlynedd) |
| **Gwneud dim**[1]<br>£2,870,229 i £8,076,621 dros bum mlynedd (arian parod)<br>£2,529,009 i £7,103,413 dros bum mlynedd (gwerth presennol) |

[36] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18, Tachwedd 2016. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10815/cr-ld10815-w.pdf

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y gost ychwanegol (arian parod a gwerth ariannol):** £1,863,922 i £2,007,655 | **'Costau a osgoir':** £1,890,273 i £2,634,258 | **(Cost)/mantais net ychwanegol:** (£117,382) (cost net) i £770,336 (mantais net) |
| **Gwerth presennol:** £1,685,375 i £1,816,472 | **Gwerth presennol:** £1,641,972 i £2,283,387 | **Gwerth net presennol:** (£174,500) (cost net) i £598,012 (mantais net) |

**Nodiadau**

1 Mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gynnwys unrhyw geisiadau am adnoddau ychwanegol i fodloni'r cynnydd a ragwelir mewn llwyth achosion ar ffurf cyllidebau blynyddol a gyflwynir gerbron y Pwyllgor Cyllid. Fel y nodir ym mharagraff 11.34, ni fu'n arferol i'r Ombwdsmon gysylltu'r cynnydd yn ei gyllideb flynyddol â'r cynnydd yn ei lwyth achosion yn y ffordd gymesur hon.

## Costau

Bydd y pwerau newydd yn y Bil yn arwain at gostau ychwanegol i swyddfa'r Ombwdsmon ('costau uniongyrchol'). Bydd gan y pwerau newydd oblygiadau ariannol hefyd i gyrff eraill o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Tybir y bydd y costau a wynebir gan gyrff eraill (neu 'gostau anuniongyrchol') yn cael eu hysgwyddo gan y cyrff hynny.

Paratowyd dadansoddiadau gan staff yr Ombwdsmon ac OB3, sef cwmni ymchwil a gomisiynwyd gan yr Ombwdsmon i gynorthwyo â'r gwaith o lunio'r fersiwn ddrafft gyntaf o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r dadansoddiadau, ynghyd â gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, wedi llywio'r gwaith o gyfrifo cost y Bil. Ystyrir bod y canlyniadau'n cynnig yr amcangyfrifon gorau. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl rhagweld yn sicr i ba gyrff dan awdurdodaeth y bydd y llwyth achosion, ac felly'r gost, yn berthnasol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae Tabl 2 ac Atodiad C yn nodi gwybodaeth mewn perthynas â chwynion am gyrff y sector cyhoeddus ac felly yn rhoi syniad i ba gyrff cyhoeddus y gallai'r cynnydd yn y llwyth achosion yn y dyfodol fod yn berthnasol.

Fel enghraifft, darperir dadansoddiadau sensitifrwydd i ddangos yr amrywiaeth bosibl o gostau.

**Costau uniongyrchol (neu gostau arian parod) [£1,617,535 dros bum mlynedd]**

**Costau parhaus (neu gostau rheolaidd) [£1,592,535 dros bum mlynedd]** Bydd swyddfa'r Ombwdsmon yn wynebu costau parhaus ychwanegol o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil o ran:

- y cynnydd yng nghostau gweinyddol swyddfa'r Ombwdsmon yn sgil cwynion llafar ac ymchwilio i wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd a ddarperir gan gyrff preifat mewn llwybr iechyd cyhoeddus /preifat pan fo'r Ombwdsmon hefyd yn ymchwilio i awdurdod rhestredig; a
- chost yr adnoddau ychwanegol fydd eu hangen ar yr Ombwdsmon i ymchwilio ar ei liwt ei hun ac i ymgymryd â'i rôl ymdrin â chwynion.

Mae'r costau'n cynnwys:

- costau cyflogi, gan gynnwys argostau, megis Cyfraniadau'r Cyflogwr at Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn;
- ffioedd proffesiynol, gan gynnwys cost cyngor arbenigol;
- costau swyddfa, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd, costau ffôn, costau cyfathrebu eraill, argraffu, deunydd ysgrifennu a chostau TG o ran defnydd a chymorth; a
- chostau eraill, megis costau hyfforddi, teithio a chynhaliaeth.

**Costau pontio [£25,000]:** Mae'r rhain yn ymwneud â chostau untro sy'n gysylltiedig ag aelodau o staff ychwanegol ar gyfer swyddfa'r Ombwdsmon. Maent yn cynnwys y gost ddisgwyliedig ar gyfer recriwtio, dodrefn a gosodiadau swyddfa ac offer TG.

**Costau anuniongyrchol [yn amrywio o £246,387 i £390,120 dros bum mlynedd]**

**Costau parhaus anuniongyrchol (h.y. cost i gyrff heblaw'r Ombwdsmon) [yn amrywio o £236,025 i £359,100 dros bum mlynedd]**

Bydd darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar awdurdodau rhestredig (fel y'u rhestrir yn Atodlen 3 o'r Bil ) ac felly maent hwythau hefyd yn debygol o wynebu costau ychwanegol. Mae'r awdurdodau rhestredig yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned), y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, awdurdodau parciau cenedlaethol, darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol (neu 'breifat') a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai). Mae'r costau 'anuniongyrchol' parhaus hyn yn ymwneud â'r cynnydd a amcangyfrifir yn nifer yr achosion a wneir i'r Ombwdsmon ac oddi wrth bwy y gofynnir am wybodaeth cyn ac yn ystod ymchwiliadau llawn.

| **Costau cydymffurfio (costau anuniongyrchol untro) [yn amrywio o £10,362 i £31,020]** | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus o fewn awdurdodaeth gasglu meysydd data cyson i'w gwneud yn bosibl eu dadansoddi'n well ac yn ehangach gan arwain at ledaenu arfer da. Mae'r gofyniad hwn yn debygol o arwain at gostau pontio (neu untro) i newid cronfeydd data presennol a systemau eraill, gan gynnwys systemau TG. | | | |
| Costau pontio uniongyrchol:<br>£25,000 | Costau parhaus uniongyrchol:<br>£1,592,535 | Costau pontio anuniongyrchol:<br>£10,362 i £31,020 | Costau parhaus anuniongyrchol:<br>£236,025 i £359,100 |

### Costau a osgoir

| |
|---|
| Yn sgil darpariaethau'r Bil, disgwylir y gwneir llai o gwynion i'r Ombwdsmon nag a fyddai wedi cael eu gwneud o dan Ddeddf 2005. Mae gwerth y 'costau a osgoir' wedi'i gyfrifo drwy roi cost uned i'r amcanestyniadau llwyth achosion, wedi'i seilio ar brofiadau a gwaith ymchwil staff yr Ombwdsmon. Er yr ystyrir mai dyma'r amcangyfrif gorau, mae ansicrwydd ynghylch yr amcanestyniadau llwyth achosion ac, o ganlyniad, y graddau y gellid osgoi costau a'r amserlen ar gyfer hynny. Nid yw'n bosibl rhagweld pa gyrff cyhoeddus y gwneir cwynion yn eu herbyn yn y dyfodol na pha rai a fydd yn osgoi costau yn sgil darpariaethau'r Bil. |
| Cyfanswm y costau a osgoir: £1,890,273 to £2,634,258 dros bum mlynedd. |

### Manteision eraill

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi nodi ystod o fanteision posibl i aelodau'r cyhoedd a chyrff cyhoeddus o fewn yr awdurdodaeth sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cael gwared ar rwystrsu cyfathrebu a hwyluso mynediad i wasanaethau'r Ombwdsmon;
- ymchwilio i feysydd o bryder mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus lle bo'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth (neu'n cael eu hamddifadu o wasanaeth) yn llai tebygol neu'n llai abl i wneud cwyn ar eu liwt eu hunain;
- ystyried cwyn yn llawn pan fo triniaeth wedi'i darparu gan gyfuniad o ddarparwyr gwasanaethau iechyd cyhoeddus a phreifat. Mae hyn er budd y

cyhoedd gan y gellid sefydlu a fu unrhyw fethiant gan y GIG neu a fu unrhyw fethiant yn y gwasanaethau a ddarparwyd gan y corff preifat; ac

- arbedion posibl ar gyfer y cyrff o fewn awdurdodaeth o ganlyniad i ymdrin â chwynion yn well.

Gan nad oes modd gwybod beth fydd natur y manteision hyn na pha gyrff cyhoeddus a fydd ar eu hennill, ni fesurwyd eu gwerth. Fodd bynnag, mae manylion pellach wedi'u nodi yn adran Opsiynau Polisi yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae'r Bil hefyd yn caniatáu i'r Ombwdsmon gadw mwy o'r ffioedd y caiff yr Ombwdsmon eu codi o dan y Bil, megis y ffioedd am gyflenwi copi o adroddiad ymchwiliad. Gan nad yw'r Ombwdsmon - hyd yma - wedi codi ffioedd, nid yw effaith y newid hwn wedi'i fesur.

**Effeithiau a chanlyniadau anuniongyrchol**

Er nad ydynt wedi cael eu cyfrifo, mae gwybodaeth am yr effeithiau a chanlyniadau anuniongyrchol wedi'u nodi yn yr adran Costau a Manteision yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Maent yn cynnwys gwelliannau posibl i'r ffordd y darperir gwasanaethau a'r posibilrwydd o ganlyniadau effeithlonrwydd ehangach drwy osgoi ailadrodd camgymeriadau a chamweinyddu.

**Tystiolaeth allweddol, tybiaethau ac ansicrwydd**

Dylid ystyried mai'r costau a fesurwyd ac a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw'r amcangyfrifon gorau o'r costau y disgwylir iddynt ddeillio o'r pwerau a nodir yn y Bil. Mae'r adran ar Gostau a Manteision yn nodi manylion am y tybiaethau a'r pwyntiau o ansicrwydd, sy'n cynnwys yr ystyriaethau a ganlyn:

- mae'r costau wedi'u pennu dros gyfnod o bum mlynedd oherwydd gellir bod yn weddol sicr wrth lunio amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod hwn. Bydd costau parhaus, neu gostau rheolaidd, yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod o bum mlynedd;
- mae'r amcangyfrifon cost yn adlewyrchu amcanestyniadau llwyth achosion yr Ombwdsmon. Rhoddwyd cost uned i'r rhain er mwyn cyfrifo'r gost sy'n deillio o gynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon a'r mesurau i'w liniaru o dan ddarpariaethau'r Bil;
- nid yw'n bosibl rhagweld pa gyrff y gwneir cwynion yn eu herbyn yn y dyfodol na pha rai a fydd yn wynebu costau ychwanegol o ganlyniad i'r Bil.

Fodd bynnag, mae Tabl 2 ac Atodiad C yn nodi gwybodaeth mewn perthynas â chwynion am gyrff y sector cyhoeddus ac felly, yn rhoi syniad i ba gyrff cyhoeddus y gallai'r cynnydd yn y llwyth achosion yn y dyfodol fod yn berthnasol;

- mae'r amcangyfrif o gostau anuniongyrchol yn adlewyrchu'r gwaith ymgysylltu â randdeiliaid a gyflawnwyd gan yr Ombwdsmon a chwmni ymchwil a gomisiynwyd i gynorthwyo â'r gwaith o lunio'r fersiwn ddrafft gyntaf o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil;
- gwnaed tybiaethau deallus ynghylch y cyflog a'r costau cysylltiedig ar gyfer staff ychwanegol, megis y raddfa gyflog, sy'n adlewyrchu costau presennol swyddfa'r Ombwdsmon;
- mae costau staff nad ydynt yn gostau cyflog a chostau eraill yn adlewyrchu'r rhai yr eir iddynt gan yr Ombwdsmon a'i swyddfa;
- defnyddiwyd y gost i gyrff cyhoeddus cyn ac yn ystod ymchwiliad i roi syniad o'r amcangyfrif o oblygiadau ariannol y Bil ar gyfer darparwyr gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag preifat; a
- darparwyd dadansoddiadau sensitifrwydd i brofi effaith newid y tybiaethau. Mae'r rhain wedi'u cynnwys fel enghraifft yn unig; nid ydynt wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrif gorau o oblygiadau cost y Bil.

# 10. Opsiynau Polisi

## Diben y bennod hon

10.1. Mae'r bennod hon yn nodi'r opsiynau polisi ar gyfer pwerau newydd a nodir yn y Bil fel y'u hystyriwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Trosolwg

10.2. Mae'r Bil yn ailddatgan Deddf 2005 gan nodi hefyd bwerau newydd mewn pedwar prif faes. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r opsiynau a ystyriwyd mewn perthynas â'r pwerau newydd.

10.3. Yr opsiwn a ffefrir yw cyflwyno deddfwriaeth i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon i gynnwys:

- derbyn cwynion llafar (Opsiwn 2);
- ymchwilio ar ei liwt ei hun (Opsiwn 2);
- ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ymchwilio i'r elfen o wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaethau iechyd cyhoeddus / preifat pan fo'r Ombwdsmon hefyd yn ymchwilio i awdurdod rhestredig (Opsiwn 2); ac
- ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau o ran ymdrin â chwynion (Opsiwn 3).

## Y pŵer i gael cwynion llafar

10.4. Ystyriwyd dau opsiwn. Opsiwn 2 yw'r un a ffefrir:

Opsiwn 1: Gwneud dim

10.5. Byddai darpariaethau Deddf 2005 yn parhau; mae adran 5 yn dweud bod rhaid i bob cwyn i'r Ombwdsmon gael eu gwneud neu eu cyfeirio mewn ysgrifen. Fodd bynnag, mae Adran 2(4) o Ddeddf 2005 yn gosod pŵer dewisol sy'n caniatáu i'r Ombwdsmon dderbyn cwyn nad yw'n ysgrifenedig os credir bod hynny'n briodol ar sail achos wrth achos.

Opsiwn 2: Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i alluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwynion llafar yn rhai sydd wedi'u gwneud yn briodol (yr opsiwn a ffefrir)

10.6. Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i alluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwynion a wneir ar lafar neu'n ysgrifenedig, gan gynnwys drwy ddulliau

electronig, a gweithredu ar y cwynion hynny.  Byddai hyn yn ei gwneud yn haws cysylltu â’r Ombwdsmon.

## Y pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun

10.7. Ystyriwyd dau opsiwn.  Opsiwn 2 yw’r un a ffefrir.

Opsiwn 1: Gwneud dim

10.8. Byddai darpariaethau Deddf 2005 yn parhau.  Byddai'r Ombwdsmon ond yn gallu ymchwilio i’r cwynion sy’n cael eu gwneud a byddai cwmpas yr ymchwiliadau hynny'n cael ei gyfyngu i'r gŵyn benodol honno.

Opsiwn 2: Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i ganiatáu i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun (yr opsiwn a ffefrir)

10.9. Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i roi pŵer i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun. Drwy gyflwyno'r pŵer hwn byddai rôl yr Ombwdsmon yn gyson â mwyafrif helaeth y cynlluniau ombwdsmon eraill ledled Ewrop ac yn rhyngwladol. Disgwylir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio mewn pedwar senario:

- ymestyn ymchwiliad i gŵyn i gynnwys corff cyhoeddus arall heb fod angen cwyn newydd gan yr achwynydd (Senario A);
- canfyddiadau o ymchwiliad i gŵyn yn esgor ar ymchwiliad i gyrff eraill i sefydlu a oes methiannau tebyg i'w cael mewn mannau eraill (Senario B);
- ymchwilio i gŵyn ddienw (Senario C); ac
- ymchwilio, oherwydd pryderon, i sector cyfan, neu ran o sector, sy'n darparu gwasanaeth (Senario D).

10.10. Mae'r Ombwdsmon yn debygol o gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun fel y rhai a ddisgrifir yn Senario D, gan wneud hynny yn achlysurol yn unig; mae'r ymchwiliadau a ddisgrifir yn Senarios A, B ac C yn debygol o gael eu cynnal yn amlach.  Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraffau 11.133 hyd at 11.137.

## Ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd.

10.11. Ystyriwyd tri opsiwn.  Opsiwn 2 yw’r un a ffefrir.

Opsiwn 1: Gwneud dim

10.12. Byddai darpariaethau Deddf 2005 yn parhau ac ni fyddai'r Ombwdsmon yn gallu ystyried cwynion am driniaeth feddygol breifat a gofal nyrsio oni bai bod y GIG wedi comisiynu hynny yng Nghymru.

Opsiwn 2: Darparu pŵer ategol i'r Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion mewn llwybr gwasanaethau iechyd cyhoeddus/preifat (yr opsiwn a ffefrir)

10.13. Diwygio'r ddeddfwriaeth i ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i gynnwys ymchwilio i wasanaeth preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd pan fo'r claf wedi cael gwasanaethau gan ddarparwyr o'r sector cyhoeddus ac o'r sector preifat, a chan gynnwys achosion lle bo'r claf wedi comisiynu'r gwasanaeth preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Byddai hyn felly yn caniatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn gyfan, gan ddileu'r angen i aelodau'r cyhoedd wneud cwynion ar wahân (i'r Ombwdsmon a'r darparwr gofal iechyd preifat yn eu trefn) os oeddent wedi cael triniaeth iechyd neu ofal nyrsio yn y sector cyhoeddus, ac wedi comisiynu gwasanaethau o'r fath gan ddarparwyr preifat.

Opsiwn 3: Ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon - yr holl ddarparwyr gofal iechyd preifat

10.14. Diwygio'r ddeddfwriaeth i ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i gynnwys ymchwilio i gwynion am yr holl ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

## Y pŵer i ymgymryd â rôl mewn perthynas â'r safonau a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.

10.15. Ystyriwyd tri opsiwn. Opsiwn 3 yw'r un a ffefrir.

Opsiwn 1: Gwneud dim

10.16. Byddai'r trefniadau presennol yn parhau; byddai mabwysiadu'r model presennol ar gyfer y polisi cwynion yng Nghymru yn wirfoddol. Mae'r problemau ynglŷn â phrinder data am gwynion, neu'r anghysondeb yn y data a gedwir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn debygol o barhau. At hynny, ni fyddai unrhyw waith craffu yn cael ei wneud yn sector cyhoeddus Cymru a byddai'r diffyg tryloywder sy'n deillio o hynny yn parhau.

Opsiwn 2: Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol - 'data yn unig'

10.17. Diwygio'r ddeddfwriaeth i roi'r pŵer i'r Ombwdsmon ymgymryd â rôl 'data yn unig'. Byddai hyn yn cyfyngu ar y rôl safonau cwynion, a'r unig bŵer fyddai gan yr Ombwdsmon yn hyn o beth fyddai gorfodi awdurdodau cyhoeddus i gasglu data yn gyson.

Opsiwn 3: Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i gryfhau rôl yr Ombwdsmon wrth sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn effeithiol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru (yr opsiwn a ffefrir)

10.18. Diwygio'r ddeddfwriaeth i roi pŵer i'r Ombwdsmon ymgymryd â rôl yn dylunio, gweithredu, a goruchwylio cwynion ynghyd â chasglu data. Byddai hyn yn cynnwys:

- cyhoeddi datganiad o egwyddorion;
- cyhoeddi polisi enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion ar gyfer awdurdodau rhestredig y mae angen iddynt ymgynghori'n rheolaidd â rhanddeiliaid perthnasol;
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gasglu a dadansoddi data ynghylch cwynion. Wrth wneud hynny, sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r un iaith wrth gasglu data er mwyn hwyluso'r gwaith o gymharu ar draws sector(au).

# 11. Costau a manteision

## Diben y bennod hon

11.1. Mae'r bennod hon yn cyflwyno asesiad o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau a nodwyd ym mhennod 10. Mae wedi'i strwythuro i nodi gwybodaeth ynglŷn â'r meysydd a ganlyn:

- y cefndir i'r amcangyfrif o'r costau a'r manteision (paragraffau 11.2 ac 11.3);
- y dystiolaeth y seilir yr amcangyfrifon arnynt (paragraffau 11.4 ac 11.5);
- ymgysylltiad â rhanddeiliaid wrth gyfrifo'r amcangyfrifon (paragraffau 11.6 ac 11.8);
- crynodeb gweithredol (paragraffau 11.9 hyd at 11.24);
- y tybiaethau a'r pwyntiau o ansicrwydd sy'n ymwneud â'rh yr amcangyfrifon (paragraffau 11.25 hyd at 11.82); a
- chrynodeb o'r costau a'r manteision sy'n cynnwys manylion am y dull o gyfrifo'r costau a'r manteision (paragraffau 11.83 hyd at 11.189).

## Y cefndir

11.2. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth gefndir ynglŷn â'r amcangyfrifon o gostau a manteision y Bil. Yn ei adroddiad ar ganlyniadau ei ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid ym mis Mawrth 2016 y dylai'r Ombwdsmon gyfrannu at Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gostio'n llawn i gyd-fynd â'r Bil drafft.[37] Byddai hyn yn cyfrannu at y drafodaeth ar y Bil a byddai'n gyfle i'w ddarpariaethau gael eu holrhain yn y cyllidebau a gyflwynir gan yr Ombwdsmon i'r Cynulliad yn y dyfodol. Darparodd yr Ombwdsmon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr 2016.[38]

---

[37] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Mawrth 2016. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10644/cr-ld10644-w.pdf

[38] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2016. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64290/Llythyr%20gan%20yr%20Ombwdsmon%20Gwasanaethau%20Cyhoeddus%20at%20y%20Cadeirydd%20-%20Asesiad%20Effaith%20Rheoleiddiol%20-%2014%20R.pdf

11.3. Rhoddodd yr Ombwdsmon dystiolaeth ynghylch yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2017. Ar ôl y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at yr Ombwdsmon i ofyn am ragor o wybodaeth, yn benodol am yr amcangyfrif o'r costau tebygol i gyrff cyhoeddus eraill yr effeithir arnynt gan ddarpariaethau'r Bil (neu gostau 'anuniongyrchol'). Darparodd yr Ombwdsmon y wybodaeth hon i Gadeirydd y Pwyllgor ar 28 Ebrill 2017.[39] Rhoddodd yr Ombwdsmon ragor o wybodaeth mewn ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor Cyllid ar y Bil yn ei gyfarfod ar 17 Mai 2017.

## Tystiolaeth

11.4. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y dystiolaeth y seiliwyd yr amcangyfrifon o gostau a manteision y Bil arni. Comisiynodd yr Ombwdsmon gwmni ymchwil, OB3, i gynorthwyo â'r gwaith o lunio'r fersiwn ddrafft gyntaf o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil. Er iddo nodi'r cyfyngiadau o ran data ar gyfer cyfrifo'r costau a'r manteision,[40] aeth OB3 ati i baratoi'r amcangyfrifon ar y cyd â'r Ombwdsmon ac yng ngoleuni trafodaethau ag ambell gorff cyhoeddus yr effeithir arno gan ddarpariaethau'r Bil.

11.5. Mae'r asesiad o'r costau a'r manteision yn y bennod hon yn adlewyrchu'r costau y mae swyddfa'r Ombwdsmon yn eu hwynebu ac yn adeiladu ar y wybodaeth a roddodd yr Ombwdsmon ym mis Rhagfyr 2016, ac yn cynnwys rhagor o wybodaeth a gafwyd ganddo ym mis Ebrill 2017 a mis Mehefin 2017 mewn ymateb i geisiadau'r Pwyllgor Cyllid.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

11.6. Mae'r adran hon yn nodi sut yr aed ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth gyfrifo'r amcangyfrif o gostau a manteision y Bil. Bu staff yr Ombwdsmon ac OB3 yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys rhai cyrff cyhoeddus yr effeithiwyd arnynt gan ddarpariaethau'r Bil, wrth

---

[39] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth Atodol. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

[40] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2016, Pennod 5. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64290/Llythyr%20gan%20yr%20Ombwdsmon%20Gwasanaethau%20Cyhoeddus%20at%20y%20Cadeirydd%20-%20Asesiad%20Effaith%20Rheoleiddiol%20-%2014%20R.pdf

gasglu gwybodaeth ar gyfer paratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.[41] Mae'r swyddogion wedi:

- trafod a chyfnewid negeseuon e-bost â'r Pennaeth Polisi (Gwelliant a Llywodraethiant) yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Pennaeth Is-adran Ansawdd Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru, Pennaeth Grŵp Cwynion Corfforaethol Cymru a Chyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro Profiad Cwsmeriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro er mwyn archwilio ffynonellau data a chynhyrchu'r amcangyfrifon gorau;
- gofyn am wybodaeth gan swyddogion cwynion 22 awdurdod lleol Cymru drwy Gadeirydd Grŵp Cwynion Corfforaethol Cymru;
- gofyn am wybodaeth gan sefydliadau GIG Cymru drwy Grŵp Gwrando a Dysgu o Adborth GIG Cymru;
- gofyn am sylwadau yng nghyfarfod Grŵp Cwynion Corfforaethol Cymru ar 26 Ebrill 2017 mewn perthynas â'r amcangyfrifon gorau o'r costau anuniongyrchol tebygol sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil;
- gofyn am fewnbwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chostau a manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol; ac
- adolygu canlyniadau'r gwaith ymchwil a wnaed gan Wasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon i oblygiadau cost Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon.

11.7. Ym mis Ebrill 2018, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Wasanaeth Annibynnol Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd (ISCAS)[42] a Chymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru[43] i ofyn am wybodaeth i lywio'r asesiad o oblygiadau ariannol y Bil ar gyfer darparwyr gwasanaethau iechyd preifat. Defnyddiwyd yr ymateb gan ISCAS, a ddaeth i law ar 28 Mehefin 2018,[44] i lywio'r gwaith o ystyried yr

---

[41] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2016 (Pennod 5) a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth Atodol, paragraff 2. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s60322/FIN5-08-17%20P1%20OB3%20Research%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20for%20the%20Draft%20Public%20Services%20Ombudsman%20.pdf ac ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

[42] Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 17 Ebrill 2018. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s74619/Letter%20from%20the%20Chair%20to%20the%20Independent%20Sector%20Complaints%20Adjudication%20Service%20-%2017%20April%202018.pdf

[43] Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 17 Ebrill 2018. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s74618/Letter%20from%20the%20Chair%20to%20the%20Welsh%20Independent%20Healthcare%20Association%20-%2017%20April%202018.pdf

[44] Llythyr oddi wrth Wasanaeth Annibynnol Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 28 Mehefin 2018. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s77230/Letter%20from%20the%20Independent%20Sector%20Complaints%20Adjudication%20Service%20to%20the%20Chair%20-%2028%20June%202018.pdf

amcangyfrif o’r costau y mae darparwyr gwasanaethau iechyd preifat yn debygol o fynd iddynt o ganlyniad i’r Bil.

11.8. Mae swyddogion hefyd wedi adolygu'r ymatebion i ymchwiliad ac ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag ystyried pwerau'r Ombwdsmon.[45]

## Crynodeb Gweithredol

11.9. Mae'r crynodeb gweithredol yn rhoi trosolwg o'r costau sy’n gysylltiedig â gwneud dim a gweithredu'r opsiynau a ystyriwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, fel y nodwyd ym Mhennod 10. Mae rhagor o fanylion yn y crynodeb o'r costau a'r manteision ym mharagraffau 11.83 hyd at 11.189. Rhoddir crynodeb o’r amcangyfrif o gyfanswm y costau a’r manteision ym Mhennod 9 hefyd.

**Gwneud dim**

11.10. Roedd Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2017-18 yn gofyn am wariant adnoddau net o £4,248,000, gyda gofyniad net am arian parod o £4,460,000 i *ddarparu gwasanaeth ar y lefel bresennol.*[46]

11.11. Lluniwyd amcangyfrif y gost o beidio ag ymestyn pwerau'r Ombwdsmon drwy ddefnyddio amcanestyniadau yr Ombwdsmon ar gyfer ei lwyth achosion a'r gwariant a nodwyd yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015-16. Mae'r amcangyfrif o gyfanswm y gost uniongyrchol gysylltiedig ar gyfer y pum mlynedd hyd at 2022-23 yn amrywio o £2,870,229 i £8,076,621.

**‘Costau a osgoir'**

11.12. Disgwylir i ddarpariaethau'r Bil liniaru'n rhannol y cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon a nodir yn y senario 'Gwneud Dim'. Mae'r amcangyfrif o gost arian parod y gostyngiad yn y llwyth achosion (neu'r 'costau a osgoir') dros bum mlynedd yn amrywio o £1,890,273 i £2,634,258.

---

[45] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2016, paragraff 5.2. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64290/Llythyr%20gan%20yr%20Ombwdsmon%20Gwasanaethau%20Cyhoeddus%20at%20y%20Cadeirydd%20-%20Asesiad%20Effaith%20Rheoleiddiol%20-%2014%20R.pdf

[46] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif 2017/18, Hydref 2016, paragraff 5.10. Ar gael yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s54586/FIN5-07-16%20P1%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20Estimate%20for%20the%20Financial%20Year%202017-18.pdf

## Costau uniongyrchol (neu’r costau sy'n wynebu'r Ombwdsmon a'i swyddfa)

### Costau uniongyrchol - Costau parhaus (neu gostau rheolaidd)

11.13. Disgwylir i'r darpariaethau newydd yn y Bil gynyddu llwyth achosion yr Ombwdsmon, hynny yw, nifer yr ymholiadau a/neu gwynion a wnaed iddo. Hefyd, bydd angen adnoddau ychwanegol yn sgil y pŵer i ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.

11.14. Mae costau refeniw parhaus yr Ombwdsmon, neu'r 'costau uniongyrchol', yn cynnwys cyflogau aelodau ychwanegol o staff ac arian ar gyfer uwchraddio’r swyddi presennol i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n ofynnol o ddeiliad y swydd. Maent hefyd yn cynnwys ffioedd proffesiynol, cyngor arbenigol, costau swyddfa a chostau gweinyddol (megis trwyddedau meddalwedd, costau ffôn, costau cyfathrebu eraill, argraffu, deunydd ysgrifennu, defnydd TG a chostau cymorth) a chostau eraill (megis costau hyfforddi, teithio a chynhaliaeth).

11.15. Mae costau parhaus uniongyrchol yr opsiynau a ffefrir ar gyfer y pwerau newydd yn y Bil i’w gweld yn Nhabl 5.

### Tabl 5: Costau refeniw uniongyrchol parhaus sy’n deillio o'r Bil (opsiynau a ffefrir), Blynyddoedd 1 i 5 (£)

| Darpariaeth | Blwyddyn 1 £ | Blwyddyn 2 £ | Blwyddyn 3 £ | Blwyddyn 4 £ | Blwyddyn 5 £ | Blynyddoedd 1-5 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Derbyn cwynion llafar | 41,000 | 41,000 | 41,000 | 41,000 | 41,000 | 205,000 |
| Galluogi ymchwiliadau ar ei liwt ei hun | 137,000 | 137,000 | 137,000 | 137,000 | 137,000 | 685,000 |
| Pŵer ategol i ymchwilio i elfen gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaeth cyhoeddus/preifat | 3,507 | 3,507 | 3,507 | 3,507 | 3,507 | 17,535 |
| Rôl o ran dyluniad cwynion, goruchwylio gweithrediad, a chasglu data | 137,000 | 137,000 | 137,000 | 137,000 | 137,000 | 685,000 |
| **Cyfanswm y costau uniongyrchol ychwanegol** | **318,507** | **318,507** | **318,507** | **318,507** | **318,507** | **1,592,535** |

### Costau uniongyrchol - pontio

11.16. Disgwylir i'r Ombwdsmon wynebu costau pontio, neu gostau untro, o tua £25,000. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chostau untro ar gyfer recriwtio aelodau ychwanegol o staff i swyddfa'r Ombwdsmon. Maent yn cynnwys y gost ddisgwyliedig ar gyfer recriwtio, dodrefn a gosodiadau

swyddfa ac offer TG, hyfforddiant cychwynnol a chynefino. Tybir y bydd angen gwario ar y rhain yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

**Costau uniongyrchol – crynodeb**

11.17. Ar y cyfan, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu mai £1,617,535 fydd cyfanswm y gost uniongyrchol i'r Ombwdsmon yn sgil darpariaethau'r Bil dros y cyfnod o bum mlynedd (gan gynnwys costau pontio a chostau parhaus).

**Costau anuniongyrchol – costau parhaus (neu gostau rheolaidd)**

11.18. Costau anuniongyrchol yw'r costau hynny yr eir iddynt gan gyrff eraill yr effeithir arnynt gan ddarpariaethau'r Bil. Mae'r costau parhaus a'r costau pontio yn gysylltiedig ag amser staff cyrff cyhoeddus a fydd yn ymateb i geisiadau'r Ombwdsmon am wybodaeth ynghylch cwynion, a chostau yn ystod yr ymchwiliadau a gynhelir. Mae disgwyl i gostau anuniongyrchol y pwerau arfaethedig i alluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwynion llafar yn gwynion sydd wedi'u gwneud yn briodol ac i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun arwain at gostau parhaus i'r cyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt gan y Bil. Mae natur y cwynion, ac unrhyw ymchwiliadau sy'n codi, yn amrywio. O'r herwydd, mae'r amser a gymerir gan y staff i ymdrin â hynny hefyd yn amrywio. O ystyried hyn, gwnaed amcangyfrif o ystod yr amser ychwanegol, a chyfanswm y gost barhaus gysylltiedig, sy'n debygol o wynebu cyrff cyhoeddus o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil.

11.19. Bydd y pŵer arfaethedig i ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i'w gwneud yn bosibl ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat yn arwain at gostau ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau o'r fath. Mae gwybodaeth am yr amcangyfrifon cost wedi'i nodi ym mharagraffau 11.76 i 11.81.

11.20. Cyfrifwyd mai cyfanswm y costau anuniongyrchol fyddai rhwng £47,205 a £71,820 y flwyddyn a rhwng £236,025 a £359,100 am bum mlynedd.

**Costau anuniongyrchol – costau pontio**

11.21. Mae'r cynnig a ffefrir i ddiwygio'r ddeddfwriaeth i roi rôl i'r Ombwdsmon ynghylch y safonau a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion hefyd yn debygol o arwain at gostau ychwanegol i'r cyrff cyhoeddus o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Mae'r rhain, fodd bynnag, yn debygol o

fod yn gostau pontio, neu gostau untro, i dalu am yr amser a gymerir gan y staff i wneud y newidiadau gofynnol i'r cronfeydd data perthnasol i allu casglu data am gwynion mewn modd mwy cyson.  Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y gost i'r holl gyrff cyhoeddus a chymdeithasau tai fyddai rhwng £10,362 a £31,020.

## Crynodeb – Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol (costau parhaus a chostau pontio)

11.22. Mae Tabl 6 yn dangos crynodeb o'r amcangyfrif o gyfanswm cost y cynigion a ffefrir ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd.  Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o'r gost i'r Ombwdsmon (neu'r costau 'uniongyrchol') a'r costau a wynebir gan gyrff eraill y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio arnynt (neu gostau 'anuniongyrchol').

### Tabl 6: Cyfanswm y costau parhaus sy'n deillio o'r Bil (opsiynau a ffefrir), Blynyddoedd 1 i 5 (£)

| Darpariaeth | Costau uniongyrchol[a] | | Costau anuniongyrchol[b] | | | | Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol[c] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Parhaus (5 mlynedd) | Pontio | Parhaus (5 mlynedd) | | Pontio | | CYFANSWM | |
| | | | Cost uned isel | Cost uned uchel | Cost uned isel | Cost uned uchel | Cost uned isel | Cost uned uchel |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Derbyn cwynion llafar | 205,000 | 5,000 | 80,805 | 109,335 | - | - | 290,805 | 319,335 |
| Galluogi ymchwiliadau ar ei liwt ei hun | 685,000 | 10,000 | 86,550 | 161,775 | - | - | 781,550 | 856,775 |
| Pŵer ategol i ymchwilio i elfen gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaeth cyhoeddus/preifat | 17,535 | - | 68,670 | 87,990 | - | - | 86,205 | 105,525 |
| Rôl o ran dyluniad cwynion, goruchwylio gweithrediad, a chasglu data | 685,000 | 10,000 | - | - | 10,362 | 31,020 | 705,362 | 726,020 |
| **Cyfanswm** | **1,592,535** | **25,000** | **236,025** | **359,100** | **10,362** | **31,020** | **1,863,922** | **2,007,655** |

**Nodiadau**

a Costau uniongyrchol yw'r rhai a wynebir gan yr Ombwdsmon yn sgil darpariaethau yn y Bil
b Costau anuniongyrchol yw'r rhai a wynebir gan gyrff eraill y mae darpariaethau'r Bil yn effeithio arnynt
c Amcangyfrif o gyfanswm cost y cynigion a ffefrir i gyflwyno deddfwriaeth i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon (fel y'i nodir ym Mhennod 10).

## Gwerth a manteision

11.23. Er nad yw'r gwerthoedd a'r manteision i'r awdurdodau rhestredig wedi cael eu cyfrifo, mae'n bosibl i'r darpariaethau o fewn y Bil arwain at

arbedion ariannol i'r sector cyhoeddus yn ehangach. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r arbedion a amcangyfrifir ddeillio o'r darpariaethau yn y Bil sy'n gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.  Nid yw gwerth yr arbedion yn hysbys.

## Tybiaethau ac ansicrwydd

11.24. Mae'r adran hon yn nodi'r tybiaethau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r amcangyfrif o gostau a manteision y Bil.  Dylai'r costau a'r manteision a gyfrifwyd gael eu hystyried fel yr amcangyfrifon gorau o'r costau a ddisgwylir yn sgil y pwerau yn y Bil.  Nodir disgrifiad o'r prif dybiaethau a wnaed yn y cyfrifon yn y paragraffau a ganlyn.

11.25. Mae'r holl ffigurau wedi cael eu cyfrifo i'r bunt agosaf. Mae rhagolygon llwyth achosion yr Ombwdsmon a nifer y cwynion wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

11.26. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r cyfrifiadau wedi'u seilio ar ddyddiad cychwyn o 1 Ebrill 2018 ac ar y dybiaeth y bydd costau pontio (neu gostau untro) yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym.

11.27. Mae'r costau wedi'u pennu dros gyfnod o bum mlynedd oherwydd gellir bod yn weddol sicr wrth lunio amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod hwn. Mae'r Ombwdsmon yn disgwyl cyrraedd cyflwr sefydlog o ran costau a manteision y pwerau newydd dair blynedd ar ôl y dyddiad y daw'r darpariaethau i rym.  Bydd y costau parhaus (neu'r costau rheolaidd) yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod o bum mlynedd.

11.28. Dangosir yr amcangyfrifon cost, a nodir yn Nhablau 5 hyd at 28, mewn termau arian parod.  Mae'r crynodeb, ym Mhennod 9, yn nodi'r cyfanswm gwerth o ran arian parod ac o ran gwerth presennol.  Mae gwerthoedd presennol wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EM o 3.5 y cant.[47]

11.29. Ar gyfer costau staff, cafodd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr i Yswiriant Gwladol a phensiynau yn 2017-18 eu defnyddio i lunio amcangyfrifon y cyfnod o bum mlynedd.

[47] Trysorlys EM, Green Book, Central Government Guidance on Appraisal and Evaluation.  Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/685903/The_Green_Book.pdf

Gwneud dim

11.30. Mae Pwyllgor Cyllid y Pumed Cynulliad yn craffu ar waith yr Ombwdsmon ac ystyriaethau ariannol ei swyddfa. Mae angen Amcangyfrifon i nodi'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn i'r Ombwdsmon gyflawni ei swyddogaethau statudol, ac eithrio cyflog yr Ombwdsmon ei hun (a chostau cysylltiedig), a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.

11.31. Roedd Amcangyfrif 2017-18 yn nodi bod Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad wedi gofyn i'r Ombwdsmon beidio â newid y meini prawf ar gyfer derbyn cwynion oherwydd y nifer cynyddol o gwynion a'r cyfyngiadau ar y gyllideb.[48] Roedd Amcangyfrif 2017-18 yn gofyn am wariant adnoddau net o £4,248,000, gyda gofyniad net arian parod o £4,460,000 i *ddarparu gwasanaeth ar y lefel bresennol.*[49] Yn amodol ar sylwadau ac argymhellion yr adroddiad hwn,[50] roedd y Pwyllgor Cyllid yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau.

11.32. Cyfrifwyd yr amcangyfrif o'r gost o beidio ag ymestyn pwerau'r Ombwdsmon drwy ddefnyddio amcanestyniadau'r Ombwdsmon ar gyfer y llwyth achosion hwn a'r gwariant a nodwyd yn ei Gyfrifon Blynyddol ar gyfer 2015-16.

11.33. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer llwyth achosion yr Ombwdsmon yn tybio y bydd cynnydd o 12 y cant y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â'r gyfradd flynyddol gyfartalog o 17 y cant y flwyddyn dros y cyfnod rhwng 2010-11 a 2015-16. Mae Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2016-17 yn dangos cynnydd o 13 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 2015-16. Er bod yr Ombwdsmon yn dweud nad oes tystiolaeth y bydd llai o lwyth achosion,[51] mae'r amcangyfrion hefyd yn nodi nifer a chost berthnasol cynnydd o 5 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion, y cyfeiriodd Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2017-18 ato.[52]

11.34. Mae'r amcangyfrif o gost y cynnydd yn y llwyth achosion yn tybio y byddai'r Ombwdsmon yn adlewyrchu'r costau ychwanegol yn yr

---

[48] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18, Tachwedd 2016, paragraff 7. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10815/cr-ld10815-w.pdf

[49] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif 2017/18, paragraff 5.10. Ar gael yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s54586/FIN5-07-16%20P1%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20Estimate%20for%20the%20Financial%20Year%202017-18.pdf

[50] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18, Tachwedd 2016. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10815/cr-ld10815-w.pdf

[51] Gwybodaeth a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Mehefin 2017.

[52] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18, Tachwedd 2016, paragraff 10. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10815/cr-ld10815-w.pdf

amcangyfrif blynyddol a gyflwynir i'r Cynulliad. Fodd bynnag, yn ôl yr Ombwdsmon, ni fu'n arferol cysylltu'r cynnydd yn ei gyllideb flynyddol â'r cynnydd yn ei lwyth achosion yn y ffordd gymesur hon.[53] Yn ei Amcangyfrif ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2017-18, mae'r Ombwdsmon yn nodi - er bod y baich achosion wedi cynyddu 112 y cant yn y cyfnod 2010-11 i 2015-16 - fod y costau uned wedi gostwng 65 y cant.[54] Dywed yr Ombwdsmon ei fod yn parhau i adolygu arferion gweithio a strwythur y sefydliad i ymdopi â'r cynnydd yn y llwyth achosion. Cyfeiria'r Ombwdsmon hefyd at ei ymrwymiad i gyfyngu adnoddau ariannol ei swyddfa i 0.03 y cant o floc Cymru.[55]

'Costau a osgoir'

11.35. Drwy nodi materion a phryderon yn fuan ac ymestyn ei ymchwiliadau, dywed yr Ombwdsmon y gall atal rhagor o fethiannau a fyddai'n arwain at ragor o gwynion. Dywed yr Ombwdsmon fod hyn yn gymwys yn lleol neu ar lefel Cymru gyfan. Mae hyn yn rhoi mwy o sylw ar wella ac atal yn hytrach na cheisio gwneud iawn am bethau ar ôl iddynt fynd o chwith.

11.36. Mae'r Ombwdsmon yn rhagweld y bydd gwella'r modd yr ymdrinir â chwynion (yn bennaf drwy'r safonau cwynion) ynghyd â dysgu'n ehangach, yn gyflymach ac yn gynharach o gwynion (yn bennaf yn sgil y pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun) hefyd yn osgoi rhywfaint o'r cynnydd a ragwelir yn y llwyth achosion.

11.37. Mae'r Ombwdsmon wedi paratoi amcanestyniadau o'i lwyth achosion o dan y Bil. Mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar brofiad staff yr Ombwdsmon a'r gwaith ymchwil a wnaed ganddynt, gan gynnwys ystyried effaith cynlluniau ombwdsmyn eraill. Mae'r amcanestyniadau yn adlewyrchu'r disgwyliad y cyrhaeddir 'cyflwr sefydlog' ar ôl tair blynedd ac felly mae'r amcanestyniadau o'r llwyth gwaith yn ystod y ddwy flynedd gyntaf yn dangos yr effaith raddol a gaiff cyflwyno'r pwerau newydd. Yn 2020-21, ac erbyn diwedd y Pumed Cynulliad, mae'r Ombwdsmon yn amcangyfrif gostyngiad yn y llwyth achosion yn sgil y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac yn sgil y rôl ymdrin â chwynion a fydd gyfwerth â 5 y cant a 10 y cant, yn eu trefn, o'r cwynion

---

[53] Gwybodaeth a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Awst 2017)
[54] Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18, Hydref 2016, paragraff 5.2. Ar gael yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s54586/FIN5-07-16%20P1%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20Estimate%20for%20the%20Financial%20Year%202017-18.pdf
[55] Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18, Hydref 2016, paragraff 5.5. Ar gael yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s54586/FIN5-07-16%20P1%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20Estimate%20for%20the%20Financial%20Year%202017-18.pdf

a wnaed yn 2015-16. Mae'r Ombwdsmon yn rhagweld twf parhaus yn effaith y pwerau newydd yn ystod y ddwy flynedd ddilynol.

11.38. Mae gwerth yr elfen osgoi costau' wedi'i gyfrifo drwy gymhwyso 'cost uned' i'r gostyngiad yn nifer yr achosion wrth gymharu'r amcanestyniad o gynnydd blynyddol o 12 y cant mewn cwynion o dan Ddeddf 2005 ac amcangyfrif y llwyth achosion o dan y Bil. Mae hyn yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r effaith ar lwyth achosion yr Ombwdsmon o blith yr opsiynau a ffefrir o ran ymdrin â chwynion a'r pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun.

11.39. Darparwyd amcangyfrifon hefyd ar gyfer osgoi costau gyda chynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon o 5 y cant y flwyddyn (y mae paragraff 11.33 yn cyfeirio ato).

11.40. Er yr ystyrir mai dyma'r amcangyfrif gorau, mae ansicrwydd ynghylch yr amcanestyniadau llwyth achosion ac, o ganlyniad, y graddau y gellid osgoi costau a'r amserlen ar gyfer hynny. Nid yw'n bosibl ychwaith rhagweld pa gyrff cyhoeddus y gwneir cwynion yn eu herbyn yn y dyfodol na lle yr osgoir costau yn sgil darpariaethau'r Bil. Fodd bynnag, mae Tabl 2 ac Atodiad C yn nodi gwybodaeth mewn perthynas â chwynion am gyrff y sector cyhoeddus sy'n rhoi syniad i ba gyrff cyhoeddus y gallai'r cynnydd yn y llwyth achosion yn y dyfodol fod yn berthnasol. Dengys y data, yn y blynyddoedd diwethaf, fod y rhan fwyaf o gwynion am gyrff cyhoeddus wedi ymwneud ag awdurdodau lleol a chyrff y GIG (tua 43 y cant a 42 y cant yn y drefn honno yn 2016-17).

### Costau uniongyrchol

11.41. Mae'r amcangyfrifon o'r costau i'r Ombwdsmon (neu'r costau 'uniongyrchol') yn adlewyrchu'r amcanestyniadau o'r llwyth achosion hyd at 2022-23, gan gynnwys effaith darpariaethau'r Bil arnynt. Maent hefyd yn cynnwys nifer o dybiaethau sydd wedi cael eu llunio gan ddefnyddio profiad staff yr Ombwdsmon a dadansoddiad ei swyddfa o'r achosion,[56] gan gynnwys:

- amseriad, cwmpas, cymhlethdod a graddfa cwynion a'r amser sydd ei angen i'w trin;
- sawl cwyn ysgrifenedig o dan Ddeddf 2005 a fyddai'n cael ei gwneud ar lafar yn lle hynny o dan y darpariaethau yn y Bil. O gofio'r amser ychwanegol a gymerwyd i gofnodi cwynion llafar, byddai hyn yn arwain at lwyth gwaith ychwanegol i swyddfa'r Ombwdsmon;

[56] Gwybodaeth a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Mai 2017).

- byddai 25 o gwynion ychwanegol yn cael eu gwneud bob blwyddyn yn sgil y ddarpariaeth arfaethedig i'r Ombwdsmon dderbyn cwynion llafar, ac i ymchwiliad gael ei gynnal mewn perthynas â chwarter y rhain (neu chwe ymchwiliad ychwanegol bob blwyddyn). Nodir manylion pellach ym mharagraff 11.109;
- yr amser ychwanegol i ystyried a yw cwyn lafar wedi'i gwneud yn briodol, ac i ystyried y gŵyn cyn ac yn ystod ymchwiliad llawn;
- mae'r cyfrifiad Cyfwerth ag Amser Llawn yn tybio 220 o ddiwrnodau cyflogedig y flwyddyn, sy'n gyfystyr â 260 o ddiwrnodau wythnos y flwyddyn llai'r hawl gwyliau blynyddol (32 diwrnod) a gwyliau banc (8 diwrnod), a phum diwrnod yr wythnos a 7.4 awr y dydd (h.y. 37 awr yr wythnos);
- nid yw'r duedd yn nifer y cwynion (fel y dangosir yn Ffigur 1 a Thabl 2) wedi adlewyrchu'r cynnydd cyffredinol yn llwyth achosion yr Ombwdsmon. O ystyried hyn, nid yw'r amcangyfrif o gostau ar gyfer y pŵer arfaethedig i dderbyn cwynion llafar a wneir yn briodol a'r pŵer ategol i ymchwilio i elfennau sy'n ymwneud â gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gofal cyhoeddus/preifat yn adlewyrchu twf yn nifer y cwynion;
- bydd yr Ombwdsmon yn cynnal rhwng 10 a 15 ymchwiliad ar ei liwt ei hun bob blwyddyn. Cynhelir un neu ddau o'r rhain i ymchwilio i holl ddarpariaeth gwasanaeth, neu ran o'r ddarpariaeth, yn sgil pryderon;
- mae'r gost uned fesul cwyn o ran costau refeniw uniongyrchol yn adlewyrchu'r gwariant a nodwyd yng Nghyfrifon Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2015-16;
- mae'r amcangyfrif o gostau staff eraill, megis hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth, swyddfa, gweinyddu a chymorth, yn adlewyrchu'r gost bresennol yr eir iddi gan swyddfa'r Ombwdsmon; a
- bydd angen 25 diwrnod o gyngor proffesiynol allanol y flwyddyn ar gyfer y pŵer i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac ymgymryd â rôl mewn perthynas â'r safonau a'r gweithdrefnau o ran ymdrin â chwynion. Tybir y bydd angen y gallu arbenigol a chlinigol allanol hwn o ystyried cwmpas, natur a chymhlethdod posibl yr achosion a wneir i'r Ombwdsmon. Mae'r amcangyfrif yn adlewyrchu'r costau presennol a wynebir gan yr Ombwdsmon am gyngor proffesiynol allanol.

11.42. Rhoddodd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 2016 awdurdod - o 1 Ebrill 2018 - i Ombwdsmon

Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (NIPSO) gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Ymgynghorodd yr Ombwdsmon a'i swyddfa â NIPSO wrth ddatblygu drafft cyntaf yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil.

11.43. Mae'r tybiaethau y mae'r amcangyfrifon cost yn deillio ohonynt yn adlewyrchu trafodaethau â'r NIPSO ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen. Bydd angen dwy swydd Cyfwerth ag Amser Llawn ychwanegol. Mae'r Ombwdsmon yn rhagweld y bydd y staff hyn, yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf, yn paratoi'r meini prawf drafft cyntaf ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun, yn ymgynghori ac yn ystyried sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cyn eu gosod gerbron y Cynulliad. Bydd y staff hefyd yn sefydlu fframwaith ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Bydd hyn yn cynnwys drafftio a datblygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun i'w cyhoeddi. Bydd hefyd yn cynnwys gwaith cynllunio, cyswllt mewnol ac allanol a dadansoddiadau o'r llwyth achosion a thueddiadau, yn ogystal â thasgau cysylltiedig eraill i sicrhau bod cynigion ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun yn bodloni'r gofyniad statudol bod ymchwiliad o'r fath er budd y cyhoedd ac yn cyflawni bwriad polisi y ddarpariaeth newydd hon. Disgwylir y bydd y tasgau hyn yn cymryd 50 y cant o amser y staff yn y flwyddyn gyntaf, gyda'r adnodd sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnal ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun, a fydd yn cynnwys amser ar gyfer:

- penderfynu ar y cylch gorchwyl, y fethodoleg a'r cynllun ymchwilio;
- ymgynghori â chomisiynwyr eraill ac Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- paratoi ac ymgynghori ar gynigion ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Bydd y cynnig yn nodi sut y cyflawnwyd y meini prawf a gyhoeddwyd, yn ogystal â'r rheswm dros yr ymchwiliad;
- ymgymryd â'r ymchwiliad; a
- chyflawni tasgau yn dilyn yr ymchwiliad, gan gynnwys gwaith dilynol.

11.44. Ar ôl rhoi'r Bil ar waith, er y bydd angen cynnal gwaith dadansoddi, cynllunio a chysylltu yn rheolaidd neu'n barhaus, mae'r Ombwdsmon yn amcangyfrif y bydd mwy o amser staff yn cael ei dreulio ar ymchwiliadau. Yn y dyfodol, rhagwelir y bydd yr amser a dreulir ar ymchwiliadau yn cynyddu i 75 y cant o lwyth gwaith y swyddogion sy'n cynnal ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun, gyda 25 y cant yn weddill ar gyfer cynllunio a dadansoddi'r llwyth achosion a thueddiadau.

11.45. At ddiben amcangyfrif costau, cymerwyd yn ganiataol y bydd y darpariaethau mewn grym o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

11.46. Mae'r costau wedi'u pennu dros gyfnod o bum mlynedd oherwydd gellir bod yn weddol sicr wrth lunio amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod hwn. Bydd y costau parhaus (neu'r costau rheolaidd), fodd bynnag, yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod o bum mlynedd.

11.47. Mae'r cyflogau a'r costau cysylltiedig yn seiliedig ar ganolbwynt yr ystod cyflog perthnasol. Mae costau staff yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr (13.8 y cant).[57] Gweithredir dau gynllun pensiwn gan yr Ombwdsmon ar ran y staff presennol: Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS); a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg[58]. Tybir y bydd y staff a gaiff eu recriwtio i swyddi newydd yn aelodau o gynllun pensiwn PCSPS ac mae'r costau cyflog felly yn cynnwys cyfraniadau perthnasol y cyflogwr. Cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer cyflog pensiynadwy aelod PCSPS am gyflogau sy'n amrywio o £22,001 a £74,500 yw rhwng 20.9 y cant a 22.1 y cant.[59]

11.48. Mae canran o 35 y cant o ran cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn gan y cyflogwyr wedi cael ei gynnwys wrth lunio'r amcangyfrifon o'r costau.

11.49. Mae paragraff 17(5)(b) o Atodlen 1 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru, wrth archwilio'r cyfrifon, fod yn fodlon a yw'r Ombwdsmon wedi gwneud trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Tybir y bydd y gwaith ar gyfer hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r gwaith archwilio presennol, neu fel estyniad iddo. Fel y cyfryw, at ddibenion yr amcangyfrif o gostau, tybir na fydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynyddu'r ffi archwilio bresennol, nac yn codi tâl archwilio ychwanegol yng ngoleuni'r newid hwn i'r gofynion ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol yr Ombwdsmon .

11.50. Mae adran 71 o'r Bil yn rhoi awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio i'r Ombwdsmon mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Mae'n diwygio Atodlen 6 i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 (O.S. 2016/182 (Cy.76)) (Safonau'r

[57] Cyflogau a lwfansau CThEM: Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Tabl 2.1 Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/rates-and-allowances-national-insurance-contributions/rates-and-allowances-national-insurance-contributions [cyrchwyd Mehefin 2017].

[58] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cyfrifon Blynyddol 2015-16, tudalen 54. Ar gael yn: https://www.ombwdsmon.cymru/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2018/04/Annual-Accounts-2015-16-W.pdf

[59] Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil, EPN389 - Cyfraddau Cyfraniad Cyflogwyr o fis Ebrill 2015. Ar gael yn: http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/employers/employer-pension-notices/epn389/ [cyrchwyd Mehefin 2017].

Gymraeg) i gynnwys yr Ombwdsmon fel un o'r sefydliadau y mae'r safonau'n gymwys yn benodol iddynt.

11.51. Mae'r Ombwdsmon yn darparu gwasanaeth dwyieithog mewn nifer o ddeunyddiau a gohebiaeth, gan gynnwys gohebiaeth sylfaenol a chylchlythyron, y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu. Mae'r Ombwdsmon yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal: ei arfer arferol yw cyfathrebu dros y ffôn, cynnal ymchwiliadau a chyfathrebu'n gyffredinol yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn dibynnu ar ddewis y person sy'n cysylltu ag ef neu ei swyddfa.[60]

11.52. Mae'r Memorandwm Esboniadol i Safonau'r Gymraeg yn nodi'r materion wrth asesu'r gost ychwanegol yr eir iddi wrth gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 (y Rheoliadau).[61] Mae'n nodi 'hyd yn oed pan ddarparwyd amcangyfrif o'r gost, neu ddim costau o gwbl, pwysleisiodd nifer o sefydliadau ei bod yn anodd iddynt ddarparu data cywir heb wybod pa rai o'r safonau drafft y byddai disgwyl iddynt gydymffurfio â nhw'.[62] Mae'n dweud hefyd:

> Mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar bob sefydliad drwy Hysbysiad Cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r ystod o safonau y gellir eu gosod ar sefydliad. Nid oes raid i'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad gydymffurfio â phob safon. Efallai y bydd sefydliad yn gorfod cydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau yn unig ac nid mewn sefyllfaoedd eraill yn dibynnu ar yr hyn a nodir yn ei hysbysiad cydymffurfio.[63]

11.53. O ystyried y lefel bresennol o wasanaethau dwyieithog a ddarperir gan yr Ombwdsmon, mae'n annhebygol y bydd costau ychwanegol sylweddol o gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaeth a bennir yn y Rheoliadau. Fodd bynnag, pe bai'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gydymffurfio â chategoriau eraill o safonau (fel safonau gweithredol a chadw cofnodion) mae'n bosibl y bydd angen i'w swyddfa wneud newidiadau o ran ei arferion, ei weithdrefnau a'i ddulliau o gadw cofnodion.

11.54. Bydd yr Ombwdsmon yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau a achosir gan y Bil fel rhan o'i waith beunyddiol, gyda hysbysiadau yn cael eu

---

[60] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Polisi Iaith Gymraeg, (y fersiwn ddiweddaraf: Mawrth 2017). Ar gael yn: http://www.ombudsman-wales.org.uk/~/media/Files/Documents_cy/Welsh%20Language%20Policy%20-%20Review%20March%202017%20-%20%20Final%20for%20publication.ashx [cyrchwyd Mehefin 2017].

[61] Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/sub-ld10587-em/sub-ld10587-em-w.pdf [cyrchwyd Chwefror 2019].

[62] Paragraff 7. Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/sub-ld10587-em/sub-ld10587-em-w.pdf [cyrchwyd Chwefror 2019].

[63] Tudalen 6, Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/sub-ld10587-em/sub-ld10587-em-w.pdf [cyrchwyd Chwefror 2019].

cynnwys yn y cyfathrebiadau a'r deunyddiau presennol, ac felly bydd braidd dim costau. Caiff y rhain eu gwneud gyda'r adnoddau presennol.

11.55. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd i brofi effaith newid y tybiaethau mewn perthynas â nifer y cwynion a gaiff eu gwneud ar lafar a'r rhai sy'n cynnwys elfen yn ymwneud â gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat. Cyflwynir y canlyniadau mewn perthynas â chostau uniongyrchol yn Nhablau 13 a 23, tra bod Tablau 17, 18 a 25 yn nodi canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd o gostau anuniongyrchol.

11.56. Mae'r cyfrifiad Cyfwerth ag Amser Llawn (neu 'FTE') yn Nhabl 13 yn adlewyrchu'r dull o dalgrynnu a fabwysiadwyd yn Nhabl 12 lle mae'r ffigur a nodir – ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn bennaf – wedi'i dalgrynnu i un FTE. Mae'r cyfrifiad ar gyfer pob aelod o staff FTE arall wedi'i dalgrynnu i un lle degol. Mae'r costau wedi'u cyfrifo pro-rata ar sail FTE o gymharu â'r rhai a nodir yn Nhabl 12. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd a welir yn nhablau 13, 17, 18, 23 a 25 wedi'u cynnwys fel enghraifft yn unig; nid ydynt wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrif gorau o oblygiadau cost y Bil.

Costau anuniongyrchol

11.57. Bydd darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar awdurdodau rhestredig (fel y'u rhestrir yn Atodlen 3 o'r Bil ) ac felly maent hwythau hefyd yn debygol o wynebu costau ychwanegol. Mae'r awdurdodau rhestredig yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned), y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, awdurdodau parciau cenedlaethol, darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol (neu 'breifat'). Mae'r costau, y cyfeirir atynt fel 'costau anuniongyrchol' yn gysylltiedig â'r cynnydd a amcangyfrifir yn nifer yr achosion a wneir i'r Ombwdsmon, a fyddai'n gofyn am wybodaeth gan yr awdurdodau rhestredig cyn ac yn ystod ymchwiliadau.

11.58. Mae'r paragraffau a ganlyn yn nodi'r prif dybiaethau a wnaed wrth amcangyfrif y costau ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill a darparwyr gwasanaethau iechyd preifat yr effeithir arnynt gan ddarpariaethau'r Bil (neu gostau 'anuniongyrchol').

11.59. Nodir yr amcangyfrif o'r costau anuniongyrchol i gyrff cyhoeddus eraill yn Nhablau 16, 22, 24 a 27. Dywed yr Ombwdsmon eu bod wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar waith gyda chynrychiolwyr byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, a bod y cyfrifon yn adlewyrchu'r consensws eang o ran yr effaith debygol. Yn ôl yr Ombwdsmon, mae'r awdurdodau lleol a

chyrff y GIG yng Nghymru, rhyngddynt, yn cynrychioli 86 y cant o'r holl gwynion.[64]

11.60. Mae Tabl 2 ac Atodiad C yn nodi gwybodaeth mewn perthynas â chwynion am gyrff y sector cyhoeddus ac felly, yn rhoi syniad i ba gyrff cyhoeddus y gallai'r cynnydd yn y llwyth achosion yn y dyfodol fod yn berthnasol. Fodd bynnag, nid yw'n bosib rhagweld yn sicr ar ba gyrff cyhoeddus y bydd y costau ychwanegol yn disgyn na natur cwynion yn y dyfodol. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodir yr amcangyfrif o'r cyfanswm costau anuniongyrchol yn unig; ni chyfrifwyd amcangyfrifon ar gyfer awdurdodau rhestredig unigol o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

11.61. Tybir y bydd cyrff cyhoeddus eraill o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn ysgwyddo'r costau parhaus a'r costau pontio - h.y., byddai'r staff presennol yn ymgymryd â'r gwaith ychwanegol sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil ac ni ddarperir adnoddau na chyllid ychwanegol. Er nad yw'n bosibl dweud pa rai o'r awdurdodau rhestredig a fyddai'n cael eu cynnwys, noda'r Ombwdsmon fod y gwaith ymgynghori a wnaed gan OB3 gyda staff hawliadau'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn cefnogi'r farn y gellid gwneud y gwaith ychwanegol, ar y cyfan, gan ddefnyddio adnoddau presennol.[65]

11.62. Nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys unrhyw gostau anuniongyrchol (costau parhaus neu gostau pontio) a fyddai'n gysylltiedig â chyrff cyhoeddus yn cyflogi staff ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith cynyddol sy'n deillio o'r dyletswyddau sy’n gysylltiedig â chwynion ac ymchwiliadau yn sgil darpariaethau'r Bil.

11.63. Nodir gwybodaeth ynglŷn â’r costau anuniongyrchol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat ym mharagraffau 11.76 hyd at 11.81.

Costau anuniongyrchol - pŵer i dderbyn cwynion llafar ac i ymchwilio ar ei liwt ei hun

11.64. Mae'r amcangyfrif gorau o’r costau anuniongyrchol sy’n gysylltiedig â'r pwerau newydd arfaethedig wedi cael ei lywio gan brofiad yr Ombwdsmon a chan sgyrsiau a gafwyd â rhanddeiliaid. Mae'r

---

[64] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth Atodol, tudalen 4. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

[65] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth Atodol. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

amcangyfrif wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio 'cost uned' ar gyfer cwyn. Mae'r gost uned hon yn adlewyrchu'r tybiaethau a ganlyn:

- nid yw'r cwynion a wneir i'r Ombwdsmon yn union yr un fath. Nid yw'r ymchwiliadau a wneir gan yr Ombwdsmon yr un fath ychwaith.
- mae'r cwynion yn ymwneud â gwahanol feysydd gwasanaeth, ac mae'r amser sydd ei angen i ymdrin â'r cwynion yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, mae cwynion sy'n ymwneud ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a chynllunio gan amlaf yn cymryd mwy o amser i'w prosesu ac i ymdrin â hwy na'r rheini sy'n ymwneud â gwasanaethau eraill. O'r herwydd, mae amcangyfrifon o'r costau yn adlewyrchu 'cyfartaledd' yr amser sydd ei angen i ymdrin â chŵyn neu ymchwiliad.
- mae teitlau swyddi'n amrywio ymysg cyrff o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Bwriad teitlau'r swyddi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw cynrychioli'n fras lefel y swyddogion sy'n ymgymryd â'r gwaith o ymdrin â chwynion ac ymchwiliadau.
- mae'r cyflogau'n cyfateb i'r amcangyfrif gorau ar sail staff amser llawn sy'n gweithio 260 diwrnod a thâl y flwyddyn, a phum diwrnod yr wythnos gan weithio 7.4 awr y dydd (h.y. 37 awr yr wythnos).
- mae'r amcangyfrifon yn nodi'r costau ar sail cyflogau gros. Tybir y bydd y staff yn aelodau o'r cynllun pensiwn ac felly mae'r amcangyfrif o gostau staff yn cynnwys cyfraniadau perthnasol y cyflogwr o ran Yswiriant Gwladol a phensiwn (neu 'argostau'). Yn yr un modd â chostau uniongyrchol, cymhwyswyd cyfradd sengl o 35 y cant i'r costau cyflogau gros ar gyfer argostau.

11.65. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd i brofi effaith newid y tybiaethau mewn perthynas â nifer y cwynion a gaiff eu gwneud ar lafar. Mae'r canlyniadau, a gyflwynir yn Nhabl 17, yn dangos nifer y cwynion, a'r gost anuniongyrchol gysylltiedig, lle y mae cyfran y cwynion llafar yn 20 y cant, 30 y cant a 40 y cant. Yn unol â'r tybiaethau ar gyfer yr amcangyfrif o gostau uniongyrchol (yn Nhabl 16), mae Tabl 17 yn tybio y bydd nifer y cwynion ac ymchwiliadau ychwanegol sy'n deillio o'r pŵer i dderbyn cwynion llafar a wneir yn briodol yn parhau'n gyson dros y pum mlynedd yr aed ati i fesur goblygiadau ariannol y Bil ar eu cyfer.

11.66. Mae Tabl 18 yn nodi amcangyfrifon cost dros bum mlynedd pe bai nifer y cwynion ac ymchwiliadau ychwanegol yn cynyddu yn unol â llwyth achosion yr Ombwdsmon. Nodir rhagor o wybodaeth ym mharagraff 11.122.

11.67. Mae tablau 17 a 18 wedi'u cynnwys fel enghraifft yn unig; nid yw'r costau wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrif gorau o oblygiadau ariannol y Bil.

Costau anuniongyrchol – rôl safonau cwynion

11.68. Mae'r costau anuniongyrchol ar gyfer cyrff o fewn yr awdurdodaeth sy'n deillio o rôl safonau cwynion yr Ombwdsmon yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion yn addasu'r gronfa ddata a'r systemau Technoleg Gwybodaeth (TG) cyfredol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer paratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu bod y goblygiadau amser i ymgymryd ag addasiadau o'r fath yn fach iawn.[66]

11.69. Tybiwyd y byddai angen rhwng diwrnod a thridiau o amser swyddog i addasu'r cronfeydd data perthnasol a'r systemau TG i dderbyn data ynghylch cwynion mewn modd mwy cyson. At hynny, byddai'r aelod o staff sy'n gyfrifol am oruchwylio systemau rheoli cwynion, sef Rheolwr y Tîm Cwynion fel arfer, yn ymgymryd â thasgau cysylltiedig. Tybiwyd mai cyflog gros Rheolwr y Tîm Cwynion fydd £30,000 y flwyddyn. Fel yn achos yr amcangyfrifon ar gyfer costau staff ychwanegol mewn perthynas ag agweddau eraill ar y Bil, tybiwyd mai 35 y cant o werth y cyflog gros fyddai Cyfraniadau'r Cyflogwr ar gyfer Yswiriant Gwladol a phensiwn (neu 'argostau').

11.70. Yn sgil gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, awgrymwyd mai'r unig gostau ychwanegol fyddai'r rheini i gyrff cyhoeddus yn deillio o'r rôl safonau cwynion yn ymwneud â newidiadau i systemau, gan gynnwys systemau TG. Nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys cost gweithgareddau eraill sy'n ymwneud ag ymdrin â chwynion, megis hyfforddiant a chostau TG eraill. Mae cyrff sector cyhoeddus eisoes yn ymgymryd â gweithgareddau eraill, megis hyfforddi a lledaenu arferion da, o dan y darpariaethau presennol. Hefyd, mae swyddfa'r Ombwdsmon yn dweud y bydd yn defnyddio'r dulliau cyfredol o weithio gydag awdurdodau rhestredig, fel ei fyrddau trafod, cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gyda'r swyddogion sy'n ymdrin â chwynion a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. O'r herwydd, nid ystyrir bod cost y gweithgareddau hyn yn oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Bil.

11.71. Yn seiliedig ar wybodaeth a phrofiad y staff, mae'r Ombwdsmon yn amcangyfrif y byddai angen i 36 o'r cyrff cyhoeddus sydd o fewn ei

[66] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth Atodol. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

awdurdodaeth ymgymryd â’r gwaith safonau cwynion hwn. Nodir rhagor o wybodaeth ym mharagraff 11.178.

11.72. Tybiwyd y byddai'r gost fesul cymdeithas dai yr un fath â chyrff cyhoeddus eraill o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon ac y byddai’r costau’n gymwys i'r cymdeithasau tai mwyaf, h.y. 30 o'r 90 cymdeithas dai yng Nghymru.

Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol – gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd.

11.73. Amcangyfrifir bod tua un y cant o'r cwynion a geir o'r sector iechyd (neu saith achos) bob blwyddyn yn cynnwys elfen o wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'r gost ychwanegol a ysgwyddir gan swyddfa'r Ombwdsmon wedi'i chyfrifo drwy gymhwyso cost uned, sy'n deillio o'r gwariant a nodwyd gan yr Ombwdsmon, i nifer yr achosion.

11.74. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd i brofi'r effaith ar gostau uniongyrchol yn sgil newid y tybiaethau mewn perthynas â nifer y cwynion sy'n cynnwys elfen yn ymwneud â gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat. Mae'r canlyniadau, a gyflwynir yn Nhabl 23, yn dangos nifer y cwynion a'r gost gysylltiedig os yw'r duedd yn adlewyrchu'r cynnydd a ragwelir yn llwyth achosion cyffredinol yr Ombwdsmon. Mae'n mabwysiadu'r tybiaethau y seiliwyd yr amcangyfrifon arnynt (hynny yw, cynnydd o 5 y cant a 12 y cant y flwyddyn) a hefyd cynnydd blynyddol o 10 y cant ac 20 y cant, a fabwysiadwyd ar gyfer y dadansoddid sensitifrwydd. Mae tabl 23 wedi'i gynnwys fel enghraifft yn unig; nid yw'r costau wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrif gorau o oblygiadau ariannol y Bil.

11.75. Noda'r Ombwdsmon nad yw ei swyddfa ar hyn o bryd yn cadw data mewn perthynas â chwynion sy'n cynnwys elfen o wasanaeth preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd pan fo'r claf wedi derbyn triniaeth feddygol gan gynnwys gofal nyrsio gan ddarparwyr o'r sector cyhoeddus ac o'r sector preifat. Mae'r Ombwdsmon yn amcangyfrif bod achosion o'r fath yn cynrychioli un y cant o gwynion y sector iechyd neu saith o achosion y flwyddyn. Mae'r Ombwdsmon yn tybio y gellid ymgorffori'r gost uniongyrchol gysylltiedig o ymdrin â'r achosion hyn yn yr adnoddau sydd ar gael i'w swyddfa ac na fydd felly yn arwain at geisiadau

ychwanegol am adnoddau.[67] Fodd bynnag, nodir amcangyfrif o gost y ddarpariaeth a ffefrir i'r Ombwdsmon (neu gost 'uniongyrchol') ym mharagraff 11.151.

11.76. Dywed yr Ombwdsmon na fyddai cyrff cyhoeddus o fewn ei awdurdodaeth yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol yn sgil yr opsiynau a ystyriwyd ar gyfer y ddarpariaeth hon.

11.77. Dywed yr Ombwdsmon nad oes ganddo fynediad, na'r hawl i gael mynediad at y manylion am nifer y cwynion, a'r costau sy'n gysylltiedig â hwy, a wnaed am wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae Gwasanaeth Annibynnol Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd (ISCAS) yn dyfarnu'n annibynnol ar gwynion cleifion ynghylch aelodau ISCAS ond nid yw hyn yn cwmpasu'r holl ddarparwyr gofal iechyd preifat. Nid yw'r wybodaeth arall sydd wedi'i chyhoeddi yn cwmpasu'r holl ddarparwyr gofal iechyd preifat.

11.78. Ym mis Ebrill 2018, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Wasanaeth Annibynnol Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd (ISCAS)[68] a Chymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru[69] i ofyn am wybodaeth i lywio'r asesiad o oblygiadau ariannol y Bil ar gyfer darparwyr gwasanaethau iechyd preifat. Mae'r ymateb gan ISCAS, a dderbyniwyd ar 28 Mehefin 2018[70], yn nodi mai dim ond dau ddyfarniad Cam 3 oedd ar y gweill bryd hynny mewn perthynas â'i aelodau yng Nghymru. Er mai dim ond un o'r achosion hyn oedd yn ymwneud â darparwyr gwasanaethau iechyd cyhoeddus a phreifat, rhoddodd ISCAS y manylion ar gyfer y ddau achos er mwyn dangos yr ystod o gostau posibl.

11.79. Nododd ISCAS yn yn ei lythyr beth fyddai'r gost i ddarparwyr preifat o ymdrin â chŵyn ac ymchwiliad, gan nodi'r amser a'r gost fesul diwrnod (ac eithrio gorbenion cyflogaeth neu 'argostau') ar gyfer coladu cofnodion meddygol, cyfweliadau a chofnodi ymchwiliadau. Darparwyr preifat a fyddai'n ysgwyddo'r costau hyn o dan ddarpariaethau'r Bil. Mae'r llythyr gan ISCAS hefyd yn nodi'r costau o ran tâl y dyfarnwr, tâl ar

---

[67] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth Atodol, (gweler tudalennau 28 a 29). Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

[68] Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 17 Ebrill 2018. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s74619/Letter%20from%20the%20Chair%20to%20the%20Independent%20Sector%20Complaints%20Adjudication%20Service%20-%2017%20April%202018.pdf

[69] Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 17 Ebrill 2018. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s74618/Letter%20from%20the%20Chair%20to%20the%20Welsh%20Independent%20Healthcare%20Association%20-%2017%20April%202018.pdf

[70] Llythyr oddi wrth Wasanaeth Annibynnol Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 28 Mehefin 2018. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s77230/Letter%20from%20the%20Independent%20Sector%20Complaints%20Adjudication%20Service%20to%20the%20Chair%20-%2028%20June%202018.pdf

gyfer tystion arbenigol a’r tâl ar gyfer gweinyddu’r achos. Nid yw’r costau hyn yn berthnasol o dan ddarpariaethau’r Bil gan nad yw’r Ombwdsmon yn codi tâl am ymdrin â chŵyn.

11.80. Nid ystyrir bod amcangyfrifon sy’n seiliedig ar gostau yr aed iddynt mewn perthynas â dau achos, pan mai dim ond un o’r rheini oedd yn ymwneud â darparwyr iechyd cyhoeddus a phreifat, yn ddigon cadarn. O gofio hynny, defnyddiwyd y costau anuniongyrchol yr aed iddynt gan gyrff cyhoeddus i roi syniad o'r amcangyfrif o oblygiadau ariannol y Bil ar gyfer darparwyr gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Nodwn fod y costau uned isel a'r costau uned uchel i gyrff y sector cyhoeddus, a ddangosir yn Nhablau 14, 15, 20 a 21, yn cyflwyno amcangyfrif o gostau cyn ac yn ystod ymchwiliad llawn lle y mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i'r gŵyn yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, wrth arfer y pŵer a gynigir yn y Bil, dim ond rhan o gŵyn (yn hytrach na chŵyn cyfan) y bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio iddi, a dim ond pan na fydd modd ymchwilio i'r mater yn effeithiol nac yn gyflawn heb ymchwilio hefyd i faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Gan nad oes data o ran y costau yr eir iddynt gan ddarparwyr gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd, ystyrir mai'r costau uned isel a'r costau uned uchel i gyrff y sector cyhoeddus yw'r amcangyfrif gorau.

11.81. At ddiben yr amcangyfrif o gost, tybir y bydd darparwyr gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd yn mynd i gostau cyn ymchwiliad. O ystyried y nifer fechan o gwynion a ragwelir, tybir hefyd y bydd yr holl gwynion yn symud ymlaen i ymchwiliad llawn ac felly bydd costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo.

### Gwerth a manteision

11.82. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi nodi manteision posibl i aelodau'r cyhoedd a chyrff cyhoeddus o fewn yr awdurdodaeth sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil. Mae’r manteision nas cyfrifwyd wedi’u nodi yn yr adran Opsiynau Polisi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Crynodeb o'r costau a'r manteision

11.83. Mae’r adran hon yn nodi gwybodaeth fanwl am yr amcangyfrif o gostau a manteision y Bil. Fel y nodwyd ym mharagraffau 11.4 ac 11.5, mae'r data ariannol wedi cael ei lywio gan wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ombwdsmon. Cyflwynir yr amcangyfrif o’r costau a'r manteision dros

gyfnod o bum mlynedd, gan adlewyrchu'r tybiaethau ym mharagraffau 11.24 hyd at 11.81.

## Gwneud dim

11.84. Mae Pwyllgor Cyllid y Pumed Cynulliad yn craffu ar waith yr Ombwdsmon ac ystyriaethau ariannol ei swyddfa. Mae angen Amcangyfrifon i nodi'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn i'r Ombwdsmon gyflawni ei swyddogaethau statudol, ac eithrio cyflog yr Ombwdsmon ei hun (a chostau cysylltiedig), a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru. Roedd yr Amcangyfrif ar gyfer 2017-18 yn gofyn am wariant adnoddau net o £4,248,000, gyda gofyniad net am arian parod o £4,460,000. Yn amodol ar sylwadau ac argymhellion yr adroddiad hwn,[71] roedd y Pwyllgor Cyllid yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau.

11.85. Mae'r amcangyfrif o'r gost o beidio ag ymestyn pwerau'r Ombwdsmon wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio amcanestyniadau'r Ombwdsmon o'i lwyth achosion am y cyfnod hyd at 2022-23, a nodir yn Nhabl 7. Mae'n rhoi amcanestyniad o'r llwyth achosion gyda chynnydd o 5 y cant a 12 y cant y flwyddyn (gweler paragraff 11.33).

11.86. Mae Tabl 8 yn nodi amcangyfrif y gost sy'n gysylliedig â'r cynnydd mewn llwyth achosion, gan ddefnyddio'r amcanestyniadau a nodir yn Nhabl 7 a'r gwariant a nodir yn Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2015-16. Dengys hyn fod cost gronnus y cynnydd a ragwelir yn y llwyth achosion am y pum mlynedd hyd at 2022-23 yn amrywio o £2,870,229 i £8,076,621. Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraff 11.34, yn ôl yr Ombwdsmon ni fu'n arferol iddo gysylltu'r cynnydd yn ei gyllideb flynyddol â'r cynnydd yn ei lwyth achosion yn ffordd gymesur hon.

[71] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18, Tachwedd 2016. Ar gael yn: **http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10815/cr-ld10815-w.pdf**

## Tabl 7: Llwyth achosion yr Ombwdsmon, achosion gwirioneddol ac amcanestyniadau, 2010-11 hyd at 2022-23 (nifer yr achosion)

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwyth achosion (nifer) | 2,829 | 3,883 | 4,987 | 5,392 | 5,766 | 5,999 | 6,804 |

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwyth achosion (nifer) | | | | | | |
| Cynnydd o 5 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion[a] | 7,144 | 7,501 | 7,876 | 8,270 | 8,684 | 9,118 |
| Cynnydd o 12 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion[b] | 7,620 | 8,535 | 9,559 | 10,706 | 11,991 | 13,430 |

### Nodiadau

a Amcangyfrif o'r cynnydd yn y llwyth achosion fel y nodir yn Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2017-18

b Amcanestyniadau'r Ombwdsmon o'i lwyth achosion (Gorffennaf 2017)

## Tabl 8: Cost yr amcanestyniad o'r cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon (£)

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif o'r costau uned fesul achos:** | | | | | | |
| Costau ymdrin â chwynion (£)[a] | 3,008,000 | | | | | |
| Llwyth achosion (nifer)[b] | 5,999 | | | | | |
| Costau uned fesul cwyn (£)[c] | 501 | | | | | |

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Deddf 2005:** | | | | | | |
| **Cynnydd o 5 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion** | | | | | | |
| Amcanestyniad o'r llwyth achosion (nifer yr achosion)[d] | 7,501 | 7,876 | 8,270 | 8,684 | 9,118 | 41,449 |
| Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn (nifer yr achosion) | 357 | 375 | 394 | 414 | 434 | 1,974 |
| Amcangyfrif o'r gost ychwanegol o flwyddyn i flwyddyn (£)[e] | 178,857 | 187,875 | 197,394 | 207,414 | 217,434 | 988,974 |
| Amcangyfrif o'r gost gronnus ychwanegol o 2018-19 (£) | 178,857 | 366,732 | 564,126 | 771,540 | 988,974 | 2,870,229 |
| **Cynnydd o 12 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion** | | | | | | |
| Amcanestyniad o'r llwyth achosion (nifer achosion)[f] | 8,535 | 9,559 | 10,706 | 11,991 | 13,430 | 54,221 |
| Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn (nifer achosion) | 915 | 1,024 | 1,147 | 1,285 | 1,439 | 5,810 |
| Amcangyfrif o'r gost ychwanegol o flwyddyn i flwyddyn (£)[e] | 458,415 | 513,024 | 574,647 | 643,785 | 720,939 | 2,910,810 |
| Amcangyfrif o'r gost gronnus ychwanegol o 2018-19 (£) | 458,415 | 971,439 | 1,546,086 | 2,189,871 | 2,910,810 | 8,076,621 |

### Nodiadau

a Gwariant yr aeth yr Ombwdsmon iddo yn 2015-16 ar gyfer Nod 2, *Darparu gwasanaeth ymdrin â chwynion o ansawdd uchel, sy'n ystyried ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cwynion yn drylwyr ond yn gymesur, ac sy'n cyfleu penderfyniadau'n glir.*[72]

[72] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cyfrifon Blynyddol 2015-16, Nodyn 4, Costau Gweithredu o ran Nodau ac Amcanion, tudalen 46. Ar gael yn:

b Llwyth achosion yr Ombwdsmon, 2015-16.[73]
c Cost uned (yn deillio o ffigurau a. a b. uchod),
d Amcanestyniad o'r llwyth achosion, gan dybio cynnydd o 5 y cant yn y llwyth achosion y flwyddyn - Tabl 7.
e Amcangyfrif o effaith bosibl cost y cynnydd yn y llwyth achosion o flwyddyn i flwyddyn. Cafwyd hwn drwy gymhwyso'r gost uned fesul cwyn i'r cynnydd mewn achosion o flwyddyn i flwyddyn.
f Amcanestyniad o'r llwyth achosion, gan dybio cynnydd o 12 y cant yn y llwyth achosion y flwyddyn - Tabl 7.

11.87. Mae'r Ombwdsmon wedi darparu ar gyfer cynnydd mewn llwyth achosion drwy leihau'r gost uned fesul cwyn[74] yn hytrach na gofyn am gynnydd cymesur mewn cyllid.

11.88. Dywed yr Ombwdsmon ei fod yn parhau i adolygu arferion gweithio a strwythur y sefydliad i ymdopi â chynnydd yn y llwyth achosion. Dywed ei fod ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad mawr o Dechnoleg Gwybodaeth (TG), gan gynnwys y system rheoli achosion.[75] Barn yr Ombwdsmon yw na fyddai ei swyddfa yn gallu ymdrin â'r lefel a ragwelir o gynnydd yn y llwyth achosion heb adnoddau ychwanegol.[76] Dywed yr Ombwdsmon, hyd nes y bydd yr adolygiad o TG wedi'i gwblhau, nad yw'n bosibl amcangyfrif faint o dwf y gellid ei amsugno o fewn yr adnoddau presennol.[77] Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r Ombwdsmon gynnwys unrhyw geisiadau ychwanegol am adnoddau i fodloni'r cynnydd a ragwelir yn y llwyth achosion yn y cyllidebau blynyddol a gyflwynir i'r Pwyllgor Cyllid.

## 'Osgoi costau'

11.89. Bydd darpariaethau'r Bil yn osgoi rhan o'r cynnydd a ragwelir yn y llwyth achosion drwy ganolbwyntio ar wella ac atal yn hytrach na cheisio gwneud iawn am bethau ar ôl y digwyddiad. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

---

https://www.ombwdsmon.cymru/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2018/04/Annual-Accounts-2015-16-W.pdf [cyrchwyd Mehefin 2017].

[73] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cyfrifon Blynyddol 2015-16, Cyfanswm llwyth achosion, tudalen 6. Ar gael yn: https://www.ombwdsmon.cymru/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2018/04/Annual-Accounts-2015-16-W.pdf

[74] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18, Tachwedd 2016. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10815/cr-ld10815-w.pdf

[75] Gwybodaeth a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Awst 2017).

[76] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2016, (gweler Pennod 6). Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64290/Llythyr%20gan%20yr%20Ombwdsmon%20Gwasanaethau%20Cyhoeddus%20at%20y%20Cadeirydd%20-%20Asesiad%20Effaith%20Rheoleiddiol%20-%2014%20R.pdf

[77] Gwybodaeth a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Awst 2017).

- nodi problemau a phryderon yn fuan ac ymestyn ymchwiliadau i helpu i atal rhagor o fethiannau a fyddai'n arwain at ragor o gwynion; a
- gwella'r modd yr ymdrinnir â chwynion (yn bennaf drwy ddyluniad arfaethedig y cwynion, goruchwylio gweithrediad, a rôl casglu data) a dysgu ehangach, cyflymach a chynharach o'r cwynion a wneir (yn bennaf yn sgil y pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun) i helpu i osgoi rhan o'r cynnydd a ragwelir yn y llwyth achosion.

11.90. Yn Nhabl 9, nodir y cynnydd a ragwelir yn llwyth achosion yr Ombwdsmon o dan Ddeddf 2005 (gan dybio cynnydd blynyddol o 5 y cant a 12 y cant). Mae hefyd yn dangos yr amcangyfrif gorau o effaith yr opsiynau a ffefrir ar y llwyth achosion yn sgil darpariaethau'r Bil ynghylch ymdrin â chwynion a'r pŵer i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun.

## Tabl 9: Amcanestyniad o lwyth achosion yr Ombwdsmon o dan Fil a Deddf 2005, (nifer yr achosion)

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnydd o 5 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion** | | | | | | | | |
| Amcanestyniad o'r llwyth achosion – Deddf 2005[a] | 5,999 | 6,804 | 7,144 | 7,501 | 7,876 | 8,270 | 8,684 | 9,118 |
| Amcanestyniad o'r llwyth achosion – Bil[b] | | | | 7,433 | 7,701 | 7,575 | 7,514 | 7,453 |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn y llwyth achosion (nifer yr achosion):** | | | | **(68)** | **(175)** | **(695)** | **(1,170)** | **(1,665)** |
| Gostyngiad yn deillio o'r pŵer arfaethedig i: | | | | | | | | |
| gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun | | | | (23) | (58) | (232) | (390) | (555) |
| ymgymryd â safonau a gweithdrefnau ymdrin â chwynion | | | | (45) | (117) | (463) | (780) | (1,110) |
| **Cynnydd o 12 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion** | | | | | | | | |
| Amcanestyniad o'r llwyth achosion – Deddf 2005[c] | 5,999 | 6,804 | 7,620 | 8,535 | 9,559 | 10,706 | 11,991 | 13,430 |
| Amcanestyniad o'r llwyth achosion – Bil[d] | | | | 8,458 | 9,347 | 9,806 | 10,375 | 10,977 |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn y llwyth achosion (nifer yr achosion):** | | | | **(77)** | **(212)** | **(900)** | **(1,616)** | **(2,453)** |
| Gostyngiad yn deillio o'r pŵer arfaethedig i: | | | | | | | | |
| gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun | | | | (26) | (71) | (300) | (539) | (818) |
| ymgymryd â gweithdrefnau o ran ymdrin â chwynion. | | | | (51) | (141) | (600) | (1,077) | (1,635) |

**Nodiadau**

a Llwyth achosion gwirioneddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2015-16 a 2016-17 a'r amcanestyniadau ar gyfer 2017-18 i 2022-23 (Tabl 7), sy'n tybio cynnydd blynyddol o 5 y cant yn y llwyth achosion.

b Amcanestyniadau o'r llwyth achosion a ddarparwyd gan yr Ombwdsmon i ddangos effaith bosibl darpariaethau'r Bil gyda chynnydd o 5 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion.

c Llwyth achosion gwirioneddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2015-16 a 2016-17 a'r amcanestyniadau ar gyfer 2017-18 i 2022-23 (Tabl 7), sy'n tybio cynnydd blynyddol o 5 y cant yn y llwyth achosion.

d Amcanestyniadau o'r llwyth achosion a ddarparwyd gan yr Ombwdsmon i ddangos effaith bosibl darpariaethau'r Bil gyda chynnydd o 5 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion.

11.91. Mae Tabl 10 yn nodi amcangyfrif y costau a osgoir sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil, gan ddefnyddio'r gost unedol a nodir yn Nhabl 8.

Mae hyn yn dangos mai gwerth osgoi costau' rhwng blwyddyn 1 a blwyddyn 5 yw rhwng £1,890,273 a £2,634,258.

**Tabl 10: Costau a osgoir yn sgil darpariaethau'r Bil (Nifer yr achosion a £)**

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnydd o 5 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion** | | | | | | |
| Gostyngiad yn y llwyth achosion: Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a'r Awdurdod Safonau Cwynion (nifer yr achosion)[a] | (68) | (175) | (695) | (1,170) | (1,665) | (3,773) |
| Amcangyfrif o'r costau a osgoir (£)[b] | 34,068 | 87,675 | 348,195 | 586,170 | 834,165 | 1,890,273 |
| Yn sgil y pwerau arfaethedig a ganlyn: | | | | | | |
| Cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun (£) | 11,523 | 29,058 | 116,232 | 195,390 | 278,055 | 630,258 |
| Safonau a gweithrefnau ymdrin â chwynion(£) | 22,545 | 58,617 | 231,963 | 390,780 | 556,110 | 1,260,015 |
| **Cynnydd o 12 y cant y flwyddyn yn y llwyth achosion** | | | | | | |
| Gostyngiad yn y llwyth achosion: Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a'r Awdurdod Safonau Cwynion (nifer yr achosion)[c] | (77) | (212) | (900) | (1,616) | (2,453) | (5,258) |
| Amcangyfrif o'r costau a osgoir (£)[d] | 38,577 | 106,212 | 450,900 | 809,616 | 1,228,953 | 2,634,258 |
| Yn sgil y pwerau arfaethedig a ganlyn: | | | | | | |
| Cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun (£) | 13,026 | 35,571 | 150,300 | 270,039 | 409,818 | 878,754 |
| Safonau a gweithrefnau ymdrin â chwynion(£) | 25,551 | 70,641 | 300,600 | 539,577 | 819,135 | 1,755,504 |

**Nodiadau**

a Gostyngiad yn nifer yr achosion fel y'u nodir yn Nhabl 9 lle y mae llwyth achosion yr Ombwdsmon yn cynyddu 5 y cant y flwyddyn.
b Arbedion cost a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r costau uned fesul achos fel y nodir yn Nhabl 8.
c Gostyngiad yn nifer yr achosion fel y'u nodir yn Nhabl 9 lle y mae llwyth achosion yr Ombwdsmon yn cynyddu 12 y cant y flwyddyn.
d Arbedion cost a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r costau uned fesul achos fel y nodir yn Nhabl 8.

## Y pŵer i gael cwynion llafar

### Opsiwn 1: Gwneud dim

### Costau uniongyrchol

11.92. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol.

**Costau anuniongyrchol**

11.93. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

**Gwerth a manteision**

11.94. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu unrhyw werth ychwanegol na manteision cysylltiedig.

**Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol**

11.95. Byddai anghydraddoldeb y sefyllfa bresennol yn parhau a byddai Deddf 2005 yn parhau i fod yn 'groes' i Ran 11, Pennod 1, Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Opsiwn Dau: diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i alluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwynion a wneir ar lafar neu'n ysgrifenedig, gan gynnwys drwy ddulliau electronig, a gweithredu ar y cwynion hynny (yr opsiwn a ffefrir).

**Costau uniongyrchol**

11.96. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, bydd y pŵer i dderbyn cwynion llafar yn gwella cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal drwy ddileu'r rhwystrau i wasanaethau'r Ombwdsmon ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed neu ddifreintiedig yn ein cymdeithas. Bydd y gallu i dderbyn cwynion llafar fel rhai a wneir yn briodol yn arwain at gynnyddu llwyth achosion a llwyth gwaith yr Ombwdsmon, yn ogystal â newid y modd y mae rhai aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â'i swyddfa a'r prosesau cysylltiedig.

11.97. O dan ddarpariaethau Deddf 2005, rhaid i'r holl gwynion i'r Ombwdsmon gael eu gwneud neu eu hatgyfeirio yn ysgrifenedig (oni bai bod yr Ombwdsmon yn arfer y disgresiwn i dderbyn cwyn nad yw'n ysgrifenedig, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3.29). Mae cwynion a wneir yn ysgrifenedig fel arfer yn barod i'w symud ymlaen a'u hystyried. Mae'r gwaith cychwynnol yn cynnwys cydnabod derbyn y gŵyn (gan ofyn am ragor o wybodaeth weithiau) a chreu cofnod electronig. Fel arfer, byddai hyn yn cymryd rhwng 15 a 25 munud.

11.98. Bydd gwneud cwyn lafar yn arwain at waith ychwanegol; wrth gymryd y gŵyn lafar ac ystyried a yw cwyn lafar wedi'i gwneud yn briodol. Mae'r Ombwdsmon yn cynnig na fyddai'r un unigolyn yn gyfrifol am gymryd

cwyn lafar ac yna ystyried neu benderfynu yn ei chylch, h.y. dylid cadw'r dyletswyddau hyn ar wahân.

11.99. Amcangyfrifir mai tua 10 y cant o'r achwynwyr fydd am wneud y cwyn dros y ffôn. Mae'r amcangyfrif hwn yn adlewyrchu profiad y staff o ymdrin ag ymholiadau a chynghori ar y ffordd o wneud cwyn i'r Ombwdsmon.

11.100. Yn 2015-16, cafod yr Ombwdsmon 2,268 o gwynion.[78] Gan ddefnyddio'r amcangyfrif y bydd 10 y cant o achwynwyr am wneud eu cwyn ar lafar, amcangyfrifir mai 227 o gwynion bob blwyddyn fydd yn cael eu gwneud ar lafar.

Cymryd y gŵyn

11.101. Mae'r sgiliau sydd eu hangen wrth gymryd cwynion llafar yn wahanol i'r sgiliau gweinyddol sydd eu hangen i brosesu cwynion ysgrifenedig. Mae'r achwynwyr yn aml yn ofidus ac yn ei chael yn anodd canolbwyntio pan fyddant yn siarad â staff, ac mae angen ymdrin â galwadau'n ofalus er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n cymryd y gŵyn yn ymddwyn yn sensitif ac yn cael yr holl wybodaeth berthnasol gan yr achwynydd.

11.102. Bydd yr achwynwyr sy'n cysylltu i wneud cwyn lafar yn anfodlon ar wasanaeth cyhoeddus neu'n ddig, a byddant yn credu eu bod wedi dioddef anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys achwynwyr nad oes ganddynt unrhyw brofiad o ymdrin â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, neu rai sydd wedi cael trafferth wrth ymgysylltu â hwy. Bydd gan rai achwynwyr broblemau iechyd meddwl neu anghenion penodol eraill. Efallai y bydd rhai achwynwyr yn glir ac yn eglur iawn, yn gallu esbonio eu cwyn, pa anghyfiawnder a achoswyd a'r canlyniad y maent yn ei geisio. Fodd bynnag, bydd eraill yn ystyried, ar y cyfan, fod y gwasanaeth a gawsant yn wael ond bydd angen eu harwain drwy'r gŵyn. Ar y pwynt cyswllt cyntaf hwn, mae angen i staff daro'r cydbwysedd cywir; sicrhau bod y gŵyn yn 'perthyn' i'r achwynydd ac, ar yr un pryd, helpu'r achwynydd i nodi a diffinio'r gŵyn benodol a'r anghyfiawnder a achoswyd.

11.103. Bydd y math o wybodaeth a drafodir yn aml yn gymhleth, fel cwynion a wneir mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ac efallai y byddant yn ymwneud â nifer o ddigwyddiadau dros gyfnod hir. Yn aml, bydd gwybodaeth yn sensitif, fel cwynion sy'n ymwneud â

[78] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cyfrifon Blynyddol 2015-16, Cyfanswm llwyth achosion, tudalen 6. Ar gael yn: https://www.ombwdsmon.cymru/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2018/04/Annual-Accounts-2015-16-W.pdf [cyrchwyd Mehefin 2017].

materion iechyd meddwl, cyflyrau iechyd eraill neu ddod i gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn peri gofid weithiau. Er enghraifft, pan fydd plentyn wedi'i dderbyn i ofal neu fod perthynas wedi marw. Mae casglu gwybodaeth sensitif ac arwyddocaol gan yr achwynydd yn dasg hynod bwysig sy'n gofyn am sgiliau a diplomyddiaeth ac sy'n debygol o gymryd peth amser. Nid tasg weinyddol yn unig ydyw ac mae'n bosibl y bydd angen dilyn sawl trywydd i'w chyflawni; gan ddefnyddio sgiliau datrys problemau i sicrhau bod y gŵyn yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn nodi'r anghyfiawnder a achoswyd yn glir. Bydd gan staff sy'n cymryd cwynion llafar nod penodol a dull gweithredu eang ond byddant yn defnyddio disgresiwn a sgiliau datrys problemau i nodi'r dull mwyaf priodol ym mhob achos.

11.104. Gan gydnabod y bydd angen sgiliau gwahanol ar gyfer cymryd cwynion llafar ac y bydd lefel uwch o gyfrifoldeb, mae'r amcangyfrif costau yn adlewyrchu uwchraddio swydd bresennol yn swyddfa'r Ombwdsmon, yn ogystal â chreu swydd ychwanegol (paragraffau 11.105 i 11.112).

Ystyried neu benderfynu ynghylch y gŵyn

11.105. Rhaid i'r Ombwdsmon fod yn fodlon bod cwyn wedi'i gwneud yn briodol. Er enghraifft, mae angen i'r Ombwdsmon fod yn sicr bod gan unrhyw gynrychiolydd trydydd parti awdurdod priodol i wneud cwyn ar ran person arall. Mae angen i'r gŵyn hefyd gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- beth y mae'r corff wedi'i wneud yn anghywir;
- effaith yr hyn a ddigwyddodd ar yr achwynydd neu'r sawl y mae'r achwynydd yn cwyno ar ei ran;
- beth y mae'r achwynydd yn gobeithio y bydd yr Ombwdsmon yn ei gyflawni o ganlyniad i ystyried y gŵyn;
- sut a phryd y codwyd y mater yn uniongyrchol â'r corff a ddarparodd y gwasanaeth cyn i'r gŵyn gael ei chyflwyno i'r Ombwdsmon neu pam nad oedd yn rhesymol gwneud hynny;
- y dogfennau mwyaf perthnasol y mae angen i'r Ombwdsmon eu hystyried wrth ystyried y gŵyn; a
- chaniatâd i adael i'r Ombwdsmon gysylltu â sefydliad arall, sef y corff y mae'r gŵyn yn cael ei gwneud mewn cysylltiad â hi.

11.106. Mae'n cymryd llawer iawn mwy o amser i ymdrin â chŵyn lafar na'r rhai sy'n dod i law swyddfa'r Ombwdsmon fel arfer. Mae angen cynnal cyfweliad â'r achwynydd ar gyfer cwynion llafar hefyd, ac mae'n rhaid eu trefnu'n unol â'r arferion cyfredol. Mae'r amser sydd ei angen ar gyfer cyfweliadau o'r fath yn amrywio'n sylweddol. O brofiad swyddfa'r

Ombwdsmon, i fesur y gost, byddai'n rhesymol amcangyfrif rhwng 30 a 40 munud ar gyfer pob cwyn lafar.

11.107. Bydd swyddog sy'n bwriadu cymryd cwyn lafar yn gwneud gwaith paratoi cyn y cyfweliad, a all ychwanegu amser i'r broses. Ar ôl cymryd y gŵyn, mae angen i'r swyddog ei chofnodi'n ysgrifenedig. Mae'n rhaid gwneud hyn er mwyn gallu ystyried y gŵyn y yn barhaus ac, o bosibl, cael cytundeb achwynydd. Mae'n cymryd 30 munud ar gyfartaledd i gwblhau'r broses, ond eto, gall hynny amrywio. Profiad yr Ombwdsmon a'i swyddfa yw bod yr achwynwyr sy'n gwneud cwynion llafar yn aml yn cysylltu yn ôl yn fwy rheolaidd ar y cam cynnar hwn. Mae'n arferol ychwanegu sylwadau ac awgrymu bod gwneud newidiadau i'r gŵyn ar y cam hwn. Mae hyn oll yn cymryd amser ychwanegol wrth ymdrin â'r gŵyn.

11.108. Yn gryno, at ddibenion mesur y gost, amcangyfrifir y bydd yn cymryd dwy awr yn hwy i ganfod bod cwyn lafar wedi'i gwneud yn briodol o gymharu â chŵyn ysgrifenedig.

11.109. O'r 227 o gwynion y disgwylir iddynt gael eu gwneud o dan y Bil (y cyfeirir atynt ym mharagraff 11.100), amcangyfrifir y câi 202 o gwynion y flwyddyn eu gwneud o dan y darpariaethau yn Neddf 2005, h.y. y cânt eu gwneud yn ysgrifenedig os na fyddai'r Ombwdsmon yn gallu derbyn cwynion llafar. Byddai'r 25 sy'n weddill yn gwynion ychwanegol bob blwyddyn, h.y., gan aelodau'r cyhoedd na allant gwyno'n ysgrifenedig. Mae hyn yn gyson â'r dadansoddiad o lwyth achosion yr Ombwdsmon. Yn benodol, nifer y cwynion a wneir dros y ffôn ond nad yw'r achwynwr yn dychwelyd cadarnhad ysgrifenedig o gywirdeb y datganiad a anfonwyd ato gan staff yr Ombwdsmon sy'n ymdrin â chwynion.[79] O'r 25 cwyn ychwanegol a ddisgwylir bob blwyddyn, mae'r Ombwdsmon yn rhagweld y bydd yn cynnal ymchwiliadau mewn perthynas â chwarter, neu 6, ohonynt.

11.110. Mae'r Ombwdsmon yn amcangyfrif y bydd yn cymryd 15 awr i ymdrin â phob cwyn ychwanegol cyn ymchwilio iddi a 95 awr arall i gynnal ymchwiliad llawn.

11.111. Mae'r Ombwdsmon yn cynnig na fyddai'r aelod o staff sy'n cymryd cwyn lafar yn gyfrifol am ystyried neu benderfynu ar y gŵyn. Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod yr Ombwdsmon a'i staff yn sicrhau annibyniaeth drwy'r broses, gan drin yr achwynydd a'r corff y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn deg. Mae cadw'r dyletswyddau hyn ar wahân hefyd yn helpu i

[79] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - gwybodaeth ychwanegol (Mai 2017).

osgoi unrhyw ganfyddiad bod yr Ombwdsmon a'i staff yn gweithredu fel eiriolwyr i'r achwynydd.

11.112. Mae Tabl 11 yn nodi'r cyfrifiad ar gyfer nifer y staff ychwanegol (a fynegir fel staff Cyfwerth ag Amser Llawn, (FTE)) sydd ei hangen ar gyfer y pŵer i dderbyn cwynion llafar a wneir yn briodol. Mae'n dangos y bydd angen un aelod ychwanegol o staff, sef swyddog gwaith achos.

**Tabl 11: Y staff ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer derbyn cwynion llafar a wneir yn briodol (Nifer yr achwynwyr, oriau a staff Cyfwerth ag Amser Llawn)**

Cwynion llafar – costau uniongyrchol – oriau ychwanegol

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer** | | |
| Cwynion[a] | 2,268 | | |
| Nifer y cwynion llafar[b] | 227 | | |
| Y nifer ohonynt sydd: | | | |
| yn gwynion ysgrifenedig o dan Ddeddf 2005 y disgwylir iddynt newid i fod yn gŵyn lafar o dan y Bil[c] | 202 | | |
| Nifer y cwynion ychwanegol o dan y Bil | 25 | | |
| Nifer yr ymchwiliadau ychwanegol o dan y Bil[d] | 6 | | |
| **Amser ychwanegol wrth gymryd cwyn lafar:** | **Oriau fesul achos** | **Cyfanswm Oriau** | |
| Derbyn bod y gŵyn lafar wedi'i gwneud yn briodol (Oriau)[e] | 2 | 454 | |
| Amser cyn ymchwiliad (Oriau)[f] | 15 | 375 | |
| Amser i gynnal ymchwiliad (Oriau)[g] | 95 | 570 | |
| **Cyfanswm Oriau[h]** | | **1,399** | |
| Amser ychwanegol sydd ei angen ar gyfer cwyn lafar (Oriau): | | | |
| **Oriau a weithir fesul blwyddyn (cyfwerth ag amser llawn):** | | | |
| Diwrnodau gwaith fesul blwyddyn (Dyddiau) | 220 | | |
| Oriau a weithir fesul wythnos (Oriau) | 7.4 | | |
| Oriau a weithir fesul blwyddyn (Oriau)[i] | 1,628 | | |
| **Nifer y staff ychwanegol sydd eu hangen (Cyfwerth ag Amser Llawn)[j]** | | | **1** |

**Nodiadau:**

a Nifer y cwynion a gafwyd gan yr Ombwdsmon yn 2015-16.

b Amcangyfrifir mai 10 y cant o gwynion o dan y Bil fydd yn cael eu gwneud ar lafar.

c Tybiaeth o gyfran y cwynion a geir ar lafar o dan y Bil (fel y'u nodir yn b) a fyddai wedi cael eu gwneud o dan Ddeddf 2005.

d Tybiaeth y bydd yr Ombwdsmon yn symud 25 y cant o gwynion ymlaen i ymchwiliadau llawn bob blwyddyn (h.y. 25 y cant o'r 25 cwyn ychwanegol neu chwe chŵyn ychwanegol y flwyddyn)

e Tybiaeth y bydd yn cymryd dwy awr yn hwy i weld a yw cwyn lafar wedi'i gwneud yn briodol nag y byddai yn achos cwyn ysgrifenedig (dwy awr ar gyfer pob un o'r 227 o gwynion llafar).

f Tybiaeth o'r amser ar gyfer ymdrin â phob cwyn cyn yr ymchwiliad llawn (15 awr ar gyfer pob un o'r 25 cwyn ychwanegol y flwyddyn).

g Tybiaeth o'r amser ar gyfer ymdrin â phob ymchwiliad llawn (95 awr ar gyfer pob un o'r chwe ymchwiliad ychwanegol y flwyddyn).

h Tybiaeth o gyfanswm yr amser a dreulir bob blwyddyn wrth ymdrin â'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n deillio o'r pŵer i dderbyn cwynion llafar a wneir yn briodol.

i Tybiaeth o gyfanswm yr oriau a weithiwyd fesul aelod o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE), gan adlewyrchu wythnos 37 awr, 260 diwrnod cyflogedig y flwyddyn llai gwyliau blynyddol a gwyliau banc.

j Nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn ychwanegol (FTE), a gyfrifwyd drwy rannu'r cyfanswm amser (yn h) gan gyfanswm yr oriau fesul FTE (yn j), wedi'i thalgrynnu.

11.113. Byddai uwchraddio swydd aelod presennol o staff (fel y cyfeirir ato ym mharagraffau 11.101 i 11.104) yn arwain at gostau cyflog ychwanegol (gan gynnwys 'argostau') yn unig. Byddai penodi aelod ychwanegol o staff (fel y cyfeirir ato ym mharagraffau 11.105 i 11.112) yn arwain at gostau refeniw cysylltiedig eraill, yn ogystal â chyflogau ychwanegol a chostau cysylltiedig. Mae'r costau hyn yn ymwneud â hyfforddi, teithio a chynhaliaeth. Bydd costau swyddfa, gweinyddol a chymorth parhaus hefyd yn gysylltiedig â'r swydd newydd, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd, costau ffôn, costau cyfathrebu eraill, deunydd ysgrifennu, argraffu a thechnoleg Gwybodaeth (TG) a chostau cymorth. Byddai hefyd gostau pontio (neu 'untro') yn gysylltiedig â chreu'r swydd newydd, gan gynnwys costau recriwtio, dodrefn swyddfa a ffitiadau (fel desg, cadair, lle i storio ffeiliau, ffôn, manion, monitor, stand ac offer swyddfa sylfaenol eraill), caledwedd TG (cyfrifiadur a monitor) a chostau gosod (gan gynnwys costau ar gyfer gweithio symudol), pasys diogelwch, hyfforddiant cychwynnol a chynefino. Mae amcangyfrif o’r costau parhaus a'r costau pontio i swyddfa'r Ombwdsmon ar gyfer yr opsiwn hwn o’r flwyddyn gyntaf hyd at y bumed flwyddyn i'w weld yn Nhabl 12.

**Tabl 12: Costau refeniw uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r pŵer i dderbyn cwynion llafar, yn gostau parhaus a chostau pontio (£)**

| | Blwyddyn 1 £ | Blwyddyn 2 £ | Blwyddyn 3 £ | Blwyddyn 4 £ | Blwyddyn 5 £ | Blynyddoedd 1-5 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau refeniw parhaus:** | | | | | | |
| **Costau staff** | | | | | | |
| Costau cyflog[a]: Uwchraddio swydd Swyddog Gwaith Achosion oherwydd y cyfrifoldebau ychwanegol ac uwch [b] | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 | **15,000** |
| Swydd Swyddog Gwaith Achosion newydd (lefel uwch)[c] | 32,000 | 32,000 | 32,000 | 32,000 | 32,000 | **160,000** |
| Costau eraill o ran staff: | | | | | | |
| Costau hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth[d] | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | **5,000** |
| **Costau eraill** | | | | | | |
| Costau swyddfa, costau gweinyddol a chostau sy'n gysylltiedig â'r swydd newydd[d] | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | **25,000** |
| **Cyfanswm costau refeniw parhaus** | **41,000** | **41,000** | **41,000** | **41,000** | **41,000** | **205,000** |
| Costau pontio (neu gostau 'untro') [d] | 5,000 | - | - | - | - | **5,000** |
| **Cyfanswm y costau uniongyrchol** | **46,000** | **41,000** | **41,000** | **41,000** | **41,000** | **210,000** |

**Nodiadau**

a Mae costau cyflog yn cynnwys cyflog gros ac argostau (y tybir iddynt fod yn 35 y cant o gost gros y cyflog)

b Cyfeirir at hyn ym mharagraffau 11.101 i 11.104.

c Bydd angen i aelod ychwanegol o staff ymgymryd â gwaith i gadarnhau bod cwyn wedi'i gwneud yn briodol (gweler paragraff 11.112 a Thabl 11)

d Bydd penodi aelod ychwanegol o staff yn arwain at gostau refeniw cysylltiedig eraill; costau parhaus a chostau pontio (gweler paragraff 11.113).

## Dadansoddiad sensitifrwydd

11.114. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd i brofi effaith newid y tybiaethau mewn perthynas â nifer y cwynion a gaiff eu gwneud ar lafar. Mae'r canlyniadau, a gyflwynir yn Nhabl 13, wedi'u cynnwys fel enghraifft yn unig; nid yw'r costau wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrif gorau o oblygiadau'r Bil o ran cost. Maent yn dangos nifer y cwynion a'r gost gysylltiedig, lle y mae cyfran y cwynion llafar yn 10 y cant, 20 y cant, 30 y cant a 40 y cant. Mae Tabl 13 yn nodi'r amcangyfrif o gost lle mae nifer y cwynion yn gyson dros y pum mlynedd (hynny yw, gan dybio na fydd twf) a lle mae nifer y cwynion yn cynyddu:

- yn unol â'r twf a rhagwelir yn llwyth achosion cyffredinol yr Ombwdsmon (hynny yw, cynnydd blynyddol yn y llwyth achosion o 5 y cant a 12 y cant); a
- gan 10 y cant ac 20 y cant y flwyddyn. Defnyddiwyd y tybiaethau hyn ar gyfer dadansoddiad sensitifrwydd amcangyfrifon eraill o gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

11.115. Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod yr amcangyfrifon cost yn sensitif i'r tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo ac yn benodol, y tybiaeth am ganran y cwynion a dderbynnir ar lafar.

**Tabl 13: Dadansoddiad sensitifrwydd – Costau refeniw uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r pŵer i dderbyn cwynion llafar (10 y cant, 20 y cant, 30 y cant a 40 y cant o gyfanswm y cwynion) (Nifer y cwynion a £)**

| | Gwneir 10 y cant o'r cwynion ar lafar | | | Gwneir 20 y cant o'r cwynion ar lafar | | | Gwneir 30 y cant o'r cwynion ar lafar | | | Gwneir 40 y cant o'r cwynion ar lafar | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Oriau | Cost (£) | Cost | Oriau | Cost (£) | Cost | Oriau | Cost (£) | Cost | Oriau | Cost (£) |
| **Cost** (£) | | | | | | | | | | | | |
| Nifer y cwynion llafar[a] | 227 | 454 | | 454 | 908 | | 680 | 1,360 | | 907 | 1,814 | |
| Y nifer ohonynt sydd: | | | | | | | | | | | | |
| yn gwynion ysgrifenedig o dan Ddeddf 2005 y disgwylir iddynt newid i fod yn gŵyn lafar | 202 | | | 404 | | | 605 | | | 807 | | |
| Nifer y cwynion ychwanegol o dan y Bil[b] | 25 | 375 | | 50 | 750 | | 75 | 1,125 | | 100 | 1,500 | |
| Nifer yr ymchwiliadau ychwanegol o dan y Bil[c] | 6 | 570 | | 13 | 1,235 | | 19 | 1,805 | | 25 | 2,375 | |
| **Cyfanswm oriau ychwanegol** | | **1,399** | | | **2,893** | | | **4,290** | | | **5,689** | |
| Nifer yr oriau fesul FTE[d] | | 1,628 | | | 1,628 | | | 1,628 | | | 1,628 | |
| **Nifer y staff FTE ychwanegol sydd eu hangen[e]** | **1.0** | | | **1.8** | | | **2.6** | | | **3.5** | | |
| **Costau ym mlwyddyn 1:** | | | | | | | | | | | | |
| **Costau staff:** | | | | | | | | | | | | |
| Cost cyflog – staff ychwanegol[f] | | | 32,000 | | | 57,600 | | | 83,200 | | | 112,000 |
| Costau eraill o ran staff: | | | | | | | | | | | | |
| Costau hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth[g] | | | 1,000 | | | 1,800 | | | 2,600 | | | 3,500 |
| Uwchraddio aelod presennol o staff | | | 3,000 | | | 3,000 | | | 3,000 | | | 3,000 |
| **Costau eraill** | | | | | | | | | | | | |
| Costau swyddfa, costau gweinyddol a chostau cymorth[h] | | | 5,000 | | | 9,000 | | | 13,000 | | | 17,500 |
| **Cyfanswm costau refeniw parhaus** | | | **41,000** | | | **71,400** | | | **101,800** | | | **136,000** |
| Costau pontio (neu gostau 'untro')[i] | | | 5,000 | | | 9,000 | | | 13,000 | | | 17,500 |
| **Cyfanswm y gost ym mlwyddyn 1** | | | **46,000** | | | **80,400** | | | **114,800** | | | **153,500** |
| **Cyfanswm y gost ym mlynyddoedd 1-5 (dim cynnydd yn nifer y cwynion)** | | | **210,000** | | | **366,000** | | | **522,000** | | | **697,500** |
| **Cyfanswm y gost ym mlynyddoedd 1-5 (â chynnydd yn nifer y cwynion llafar ychwanegol)[j]:** | | | | | | | | | | | | |
| Cwynion yn cynyddu 5 y cant y flwyddyn | | | 214,300 | | | 394,100 | | | 585,800 | | | 773,200 |
| Cwynion yn cynyddu 10 y cant y flwyddyn | | | 230,500 | | | 430,300 | | | 646,300 | | | 849,900 |
| Cwynion yn cynyddu 12 y cant y flwyddyn | | | 238,600 | | | 458,400 | | | 670,600 | | | 886,100 |
| Cwynion yn cynyddu 20 y cant y flwyddyn | | | 278,600 | | | 527,000 | | | 783,000 | | | 1,039,500 |

**Nodiadau:**

a Nifer y cwynion i'w gwneud ar lafar (10 y cant, 20 y cant, 30 y cant neu 40 y cant o gyfanswm y cwynion), y mae angen dwy awr ychwanegol y gŵyn er mwyn canfod a'i gwnaed yn briodol (gweler paragraff 11.108).

b Tybiaeth ynghylch nifer y cwynion ychwanegol a wneir o dan y Bil; bydd angen 15 awr ar gyfer pob un (gweler paragraff 11.110).

c Tybiaeth y bydd yr Ombwdsmon yn symud 25 y cant o gwynion ymlaen i ymchwiliad llawn bob blwyddyn; bydd angen 95 awr i gynnal ymchwiliad llawn ar gyfer pob un (gweler paragraff 11.110).

d Nifer yr oriau fesul aelod o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) wedi'i thalgrynnu i un lle degol, yn seiliedig ar weithio 260 diwrnod y flwyddyn llai gwyliau blynyddol, 5 diwrnod yr wythnos a 7.4 awr y dydd (h.y. 37 awr yr wythnos).

e Nifer y staff FTE ychwanegol, a gyfrifwyd drwy rannu nifer yr oriau ychwanegol gan nifer yr oriau fesul aelod o staff FTE (yn d), wedi'i thalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf pan fo'r canlyniad yn llai nag un (i sicrhau cysondeb â Thablau 11 a 12) ac i un lle degol ar gyfer pob canlyniad arall.

f Cost cyflog ar gyfer pob aelod o staff ychwanegol, sy'n cynnwys 'argostau', a gyfrifwyd pro-rata yn seiliedig ar nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn, i'r costau a nodir yn Nhabl 12.

g Mae costau hyfforddi, teithio a chynhaliaeth wedi'u cyfrifo, pro-rata yn seiliedig ar nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn, i'r costau a nodir yn Nhabl 12. Nodir rhagor o wybodaeth am y costau ym mharagraff 11.113.

h Mae costau swyddfa, gweinyddu a chymorth wedi'u cyfrifo, pro-rata yn seiliedig ar nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn, i'r costau a nodir yn Nhabl 12. Nodir rhagor o wybodaeth am y costau ym mharagraff 11.113.

i Costau pontio y rhagdybir yr eir iddynt yn y flwyddyn gyntaf ar ôl deddfu. Nodir rhagor o wybodaeth ym mharagraff 11.113.

j Mae cyfrifiadau'n adlewyrchu'r tybiaethau am y cynnydd yn y llwyth achosion a nodir yn yr amcangyfrifon cost (gweler Tablau 7 ac 8) a'r dadansoddiad sensitifrwydd. Mae'r holl elfennau wedi'u cyfrifo, pro-rata yn seiliedig ar nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn, i'r costau a nodir yn Nhabl 12. Pan fo nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn yn cynyddu dros gyfnod, mae'r costau pontio – a gyfrifwyd ar sail pro-rata – wedi'u cynnwys ym Mlynyddoedd 1-5.

### Costau anuniongyrchol – cyrff cyhoeddus eraill o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon

11.116. Mae'r opsiwn hwn yn debygol o arwain at gostau ychwanegol ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill sydd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Byddai'r rhain yn gysylltiedig â chost amser y staff yn ymateb i'r Ombwdsmon mewn perthynas â chwynion llafar a dderbynnir yn gwynion sydd wedi'u gwneud yn briodol.

11.117. Mewn cyrff cyhoeddus eraill o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon, mae swyddogion ar wahanol lefelau o ran statws a chyflog yn rhan o'r broses ymdrin â chŵyn. Mae natur a chymhlethdod cwynion yn amrywio ac felly hefyd yr amser a dreulir yn ymdrin â hwy ynghyd â'r gost gysylltiedig. Felly, ystyriwyd amrywiaeth o gwynion a gwnaed amcangyfrifon o'r amser a'r gost sy'n debygol o wynebu cyrff cyhoeddus eraill cyn cychwyn ymchwiliad llawn i'r cwynion hynny. I roi'r ystod lawn o'r costau tebygol, mae Tablau 14 a 15 yn rhoi amcangyfrif o'r costau uned isel a'r costau uned uchel. Mae'r rhain yn dangos yr amcangyfrifir mai'r gost anuniongyrchol am amser y staff, cyn cychwyn ymchwiliad llawn, yw rhwng £231 a £357 y gŵyn.

**Tabl 14: Cost anuniongyrchol – Amcangyfrif o gost staff, amser a chyflog ar gyfer y sawl sy'n ymdrin â chwynion cyn cychwyn ymchwiliad llawn. Amcangyfrif o'r Costau Uned Isel (Oriau a £)**

| Staff dan sylw | Nifer yr oriau fesul cwyn | Cyflog gros y flwyddyn (£) | Cyflog gros yr awr (£) | Cyflog fesul cwyn (£) |
|---|---|---|---|---|
| Uwch-reolwr | 1.0 | 50,000 | 26 | 26 |
| Rheolwr Tîm | 2.0 | 30,000 | 16 | 32 |
| Swyddog Tîm | 2.5 | 25,000 | 13 | 33 |
| Rheolwr Tîm Cwynion | 5.0 | 30,000 | 16 | 80 |
| **Cyfanswm** | **10.5** | | | **171** |
| **Cyfanswm y gost fesul ymchwiliad (gan gynnwys argostau)** | | | | **231** |

**Tabl 15: Cost anuniongyrchol, amcangyfrif o gost staff, amser a chyflog ar gyfer y sawl sy'n ymdrin â chwynion cyn cychwyn ymchwiliad llawn. Amcangyfrif o'r Costau Uned Uchel (Oriau a £)**

| Staff dan sylw | Nifer yr oriau fesul cwyn | Cyflog gros y flwyddyn (£) | Cyflog gros yr awr (£) | Cyflog fesul cwyn (£) |
|---|---|---|---|---|
| Uwch-reolwr | 2.0 | 50,000 | 26 | 52 |
| Rheolwr Tîm | 3.0 | 30,000 | 16 | 48 |
| Swyddog Tîm | 4.0 | 25,000 | 13 | 52 |
| Rheolwr Tîm Cwynion | 7.0 | 30,000 | 16 | 112 |
| **Cyfanswm** | **16.0** | | | **264** |
| **Cyfanswm y gost fesul ymchwiliad (gan gynnwys argostau)** | | | | **357** |

11.118. Mae Tabl 16 yn nodi amcangyfrifon y costau anuniongyrchol cysylltiedig a ddaw yn sgil y pŵer i fwrw ymlaen â chwynion llafar a fydd yn arwain at 25 cwyn ychwanegol bob blwyddyn (gweler paragraff 11.109). Mae'r rhain wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r costau isel a'r costau uchel fesul cwyn a nodir yn Nhablau 14 a 15. Mae Tabl 16 yn dangos yr amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i gyrff cyhoeddus cyn cychwyn ymchwiliad llawn fydd rhwng £5,775 a £8,925 y flwyddyn.

11.119. Byddai cyfran o'r cwynion ychwanegol hyn, fodd bynnag, yn symud ymlaen i ymchwiliad ac felly'n arwain at gostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill (y cyfeirir atynt ym mharagraff 11.109). Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon yn Nhablau 20 ac 21 a chan dybio y bydd yr Ombwdsmon yn bwrw ymlaen â 25 y cant o'r cwynion, mae Tabl 16 yn nodi'r costau anuniongyrchol ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill o ganlyniad i ymchwiliad; amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost i gyrff

cyhoeddus eraill yn amrywio rhwng £10,386 a £12,942. O'u hystyried ar y cyd â chostau amser staff cyn cynnal ymchwiliad, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau anuniongyrchol i gyrff cyhoeddus eraill yn amrywio fydd rhwng £16,161 a £21,867 y flwyddyn neu £80,805 a £109,335 am bum mlynedd.

**Tabl 16: Amcangyfrif o gyfanswm y costau anuniongyrchol bob blwyddyn yn sgil y pŵer i dderbyn cwynion llafar, cost uned isel a chost uned uchel (Nifer y cwynion a £)**

| | Cost uned isel | Cost uned uchel |
|---|---|---|
| Nifer y cwynion | 2,268 | 2,268 |
| Nifer y cwynion a wnaed ar lafar (10%) | 227 | 227 |
| Nifer y cwynion ychwanegol | 25 | 25 |
| Cost cyn ymchwilio: | | |
| Cwynion ychwanegol y flwyddyn (nifer)[a] | 25 | 25 |
| Amcangyfrif o'r costau uned fesul cwyn (£)[b] | 231 | 357 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | **5,775** | **8,925** |
| Cost yr ymchwiliad: | | |
| Cwynion ychwanegol y flwyddyn (nifer)[c] | 6 | 6 |
| Amcangyfrif o'r costau uned fesul cwyn (£)[d] | 1,731 | 2,157 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | **10,386** | **12,942** |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl y flwyddyn cyn ac yn ystod ymchwiliadau(£)** | 16,161 | 21,867 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl cyn ac yn ystod ymchwiliadau, blynyddoedd 1-5 (£)** | 80,805 | 109,335 |

**Nodiadau**

a Tybiaeth y bydd yr Ombwdsmon yn cael 25 cwyn ychwanegol bob blwyddyn.

b Cost uned isel a chost uned uchel fesul cwyn fel y'u nodir yn Nhablau 14 a 15.

c Tybiaeth y bydd yr Ombwdsmon yn symud 25 y cant o'r cwynion ymlaen i ymchwiliadau llawn bob blwyddyn (h.y. 25 y cant o'r 25 cwyn ychwanegol neu chwe chŵyn ychwanegol y flwyddyn).

d Mae'r costau uned isel a'r costau uned uchel fesul ymchwiliad fel y'u nodir yn Nhablau 20 ac 21.

## Dadansoddiad sensitifrwydd

11.120. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd i brofi effaith newid y tybiaethau mewn perthynas â nifer y cwynion a gaiff eu gwneud ar lafar. Mae'r canlyniadau, a gyflwynir yn Nhabl 17, yn dangos nifer y cwynion,

a'r gost anuniongyrchol gysylltiedig, lle cyfran y cwynion llafar yw 20 y cant, 30 y cant a 40 y cant.

11.121. Yn unol â'r tybiaethau ar gyfer yr amcangyfrif o gostau, a ddangosir yn Nhabl 16, mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn Nhabl 17 yn tybio y bydd nifer y cwynion a'r ymchwiliadau ychwanegol yn parhau'n gyson dros y pum mlynedd yr aed ati i fesur goblygiadau ariannol y Bil ar eu cyfer.

11.122. Mae Tabl 18 yn nodi amcangyfrifon o'r gost 'anuniongyrchol' pe bai nifer y cwynion a'r ymchwiliadau ychwanegol yn cynyddu yn unol â llwyth achosion yr Ombwdsmon; sef cynnydd blynyddol o 5 y cant a 12 y cant (y cyfeirir atynt ym mharagraff 11.33). Mae hefyd yn dangos y goblygiadau cost ar gyfer cynnydd blynyddol mewn cwynion o 10 y cant ac 20 y cant, a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddiadau sensitifrwydd eraill (gweler Tabl 13).

11.123. Mae tablau 17 a 18 wedi'u cynnwys fel enghraifft yn unig; nid yw'r costau anuniongyrchol wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrif gorau o oblygiadau ariannol y Bil.

**Tabl 17: Dadansoddiad sensitifrwydd – amcangyfrif o gyfanswm y costau anuniongyrchol bob blwyddyn yn sgil y pŵer i dderbyn cwynion llafar, cost unedol isel a chost unedol uchel heb unrhyw dwf yn nifer y cwynion (Cwynion a £)**

| | Gwneir 20 y cant o'r cwynion ar lafar | | Gwneir 30 y cant o'r cwynion ar lafar | | Gwneir 40 y cant o'r cwynion ar lafar | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cost uned isel** | **Cost uned** | **Cost uned isel** | **Cost uned** | **Cost uned isel** | **Cost uned** |
| Cost cyn ymchwilio: | | | | | | |
| Nifer y cwynion ychwanegol o dan y Bil | 50 | 50 | 75 | 75 | 100 | 100 |
| Cost uned fesul cwyn (£)[b] | 231 | 357 | 231 | 357 | 231 | 357 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosi** | **11,550** | **17,850** | **17,325** | **26,775** | **23,100** | **35,700** |
| Cost yr ymchwiliad: | | | | | | |
| Ymchwiliadau ychwanegol o dan y Bil[c] | 13 | 13 | 19 | 19 | 25 | 25 |
| Cost uned fesul cwyn (£)[d] | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosi** | **22,503** | **28,041** | **32,889** | **40,983** | **43,275** | **53,925** |
| Cyfanswm y gost ym mlwyddyn 1 (£) | 34,053 | 45,891 | 50,214 | 67,758 | 66,375 | 89,625 |
| **Cyfanswm y gost ym mlynyddoedd 1-5 (** | **170,265** | **229,455** | **251,070** | **338,790** | **331,875** | **448,125** |

**Nodiadau:**

a Bydd nifer y cwynion ychwanegol, h.y. y rhai na fyddent wedi eu gwneud yn ysgrifenedig o dan Ddeddf 2005, yn newid i gael eu gwneud ar lafar o dan ddarpariaethau'r Bil.

b Cost uned isel a chost uned uchel fesul cwyn cyn ymchwiliad llawn (fel y dangosir yn Nhablau 14 a 15).

c Amcangyfrif o nifer yr ymchwiliadau ychwanegol y disgwylir eu cynnal.

d Cost uned fesul cwyn wrth ymdrin ag ymchwiliad (fel y dangosir yn Nhablau 20 a 21).

## Tabl 18: Dadansoddiad sensitifrwydd – amcangyfrif o gyfanswm y costau anuniongyrchol dros bum mlynedd sy’n deillio o'r pŵer i dderbyn cwynion llafar, costau uned isel ac uchel gyda chynnydd yn nifer y cwynion o 5 y cant, 10 y cant, 12 y cant ac 20 y cant (Nifer y cwynion a £)

| | Gwneir 20 y cant o'r cwynion ar lafar | | Gwneir 30 y cant o'r cwynion ar lafar | | Gwneir 40 y cant o'r cwynion ar lafar | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cost uned isel | Cost uned uchel | Cost uned isel | Cost uned uchel | Cost uned isel | Cost uned uchel |
| **Mae'r llwyth achosion yn cynyddu 5 y cant y flwyddyn** | | | | | | |
| Cost cyn ymchwiliad llawn: | | | | | | |
| Cwynion ychwanegol dros bum mlynedd (nifer)[a] | 276 | 276 | 415 | 415 | 552 | 552 |
| Amcangyfrif o’r costau uned fesul cwyn (£)[b] | 231 | 357 | 231 | 357 | 231 | 357 |
| **swm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | 63,756 | 98,532 | 95,865 | 148,155 | 127,512 | 197,064 |
| Cost yr ymchwiliad: | | | | | | |
| Cwynion ychwanegol dros bum mlynedd (nifer)[c] | 70 | 70 | 105 | 105 | 138 | 138 |
| Amcangyfrif o’r costau uned fesul cwyn (£)[d] | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | 121,170 | 150,990 | 181,755 | 226,485 | 238,878 | 297,666 |
| **Amcangyfrif o gyfanswm y gost anuniongyrchol cyn ymchwilio ac yn ystod ymchwiliad llawn, blynyddoedd 1-5 (£)** | **184,926** | **249,522** | **277,620** | **374,640** | **366,390** | **494,730** |
| **Mae'r llwyth achosion yn cynyddu 10 y cant y flwyddyn** | | | | | | |
| Cost cyn ymchwiliad llawn: | | | | | | |
| Cwynion ychwanegol dros bum mlynedd (nifer)[e] | 304 | 304 | 458 | 458 | 610 | 610 |
| Amcangyfrif o’r costau uned fesul cwyn (£)[b] | 231 | 357 | 231 | 357 | 231 | 357 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | 70,224 | 108,528 | 105,798 | 163,506 | 140,910 | 217,770 |
| Cost yr ymchwiliad: | | | | | | |
| Cwynion ychwanegol dros bum mlynedd (nifer)[c] | 77 | 77 | 116 | 116 | 153 | 153 |
| Amcangyfrif o’r costau uned fesul cwyn (£)[d] | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | 133,287 | 166,089 | 200,796 | 250,212 | 264,843 | 330,021 |
| **Amcangyfrif o gyfanswm y gost anuniongyrchol cyn ymchwilio ac yn ystod ymchwiliad llawn, blynyddoedd 1-5 (£)** | **203,511** | **274,617** | **306,594** | **413,718** | **405,753** | **547,791** |
| **Mae'r llwyth achosion yn cynyddu 12 y cant y flwyddyn** | | | | | | |
| Cost cyn ymchwiliad llawn: | | | | | | |
| Cwynion ychwanegol dros bum mlynedd (nifer)[f] | 318 | 318 | 476 | 476 | 634 | 634 |
| Amcangyfrif o’r costau uned fesul cwyn (£)[b] | 231 | 357 | 231 | 357 | 231 | 357 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | 73,458 | 113,526 | 109,956 | 169,932 | 146,454 | 226,338 |
| Cost yr ymchwiliad: | | | | | | |
| Cwynion ychwanegol dros bum mlynedd (nifer)[c] | 81 | 81 | 120 | 120 | 158 | 158 |
| Amcangyfrif o’r costau uned fesul cwyn (£)[d] | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | 140,211 | 174,717 | 207,720 | 258,840 | 273,498 | 340,806 |
| **Amcangyfrif o gyfanswm y gost anuniongyrchol cyn ymchwilio ac yn ystod ymchwiliad llawn, blynyddoedd 1-5 (£)** | **213,669** | **288,243** | **317,676** | **428,772** | **419,952** | **567,144** |
| **Mae'r llwyth achosion yn cynyddu 20 y cant y flwyddyn** | | | | | | |
| Cost cyn ymchwiliad llawn: | | | | | | |
| Cwynion ychwanegol dros bum mlynedd (nifer)[g] | 372 | 372 | 557 | 557 | 743 | 743 |
| Amcangyfrif o’r costau uned fesul cwyn (£)[b] | 231 | 357 | 231 | 357 | 231 | 357 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | 85,932 | 132,804 | 128,667 | 198,849 | 171,633 | 265,251 |
| Cost yr ymchwiliad: | | | | | | |
| Cwynion ychwanegol dros bum mlynedd (nifer)[b] | 94 | 94 | 140 | 140 | 186 | 186 |
| Amcangyfrif o’r costau uned fesul cwyn (£)[d] | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 | 1,731 | 2,157 |
| **Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£)** | 162,714 | 202,758 | 242,340 | 301,980 | 321,966 | 401,202 |
| **Amcangyfrif o gyfanswm y gost anuniongyrchol cyn ac yn ystod ymchwiliad llawn, blynyddoedd 1-5 (£)** | **248,646** | **335,562** | **371,007** | **500,829** | **493,599** | **666,453** |

**Nodiadau:**

a Amcanestyniad o nifer y cwynion ychwanegol yn ystod Blynyddoedd 1 i 5, gan dybio y bydd llwyth achosion yr Ombwdsmon yn cynyddu 5 y cant y flwyddyn.

B Cost uned isel a chost uned uchel fesul cwyn (cyn ymchwiliad llawn) – Tablau 14 a 15.

C Nifer y cwynion ychwanegol a fydd yn arwain at ymchwiliad yn ystod Blynyddoedd 1 i 5, gan adlewyrchu'r tybiaeth y bydd angen ymchwilio i chwarter y cwynion ychwanegol (gweler paragraff 11.109).

d Cost uned isel ac uchel fesul cwyn wrth ymdrin ag ymchwiliad llawn – Tablau 20 a 21.

e Amcanestyniad o nifer y cwynion ychwanegol yn ystod Blynyddoedd 1 i 5, gan dybio y bydd llwyth achosion yr Ombwdsmon yn cynyddu 10 y cant y flwyddyn.

f Amcanestyniad o nifer y cwynion ychwanegol yn ystod Blynyddoedd 1 i 5, gan dybio y bydd llwyth achosion yr Ombwdsmon yn cynyddu 12 y cant y flwyddyn.

g Amcanestyniad o nifer y cwynion ychwanegol yn ystod Blynyddoedd 1 i 5, gan dybio y bydd llwyth achosion yr Ombwdsmon yn cynyddu 20 y cant y flwyddyn.

## Gwerth a manteision

11.124. Byddai'r ddarpariaeth hon yn galluogi'r Ombwdsmon i ddyfarnu beth sy'n cael ei gyfrif yn gŵyn sydd 'wedi'i gwneud yn briodol'. Byddai hyn yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai'n cael gwared ar y rhwystr cyfathrebu ac yn hwyluso mynediad at wasanaethau'r Ombwdsmon. Mae galluogi'r Ombwdsmon i bennu mewn canllawiau sut i wneud cwyn yn gwneud y ddeddfwriaeth yn gadarn at y dyfodol, gan alluogi'r Ombwdsmon i adlewyrchu newidiadau yn yr amgylchedd allanol a mewnol, fel datblygiadau mewn technoleg.

11.125. Byddai'r gwelliant hwn mewn hygyrchedd yn golygu na fyddai bellach 'cwynion coll'. Ar hyn o bryd, yn aml iawn nid yw achwynwyr yn dychwelyd y ffurflen gadarnhau a anfonir atynt gan swyddfa'r Ombwdsmon pan fyddant yn gwneud cwyn dros y ffôn.

## Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol

11.126. Os bydd yr Ombwdsmon yn gallu bwrw ymlaen â chwynion na ellid bwrw ymlaen â hwy yn flaenorol oherwydd nad oedd cadarnhad ysgrifenedig, mae amrywiaeth o fanteision anuniongyrchol posibl yn deillio o waith ymchwilio'r Ombwdsmon. Mae'r rhain yn cynnwys gwella’r gwasanaeth a ddarperir a'r posibilrwydd o’i wneud yn fwy effeithlon drwy osgoi ailadrodd camgymeriadau a chamweinyddu.

## Crynodeb - yr opsiwn a ffefrir

11.127. Yr opsiwn a ffefrir yw diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i alluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwynion a wneir ar lafar neu'n ysgrifenedig, gan

gynnwys trwy fformatau electronig, a gweithredu ar y cwynion hynny. Dros gyfnod o bum mlynedd, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost uniongyrchol fydd £210,000. Mae hyn yn cynnwys costau refeniw parhaus a chostau pontio o £5,000.

11.128. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn arwain at gostau ychwanegol parhaus i gyrff cyhoeddus o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ymdrin â nifer gynyddol o gwynion. Amcangyfrifir mai rhwng £16,161 a £21,867 y flwyddyn fydd y costau ychwanegol hyn, neu rhwng £80,805 a £109,335 dros bum mlynedd.

## Ymchwilio ar ei liwt ei hun

Opsiwn 1: Gwneud dim

### Costau uniongyrchol

11.129. Yn Nhabl 8 ceir amcangyfrif o gost y cynnydd a ragwelir yn llwyth achosion yr Ombwdsmon yn ystod y pum mlynedd hyd at 2022-23 o dan ddarpariaethau Deddf 2005.

### Costau anuniongyrchol

11.130. Efallai y bydd costau anuniongyrchol nas rhagwelir yn codi o ddewis yr opsiwn 'gwneud dim'. Er enghraifft, os nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ymestyn ymchwiliad (y tu hwnt i'r gŵyn wreiddiol) i archwilio problemau systemig neu'n ehangach, neu broblemau camweinyddu, gall y problemau hynny barhau i ddigwydd heb gael eu hadolygu. Golyga hynny y bydd cyrff cyhoeddus yn wynebu costau (llawer uwch o bosibl) yn sgil yr ymchwiliad a'r angen i gydymffurfio a gwneud iawn yn y dyfodol.

### Gwerth a manteision

11.131. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu unrhyw werth ychwanegol na manteision cysylltiedig.

### Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol

11.132. Gallai'r opsiwn hwn arwain at y canlyniadau anuniongyrchol a ganlyn i aelodau'r cyhoedd neu ar draws yr awdurdodau rhestredig:

- bydd rhai pobl mewn amgylchiadau bregus yn dal i ddioddef o wasanaeth gwael neu ddiffyg gwasanaeth y mae ganddynt hawl iddo gan na fydd yr Ombwdsmon yn gallu ymestyn ymchwiliad penodol pan amheuir problemau systemig ehangach; a
- chollir cyfleoedd i ymdrin â phroblemau systemig a'u gwella.

Opsiwn 2: Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i roi pŵer i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun (yr opsiwn a ffefrir)

**Costau uniongyrchol**

11.133. Fel y nodwyd ym mhennod 10 (gweler paragraff 10.9), disgwylir y bydd pŵer yr Ombwdsmon i ymchwilio ar ei liwt ei hun yn cael ei ddefnyddio mewn pedwar senario:

- ymestyn ymchwiliad i gŵyn i gynnwys corff cyhoeddus arall heb fod angen cwyn newydd gan yr achwynydd (Senario A);
- canfyddiadau o ymchwiliad i gŵyn yn esgor ar ymchwiliad i gyrff eraill i sefydlu a oes methiannau tebyg i'w cael mewn mannau eraill (Senario B);
- ymchwilio i gŵyn ddienw (Senario C); ac
- ymchwilio, oherwydd pryderon, i sector cyfan, neu ran o sector, sy'n darparu gwasanaeth (Senario D).

11.134. Ni fydd yr achosion sy'n codi o dan Senario A yn arwain at unrhyw gostau uniongyrchol na chostau anuniongyrchol; bydd darpariaethau'r Bil yn darparu ffordd gynt, mwy effeithlon o ymestyn ymchwiliad i gynnwys awdurdod rhestredig ychwanegol.

11.135. Drwy gynnal ymchwiliadau yn Senarios B i D, byddai llwyth achosion yr Ombwdsmon yn cynyddu, gan arwain at gostau ychwanegol i'w swyddfa. Disgwylir y bydd yr Ombwdsmon yn cynnal rhwng 10 a 15 o ymchwiliadau bob blwyddyn.[80] O'r rhain, dim ond un neu ddau ymchwiliad bob blwyddyn a gynhelir ar draws holl sector y gwasanaeth, neu ran o'r sector, yn sgil pryderon, sef model Senario D.[81] Byddai'r Ombwdsmon yn dechrau'r rhan fwyaf o'r ymchwiliadau o dan y ddarpariaeth hon yn Senarios B ac C.

---

[80] Amcanestyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o nifer yr ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, sy'n adlewyrchu nifer y problemau a'r achosion sy'n codi o'r llwyth achosion presennol.

[81] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mawrth 2017, paragraff 68. Mae trawsgrifiad ar gael yn:
http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s60762/9%20March%202017.pdf

11.136. Mae Tabl 19 yn nodi amcangyfrif gorau costau parhaus a chostau pontio (neu gostau ‘untro’) sy'n deillio o nifer dybiedig yr ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon bob blwyddyn. Mae'r costau'n cynnwys tybiaeth ynghylch lefelau cymhlethdod, graddfa ac amser staff wrth gynnal ymchwiliadau o'r fath. Disgwylir i'r ymchwiliadau o dan Senario D ddefnyddio cryn dipyn o amser staff.

11.137. Fel y nodir ym mharagraff 11.43, amcangyfrifir y byddai angen dau aelod ychwanegol o staff i gynnal ymchwiliadau ac ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau eraill: un Swyddog Ymchwilio ac un Swyddog Ymchwilio a Gwella. Byddai penodi aelodau ychwanegol o staff hefyd yn arwain at gostau cysylltiedig eraill i swyddfa'r Ombwdsmon a chostau pontio (neu gostau ‘untro’). Mae'r rhain yn ymwneud â:

- costau hyfforddi, teithio a chynhaliaeth;
- costau swyddfa, gweinyddol a chymorth parhaus hefyd yn gysylltiedig â'r swydd newydd, fel trwyddedau meddalwedd, costau ffôn, costau cyfathrebu eraill, deunydd ysgrifennu, argraffu a thechnoleg Gwybodaeth (TG) a chostau cymorth;
- ffioedd proffesiynol, gan gynnwys cyngor arbenigol;
- costau pontio (neu 'untro') sy’n gysylltiedig â chreu'r swydd newydd, gan gynnwys costau recriwtio, dodrefn swyddfa a ffitiadau (fel desg, cadair, lle i storio ffeiliau, ffôn, manion, monitor, stand ac offer swyddfa sylfaenol eraill), caledwedd TG (cyfrifiadur a monitor) a chostau gosod (gan gynnwys costau ar gyfer gweithio symudol), pasys diogelwch, hyfforddiant cychwynnol a chynefino.

**Tabl 19: Costau refeniw uniongyrchol sy’n gysylltiedig â'r pŵer i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun, yn gostau parhaus a chostau pontio (£)**

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blynyddoedd 1-5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Costau refeniw parhaus:** | | | | | | |
| **Costau staff** | | | | | | |
| Costau cyflog[a]: Dau swyddog llawn amser (Swyddog Ymchwilio a Swyddog Ymchwilio a Gwella) | 115,000 | 115,000 | 115,000 | 115,000 | 115,000 | **575,000** |
| Costau eraill o ran staff: | | | | | | |
| Ffioedd proffesiynol, gan gynnwys cyngor arbenigol[b] | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | **50,000** |
| Costau hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth[b] | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | **10,000** |
| **Costau eraill** | | | | | | |
| Costau swyddfa, gan gynnwys argraffu, deunydd swyddfa a TG[b] | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | **50,000** |
| **Cyfanswm costau refeniw parhaus** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **685,000** |
| Costau pontio (neu gostau 'untro') [b] | 10,000 | - | - | - | - | **10,000** |
| | **147,000** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **695,000** |

**Nodiadau**

a Mae costau cyflog yn cynnwys cyflog gros ac argostau (y tybir iddynt fod yn 35 y cant o gost gros y cyflog)

b Bydd penodi aelodau ychwanegol o staff yn arwain at gostau refeniw cysylltiedig eraill; costau parhaus a chostau pontio (cyfeirir at hyn ym mharagraff 11.137).

## Costau anuniongyrchol

11.138. Mae'r opsiwn hwn yn debygol o arwain at gostau ychwanegol ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill sydd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Byddai'r rhain yn gysylltiedig â chost amser y staff i ymateb i gwestiynau a cheisiadau'r Ombwdsmon am wybodaeth yn ystod yr ymchwiliadau y bydd yn eu cynnal ar ei liwt ei hun.

11.139. Byddai swyddogion ar wahanol lefelau o ran statws a chyflog yn rhan o'r broses ymdrin ag ymchwiliad. Bydd natur a chymhlethdod yr ymchwiliadau yn amrywio ac felly hefyd yr amser a dreulir yn ymdrin â hwy, ynghyd â'r gost gysylltiedig. O ystyried hyn, gwnaed amcangyfrifon o’r amser a'r gost sy'n debygol o wynebu cyrff cyhoeddus eraill yn sgil ymchwiliad. Dywed yr Ombwdsmon fod yr amcangyfrifon

yn adlewyrchu consensws eang o'r gwaith a wnaed gyda chynrychiolwyr byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

11.140. Mae Tablau 20 ac 21 yn nodi amcangyfrifon cost uned isel a chost uned uchel yn eu tro. Mae'r rhain yn dangos yr amcangyfrifir mai cost anuniongyrchol amser staff sy'n rhan o'r gwaith o ymdrin ag ymchwiliad llawn fydd rhwng £1,731 a £2,157 fesul ymchwiliad.

**Tabl 20: Cost anuniongyrchol, amcangyfrif o gost staff, amser a chyflog ar gyfer y sawl sy'n ymdrin ag ymchwiliad llawn. Amcangyfrif o'r Costau Uned Isel (Oriau a £)**

| Staff dan sylw | Nifer yr oriau fesul cwyn | Cyflog gros y flwyddyn (£) per annum (£) | Cyflog gros yr awr (£) | Cyflog fesul ymchwiliad (£) |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr | 1.0 | 100,000 | 52 | 52 |
| Pennaeth y Gwasanaeth | 7.5 | 75,000 | 39 | 293 |
| Uwch-reolwr | 7.5 | 50,000 | 26 | 195 |
| Rheolwr Tîm | 14.0 | 30,000 | 16 | 224 |
| Swyddog Tîm | 14.0 | 25,000 | 13 | 182 |
| Rheolwr Tîm Cwynion | 21.0 | 30,000 | 16 | 336 |
| **Cyfanswm** | 65.0 | | | **1,282** |
| **Cyfanswm y gost fesul ymchwiliad, gan gynnwys argostau** | | | | **1,731** |

**Tabl 21: Cost anuniongyrchol – Amcangyfrif o gost staff, amser a chyflog ar gyfer y sawl sy'n ymdrin ag ymchwiliad llawn. Amcangyfrif o'r Costau Uned Isel (Oriau a £)**

| Staff dan sylw | Nifer yr oriau fesul cwyn | Cyflog gros y flwyddyn (£) | Cyflog gros yr awr (£) | Cyflog fesul ymchwiliad (£) |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr | 2.0 | 100,000 | 52 | 104 |
| Pennaeth y Gwasanaeth | 9.0 | 75,000 | 39 | 351 |
| Uwch-reolwr | 9.0 | 50,000 | 26 | 234 |
| Rheolwr Tîm | 17.0 | 30,000 | 16 | 272 |
| Swyddog Tîm | 17.0 | 25,000 | 13 | 221 |
| Rheolwr Tîm Cwynion | 26.0 | 30,000 | 16 | 416 |
| **Cyfanswm** | **80.0** | | | **1,598** |
| **Cyfanswm y gost fesul ymchwiliad, gan gynnwys argostau** | | | | **2,157** |

11.141. Fel y nodwyd ym mharagraff 11.134, ni fyddai ymchwiliadau'r Ombwdsmon a gynhelir ar ei liwt ei hun yn Senario A yn arwain at gostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus; bwriad y newid yw cael gwared â'r angen i achwynwyr wneud cwyn arall pan fo ail gorff cyhoeddus yn gysylltiedig â'r mater, ac felly ni fyddai'n newid nifer y cwynion yr ymchwilir iddynt.

11.142. Drwy gynnal ymchwiliadau yn Senarios B i D, byddai llwyth achosion yr Ombwdsmon yn cynyddu, ac o ganlyniad byddai cyrff cyhoeddus yn wynebu costau ychwanegol yn ystod yr ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon. Mae Tabl 22 yn dangos y gost debygol pe byddai'r Ombwdsmon yn cynnal 10 i 15 ymchwiliad y flwyddyn (gweler paragraff 11.135). Mae'r rhain yn adlewyrchu'r gost fesul ymchwiliad fel y'i nodir yn Nhablau 20 ac 21 ar gyfer costau uned uchel ac isel. Mae Tabl 22 yn nodi bod cyfanswm tebygol y gost i gyrff cyhoeddus eraill yn amrywio o £17,310 i £32,355 y flwyddyn a rhwng £88,550 a £161,775 ar gyfer pum mlynedd gan ddibynnu ar nifer yr ymchwiliadau y mae'r Ombwdsmon yn eu cynnal ar ei liwt ei hun bob blwyddyn.

**Tabl 22: Amcangyfrif costau anuniongyrchol wrth i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun, yn gostau uned isel a chostau uned uchel (£)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymchwiliadau ar ei liwt ei hun[a]: | | | |
| Senario B ac C | 9 | | |
| Senario D | 1 | | |
| **Cyfanswm** | **10** | | |
| | | | |
| Nifer yr ymchwiliadau ar ei liwt ei hun[b]: | | | |
| Senario B ac C | 13 | | |
| Senario D | 2 | | |
| **Cyfanswm** | **15** | | |
| | | | |
| | | **Cost uned isel** | **Cost uned uchel** |
| Cost ymchwiliadau ar ei liwt ei hun: | | | |
| Amcangyfrif o'r costau uned fesul cwyn (£)[c] | | 1,731 | 2,157 |
| | | | |
| **Cyfanswm y costau anuniongyrchol posibl y flwyddyn (£):** | | | |
| 10 ymchwiliad ar ei liwt ei hun y flwyddyn (£) | | 17,310 | 21,570 |
| 15 ymchwiliad ar ei liwt ei hun y flwyddyn (£) | | 25,965 | 32,355 |
| | | | |
| **Cyfanswm y costau anuniongyrchol posibl ym mlynyddoedd 1-5 (£):** | | | |
| 10 ymchwiliad ar ei liwt ei hun y flwyddyn (£) | | 86,550 | 107,850 |
| 15 ymchwiliad ar ei liwt ei hun y flwyddyn (£) | | 129,825 | 161,775 |

**Nodiadau**

a Amcangyfrif o 10 ymchwiliad ychwanegol y flwyddyn a tybiaeth o ran ym mha senario y mae'r rhain yn debygol o ddigwydd.

b Amcangyfrif o 15 ymchwiliad ychwanegol y flwyddyn a tybiaeth o ran ym mha senario y mae'r rhain yn debygol o ddigwydd.

c Mae'r costau uned isel a'r costau uned uchel fesul ymchwiliad fel y'u nodir yn Nhablau 20 ac 21.

## Gwerth a manteision

11.143. Mae manteision cynhwysiant cymdeithasol a manteision o ran cydraddoldeb yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Byddai'r ddarpariaeth hon yn galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i feysydd o bryder o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus lle bo'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth (neu'n cael eu hamddifadu o wasanaeth) yn llai tebygol neu'n llai abl i wneud cwyn eu hunain. Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd anabledd, diffyg addysg neu oherwydd bod ofn arnynt herio awdurdod cyhoeddus, yn enwedig os ydynt mewn amgylchiadau bregus (yn gorfforol neu'n emosiynol).

## Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol

11.144. Gan y bydd angen i'r Ombwdsmon allu dangos seiliau y gellir eu cyfiawnhau ar gyfer cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun, mae mwy o bosibilrwydd y bydd y canfyddiadau yn esgor ar argymhellion sy'n arwain at wella'r gwasanaeth a ddarperir, ynghyd â'r posibilrwydd o arbed arian. Er enghraifft, llai o hawliadau iawndal ar gyfer y cyrff o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Gallai camau ymchwilio o'r fath arwain at fanteision ehangach o ran effeithlonrwydd wrth i arfer gorau ledaenu ar draws y cyrff cyhoeddus yn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, gan nad yw’n hysbys faint yn union o arian a arbedir nac ym mha gyrff cyhoeddus y bydd hyn yn digwydd, ni fesurwyd eu gwerth.

## Crynodeb

11.145. Yr opsiwn a ffefrir yw i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i roi pŵer i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun. Dros gyfnod o bum mlynedd, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost uniongyrchol fydd £695,000. Mae hyn yn adlewyrchu costau refeniw parhaus a chostau pontio o £10,000.

11.146. Byddai'r dewis hwn hefyd yn arwain at gostau ychwanegol parhaus i gyrff cyhoeddus o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ymdrin ag ymchwiliadau a gychwynnir gan yr Ombwdsmon. Amcangyfrifir y bydd y costau ychwanegol hyn yn amrywio rhwng £17,310 a £32,355 y flwyddyn. Yr amcangyfrif o'r gost ar gyfer y flwyddyn gyntaf hyd at y

bumed flwyddyn, gan ddibynnu ar nifer yr ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon ar ei liwt ei hun bob blwyddyn, yw rhwng £86,550 a £161,775.

## Ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon er mwyn gallu ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat

Opsiwn 1: Gwneud dim

**Costau uniongyrchol**

11.147. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol.

**Costau anuniongyrchol**

11.148. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau anuniongyrchol ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

**Gwerth a manteision**

11.149. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu unrhyw werth ychwanegol na manteision cysylltiedig.

**Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol**

11.150. Gallai'r opsiwn hwn arwain at y canlyniadau a ganlyn i aelodau'r cyhoedd a darparwyr gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd:

- cwestiynau heb eu hateb i'r achwynwr o ran a ydynt wedi cael triniaeth feddygol neu ofal nyrsio priodol drwy gydol eu llwybr gofal iechyd; ac
- ansicrwydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau iechyd cyhoeddus a phreifat y gallai fod yn aneglur, pan aeth 'rhywbeth o'i le' wrth ofalu am glaf, lle yn union yr oedd y broblem a phwy sydd â'r cyfrifoldeb.

Opsiwn 2: diwygio’r ddeddfwriaeth i roi pŵer ategol i'r Ombwdsmon ymchwilio i'r elfen gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat (yr opsiwn a ffefrir).

### Costau uniongyrchol

11.151. Amcangyfrifir bod tua un y cant o'r cwynion a geir o'r sector iechyd (neu saith achos) bob blwyddyn yn cynnwys elfen o wasanaeth preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Gan ddefnyddio'r gost uned fesul cwyn o £501 a geir yn Nhabl 8, amcangyfrifir mai cost uniongyrchol y llwyth gwaith ychwanegol fydd £3,507 y flwyddyn neu £17,535 ar gyfer blwyddyn un hyd at flwyddyn pump. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i'r Ombwdsmon ofyn am unrhyw staff ychwanegol i ymdrin â chwynion i ymdopi â'r llwyth achosion ychwanegol.[82]

### Dadansoddiad sensitifrwydd

11.152. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd i brofi effaith newid y tybiaethau mewn perthynas â nifer y cwynion sy'n cynnwys elfen o wasanaeth preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat. Mae'r canlyniadau, a gyflwynir yn Nhabl 23, wedi'u cynnwys fel enghraifft yn unig; nid yw'r costau wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrif gorau o oblygiadau ariannol y Bil. Maent yn dangos nifer y cwynion a'r gost gysylltiedig os yw nifer y cwynion sy'n cynnwys elfen o wasanaeth preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd yn adlewyrchu:

- y tybiaethau ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn llwyth achosion cyffredinol yr Ombwdsmon, sef cynnydd blynyddol o 5 y cant a 12 y cant; a
- chynnydd yn nifer y cwynion o 10 y cant ac 20 y cant y flwyddyn, a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddiad sensitifrwydd amcangyfrifon eraill o gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

[82] Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth atodol. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

**Tabl 23: Dadansoddiad sensitifrwydd – Costau refeniw uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r pŵer ategol i ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr iechyd cyhoeddus/preifat, â chynnydd blynyddol yn nifer y cwynion o 5 y cant, 10 y cant, 12 y cant ac 20 y cant (Nifer cwynion a £)**

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r llwyth achosion yn cynyddu 5 y cant y flwyddyn[a]: | | | | | | |
| Nifer y cwynion[b] | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 | 35 |
| Costau uniongyrchol[c] | 3,507 | 3,507 | 3,507 | 3,507 | 3,507 | 17,535 |
| Mae'r llwyth achosion yn cynyddu 10 y cant y flwyddyn[d] | | | | | | |
| Nifer y cwynion[b] | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 45 |
| Costau uniongyrchol[c] | 3,507 | 4,008 | 4,509 | 5,010 | 5,511 | 22,545 |
| Mae'r llwyth achosion yn cynyddu 12 y cant y flwyddyn[a] | | | | | | |
| Nifer y cwynion[b] | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 45 |
| Costau uniongyrchol[c] | 3,507 | 4,008 | 4,509 | 5,010 | 5,511 | 22,545 |
| Mae'r llwyth achosion yn cynyddu 20 y cant y flwyddyn[d] | | | | | | |
| Nifer y cwynion[b] | 7 | 8 | 10 | 12 | 14 | 51 |
| Costau uniongyrchol[c] | 3,507 | 4,008 | 5,010 | 6,012 | 7,014 | 25,551 |

**Nodiadau:**

a Rhagwelir cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon o 5 y cant a 12 y cant y flwyddyn, a adlewyrchwyd yn yr amcangyfrifon cost (gweler paragraff 11.33).

b Mae nifer y cwynion wedi'i thalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf (gweler paragraff 11.25).

c Cyfrifwyd costau uniongyrchol gan ddefnyddio'r gost uned yn Nhabl 8.

d Rhagwelir cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon o 10 y cant ac 20 y cant y flwyddyn, a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddiadau sensitifrwydd a ddarperir fel enghraifft yn unig (cyfeirir at hyn ym mharagraff 11.152); nid ydynt wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrifon cost.

## Costau anuniongyrchol

11.153. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at gostau anuniongyrchol ychwanegol i gyrff cyhoeddus.

11.154. Mae'r Ombwdsmon yn nodi bod angen i ddarparwyr gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd eisoes fod â phrosesau llywodraethu clinigol a chwynion ar waith i ymdrin ag unrhyw ymchwiliadau a wneir gan ei swyddfa ac i ymateb iddynt.[83] Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraff 11.77, nid oes gan yr Ombwdsmon fynediad, na hawl, i gael manylion am nifer y cwynion, a'r costau sy'n gysylltiedig â hwy, a wnaed

[83] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2016, Pennod 6, paragraff 6.4.3. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64290/Llythyr%20gan%20yr%20Ombwdsmon%20Gwasanaethau%20Cyhoeddus%20at%20y%20Cadeirydd%20-%20Asesiad%20Effaith%20Rheoleiddiol%20-%2014%20R.pdf

am wasanaethau iechyd preifat. Fel y nodwyd ym mharagraff 11.7, ceisiodd y Pwyllgor Cyllid wybodaeth gan ISCAS a Chymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru. Roedd yr ymateb gan ISCAS, a ddaeth i law ar 28 Mehefin 2018 Mae'r ymateb gan ISCAS, a dderbyniwyd ar 28 Mehefin 2018[84], yn nodi mai dim ond dau ddyfarniad Cam 3 oedd ar y gweill bryd hynny mewn perthynas â'i aelodau yng Nghymru. Er mai dim ond un o'r achosion hyn oedd yn ymwneud â darparwyr gwasanaethau iechyd cyhoeddus a phreifat, rhoddodd ISCAS y manylion ar gyfer y ddau achos er mwyn dangos yr ystod o gostau posibl.

11.155. Nid ystyrir bod amcangyfrifon sy'n seiliedig ar gostau yr aed iddynt mewn perthynas â dau achos, pan mai dim ond un o'r rheini oedd yn ymwneud â darparwyr iechyd cyhoeddus a phreifat, yn ddigon cadarn. O gofio hynny, defnyddiwyd yr amcangyfrif ar gyfer y costau yr eir iddynt gan gyrff cyhoeddus i roi syniad o oblygiadau ariannol y Bil i ddarparwyr gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Nodwn fod y costau uned isel a'r costau uned uchel i gyrff y sector cyhoeddus yn rhoi amcangyfrif o'r costau cyn ac yn ystod ymchwiliad llawn i gŵyn yn ei chyfanrwydd. Pan na ellir ymchwilio i'r camweinyddu neu'r fethiant honedig yn effeithiol nac yn gyflawn heb hefyd ymchwilio i'r gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd, mae'r Bil yn rhoi pŵer ategol i'r Ombwdsmon i ymchwilio i'r elfen honno fel rhan o'r ymchwiliad mewn perthynas â'r awdurdod rhestredig perthnasol. Gan nad oes data, ystyrir mai'r costau uned isel a'r costau uned uchel i gyrff y sector cyhoeddus yw'r amcangyfrif gorau o oblygiadau ariannol y Bil i ddarparwyr gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Dangosir y rhain yn Nhabl 24.

[84] Llythyr oddi wrth Wasanaeth Annibynnol Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 28 Mehefin 2018. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s77230/Letter%20from%20the%20Independent%20Sector%20Complaints%20Adjudication%20Service%20to%20the%20Chair%20-%2028%20June%202018.pdf

**Tabl 24: Amcangyfrif o gyfanswm y costau anuniongyrchol sy'n deillio o'r pŵer ategol i ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr iechyd cyhoeddus/preifat (Nifer y cwynion a £)**

| | **Cost uned isel** | **Cost uned uchel** |
|---|---|---|
| Nifer y cwynion y flwyddyn | 7 | 7 |
| **Cost cyn ymchwilio[a]:** | | |
| Amcangyfrif o'r costau uned fesul cwyn (£)[b] | 231 | 357 |
| Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£) | 1,617 | 2,499 |
| **Cost yr ymchwiliad:** | | |
| Amcangyfrif o'r costau uned fesul cwyn (£)[c] | 1,731 | 2,157 |
| Cyfanswm y gost anuniongyrchol bosibl (£) | 12,117 | 15,099 |
| **Amcangyfrif o gyfanswm y gost anuniongyrchol cyn ac yn ystod ymchwiliadau (£)** | **13,734** | **17,598** |
| **Cyfanswm y costau anuniongyrchol posibl y** | **68,670** | **87,990** |

**Nodiadau:**

a Tybir y bydd darparwyr iechyd preifat yn mynd i gostau cyn ac yn ystod ymchwiliad llawn ac y bydd pob cwyn yn mynd ymlaen i ymchwiliad llawn (cyfeirir at hyn ym mharagraff 11.81).

b Amcangyfrif o gost uned cwyn cyn ymchwiliad llawn (fel y dangosir yn Nhablau 14 a 15).

c Amcangyfrif o gost uned cwyn ar gyfer ymchwiliad llawn (fel y dangosir yn Nhablau 20 a 21).

## Dadansoddiad sensitifrwydd

11.156. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd i brofi effaith newid y tybiaethau mewn perthynas â nifer y cwynion sy'n cynnwys elfen yn ymwneud â gwasanaethau iechyd preifat mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat. Mae'r canlyniadau, a gyflwynir yn Nhabl 25, wedi'u cynnwys fel enghraifft yn unig; nid yw'r costau wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrif gorau o oblygiadau ariannol y Bil. Maent yn dangos nifer y cwynion a'r gost gysylltiedig os yw nifer y cwynion sy'n cynnwys elfen o wasanaeth preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr iechyd cyhoeddus/preifat yn adlewyrchu:

- y tybiaethau ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn llwyth achosion cyffredinol yr Ombwdsmon, sef cynnydd blynyddol o 5 y cant a 12 y cant; a

- chynnydd yn nifer y cwynion o 10 y cant ac 20 y cant y flwyddyn, a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddiad sensitifrwydd a gynhaliwyd ar gyfer amcangyfrifon eraill o gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

**Tabl 25: Dadansoddiad sensitifrwydd – Costau refeniw uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r pŵer ategol i ymchwilio i wasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr iechyd cyhoeddus/preifat, â chynnydd blynyddol yn nifer y cwynion o 5 y cant, 10 y cant, 12 y cant ac 20 y cant (Nifer cwynion a £)**

| | | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion yn cynyddu 5 y cant y flwyddyn[a] | | | | | | | |
| Nifer y cwynion[bc] | | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 | 35 |
| Costau uniongyrchol[d] | Isel | 13,734 | 13,734 | 13,734 | 13,734 | 13,734 | 68,670 |
| Costau uniongyrchol[e] | Uchel | 17,598 | 17,598 | 17,598 | 17,598 | 17,598 | 87,990 |
| Cwynion yn cynyddu 10 y cant y flwyddyn[f] | | | | | | | |
| Nifer y cwynion[bc] | | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 45 |
| Costau uniongyrchol[d] | Isel | 13,734 | 15,696 | 17,658 | 19,620 | 21,582 | 88,290 |
| Costau uniongyrchol[e] | Uchel | 17,598 | 20,112 | 22,626 | 25,140 | 27,654 | 113,130 |
| Cwynion yn cynyddu 12 y cant y flwyddyn[a] | | | | | | | |
| Nifer y cwynion[bc] | | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 45 |
| Costau uniongyrchol[d] | Isel | 13,734 | 15,696 | 17,658 | 19,620 | 21,582 | 88,290 |
| Costau uniongyrchol[e] | Uchel | 17,598 | 20,112 | 22,626 | 25,140 | 27,654 | 113,130 |
| Cwynion yn cynyddu 20 y cant y flwyddyn[f] | | | | | | | |
| Nifer y cwynion[bc] | | 7 | 8 | 10 | 12 | 14 | 51 |
| Costau uniongyrchol[d] | Isel | 13,734 | 15,696 | 19,620 | 23,544 | 27,468 | 100,062 |
| Costau uniongyrchol[e] | Uchel | 17,598 | 20,112 | 25,140 | 30,168 | 35,196 | 128,214 |

**Nodiadau:**

a Rhagwelir cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon o 5 y cant a 12 y cant y flwyddyn, a adlewyrchwyd yn yr amcangyfrifon cost (gweler paragraff 11.33).

b Tybir y bydd darparwyr gwasanaethau iechyd preifat yn mynd i gostau cyn ymchwiliad ac yn ystod ymchwiliad.

c Mae nifer y cwynion wedi'i thalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf (gweler paragraff 11.25).

d Cyfrifwyd costau uniongyrchol gan ddefnyddio'r costau uned isel yn Nhablau 14 ac 20.

e Cyfrifwyd costau uniongyrchol gan ddefnyddio'r costau uned uchel yn Nhablau 15 ac 21.

f Rhagwelir cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon o 10 y cant ac 20 y cant y flwyddyn, a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddiadau sensitifrwydd a gynhaliwyd ar gyfer costau uniongyrchol ac anuniongyrchol eraill yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

## Gwerth a manteision

11.157. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi'r Ombwdsmon i ystyried cwyn yn llawn pan fo triniaeth wedi'i darparu gan gyfuniad o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus a phreifat sy'n gysylltiedig ag iechyd. Y fantais fyddai y gallai'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad cynhwysfawr gan ddarparu eglurhad llawn i'r achwynwr o'r hyn a ddigwyddodd neu'r hyn na ddigwyddodd yn ystod y driniaeth. Mae hyn er budd y cyhoedd gan y

gellid cadarnhau a fu unrhyw fethiant gan y GIG neu a fu unrhyw fethiant yn ystod y driniaeth breifat.

11.158. Canlyniad posibl a allai ddeillio o'r opsiwn hwn fyddai rhagor o alw am yr adnoddau sydd ar gael i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau. Fodd bynnag, caiff hyn ei liniaru gan y ddarpariaeth yn adran 19 o'r Bil sy'n rhoi pŵer i'r Ombwdsmon fynnu neu adennill costau gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys amgylchiadau pan fo'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat wedi rhwystro'r Ombwdsmon rhag cyflawni'i swyddogaethau.

**Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol**

11.159. Canlyniad posibl a allai ddeillio o'r opsiwn hwn fyddai rhagor o alw am yr adnoddau sydd ar gael i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau yn y Bil y cyfeirir atynt yn y paragraff uchod yn lliniaru hyn. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Ombwdsmon fynnu neu adennill costau gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat mewn amgylchiadau penodol.

Opsiwn 3: Diwygio'r ddeddfwriaeth i ddarparu pŵer i'r Ombwdsmon ystyried cwynion ynghylch yr holl ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat

11.160. Rôl yr Ombwdsmon, fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf 2005, yw ymchwilio i gamweinyddu a methiant o ran y gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus rhestredig. Nod yr Ombwdsmon yw “cywiro pethau i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus a hybu gwelliant yn y gwasanaethau hynny a safonau mewn bywyd cyhoeddus trwy ddefnyddio’r hyn a ddysgwyd yn sgil y cwynion a gafwyd.[85]

11.161. Gallai'r opsiwn hwn arwain at nifer sylweddol o gwynion yn cael eu gwneud i'r Ombwdsmon am ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat. Byddai hyn yn gwanhau neu'n newid diben a rôl yr Ombwdsmon o ran gwasanaethau cyhoeddus. Am y rhesymau hyn, mae'r opsiwn hwn wedi'i roi o'r neilltu ac nid yw'n cael ei asesu'n llawn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

[85] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Beunyddiol: Dysgu Gwersi o Ddelio’n Wael â Chwynion. Ar gael yn: https://www.ombwdsmon.cymru/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2018/04/Rhoi-Diwedd-ar-yr-Un-Hen-Gân-Beunyddiol-Dysgu-Gwersi-o-Ddelion-Wael-â-Chwynion.pdf

### Costau uniongyrchol

11.162. Fel y nodwyd ym mharagraff 11.77, nid yw'r data sydd wedi'u cyhoeddi ynghylch nifer y cwynion yn cynnwys yr holl ddarparwyr gofal iechyd preifat. O'r herwydd, ni fu'n bosibl amcangyfrif gwerth y costau uniongyrchol pe byddai'r ddeddfwriaeth yn rhoi pŵer i'r Ombwdsmon ystyried cwynion am yr holl ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat. Nid yw'n hysbys felly faint fydd cost y ddarpariaeth hon i ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat.

11.163. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod angen cyflwyno system ardoll gymhleth ar gyfer mynnu neu adennill costau gan y sector preifat. Nid yw'r Ombwdsmon wedi meintioli'r gost ar gyfer datblygu system o'r fath at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan nad dyma'r opsiwn a ffefrir.

### Costau anuniongyrchol

11.164. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

11.165. Fel y nodir ym mharagraff 11.77, nid oes gan yr Ombwdsmon fynediad, na hawl, i gael manylion am nifer y cwynion, a'r costau sy'n gysylltiedig â hwy, a wnaed am wasanaethau iechyd preifat. Hefyd, fel y nodir ym mharagraff 11.163, nid yw'r Ombwdsmon wedi meintioli'r gost o sefydlu a gweithredu system ardoll i adennill y costau o ystyried cwynion yn erbyn pob darparwr gwasanaethau iechyd preifat. Felly, er y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gostau ychwanegol ar gyfer darparwyr gwasanaethau iechyd preifat, nid oes modd darparu amcangyfrif. Nid yw'n hysbys felly faint fydd cost y ddarpariaeth hon i ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat.

### Gwerth a manteision

11.166. Byddai gan unigolion sy'n prynu gofal a thriniaeth gan sefydliadau gwasanaethau iechyd preifat cofrestredig hawl statudol i geisio iawndal. Ar hyn o bryd, gall darparwyr o'r fath ddewis a ydynt am fod yn aelodau o sefydliad amgen i ddatrys anghydfodau.

### Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol

11.167. Gallai'r opsiwn hwn arwain at nifer sylweddol o gwynion yn cael eu gwneud i'r Ombwdsmon am ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat. Gallai hyn wanhau neu newid ffocws rôl a swyddogaeth Ombwdsmon y sector cyhoeddus.

**Crynodeb**

11.168. Yr opsiwn a ffefrir yw ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ganiatáu iddo ymchwilio i gwynion mewn llwybr gwasanaethau iechyd cyhoeddus/preifat os bernir bod hynny'n angenrheidiol fel rhan o'r ymchwiliad o ran yr awdurdod rhestredig perthnasol. Yr amcangyfrif o gost y cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon yn sgil y newid hwn i'w awdurdodaeth yw £3,507 y flwyddyn neu £17,535 am bum mlynedd. Dywed yr Ombwdsmon y gellir cynnwys y gost ychwanegol o fewn yr adnoddau presennol. O ganlyniad, ni fyddai angen unrhyw gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau a nodir yn y Bil yn galluogi'r Ombwdsmon i fynnu ac adennill costau gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat mewn amgylchiadau penodol.

11.169. Ni fyddai'r opsiwn a ffefrir yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Mae'r amcangyfrif o oblygiadau ariannol y Bil i ddarparwyr preifat yn amrywio o £13,734 i £17,598 y flwyddyn neu £68,670 i £ 87,990 am bum mlynedd.

## Y pŵer i ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau o ran ymdrin â chwynion.

Opsiwn 1: Gwneud dim

**Costau uniongyrchol**

11.170. Yn Nhabl 8 ceir amcangyfrif o gost y cynnydd a ragwelir yn llwyth achosion yr Ombwdsmon yn ystod y pum mlynedd hyd at 2022-23 o dan ddarpariaethau Deddf 2005.

**Costau anuniongyrchol**

11.171. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at gostau anuniongyrchol ychwanegol.

**Gwerth a manteision**

11.172. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw werth ychwanegol na manteision cysylltiedig.

**Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol**

11.173. Mae'n debygol y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at:

- barhau â'r dull anghyson o ymdrin â chwynion gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru;
- diffyg data cymaradwy am gwynion; a
- dim craffu ar gwynion ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda'r diffyg tryloywder sy'n gysylltiedig â hynny.

Opsiwn 2: Diwygio'r ddeddfwriaeth i roi swyddogaeth 'data yn unig' i'r Ombwdsmon wrth iddo ymdrin â chwynion

**Costau uniongyrchol**

11.174. Byddai angen i'r Ombwdsmon benodi aelod staff amser llawn ychwanegol yn ei swyddfa i ymgymryd â'r rôl hon. Byddai costau parhaus a chostau pontio (neu gostau untro) yn codi yn sgil hyn. Bydd hyn yn arwain at gostau cyflog ychwanegol (gan gynnwys 'argostau') a chostau refeniw cysylltiedig eraill. Mae'r costau hyn yn ymwneud â hyfforddi, teithio a chynhaliaeth. Hefyd, costau swyddfa, gweinyddol a chymorth parhaus sy'n gysylltiedig â'r swydd newydd, fel trwyddedau meddalwedd, costau ffôn, costau cyfathrebu eraill, deunydd ysgrifennu, argraffu a thechnoleg Gwybodaeth (TG) a chostau cymorth. Byddai hefyd gostau pontio (neu 'untro') yn gysylltiedig â chreu'r swydd newydd, gan gynnwys costau recriwtio, dodrefn swyddfa a ffitiadau (fel desg, cadair, lle i storio ffeiliau, ffôn, manion, monitor, stand ac offer swyddfa sylfaenol eraill), caledwedd TG (cyfrifiadur a monitor) a chostau gosod (gan gynnwys costau ar gyfer gweithio symudol), pasys diogelwch, hyfforddiant cychwynnol a chynefino. Mae amcangyfrif o'r costau parhaus a'r costau pontio i swyddfa'r Ombwdsmon ar gyfer yr opsiwn hwn o'r flwyddyn gyntaf hyd at y bumed flwyddyn i'w weld yn Nhabl 26.

**Tabl 26: Costau refeniw uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r rôl 'data yn unig' wrth ymdrin â chwynion, yn gostau parhaus a chostau pontio (£)**

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blynyddoedd 1-5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Costau refeniw parhaus:** | | | | | | |
| **Costau staff** | | | | | | |
| Costau cyflog[a]: Costau staff - un swyddog llawn amser | 60,000 | 60,000 | 60,000 | 60,000 | 60,000 | **300,000** |
| Costau eraill o ran staff: Costau hyfforddi, teithio a chynhaliaeth | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | **5,000** |
| **Costau eraill** Costau swyddfa, gan gynnwys argraffu, deunydd swyddfa a TG | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | **25,000** |
| **Cyfanswm costau refeniw fesul blwyddyn** | **66,000** | **66,000** | **66,000** | **66,000** | **66,000** | **330,000** |
| **Costau pontio (neu gostau 'untro')** | **5,000** | - | - | - | - | **5,000** |
| **Cyfanswm y costau uniongyrchol – Blwyddyn 1** | **71,000** | **66,000** | **66,000** | **66,000** | **66,000** | **335,000** |

## Costau anuniongyrchol

11.175. Roedd y Wybodaeth Atodol a ddarparwyd gan yr Ombwdsmon[86] yn nodi'r hyn a ganlyn i fod yn bwyntiau allweddol a nodwyd mewn trafodaethau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a chyrff GIG yng Nghymru mewn perthynas â safonau cwynion a systemau ymdrin â chwynion:

- ar hyn o bryd, mae anghysondeb (yn enwedig ar draws llywodraeth leol) yn y ffordd y caiff cwynion eu monitro a'r ffordd y caiff data eu casglu a'u dadansoddi. Defnyddir gwahanol systemau (a gwahanol feddalwedd) ynghyd â dulliau amrywiol;
- mae trafodaethau eisoes ar droed yn GIG Cymru ynghylch caffael platfform meddalwedd ymdrin â chwynion unigol ar gyfer Cymru gyfan a fyddai'n hwyluso gwell cysondeb a chymhared ar draws cyrff iechyd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ni waeth pa un a yw'r Ombwdsmon yn cael y pŵer newydd y gofynnir amdano ai peidio;
- mae'n annhebygol y bydd pob un o'r 22 awdurdod mewn sefyllfa i symud at blatfform meddalwedd safonol/cyson ar gyfer ymdrin â chwynion yn y dyfodol agos;

[86] Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth atodol. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

- mae gwahanol gyrff o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn defnyddio gwahanol ddulliau a gwahanol systemau meddalwedd. Fodd bynnag, nid oes rhaid i hyn fod yn rhwystr anorchfygol i gael rhagor o gysondeb a data o well ansawdd i reoli a chymharu perfformiad yn well. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn yr Alban lle mae'r pwyslais ar y data sydd eu hangen yn hytrach na'r system a ddefnyddir i'w darparu. Mae cyrff cyhoeddus yr Alban yn defnyddio amrywiaeth o wahanol systemau a dulliau i gasglu'r data sydd eu hangen.

11.176. Ffocws gwaith yr Ombwdsmon yn y maes hwn fyddai gofyn i gyrff cyhoeddus o fewn ei awdurdodaeth gasglu meysydd data cyson y gellid eu cyfuno er mwyn dadansoddi'n well ac yn ehangach gan arwain at ledaenu arfer da.

11.177. I grynhoi a chan adlewyrchu'r tybiaethau a nodwir ym mharagraff 11.68, mae'r costau anuniongyrchol ar gyfer cyrff cyhoeddus o fewn yr awdurdodaeth o ganlyniad i'r pŵer newydd dan sylw yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion yn addasu'r gronfa ddata a'r systemau TG cyfredol. Roedd y swyddogion y bu'r Ombwdsmon yn ymgynghori â hwy i ddatblygu'r amcangyfrifon o gostau yn awgrymu bod y goblygiadau amser i ymgymryd ag addasiadau o'r fath yn fach iawn.[87] Fodd bynnag, amcangyfrifwyd y gost. Fel y nodir ym mharagraff 11.69, rydym wedi tybio at ddiben yr amcangyfrif y byddai angen rhwng diwrnod a thridiau o amser swyddogion ym mhob corff cyhoeddus i wneud hyn.

11.178. Yn seiliedig ar wybodaeth a phrofiad staff, mae'r Ombwdsmon yn amcangyfrif y byddai angen i 36 o'r cyrff cyhoeddus sydd o fewn ei awdurdodaeth ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae Tabl 27 yn dangos amcangyfrif o'r costau pontio anuniongyrchol ar gyfer pob corff cyhoeddus. Mae hefyd yn dangos cyfanswm y costau y mae'r 36 corff cyhoeddus a ganlyn yn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn debygol o'u hwynebu er mwyn cyflawni gwaith i newid cronfeydd data a systemau TG perthnasol:

- 22 awdurdod lleol;
- 3 awdurdod parc cenedlaethol;
- 7 bwrdd iechyd;

---

[87] Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth atodol. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

- 3 ymddiriedolaeth GIG; a
- Llywodraeth Cymru.

11.179. Mae'r Ombwdsmon yn nodi y gellid ymestyn y gofyniad i gymdeithasau tai mwy o faint.[88] Mae Tabl 27 yn dangos y costau tebygol a fydd yn wynebu'r sefydliadau hynny. Ar gyfer yr amcangyfrif hwn, tybiwyd y byddai'r gost fesul cymdeithas dai yr un fath â chyrff cyhoeddus o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon ac y gallai'r gost fod yn gymwys i un o bob tair cymdeithas dai, hynny yw, 30 o'r 90 cymdeithas dai yng Nghymru.

11.180. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost pontio anuniongyrchol i'r holl gyrff cyhoeddus a chymdeithasau tai fydd rhwng £10,362 a £31,020. Fel y nodwyd ym mharagraff 11.26, tybir y bydd costau pontio yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

**Tabl 27: Costau pontio anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â diwygio'r ddeddfwriaeth i roi rôl i'r Ombwdsmon mewn perthynas â dyluniad cwynion, goruchwylio gweithrediad a chasglu data, costau pontio (£)**

| **Staff dan sylw** | **Cyflog gros y flwyddyn (£)** | **Cost cyflog fesul diwrnod (£)** | **Cost cyflog 3 diwrnod (£)** |
|---|---|---|---|
| Rheolwr y Tîm Cwynion | 30,000 | 116 | 348 |
| Costau cyflog, gan gynnwys 'argostau' fesul corff cyhoeddus (£) | | 157 | 470 |
| Cyfanswm y costau cyflog, gan gynnwys argostau (£): | | | |
| Ar gyfer pob corff cyhoeddus, 36 (£) | | 5,652 | 16,920 |
| Ar gyfer yr holl gymdeithasau tai, 30 (£) | | 4,710 | 14,100 |
| **Ar gyfer cyrff cyhoeddus a chymdeithasau tai (£)** | | **10,362** | **31,020** |

## Gwerth a manteision

11.181. Gwella'r modd o gasglu data ar lefel Cymru gyfan fyddai prif fantais dewis yr opsiwn hwn.

[88] Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, Gwybodaeth atodol. Ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s64291/Letter%20from%20the%20Public%20Services%20Ombudsman%20for%20Wales%20-%20Regulatory%20Impact%20Assessment%20-%2028%20April%202017.pdf

**Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol**

11.182. Efallai y bydd cwmpas cyfyngedig yr opsiwn hwn yn cyfyngu ar gymhared y data o ystyried yr angen i wella cysondeb wrth ymdrin â chwynion.

Opsiwn 3: Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i gryfhau rôl yr Ombwdsmon wrth sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn effeithiol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru (yr opsiwn a ffefrir)

**Costau uniongyrchol**

11.183. Amcangyfrifir mai dau aelod staff amser llawn ychwanegol y byddai eu hangen i gyflawni'r rôl hon, ac yn sgil hynny byddai costau parhaus a chostau pontio (neu gostau untro) cysylltiedig. Mae’r amcangyfrif o’r costau parhaus a'r costau pontio i swyddfa'r Ombwdsmon o ganlyniad i'r opsiwn hwn i’w weld yn Nhabl 28. Mae hyn yn adlewyrchu costau cyflog ychwanegol (gan gynnwys 'argostau') a chostau refeniw cysylltiedig eraill. Mae'r costau hyn yn ymwneud â hyfforddi, teithio a chynhaliaeth. Hefyd, costau swyddfa, gweinyddol a chymorth parhaus sy’n gysylltiedig â'r swydd newydd, fel trwyddedau meddalwedd, costau ffôn, costau cyfathrebu eraill, deunydd ysgrifennu, argraffu a thechnoleg Gwybodaeth (TG) a chostau cymorth. Byddai hefyd gostau pontio (neu 'untro') yn gysylltiedig â chreu'r swyddi newydd, gan gynnwys costau recriwtio, dodrefn swyddfa a ffitiadau (fel desg, cadair, lle i storio ffeiliau, ffôn, manion, monitor, stand ac offer swyddfa sylfaenol eraill), caledwedd TG (cyfrifiadur a monitor) a chostau gosod (gan gynnwys costau ar gyfer gweithio symudol), pasys diogelwch, hyfforddiant cychwynnol a chynefino.

**Tabl 28: Costau refeniw uniongyrchol sy'n gysylltiedig â diwygio'r ddeddfwriaeth i roi rôl i'r Ombwdsmon mewn perthynas â dyluniad cwynion, goruchwylio gweithrediad a chasglu data, costau parhaus a chostau pontio (£)**

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blynyddoedd 1-5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Costau refeniw parhaus:** | | | | | | |
| **Costau staff:** | | | | | | |
| Costau cyflog[a]: | | | | | | |
| Dau swyddog llawn amser | 115,000 | 115,000 | 115,000 | 115,000 | 115,000 | **575,000** |
| Costau eraill o ran staff: | | | | | | |
| Ffioedd proffesiynol, gan gynnwys cyngor arbenigol | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | **50,000** |
| Costau hyfforddi, teithio a chynhaliaeth | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | **10,000** |
| **Costau eraill** | | | | | | |
| Costau swyddfa, gan gynnwys argraffu, deunydd swyddfa a TG | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | **50,000** |
| **Cyfanswm costau refeniw fesul blwyddyn** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **685,000** |
| **Costau pontio (neu gostau 'untro')** | **10,000** | - | - | - | - | **10,000** |
| **Cyfanswm y costau uniongyrchol** | **147,000** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **137,000** | **695,000** |

## Costau anuniongyrchol

11.184. Mae amcangyfrif y costau anuniongyrchol yr un fath ag opsiwn 2, a nodir yn Nhabl 27. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost pontio anuniongyrchol i'r holl gyrff cyhoeddus a chymdeithasau tai fydd rhwng £10,362 a £31,020.

## Gwerth a manteision

11.185. Byddai rôl yr Awdurdod Safonau Cwynion yn galluogi'r Ombwdsmon i bennu beth sy'n arfer da o ran ymdrin â chwynion, ei gwneud yn ofynnol i ddata gael eu casglu mewn modd cyson a byddai'r rôl yn cynnig trosolwg o'r tueddiadau o ran cwynion cyrff cyhoeddus o fewn ei awdurdodaeth.

11.186. Mae hefyd yn bosibl gwneud arbedion ar gyfer cyrff o fewn yr awdurdodaeth o ganlyniad i ymdrin â chwynion yn well. I ddangos y posibilrwydd hwn, mae adroddiad gan Reolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *yr Adran Gwaith a Phensiynau - Ymdrin â Chwynion Cwsmeriaid,* yn nodi y gall *cwynion a gaiff eu datrys yn llwyddiannus yn Haen 1 [yn Lloegr] fod hyd at 40 gwaith yn rhatach na'r rheini a gaiff eu datrys yn Haen 3 [sef cam yr Ombwdsmon]. Gallai*

*lleihau nifer yr achosion sy'n cyrraedd Haen 3 o draean arbed dros £700,000 i'r Adran.*[89]

### Effeithiau anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol

11.187. Gallai'r opsiwn hwn esgor ar densiynau â chyrff cyhoeddus mewn rhai sectorau, yn enwedig o ystyried gofynion statudol sydd eisoes yn bodoli, megis y rheini ym meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn darparu nad oes gofyn i awdurdodau rhestredig gydymffurfio â manyleb yr Ombwdsmon os yw'r dyletswyddau'n anghyson ag unrhyw ddeddfiad arall.

### Crynodeb

11.188. Yr opsiwn a ffefrir yw diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i gryfhau rôl yr Ombwdsmon wrth sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn effeithiol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dros gyfnod o bum mlynedd, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost uniongyrchol fydd £695,000. Mae hyn yn cynnwys costau refeniw parhaus a chostau pontio o £10,000.

11.189. Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn arwain at gostau pontio i gyrff cyhoeddus o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i addasu cronfeydd data perthnasol a systemau TG i gasglu data ynghylch cwynion mewn modd mwy cyson. Amcangyfrifir mai rhwng £10,362 a £31,020 fydd y costau ychwanegol hyn.

---

[89] Y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, Handling Customer Complaints, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gorffennaf 2008. Ar gael yn:
https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2008/07/n0708995.pdf [cyrchwyd Mehefin 2017].

# 12. Asesiadau Effaith Penodol

## Diben y bennod hon

12.1. Mae'r bennod hon yn nodi canlyniadau'r asesiadau effaith penodol a gynhaliwyd fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Dyletswyddau statudol a dyletswyddau eraill

12.2. Cynhaliwyd yr asesiadau effaith penodol gan roi ystyriaeth briodol i ddyletswyddau statudol cysylltiedig:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Rheoliadau ar gyfer Dyletswyddau Cydraddoldeb sy'n Benodol i Gymru (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011)
- Deddf Hawliau Dynol 1998; a'r
- Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

## Asesiad Hawliau Dynol ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

12.3. Ym maes gwaith yr Ombwdsmon, mae hawliau dynol a chydraddoldeb yn gweithredu ar ddwy lefel.

**Lefel anuniongyrchol – Yr effaith ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru**

12.4. Mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Wrth ystyried cwynion, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu a ydynt wedi cael gwasanaeth gwael drwy ryw fai ar ran y darparwr gwasanaeth. Bydd yr Ombwdsmon hefyd yn ystyried a yw'r darparwr gwasanaeth wedi gweithredu yn unol â'r gyfraith.

12.5. Mae'n bosibl y bydd pobl sydd wedi cael eu trin yn annheg neu sydd wedi cael gwasanaeth gwael yn canfod eu bod wedi bod yn destun gwahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu yr aethpwyd yn groes i'w hawliau dynol o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly, er nad oes gan yr Ombwdsmon rôl uniongyrchol o ran pennu beth sy'n torri hawliau dynol, gall methu â rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb a hawliau dynol arwain at gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth. Mae'r Ombwdsmon:

- yn ceisio gwneud iawn i bobl am bethau, a all gynnwys cael gwared ar unrhyw wahaniaethu neu fethiant i ystyried hawliau dynol person, a all olygu y caiff hawliau dynol eu torri;
- yn ymgysylltu â'r darparwr gwasanaeth er mwyn sicrhau gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol, i sicrhau nad oes gwahaniaethu ac na thorrir hawliau dynol yn y dyfodol.

12.6. Er enghraifft, cwynodd rhieni dyn a oedd ag anabledd difrifol i'r Ombwdsmon fod y Cyngor, wedi i'w mab symud oddi cartref i lety a oedd yn darparu gofal, wedi methu â rhoi ystyriaeth briodol i angen eu mab i gysylltu â'i rieni gan i'r Cyngor wrthod adfer neu atgyweirio'r lifft yn eu cartref, a oedd yn hanfodol i'r mab allu cael mynediad i gartref y teulu. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod hawl yr achwynwr i fywyd preifat a bywyd teuluol o dan Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gymwys, ac er i'r Cyngor ddweud iddo roi ystyriaeth i hawliau dynol y mab, nid oedd y dystiolaeth yn ategu hynny. Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor yn ymddiheuro i'r teulu, ei fod yn cydweithio â'r teulu i ddod o hyd i ateb er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r mab ymweld â chartref y teulu, ac iddo fynd i'r afael â gwaith cynllunio trosiannol ar gyfer unigolion yn y dyfodol gan roi ystyriaeth i anghenion gofalwyr hefyd. Cytunodd y Cyngor i roi'r holl argymhellion ar waith.

12.7. Felly, mae gan yr Ombwdsmon rôl bwysig o ran mynd i'r afael ag anghyfiawnder a all ddigwydd yn sgil gwahaniaethu a methiant i roi ystyriaeth i hawliau dynol unigolion.

12.8. Effaith y Bil fydd diogelu a chryfhau'r rôl honno. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer parhau â swyddogaethau'r Ombwdsmon sydd wedi bod ar waith ers Deddf 2005 ac sydd wedi galluogi'r Ombwdsmon i fod â rôl o ran mynd i'r afael â gwahaniaethu a methiant i roi ystyriaeth i hawliau dynol. Mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy nag erioed, ac mae'n hollbwysig, felly, fod y rôl honno'n cael ei diogelu.

12.9. Ond mae effaith y Bil yn mynd ymhellach. Drwy roi pwerau newydd i'r Ombwdsmon, bydd ei rôl o fynd i'r afael â gwahaniaethu a methiant i roi ystyriaeth i hawliau dynol yn gryfach ac yn fwy gwerthfawr nag erioed, a bydd yn sicrhau bod gwasanaeth yr Ombwdsmon yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

12.10. Er enghraifft, bydd pŵer yr Ombwdsmon i ymchwilio ar ei liwt ei hun yn galluogi iddo ymchwilio a mynd i'r afael â methiannau systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd yr Ombwdsmon adroddiad thematig o'r enw 'Y Tu Allan i Oriau: Amser i Ofalu' a oedd yn nodi pryderon difrifol ynghylch safon y gofal a gâi

cleifion mewn ysbytai ledled Cymru y tu allan i oriau gwaith arferol. O dan Ddeddf 2005, nid oedd gan yr Ombwdsmon bwerau i ymchwilio i gwmpas y methiant systemig gan na allai ond edrych ar gwynion unigol a gyflwynwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. O dan y Bil, gallai'r Ombwdsmon ymchwilio i fethiannau systemig o'r fath ar ei liwt ei hun. Bydd methiannau systemig yn aml yn arwain at wahaniaethu a phroblemau o ran hawliau dynol, ac felly bydd y pwerau newydd yn y Bil o gymorth wrth fynd i'r afael â phroblemau gwahaniaethu a hawliau dynol sy'n codi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a byddant yn cyfrannu at y dyletswyddau cadarnhaol ar y cyrff cyhoeddus hynny i gael gwared ar wahaniaethu a chydymffurfio â dyletswyddau hawliau dynol.

12.11. Mae enghraifft arall yn deillio o hyblygrwydd y Bil yn y ffordd y ceir gwneud cwynion i'r Ombwdsmon. Mae hyblygrwydd i ganiatáu i gwynion gael eu gwneud ar lafar, gan wneud y system gwynion yn hygyrch i'r rhai sy'n arbennig o agored i niwed. Yn benodol, mae perygl i bobl sy'n agored i niwed a phobl ddigartref wynebu gwahaniaethu a chael eu hawliau dynol wedi'u torri, ac felly mae'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn y meysydd hyn yn neilltuol bwysig.

12.12. O ganlyniad, mae effaith y Bil ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn gadarnhaol a bydd yn cyfrannu fwy nag erioed at y dyletswyddau cadarnhaol ar gyrff cyhoeddus i gael gwared ar wahaniaethu a chydymffurfio â'u dyletswyddau hawliau dynol.

**Lefel uniongyrchol – Y gwasanaeth a ddarperir gan yr Ombwdsmon ei hun**

12.13. Mae'r Ombwdsmon ei hun yn ddarostyngedig i gyfraith cydraddoldeb a chyfraith hawliau dynol. Er enghraifft, mae'r Ombwdsmon yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'r Ombwdsmon yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Felly, pan fo'r Ombwdsmon yn arfer ei swyddogaethau rhaid iddo gydymffurfio â chyfraith cydraddoldeb a chyfraith hawliau dynol.

12.14. Mae gan yr Ombwdsmon hanes o gydymffurfio'n wych â chyfraith cydraddoldeb a chyfraith hawliau dynol.[90] Ond, unwaith yn rhagor, mae'r Bil yn mynd ymhellach fyth.

12.15. Er enghraifft, mae'r Bil yn rhoi rhagor o hyblygrwydd yn y ffordd y ceir gwneud cwynion i'r Ombwdsmon. Ni fydd angen i gŵyn gael ei gwneud

[90] Mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth yr Ombwdsmon â chyfraith cydraddoldeb ar gael yn adroddiad cydraddoldeb blynyddol yr Ombwdsmon, a gyhoeddwyd yn rhan o adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon.

yn ysgrifenedig rhagor. Drwy gael gwared ar y cyfyngiadau hyn, mae'r Bil yn agor y system gwynion i ystod newydd o bobl sy'n agored i niwed. Er enghraifft, bydd pobl na allant wneud cwynion ysgrifenedig yn gallu cwyno i'r Ombwdsmon - bydd y sawl heb lais bellach yn gallu lleisio barn. Gall pobl fod heb lais am nifer o resymau, boed hynny oherwydd anabledd, oedran, ofn, digartrefedd neu unrhyw statws arall, ac mae'r Bil yn cymryd camau rhagweithiol i'w gwneud yn llawer mwy posibl i'r bobl hynny fynd at yr Ombwdsmon a dweud wrtho am driniaeth a fu'n annheg neu'n anystyriol neu wasanaeth gwael.

12.16. O ganlyniad, mae i'r Bil effaith gadarnhaol sylweddol ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Bydd rhwystrau sylweddol sy'n deillio o wahaniaethu neu dorri hawliau dynol yn cael eu gwaredu, gan alluogi i'r Ombwdsmon weld yn well y problemau a wynebir gan y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

12.17. Ar hyn o bryd, mae staff yr Ombwdsmon yn ceisio helpu aelodau'r cyhoedd na allant wneud cwynion ysgrifenedig, neu sy'n cael anhawster i wneud hynny, drwy wneud nodyn o'r wybodaeth a ddarparwyd dros y ffôn ac anfon y wybodaeth at yr achwynwr i'w llofnodi a'i dychwelyd fel cwyn ffurfiol. Yn aml, ni chaiff y datganiadau hyn am y cwynion eu dychwelyd. Mewn un mis er enghraifft, cafwyd dwy gŵyn dros y ffôn gan bobl oedrannus; roedd un ohonynt am gwyno am ei meddyg teulu a'r llall (a oedd hefyd yn unig ofalwr am aelod o’r teulu) am gwyno am ei bwrdd iechyd lleol. Hyd yma, nid oes yr un o'r achwynwyr wedi llofnodi na dychwelyd eu datganiad am y cwynion at yr Ombwdsmon. O ganlyniad, nid yw'r Ombwdsmon wedi gallu eu helpu ymhellach.

**Grwpiau Gwarchodedig**

12.18. Gall rôl yr Ombwdsmon effeithio'n uniongyrchol ar y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, ac o ganlyniad gallai gael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth eang o faterion cydraddoldeb a hawliau dynol.

12.19. Ar y cyfan, disgwylir i'r Bil gael effaith gadarnhaol ar bobl Cymru wrth i'w ddarpariaethau alluogi'r Ombwdsmon i fod yn fwy ymatebol i anghenion pob dinesydd a mynd i'r afael â'u buddiannau.

Oedran

12.20. Mae'r Bil yn darparu rhagor o hyblygrwydd i'r Ombwdsmon helpu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, gan gynnwys y rheini sy'n agored i niwed oherwydd eu hoedran. Fodd bynnag, ni ystyrir bod y Bil yn cael effaith wahaniaethol mewn perthynas ag oedran.

Anabledd

12.21. Mae'r Bil yn cymryd camau rhagweithiol i'w gwneud yn llawer mwy posibl i bawb, gan gynnwys y rheini sydd yn y grŵp gwarchodedig hwn, fynd at yr Ombwdsmon a dweud wrtho am driniaeth annheg neu wasanaeth gwael. Fodd bynnag, ni ystyrir bod y Bil yn cael effaith wahaniaethol mewn perthynas ag anabledd.

Rhywedd

12.22. Ni fernir bod darpariaethau'r Bil ac ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn cael effaith wahaniaethol mewn perthynas â rhywedd.

Trawsrywedd

12.23. Ni fernir bod darpariaethau'r Bil ac ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn cael effaith wahaniaethol ar unigolion trawsryweddol.

Priodas a phartneriaeth sifil

12.24. Ni fernir bod darpariaethau'r Bil ac ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn cael effaith wahaniaethol mewn perthynas â phriodas a phartneriaeth sifil.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

12.25. Ni fernir bod darpariaethau'r Bil ac ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn cael effaith wahaniaethol ar fenywod beichiog nac ar unigolion sydd ar gyfnod mamolaeth neu dadolaeth.

Hil

12.26. Ni fernir bod darpariaethau'r Bil ac ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn cael effaith wahaniaethol ar unigolion yn y grŵp gwarchodedig hwn.

Crefydd a chred neu ddiffyg cred

12.27. Ni fernir bod darpariaethau'r Bil ac ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn cael effaith wahaniaethol ar unigolion yn y grŵp gwarchodedig hwn.

Cyfeiriadedd rhywiol

12.28. Ni fernir bod darpariaethau'r Bil ac ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn cael effaith wahaniaethol ar unigolion yn y grŵp gwarchodedig hwn.

Monitro

12.29. Ni fydd angen cael rhagor o wybodaeth am bobl â nodweddion gwarchodedig mewn perthynas â darpariaethau'r Bil.

**Crynodeb - Asesiad Hawliau Dynol ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb**

12.30. Efallai y bydd pobl sy'n dioddef triniaeth annheg neu anystyriol a gwasanaeth gwael yn ystyried eu bod wedi bod yn destun gwahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu yr aethpwyd yn groes i'w hawliau dynol. Er enghraifft :

- mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i driniaeth a dderbynnir o dan y gwasanaeth iechyd gwladol, sy'n berthnasol i hawliau unigolyn o dan Erthygl 8 y Confensiwn. Er enghraifft, cadarnhaodd yr Ombwdsmon yn rhannol gŵyn bod y Polisi Comisiynu Dysfforia Rhywedd a weithredir yng Nghymru yn aneglur, ac y bu i'r corff sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cyllid ar gyfer triniaeth ar ran y Bwrdd Iechyd fethu ymateb i bryder yr achwynwr a gwneud cais i'r driniaeth barhau. Derbyniodd yr achwynwr ymddiheuriad, ad-daliad o gost y driniaeth a brynwyd yn breifat ynghyd â thaliad i gydnabod yr amser a'r ymdrech i wneud cwyn. At hynny, adolygwyd a datblygwyd y Polisi Comisiynu i sicrhau ei fod yn addas at y diben.
- Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i ddarpariaeth llywodraeth leol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, sy'n berthnasol i nodweddion gwarchodedig oedran ac anabledd ac sydd hefyd yn berthnasol i'r hawl i addysg o dan Erthygl 2 o Brotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Er enghraifft, cadarnhaodd yr Ombwdsmon gŵyn fod awdurdod lleol wedi methu asesu a nodi'n briodol anghenion addysgol plentyn a oedd sawl blwyddyn y tu ôl i'w gyfoedion wrth symud i addysg uwchradd. Canfu'r ymchwiliad nad oedd y plentyn wedi derbyn y gefnogaeth ychwanegol yr oedd arno ei hangen yn ystod ei flynyddoedd yn yr ysgol gynradd. Cytunodd y Cyngor i asesu anghenion y plentyn a thrafod cynllun gyda'i riant ar gyfer gweithredu unrhyw ddarpariaeth ychwanegol a nodwyd.

- Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion am yr hawl i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, sy'n berthnasol i'r hawl i dderbyn gwybodaeth o dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn ystod ymchwiliad er enghraifft, cytunodd cyngor cymuned i ymddiheuro i achwynwr, ymateb i'w gŵyn yn Gymraeg ac ystyried sut i fynd i'r afael â gohebiaeth Gymraeg a geir yn y dyfodol.
- Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i faterion ynghylch tai, sy'n berthnasol i hawl y person i gartref o dan Erthygl 8 y Confensiwn. Er enghraifft, cadarnhaodd yr Ombwdsmon gŵyn nad oedd y Cyngor yn ymchwilio'n effeithiol nac yn brydlon, nac yn gweithredu'n amserol nac yn ddigonol ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod methu â gwneud hynny yn golygu i'r Cyngor fethu â rhoi sylw i hawliau dynol ac urddas yr achwynwr, a hawliau ei blant. Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor yn ymddiheuro i'r teulu, yn cynnig iawndal o £3000 i gydnabod y straen ar y teulu, hyfforddi ei staff i gasglu tystiolaeth a darparu taflen wybodaeth yn cynnwys enw pwynt cyswllt yn y Cyngor ar gyfer unrhyw dystion sy'n cefnogi achos cyfreithiol y Cyngor.

12.31. Mae'r Bil yn diogelu ac yn cryfhau rôl yr Ombwdsmon o fynd i'r afael â materion cydraddoldeb a hawliau dynol sy'n deillio o ymchwiliadau. Gall y rôl honno gael effaith uniongyrchol ar y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, a thrwy hynny gael effaith gadarnhaol ar ystod eang o broblemau cydraddoldeb a hawliau dynol.

12.32. O ran y broses ymchwilio ei hun, mae'r Bil yn cynnig rhagor o hyblygrwydd i'r Ombwdsmon helpu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, boed hynny oherwydd anabledd, oedran, ofn, digartrefedd neu unrhyw statws arall. Bydd hyn yn cael rhagor o effaith gadarnhaol ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol nad ydynt, yn y gorffennol, wedi cael eu dwyn i sylw'r Ombwdsmon.

## Yr effaith ar y Gymraeg

12.33. Mae'r Ombwdsmon yn darparu gwasanaeth dwyieithog mewn nifer o ddeunyddiau a gohebiaeth, gan gynnwys gohebiaeth sylfaenol a chylchlythyron, y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu. Arfer arferol yr Ombwdsmon yw cyfathrebu dros y ffôn, cynnal ymchwiliadau a

chyfathrebu'n gyffredinol yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn dibynnu ar ddewis y person sy'n cysylltu ag ef neu ei swyddfa.[91]

12.34. Mae adran 71 yn rhoi awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg gyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio i'r Ombwdsmon mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Mae'n diwygio Atodlen 6 i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 (O.S. 2016/182 (Cy.76)) (Safonau'r Gymraeg) i gynnwys yr Ombwdsmon fel un o'r sefydliadau y mae'r safonau'n gymwys yn benodol iddynt.

12.35. Ni fernir bod darpariaethau'r Bil ynghylch ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn cael effaith wahaniaethol ar y Gymraeg. O ran dod â'r Ombwdsmon o fewn cyfundrefn Safonau'r Gymraeg, bydd hyn yn arwain at ragor o graffu ar yr Ombwdsmon ynghylch y modd y mae'n darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Datblygu cynaliadwy

12.36. Mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â gwella'r ffordd y gallwn gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r diffiniad a ganlyn:

> Ystyr “datblygu cynaliadwy” yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.[92]

12.37. Nid yw'r Ombwdsmon a'i swyddfa yn gyrff rhestredig yn y ddeddfwriaeth ac felly nid yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, mae'r Bil yn gyson â'i egwyddorion.

12.38. Mae 'Cymru sy'n fwy cyfartal' yn un o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a disgwylir i'r Bil gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb. Bydd rhwystrau sylweddol sy'n deillio o wahaniaethu yn cael eu dileu, gan alluogi'r Ombwdsmon i fynd i'r afael yn well â phroblemau a wynebir gan y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

12.39. Mae darpariaethau'r Bil yn gyson â nifer o'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er enghraifft :

---

[91] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Polisi Iaith Gymraeg, (y fersiwn ddiweddaraf: Mawrth 2017). Ar gael yn: http://www.ombudsman-wales.org.uk/~/media/Files/Documents_cy/Welsh%20Language%20Policy%20-%20Review%20March%202017%20-%20%20Final%20for%20publication.ashx [cyrchwyd Mehefin 2017].

[92] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rhan 2 'gwella llesiant' adran 2 'datblygu cynaliadwy'.

- Atal: Bydd pŵer yr Ombwdsmon i ymchwilio ar ei liwt ei hun yn galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i fethiannau systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus, a mynd i'r afael â'r methiannau hynny. Drwy ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau, bydd gwaith yr Ombwdsmon yn helpu i atal problemau rhag digwydd eto, gan sicrhau gwelliant yn narpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol; ac
- Integreiddio a chydweithio: Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr Ombwdsmon i ymgynghori a chydweithio ag ombwdsmyn eraill. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gydlafurio ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a phobl benodol eraill.

12.40. Mae darpariaethau o dan Ddeddf 2005 yn golygu y gall fod yn anodd cael mynediad at wasanaethau'r Ombwdsmon i'r rheini sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau cyhoeddus ymatebol. Os na chaiff y Bil ei gyflwyno, mae'n bosibl na fydd rhai o'r bobl sydd o dan anfantais fwyaf yng Nghymru yn gallu cael mynediad at wasanaethau'r Ombwdsmon gan olygu na chaiff eu lleisiau eu clywed.

## Iechyd a llesiant

12.41. Mae'r Bil yn ailddatgan Deddf 2005 gan ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon hefyd. Bydd yr Ombwdsmon yn parhau i gynnal ymchwiliadau i iechyd a gofal cymdeithasol. O dan ddarpariaethau'r Bil, bydd gan yr Ombwdsmon bŵer ategol i ymchwilio i'r elfen gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat fel rhan o ymchwiliad sy'n ymwneud ag awdurdod rhestredig perthnasol. Mae hyn yn galluogi'r Ombwdsmon i ganolbwyntio ar y dinesydd yn ei ymchwiliadau ynghyd ag archwilio cwynion, sy'n cynnwys y GIG ac elfennau gofal iechyd preifat, yn eu cyfanrwydd. Mae hyn yn fantais arwyddocaol o ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio a'r integreiddio cynyddol sydd rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Effaith ar faterion gwledig

12.42. Ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil gael effaith niweidiol ar gymunedau gwledig.

## Asesu cystadleuaeth

12.43. Ni fydd y Bil yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol mewn unrhyw fodd sy'n codi materion sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth.

## Yr effaith ar fusnesau bach

12.44. Mae darpariaethau'r Bil yn rhoi pŵer ategol i'r Ombwdsmon i ymchwilio i'r elfen gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat fel rhan o ymchwiliad sy'n ymwneud ag awdurdod rhestredig perthnasol. Mae hefyd yn rhoi pwerau i'r Ombwdsmon hawlio costau gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat ar sail achos wrth achos. Mae hyn yn gymwys i bob darparwr gwasanaethau preifat sy'n gysylltiedig ag iechyd, ni waeth beth fo maint y sefydliad, oherwydd eu dyletswydd i ofalu am aelodau'r cyhoedd. O'r herwydd, ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil a'r pŵer ategol gael effaith andwyol ar fusnesau bach.

## Effaith ar y trydydd sector

12.45. Ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil gael effaith ar sefydliadau yn y trydydd sector.

## Effaith ar breifatrwydd

12.46. Ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil arwain at newid yn nisgwyliadau unigolion o ran preifatrwydd. Nid yw'n debygol chwaith y bydd newid sylweddol yn y wybodaeth bersonol a gaiff ei chadw gan yr Ombwdsmon.

## RHAN 3 – ADOLYGIAD AR ÔL GWEITHREDU

### 13 Adran 72 – Adolygiad o’r Ddeddf

13.1 Mae adran 72(1) yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor Cynulliad adolygu'r Ddeddf cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y 5 mlynedd gyntaf y bu'r Ddeddf mewn grym. Mae adran 72(2) yn rhoi disgresiwn i bwyllgor Cynulliad adolygu'r Ddeddf ar unrhyw adeg arall.

13.2 Pan fydd pwyllgor Cynulliad yn cynnal adolygiad o dan adran 72, rhaid iddo gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad, a rhaid iddo ymgynghori wrth baratoi adroddiad.

### 14 Adolygiad ar ôl gweithredu

14.1 Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad sy’n craffu ar waith yr Ombwdsmon ac ystyriaethau ariannol ei swyddfa.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

14.2 Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn craffu ar adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon fel rhan o'i rôl craffu.

14.3 Mae paragraff 16 o Atodlen 1 i'r Bil yn nodi'r gofynion mewn perthynas â chyfrifon yr Ombwdsmon. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi cyfrifon yn unol â chyfarwyddydau gan Drysorlys EM, gan gynnwys cyfarwyddydau gan Drysorlys EM o ran y wybodaeth ychwanegol sydd i gyd-fynd â'r cyfrifon, megis manylion ynghylch fformat a strwythur yr adroddiad blynyddol.

14.4 Mae paragraff 17 o Atodlen 1 i'r Bil yn nodi'r trefniadau ar gyfer archwilio cyfrifon yr Ombwdsmon. O dan y darpariaethau hyn, Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd statudol cyfrifon yr Ombwdsmon.

14.5 Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys adroddiadau naratif a datganiadau ariannol (neu 'gyfrifon'). Diben yr adroddiadau naratif hyn yw darparu gwybodaeth ynghylch perfformiad ac atebolrwydd sefydliadau. Wrth baratoi'r adroddiadau naratif hyn, bydd gofyn i'r Ombwdsmon gyflwyno asesiad o'r modd y cyflawnwyd ei swyddogaethau, gan gynnwys y swyddogaethau hynny sy'n gysylltiedig â'r pwerau newydd yn y Bil.

14.6 Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn cynnwys datganiad llywodraethu, sy'n nodi sut y mae'r swyddog cyfrifyddu wedi rheoli'r adnoddau a ddefnyddir gan ei sefydliad. Mae disgrifiad o fframwaith llywodraethu'r sefydliad - gan gynnwys gwybodaeth am strwythur pwyllgorau'r bwrdd, ei gofnodion presenoldeb, a chwmpas ei waith - yn un o'i nodweddion hanfodol.[93] Mae'r Datganiad Llywodraethu – fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ombwdsmon 2017-18[94] – yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu corfforaethol sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Mae'r rhain yn cynnwys Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phanel Ymgynghorol o gynghorwyr allanol.

14.7 Mae Datganiad Llywodraethu 2017-18 yn disgrifio'r Panel Ymgynghorol fel 'fforwm anstatudol a'i brif rôl yw darparu cefnogaeth a chyngor i'r Ombwdsmon er mwyn iddo allu arwain a llywodraethu swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dda.' Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys monitro ac adolygu perfformiad a chyflawni gweithredol yr Ombwdsmon.

14.8 Er mwyn sicrhau ei fod yn agored i graffu ac adolygu wrth iddo ymdrin â chwynion am y gwasanaethau a ddarperir gan ei swyddfa, mae'r Ombwdsmon wedi penodi Adolygydd Cwynion Allanol Annibynnol ar gyfer ei wasanaethau.[95] Dywed polisi'r Ombwdsmon ar gyfer ymdrin â chwynion, os na fydd ei swyddfa yn llwyddo i ddatrys cwyn, y bydd ei swyddfa yn cyfeirio'r gŵyn am y gwasanaeth a ddarperir gan ei swyddfa i'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Cwynion Cwsmeriaid. Mae gwybodaeth am y cwynion hyn yn cael ei chyflwyno'n flynyddol i'r Panel Cynghori.[96]

14.9 Mae'n ofynnol i archwilwyr adolygu'r datganiad llywodraethu i sicrhau ei fod wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'n ofynnol hefyd i archwilwyr adolygu'r datganiad llywodraethu i sicrhau ei fod, ynghyd â'r adroddiadau naratif eraill a gynhwysir yn y cyfrifon, yn gyson â gwybodaeth arall yn y datganiadau ariannol. Bydd hyn, felly, yn rhoi sicrwydd yn hynny o beth.

---

[93] Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru. Atodiad 3.1 Ar gael yn https://beta.llyw.cymru/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru [cyrchwyd Chwefror 2019].
[94] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2017-18. Ar gael yn https://www.ombwdsmon.cymru/annual-report-accounts/
[95] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 'Polisi - Sut i wneud sylw neu gwyno am ein gwasanaeth neu ofyn am adolygiad o benderfyniad a wnaethom'. Ar gael yn https://www.ombwdsmon.cymru/how-to-complain-about-us-or-request-a-review-of-a-decision-we-have-taken/ [cyrchwyd Chwefror 2019].
[96] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 'Polisi - Sut i wneud sylw neu gwyno am ein gwasanaeth neu ofyn am adolygiad o benderfyniad a wnaethom'. Ar gael yn https://www.ombwdsmon.cymru/how-to-complain-about-us-or-request-a-review-of-a-decision-we-have-taken/ [cyrchwyd Chwefror 2019].

14.10 Caiff y Cynulliad graffu ar y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiadau naratif.

Y Pwyllgor Cyllid

14.11 Mae paragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno amcangyfrif o incwm a gwariant ei swyddfa. Mae angen Amcangyfrifon i nodi'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn i'r Ombwdsmon gyflawni ei swyddogaethau statudol, ac eithrio cyflog yr Ombwdsmon ei hun (a chostau cysylltiedig), a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru. Caiff y darpariaethau hyn eu hadlewyrchu yn y Bil.

14.12 Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.[97]

14.13 Mae Rheol Sefydlog 20.23 yn nodi fel a ganlyn:

> Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif o incwm a gwariant sy'n ofynnol o dan baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 i'r pwyllgor cyfrifol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ond heb fod yn hwyrach na 1 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol beth bynnag.

14.14 O dan Reolau Sefydlog 19 a 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Cyllid yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodwyd gerbron y Cynulliad ynghylch y defnydd o adnoddau neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynnal gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru.

14.15 Bydd y gwaith o graffu ar y gyllideb o dan Reolau Sefydlog 19 ac 20 yn cynnwys adolygiad ar ôl gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys monitro a gwerthuso'r modd y mae'r Ombwdsmon yn defnyddio'r pwerau newydd. I lywio'r adolygiad, bydd yn ofynnol i'r Ombwdsmon gadw data i nodi ar wahân:

- nifer y cwynion ychwanegol a wnaed o dan bob un o'r pwerau newydd yn y Bil; a'r
- costau yr eir iddynt yn sgil y darpariaethau newydd yn y Bil. At hynny, bydd yn ofynnol i'r Ombwdsmon egluro unrhyw amrywiadau rhwng y costau gwirioneddol a'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

[97] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael yn: http://www.cynulliad.cymru/NAfW%20Documents/Assembly%20Business%20section%20documents/Standing_Orders/Clean_SOs.cym.pdf

14.16 Bydd y gwaith o graffu ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn gyntaf wedi i'r ddeddf ddod i rym yn cynnwys cymharu costau pontio'r Ombwdsmon â'r amcangyfrifon a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

14.17 Drwy ei waith a'i ymgysylltiad â chyrff cyhoeddus eraill yr effeithir arnynt gan y Bil, dylai'r Ombwdsmon geisio cael data neu wybodaeth i ddangos gwerth swyddogaethau swyddfa'r Ombwdsmon a darpariaethau'r Bil, a'r manteision sy'n deillio ohonynt. I gynorthwyo'r gwaith dadansoddi, dylid cael y data/gwybodaeth ar sail gyson gan bob corff cyhoeddus o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

14.18 Wrth gyflwyno'r amcangyfrif blynyddol o ran faint o adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau statudol, bydd gofyn i'r Ombwdsmon nodi ar wahân y costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau newydd. Mae angen gwneud hyn ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan y ddyletswydd newydd ar y Cynulliad i adolygu'r modd y caiff y Ddeddf ei gweithredu (gweler Adran 72 o'r Bil). Bydd trefniadau dilynol yn cael eu pennu yn ddiweddarach.

Archwiliadau i'r defnydd o adnoddau

14.19 Mae paragraff 19 o Atodlen 1 i'r Bil (sydd yr un fath â pharagraff 19 o Atodlen 1 i Ddeddf 2005) yn datgan y caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau ynghylch pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y defnyddiodd yr Ombwdsmon ei adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau.

14.20 Mae paragraff 19(4) o Atodlen 1 i'r Bil yn datgan y caiff yr Archwilydd Cyffredinol osod gerbron y Cynulliad adroddiad am ganlyniadau unrhyw archwiliad a gynhaliwyd o dan y ddarpariaeth hon.

## ATODIAD A – NODIADAU ESBONIADOL

**Cyflwyniad**
Mae'r nodiadau esboniadol hyn yn ymwneud â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar [nodwch y dyddiad]. Paratowyd y nodiadau esboniadol hyn er mwyn helpu'r sawl sy'n darllen y Ddeddf i'w deall; nid ydynt yn rhan o'r Ddeddf.

Mae angen darllen y nodiadau esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Felly os yw'n ymddangos nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ychwanegol ar adran neu ran o adran, ni wneir hynny.

| RHAN 1 |
|---|
| **Adran 1: Trosolwg**<br><br>Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb sylfaenol o'r Ddeddf. |
| **RHAN 2** |
| **Adran 2: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**<br><br>Mae'r rhan hon yn darparu ar gyfer parhad swydd yr Ombwdsmon. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 1.<br><br>**Atodlen 1**<br><br>Yn gyffredinol, mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ynglŷn â swydd yr Ombwdsmon; ei bwerau i benodi staff a chynghorwyr arbenigol; ei bŵer i ddirprwyo; gofynion o safbwynt adroddiadau blynyddol ac eithriadol ac amcangyfrifon o incwm a gwariant ei swyddfa a chyfrifon, prosesau archwilio ac archwiliadau gwerth am arian i'r modd y defnyddir adnoddau swyddfa'r Ombwdsmon.<br><br>Mae paragraffau 1 i 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodiad, statws a thymor swydd yr Ombwdsmon.<br><br>Mae paragraff 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi Ombwdsmon dros dro pan fo swydd yr Ombwdsmon yn wag. Mae is-baragraff (7) yn darparu bod Ombwdsmon dros dro, yn gyffredinol, i gael ei ystyried yn Ombwdsmon yn ystod y cyfnod y mae yn y swydd honno. O ganlyniad, mae Ombwdsmon dros dro yn gallu arfer holl bwerau'r Ombwdsmon, er enghraifft, mewn cysylltiad â chael gwybodaeth a thystiolaeth a chyflwyno dogfennau o dan adrannau 18, 19 a 20.<br><br>Mae paragraffau 5, 6, 7 ac 8 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag: |

a) y bobl sydd wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Ombwdsmon (neu'n Ombwdsmon dros dro),
b) y swyddi ac ati y mae'r Ombwdsmon (neu'r Ombwdsmon dros dro) wedi ei anghymhwyso rhag eu dal tra'i fod yn Ombwdsmon, ac
c) y swyddi ac ati y mae rhywun sydd wedi peidio â bod yn Ombwdsmon (neu'n Ombwdsmon dros dro) wedi ei anghymhwyso rhag eu dal am gyfnod o dair blynedd o'r adeg y mae'n peidio â dal swydd yr Ombwdsmon (neu'r Ombwdsmon dros dro), oni bai bod pwyllgor Cynulliad yn cymeradwyo fel arall.

Yn ogystal, mae adrannau 16 ac 17 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod yr Ombwdsmon wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Cynulliad.

Mae paragraff 9 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chydnabyddiaeth ariannol i'r Ombwdsmon (neu'r Ombwdsmon dros dro).

Mae paragraff 10 yn gwneud darpariaeth i'r Cynulliad dalu treuliau'r Ombwdsmon, i'r graddau nad ydynt yn cael eu talu o incwm sy'n dod i law'r Ombwdsmon.

Mae paragraff 11 yn gwneud darpariaeth i'r Ombwdsmon benodi staff yn unol â'r telerau a'r amodau hynny y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol. Nid yw aelodau o staff yr Ombwdsmon yn weision sifil.

Mae paragraff 12 yn galluogi'r Ombwdsmon i geisio cyngor (boed am dâl neu beidio) fel y mae'n ei ystyried yn briodol mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau.

Mae paragraff 13 yn darparu y caiff yr Ombwdsmon awdurdodi unrhyw un i gyflawni ei swyddogaethau ar ei ran. Fodd bynnag, ni chaiff yr Ombwdsmon wneud trefniadau gyda Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru na’r Cwnsler Cyffredinol o dan y Ddeddf hon nac fel arall, i'r naill arfer swyddogaethau'r llall nac i'r naill ddarparu rhai gwasanaethau penodol i'r llall.

Mae paragraff 14 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adroddiadau blynyddol ac eithriadol gan yr Ombwdsmon.

Mae paragraff 15 yn gwneud darpariaeth fel bod yn rhaid i'r Ombwdsmon, ym mhob blwyddyn ariannol, baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau ei swyddfa i gael ei ystyried gan bwyllgor o’r Cynulliad. Darperir bod yn rhaid i'r pwyllgor wedyn osod yr amcangyfrif, gydag addasiadau neu hebddynt, gerbron y Cynulliad.

Mae paragraffau 16, 17, 18 a 19 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r cyfrifon y mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon eu cadw, y broses o archwilio'r cyfrifon hynny gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, trefniadau swyddogion cyfrifyddu ac archwiliadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn cysylltiad â pha mor

ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae'r Ombwdsmon wedi defnyddio adnoddau ei swyddfa.

Mae paragraff 20 yn darparu pwerau i'r Ombwdsmon wneud pethau sy’n atodol i fod yn Ombwdsmon. Er enghraifft, mae’n rhoi pŵer i’r Ombwdsmon wneud pethau fel prydlesu swyddfeydd a cherbydau er mwyn ei gwneud yn haws cyflawni swyddogaethau’r Ombwdsmon.

Mae paragraff 21 yn egluro y bydd y sawl sy'n Ombwdsmon y diwrnod cyn i'r Ddeddf hon gael ei phasio yn parhau i fod yn Ombwdsmon ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio (ac na fydd toriad yn nhymor y swydd o saith mlynedd).

## RHAN 3

**Adran 3: Pŵer i ymchwilio i gwynion**

Yn rhinwedd adran 3(1) caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn yn ymwneud â mater dim ond:

a) os yw'r gŵyn wedi'i gwneud yn briodol neu wedi'i hatgyfeirio'n briodol ato, a
b) os oes ganddo hawl i ymchwilio i'r mater hwnnw.

Mae adrannau 11 i 16 yn rhestru'r materion y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddynt. Mae adran 3(2) yn nodi'r amgylchiadau pan fo cwyn yn cael ei gwneud yn briodol i'r Ombwdsmon. Mae adran 3(3) yn nodi'r amgylchiadau pan fo cwyn yn cael ei hatgyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon gan awdurdod rhestredig.

Mae adran 3(4) yn galluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwyn os yw'n ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny, hyd yn oed os oes gofynion penodol o ran y ffordd y mae wedi ei gwneud neu ei hatgyfeirio nad ydynt wedi'u cyflawni. Mae adran 3(5) a (6) yn rhoi disgresiwn eang i'r Ombwdsmon benderfynu pa un a yw am gychwyn ymchwiliad, parhau ag ymchwiliad neu ddod ag ymchwiliad i ben.

Mae adran 3(7) yn ei gwneud yn eglur y caiff yr Ombwdsmon gychwyn neu barhau ag ymchwiliad i gŵyn hyd yn oed os yw'r gŵyn wedi'i thynnu'n ôl. Mae hyn yn cynnwys y sefyllfa, er enghraifft, pan fo cwyn wedi ei gwneud mewn cysylltiad â chamau gweithredu awdurdod rhestredig sy'n effeithio ar fwy nag un person, ond pan mai'r gŵyn sydd wedi'i thynnu'n ôl oedd y gŵyn 'arweiniol'. Mewn achosion o'r fath, os yw'r gŵyn 'arweiniol' wedi cael ei thynnu'n ôl, mater i'r Ombwdsmon fydd cychwyn ymchwiliad neu barhau ag ymchwiliad fel y gwêl yn dda.

**Adran 4: Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun**

| |
|---|
| Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i fater pa un a yw wedi cael cwyn ai peidio. Felly, mae'n caniatáu i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad.<br><br>Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y modd y dehonglir y Ddeddf – pan gaiff y gair "ymchwiliad" ei ddefnyddio yn Rhan 3, gall olygu naill ai ymchwiliad o dan adran 3 neu ymchwiliad o dan adran 4. Er enghraifft, mae adran 19 yn gymwys "mewn perthynas ag ymchwiliadau a gynhelir o dan y Rhan hon". Felly, mae adran 19 yn gymwys o ran ymchwiliad o dan adran 3 yn ogystal ag ymchwiliad o dan adran 4.<br><br>Yn yr un modd â'r pŵer o dan adran 3, dim ond i ymchwilio i faterion y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddynt o dan Ran 3 y caniateir defnyddio'r pŵer yn adran 4. Mae adrannau 11 i 16 yn nodi'r materion y caniateir ymchwilio iddynt.<br><br>Mae adran 4(2) yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall yr Ombwdsmon gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Y gofynion yw:<br><br>a) bod yn rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i fudd y cyhoedd wrth gychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun;<br>b) bod yn rhaid i'r Ombwdsmon amau'n rhesymol y bu camweinyddu systemig (neu, mewn achos lle caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i rinweddau penderfyniad gofal iechyd neu ofal cymdeithasol a wnaed heb gamweinyddu o dan adran 15(2), y dioddefwyd anghyfiawnder systemig yn sgil arfer barn broffesiynol);<br>c) bod yn rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â’r cyfryw bersonau y mae o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy; a<br>d) bod yn rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i’r meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gyhoeddir o dan adran 5. |
| **Adran 5: Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun**<br><br>Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun (ac o dan adran 4(2), rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i'r meini prawf hyn cyn dechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun).<br><br>Cyn cyhoeddi'r meini prawf, rhaid i'r Ombwdsmon osod drafft o'r meini prawf gerbron y Cynulliad. Bydd y drafft o'r meini prawf yn destun gweithdrefn penderfyniad negyddol. Golyga hyn bod gan y Cynulliad 40 diwrnod i wrthwynebu'r meini prawf. Os na fydd y Cynulliad yn gwrthwynebu o fewn y 40 diwrnod hwnnw, rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad.<br><br>Wedi hynny, caiff yr Ombwdsmon adolygu'r meini prawf. Ond os yw diwygiad yn gwneud unrhyw newidiadau perthnasol i'r meini prawf, yna bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn berthnasol eto i'r meini prawf diwygiedig. |

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y meini prawf. Mae rheoliadau o'r fath yn dilyn gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Golyga hyn bod yn rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r rheoliadau – os nad yw'r Cynulliad yn cymeradwyo'r rheoliadau, yna ni fyddant yn dod i rym. Ond os yw'r Cynulliad yn cymeradwyo'r rheoliadau, rhaid i'r Ombwdsmon ddiweddaru'r meini prawf a gyhoeddwyd i adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan y rheoliadau.

Rhaid i'r Ombwdsmon a Gweinidogion Cymru ymgynghori cyn cynnig meini prawf (neu newidiadau i feini prawf) o dan yr adran hon.

**Adran 6: Dulliau amgen o ddatrys materion**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer eang i'r Ombwdsmon gymryd camau i ddatrys materion heb symud ymlaen at ymchwiliad ffurfiol. Mae'r pŵer hwn ar gael i'r Ombwdsmon ei ddefnyddio yn lle'r pŵer i ymchwilio neu'n ychwanegol ato.

**Adran 7: Pwy sy'n cael cwyno**

Mae adran 7(1)(a) yn darparu bod gan aelod o'r cyhoedd ("y person a dramgwyddwyd") hawl i gwyno wrth yr Ombwdsmon dim ond os yw'n honni ei fod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth.

Nid unigolion yn unig a gaiff gwyno i'r Ombwdsmon. Felly, er enghraifft, gallai cwmnïau neu gyrff corfforaethol eraill gwyno i'r Ombwdsmon.

Ni chaiff awdurdodau rhestredig sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swyddogaeth fel awdurdodau rhestredig gwyno i'r Ombwdsmon (adran 7(2)).

Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro rhywun sydd, er enghraifft, yn gyflogai i awdurdod rhestredig rhag gwneud cwyn, ar yr amod ei fod ef neu hi yn gwneud y gŵyn fel unigolyn.

Mae rhestr o’r awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3.

**Adran 8: Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon**

Os bydd person yn dymuno gwneud cwyn i'r Ombwdsmon, rhaid i'r gŵyn fodloni gofynion adran 8(1) (er bod gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn o dan adran 3(4) i ymchwilio i faterion pan nad yw'r gofynion hyn yn cael eu bodloni).

Nid yw adran 8(1) yn pennu pob un o'r union ofynion wrth wneud cwyn. Heblaw'r gofyniad sy'n ymwneud â therfynau amser yn adran 8(1)(c), bydd y gofynion yn cael eu nodi mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon. Felly, dylai pobl sy'n dymuno gwneud cwyn ddarllen y canllawiau hynny, a fydd yn eu helpu.

Os bydd y canllawiau yn pennu y caniateir gwneud cwyn ar lafar, mae is-adrannau (4) i (7) yn pennu gofynion ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys egluro wrth yr unigolyn dan sylw oblygiadau gwneud cwyn yn briodol (h.y. y gallai cwyn sy'n cael ei gwneud yn briodol arwain at ddechrau ymchwiliad gan yr Ombwdsmon), a chadarnhau a yw'r unigolyn am i'r gŵyn symud ymlaen i fod yn un sy'n cael ei gwneud yn briodol. Os nad yw'r person yn dymuno i'r gŵyn gael ei thrin yn un sy'n cael ei gwneud yn briodol, yna ni chaiff yr Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad adran 3 i'r mater (ond os yw'r Ombwdsmon eisoes wedi cychwyn ymchwiliad i'r mater a bod y person wedi hynny yn tynnu'r gŵyn lafar yn ôl, mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i benderfynu a ddylai barhau â'r ymchwiliad ai peidio). Mewn unrhyw achos, caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater o dan y pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun yn adran 4.

**Adran 9: Gofynion: cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon**

Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod rhestredig atgyfeirio cwyn at yr Ombwdsmon, ond dim ond os caiff ei gwneud gan berson a fyddai wedi bod â hawl i wneud y gŵyn honno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon.

Rhaid i'r gŵyn fod wedi cael ei gwneud i'r awdurdod o fewn blwyddyn i'r diwrnod y cafodd y person a dramgwyddwyd ei hysbysu gyntaf o'r mater y gwneir cwyn amdano. Rhaid i'r atgyfeiriad hefyd ddigwydd cyn diwedd cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y gŵyn i'r awdurdod rhestredig.

Yn ogystal, rhaid i'r atgyfeiriad fod ar ba ffurf bynnag y mae'r Ombwdsmon yn ei nodi mewn canllawiau a gyhoeddir, a rhaid iddo gynnwys pa wybodaeth bynnag a nodir yn y canllawiau hynny. Felly, dylai awdurdodau rhestredig sydd am atgyfeirio cwyn ddarllen y canllawiau hynny i’w helpu yn hyn o beth.

O dan adran 3(4) mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i dderbyn atgyfeiriad pan nad yw'r naill neu'r llall o'r terfynau amser (neu'r ddau) wedi eu bodloni, pan nad yw'r atgyfeiriad ar y ffurf sy'n ofynnol neu pan nad yw'r atgyfeiriad yn cynnwys y wybodaeth ofynnol.

**Adran 10: Cofnodion o gwynion**

Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gadw cofrestr o bob cwyn a wneir i’r Ombwdsmon neu a atgyfeirir ato y mae ganddo hawl i ymchwilio iddi o dan Ran 3.

Bydd y gofrestr hon yn cynnwys yr holl gwynion ysgrifenedig, cwynion llafar a chwynion a wneir trwy ddulliau electronig ac ati.

**Adran 11: Materion y caniateir ymchwilio iddynt**

Mae adran 11(1) yn darparu bod gan yr Ombwdsmon, yn amodol ar adrannau 12 i 15, yr hawl i ymchwilio i'r materion a ganlyn:

a) camweinyddu gan awdurdod rhestredig mewn cysylltiad â 'chamau gweithredu perthnasol';
b) methiant honedig mewn 'gwasanaeth perthnasol' a ddarperir gan awdurdod rhestredig; neu
c) methiant honedig gan awdurdod rhestredig i ddarparu 'gwasanaeth perthnasol'.

Mae adrannau 12 i 15 yn gosod cyfyngiadau ychwanegol ar y materion y caniateir ymchwilio iddynt.

Diffinnir 'camau gweithredu perthnasol' yn adran 11(4) a diffinnir 'gwasanaeth perthnasol' yn adran 11(5). Mae'r diffiniadau, yn y bôn, wedi'u cynllunio i sicrhau mai dim ond y swyddogaethau y mae awdurdodau rhestredig yn eu cyflawni fel cyrff cyhoeddus y gellir ymchwilio iddynt. Yn achos awdurdod rhestredig sy'n dod o fewn cwmpas adran 11(4)(e), mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio i achos honedig o gamweinyddu wrth gyflawni swyddogaethau gweinyddol yr awdurdod hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn awdurdod o’r fath, ac mae adran 11(4)(e) yn golygu, er enghraifft, nad oes gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio i swyddogaethau deddfwriaethol neu farnwrol Llywodraeth Cymru.

Yn achos unigolyn neu sefydliad a ychwanegir at Atodlen 3 ("awdurdodau rhestredig") i'r Ddeddf, drwy reoliadau o dan adran 30(2), mae adran 10(4)(d) ac adran 10(5)(d) yn darparu mai dim ond camau gweithredu y mae'n eu cymryd neu wasanaeth y mae'n ei ddarparu wrth gyflawni swyddogaethau y pennwyd yn y rheoliadau eu bod yn dod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddynt.

Effaith is-adran (7) yw bod swyddogaeth weinyddol unigolyn a benodir gan awdurdod rhestredig i fod yn aelod o staff 'tribiwnlys perthnasol' yn cael ei thrin fel swyddogaeth weinyddol yr awdurdod rhestredig, ac felly y bydd y swyddogaeth yn dod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon. Ystyr 'tribiwnlys perthnasol' yw tribiwnlys a bennir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (adran 76(1)).

**Adran 12: Eithrio: materion nad ydynt yn ymwneud â Chymru**

Mae adran 12(1) yn darparu na chaiff yr Ombwdsmon ymchwilio i fater sy'n ymwneud â'r modd y mae awdurdod rhestredig yn cyflawni ei swyddogaethau heblaw o ran Cymru. Mae adran 12(2) yn ei gwneud yn eglur nad yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i Lywodraeth Cymru, oherwydd, ar y cyfan, mae popeth a wna Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Chymru.

Mae adran 12(3) yn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth bod unrhyw un o swyddogaethau awdurdod rhestredig mewn cysylltiad â'r Gymraeg neu unrhyw agwedd arall ar ddiwylliant Cymru i gael ei hystyried fel pe bai'n cael ei chyflawni o ran Cymru ac, felly, nad yw'n cael ei heithrio o awdurdodaeth yr Ombwdsmon gan adran 12(1).

| |
|---|
| |
| **Adran 13: Eithrio: rhwymedïau eraill**<br><br>Yn gyffredinol, ni chaiff yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn am fater os oes gan (neu os oedd gan) y person a dramgwyddwyd hawl i apelio, neu i gael atgyfeirio neu adolygu ei achos (fel y'i pennir) neu hawl i rwymedi trwy gyfrwng achos mewn llys barn (adran 13(1)). Fodd bynnag, os bydd yr Ombwdsmon yn fodlon nad yw'n rhesymol, yn yr amgylchiadau penodol, disgwyl i'r person a dramgwyddwyd arfer (neu fod wedi arfer) yr hawl honno i apelio, neu i atgyfeiriad, adolygiad neu rwymedi, caiff yr Ombwdsmon ddewis ymchwilio i'r gŵyn (adran 13(2)).<br><br>Mae adran 13(3) a (4) yn darparu bod yn rhaid i'r Ombwdsmon fod yn fodlon ynglŷn â'r camau a ganlyn, oni bai ei fod yn fodlon ei bod yn rhesymol iddo ymchwilio i'r mater heb iddynt gael eu cymryd:<br><br>a) mae'r person a dramgwyddwyd (neu berson sy'n gweithredu ar ran yr unigolyn hwnnw) wedi dod â'r mater i sylw'r awdurdod rhestredig dan sylw, a<br>b) mae'r awdurdod rhestredig wedi cael cyfle rhesymol i ymchwilio i'r gŵyn ac ymateb iddi. |
| **Adran 14: Materion eithriedig eraill**<br><br>Mae adran 14(1) yn darparu na chaiff yr Ombwdsmon ymchwilio i'r materion sydd wedi'u heithrio a restrir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf. Mae adran 14(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, ychwanegu at y cofnodion sydd i'w gweld, o bryd i'w gilydd, yn Atodlen 2 i'r Ddeddf, neu ddileu neu newid y cofnodion hynny. Rhaid i'r Cynulliad ymgynghori â'r Ombwdsmon cyn gwneud rheoliadau o'r fath (adran 14(3)).<br><br>Mae adran 14(5) yn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth y caiff yr Ombwdsmon, er gwaethaf y materion eithriedig yn Atodlen 2, ymchwilio i'r modd y mae awdurdod rhestredig wedi gweithredu unrhyw weithdrefn a sefydlwyd i archwilio cwynion neu i adolygu penderfyniadau. Felly, er enghraifft, ni chaniateir i'r Ombwdsmon ymchwilio i fater sy'n ymwneud â phenderfynu ynglŷn â swm rhent (paragraff 5 o Atodlen 2 i'r Ddeddf). Mae adran 14(5) yn sicrhau nad yw hyn yn ei atal rhag ymchwilio i'r modd y cafodd cwyn ynglŷn â phenderfyniad ar swm rhent ei hystyried o dan weithdrefn gwyno awdurdod.<br><br>**Atodlen 2**<br><br>Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth ynghylch materion sydd wedi'u heithrio o awdurdodaeth yr Ombwdsmon. |
| **Adran 15: Penderfyniadau a wnaed heb gamweinyddu** |

| |
|---|
| Mae adran 15(1) yn darparu na chaiff yr Ombwdsmon gwestiynu rhinweddau unrhyw benderfyniad a wnaed gan awdurdod rhestredig wrth arfer unrhyw ddisgresiwn, os gwnaed y penderfyniad hwnnw heb gamweinyddu. O ganlyniad, ar yr amod nad oes unrhyw oedi, rhagfarn, esgeulustod, ysgelerder ac ati mewn cysylltiad â'r penderfyniad (gan gynnwys pan fo'r penderfyniad yn ymwneud â methiant honedig yn y gwasanaeth), nid oes gan yr Ombwdsmon hawl i gwestiynu'r penderfyniad hwnnw. Felly, os yw awdurdod rhestredig wedi gwneud penderfyniad polisi, heb gamweinyddu, gan bwyso a mesur yr holl faterion perthnasol (gan gynnwys adnoddau, er enghraifft), nid oes gan yr Ombwdsmon hawl i gwestiynu'r penderfyniad hwnnw.<br><br>Fodd bynnag, yn rhinwedd is-adran 15(2), nid yw is-adran 15(1) yn gymwys i'r graddau y gwneir penderfyniad o ganlyniad i arfer barn broffesiynol sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn arferadwy mewn cysylltiad â darparu<br>:<br><br>(a) gofal iechyd, neu<br>(b) gofal cymdeithasol.<br><br>Bwriedir i hyn gwmpasu penderfyniadau a wneir o ganlyniad i arfer barn glinigol. |
| **Adran 16: Pŵer i ymchwilio i wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd**<br><br>Mae adran 16 yn caniatáu i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau ategol i wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd (h.y. rhai gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd na ddarperir gan awdurdodau rhestredig), ond dim ond pan fo'r Ombwdsmon hefyd yn ymchwilio i awdurdod rhestredig.<br><br>Mae adran 16 (1) yn nodi cwmpas adran 16. Mae adran 16 yn gymwys:<br><br>a) pan fo gan yr Ombwdsmon bŵer (o dan Ran 3) i ymchwilio i gamweinyddu honedig neu fethiant honedig gan "awdurdod rhestredig perthnasol" (a ddiffinnir yn adran 16(4) i gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Meddygon Teulu yng Nghymru ac ati) mewn perthynas â pherson, a<br>b) pan fo "gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd" nad yw'n wasanaeth perthnasol (h.y. nad yw'n wasanaeth a ddarperir gan awdurdod rhestredig) hefyd wedi'i ddarparu i'r person.<br><br>Os yw'r Ombwdsmon, yn yr amgylchiadau hynny, o'r farn na ellir ymchwilio i gamweinyddu honedig neu fethiant honedig yr awdurdod rhestredig yn effeithiol nac yn gyflawn heb ymchwilio hefyd i'r gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd, yna, o dan adran 16(2), caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i'r gwasanaeth hwnnw sy'n gysylltiedig ag iechyd fel rhan o'r ymchwiliad i'r awdurdod rhestredig perthnasol. |

Er enghraifft, os yw person wedi cael triniaeth feddygol breifat a hefyd wedi cael triniaeth feddygol gan Fwrdd Iechyd Lleol, yna caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i'r driniaeth feddygol breifat os yw o'r farn bod angen gwneud hynny i ymchwilio'n effeithiol neu'n gyflawn i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae adran 16(3) yn cymhwyso cyfeiriadau at "awdurdod rhestredig" i ddarparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, pan fo'n ofynnol i'r Ombwdsmon anfon copi o adroddiad ar ymchwiliad i awdurdod rhestredig, fod hynny'n cynnwys anfon copi at ddarparwr gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd (pan fo'r Ombwdsmon yn ymchwilio i ddarparwr o'r fath o dan adran 16(2)).

Mae adran 16(4) yn diffinio "gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd" i gynnwys unrhyw wasanaeth meddygol, deintyddol, offthalmig, nyrsio, bydwreigiaeth a fferyllol, ynghyd ag unrhyw wasanaeth arall a ddarperir mewn cysylltiad ag iechyd corfforol neu feddyliol (ond nid yw'n cynnwys aciwbigo, tyllu corff, electrolysis na thatŵio, sydd oll yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017). Felly, byddai'r enghraifft uchod o driniaeth feddygol breifat hefyd yn cynnwys triniaeth ddeintyddol breifat, triniaeth offthalmig breifat ac ati.

Mae Adran 16(4) hefyd yn diffinio "awdurdod rhestredig perthnasol" ac mae'n cynnwys Bwrdd Cynghorau Cymuned yng Nghymru, Byrddau Iechyd Lleol, Cynghorau Iechyd Cymuned ac ati.

**Adran 17: Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio neu i ddod ag ymchwiliad i ben**

Mae adran 17(1) yn darparu bod yn rhaid i'r Ombwdsmon baratoi datganiad o'r rhesymau dros unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud i beidio â chychwyn ymchwiliad neu i ddod ag ymchwiliad i ben. Mae hyn yn cynnwys y sefyllfa lle mae'r Ombwdsmon, o dan adran 6, wedi datrys mater ac felly wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad. O dan adran 17(2), rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r datganiad hwnnw at:

a) unrhyw berson a wnaeth gŵyn i'r Ombwdsmon; a
b) yr awdurdod rhestredig y mae'r mater yn ymwneud ag ef.

O dan adran 17(3), caiff yr Ombwdsmon anfon copi o'r datganiad at unrhyw un arall.

Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o'r fath os bydd gofynion adran 17(4) yn cael eu bodloni. Ni chaiff yr Ombwdsmon ond cyhoeddi datganiad o'r fath os yw o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Wrth ddod i'w farn, rhaid i'r Ombwdsmon ystyried lles y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw un arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

Mae adran 175(7) ac (8) yn darparu, pan fo'r Ombwdsmon yn paratoi adroddiad sy'n:

a) enwi unrhyw berson (heblaw'r awdurdod rhestredig dan sylw); neu
b) yn cynnwys unrhyw beth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o olygu bod modd adnabod unrhyw un ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor o'r datganiad heb amharu ar ei effeithiolrwydd,

dim ond os yw er budd y cyhoedd i gynnwys enw neu nodi manylion o'r fath y caiff yr Ombwdsmon gynnwys gwybodaeth o'r fath yn y fersiwn o'r datganiad y mae'n ofynnol iddo ei hanfon neu y mae wedi'i rymuso i'w hanfon neu y mae yn ei chyhoeddi. Wrth ddod i'w farn, rhaid i'r Ombwdsmon roi ystyriaeth i les y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw un arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

Yn achos y fersiwn o'r datganiad y mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon ei hanfon, o dan adran 17(2), at unrhyw berson a wnaeth gŵyn a'r awdurdod rhestredig, ni ragwelir y byddai'n anodd i'r Ombwdsmon ddangos ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys gwybodaeth o'r fath. Y rheswm am hyn yw ei bod yn debygol, mewn achosion o'r fath, y bydd budd cyhoeddus cryf yn y ffaith fod y partïon hynny'n gwybod beth yw enwau'r bobl y mae angen cyfeirio atynt yn y datganiad ym marn yr Ombwdsmon, a phwy ydynt. Yn wir, mewn llawer o achosion yr unig rai y mae datganiad o'r fath yn debygol o'u henwi neu o nodi pwy ydynt yw'r person a dramgwyddwyd, yr awdurdod rhestredig a gymerodd y camau gweithredu sy'n destun yr ymchwiliad, a'r cyflogeion perthnasol (e.e. os mai cyflogai i'r awdurdod rhestredig a gymerodd y camau gweithredu yr achwynir amdanynt).

**Adran 18: Gweithdrefn ymchwilio**

Mae adran 18(1) yn nodi'r gofynion ar gyfer ymchwiliadau o dan adran 3 (h.y. ymchwiliadau yn dilyn cwyn).

Mae adrannau 18(2) hyd 18(7) yn nodi'r gofynion ar gyfer ymchwiliadau o dan adran 4 (h.y. ymchwiliadau gan ddefnyddio pŵer yr Ombwdsmon i ymchwilio ar ei liwt ei hun), sy'n cynnwys gofyniad i'r Ombwdsmon baratoi 'cynnig ymchwilio' ac anfon y cynnig ymchwilio at yr awdurdod rhestredig sy'n destun ymchwiliad, ac unrhyw berson a adwaenir yn y cynnig ymchwilio mewn modd negyddol. Hefyd, rhaid i'r Ombwdsmon roi cyfle i'r awdurdod rhestredig ac unrhyw bersonau eraill roi sylwadau ar y cynnig ymchwilio. O dan adran 18(7), rhaid i gynnig ymchwilio nodi'r rhesymau dros yr ymchwiliad a nodi sut mae meini prawf adran 5 wedi'u bodloni (h.y. y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun).

Ar y llaw arall, nid oes rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio yn yr amgylchiadau a nodir yn adran 18(3) a (4). Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio os yw wedi cychwyn ymchwiliad i fater (naill ai mewn ymateb i gŵyn o dan adran 3 neu ar ei liwt ei hun o dan

| |
|---|
| adran 4) a bod yr Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad i fater o dan adran 4 sydd â chysylltiad sylweddol â'r ymchwiliad blaenorol.<br><br>Fodd bynnag, hyd yn oed os nad oes rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio, mae adran 18(6) yn dal i'w gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ddod â'r ymchwiliad i sylw'r rhai sy'n destun yr ymchwiliad a rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau.<br><br>Mae adran 18(8) yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymchwiliad gael ei gynnal yn breifat.<br><br>Mae adran 18(9) yn darparu mai mater i'r Ombwdsmon, yn amodol ar y gofynion uchod, yw penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad. Er enghraifft, gallai'r Ombwdsmon sefydlu gweithdrefnau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o gwynion a gallai, mewn unrhyw achos penodol, wyro oddi wrth unrhyw weithdrefnau o'r fath a sefydlwyd os yw o'r farn bod hynny'n briodol.<br><br>Mae adran 18(10)(a) yn ei gwneud yn glir y caiff yr Ombwdsmon gynnal unrhyw ymholiadau y mae o'r farn eu bod yn briodol. Mae adran 18(10)(b) yn darparu mai mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a ganiateir i berson gael ei gynrychioli'n gyfreithiol neu gael ei gynrychioli mewn rhyw ffordd arall (e.e. gan eiriolwr annibynnol).<br><br>Mae adran 18(12) yn rhoi pŵer i'r Ombwdsmon wneud taliadau tuag at dreuliau pobl sy'n ei gynorthwyo mewn ymchwiliad, ar yr amod yr eir iddynt yn briodol, a thalu lwfansau penodol.<br>Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a yw'n briodol gwneud taliadau o'r fath neu osod unrhyw amodau ar daliadau o'r fath.<br><br>Mae adran 18(13) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau o dan adrannau 3 a 4.<br><br>Mae adran 18(14) yn sicrhau nad oes dim amheuaeth nad yw'r ffaith bod yr Ombwdsmon<br>yn ymchwilio i fater yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw gamau gweithredu a gymerodd yr awdurdod rhestredig mewn cysylltiad â'r mater yr ymchwilir iddo. Nid effeithir ychwaith ar unrhyw bŵer neu ddyletswydd sydd gan yr awdurdod rhestredig i gymryd camau gweithredu ychwanegol mewn cysylltiad â'r mater hwnnw. |
| **Adran 19: Gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau**<br><br>Mae gan yr Ombwdsmon bwerau eang i'w gwneud yn ofynnol i ddangos gwybodaeth neu ddogfennau mewn cysylltiad ag ymchwiliad (adrannau 19(2) a 19(3)) ac i'w gwneud yn ofynnol i rai personau penodol roi iddo unrhyw gyfleusterau y gall yn rhesymol fod arno'u hangen (adran 19(4)). Gall fod angen y ddarpariaeth olaf, er enghraifft, pe byddai ar yr Ombwdsmon angen |

| |
|---|
| defnyddio caledwedd neu feddalwedd gyfrifiadurol benodol i edrych ar ddogfennau neu wybodaeth a ddarparwyd.<br><br>Mae gan yr Ombwdsmon yr un pwerau â'r Uchel Lys o safbwynt, ymhlith pethau eraill, cymryd tystiolaeth gan dystion (adran 19(3)).<br><br>Mae adran 19(5) yn amddiffyn y bobl hynny y caiff yr Ombwdsmon fynnu eu bod yn darparu tystiolaeth neu'n dangos gwybodaeth neu ddogfennau. Ni chaiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson o'r fath roi unrhyw dystiolaeth na chyflwyno unrhyw ddogfennau na ellid gorfodi'r person hwnnw i'w rhoi neu eu cyflwyno gerbron yr Uchel Lys.<br><br>Mae adran 19(6) yn atal y Goron rhag dal gwybodaeth yn ôl ar y sail ei bod yn ddarostyngedig i rwymedigaeth i'w chadw'n gyfrinachol neu i gyfyngiad ar ei datgelu.<br><br>Effaith adran 19(7) yw na all y Goron, o safbwynt pŵer yr Ombwdsmon i fynnu cael tystiolaeth neu gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennau, ddibynnu ar ei breintiau na'i himiwneddau arbennig i drechu hawl yr Ombwdsmon i weld gwybodaeth o'r fath nac ar yr amddiffyniad y byddai adran 19(5) fel arall yn ei roi. |
| **Adran 20: Rhwystro a dirmygu**<br><br>Mae adrannau 20(1) a 20(2) yn galluogi'r Ombwdsmon i dystio i'r Uchel Lys fod unigolyn, yn ei farn ef, wedi ei rwystro ef (neu aelod o'i staff ac ati) heb esgus cyfreithlon wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 3 neu fod yr unigolyn wedi gweithredu mewn modd a fyddai'n gyfystyr â dirmyg llys, pe byddai'r weithred wedi'i chyflawni mewn cysylltiad ag achos yn yr Uchel Lys.<br><br>Ni chaiff yr Ombwdsmon roi tystysgrif o'r fath os yw'r rhwystr neu'r dirmyg honedig yn codi yn unig oherwydd bod yr unigolyn dan sylw wedi cymryd rhyw gamau gweithredu ychwanegol mewn cysylltiad â'r mater yr ymchwilir iddo (gweler adran 20(3) ac adran 18(14)).<br><br>Os bydd yr Ombwdsmon yn cyhoeddi tystysgrif o'r fath, caiff yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater ac os bydd yr Uchel Lys yn dyfarnu bod yr unigolyn dan sylw wedi rhwystro'r Ombwdsmon, caiff yr Uchel Lys ymdrin ag ef fel pe bai wedi cyflawni dirmyg o ran yr Uchel Lys (adran 20(5)). |
| **Adran 21: Pŵer i fynnu costau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat** |

Mae adran 21 yn rhoi pŵer i'r Ombwdsmon fynnu costau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat pan fo'r darparwr wedi gwneud y canlynol:

(a) rhwystro'r Ombwdsmon; neu
(b) rhywbeth a fyddai'n gyfystyr â dirmyg llys pe byddai'r ymchwiliad yn achos yn yr Uchel Lys.

Y costau y gellir eu mynnu yw'r costau ychwanegol yr aeth yr Ombwdsmon iddynt o ganlyniad i'r cyfryw gamau gweithredu gan y darparwr. Cyn mynnu costau o'r fath, rhaid i'r Ombwdsmon roi hysbysiad priodol i'r darparwr, sy'n cynnwys rhoi gwybodaeth am bethau fel cyfanswm y costau, y dyddiad talu, a hawl y darparwr i apelio i'r llys ynadon.

**Adran 22: Adroddiadau o ymchwiliadau**

Mae adran 22(1) yn darparu bod yn rhaid i'r Ombwdsmon baratoi adroddiad ar ei ganfyddiadau, ar ôl cynnal ymchwiliad, ac anfon copi o'r adroddiad hwnnw at y bobl a bennir yn adran 26, oni bai ei fod yn penderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen a nodir yn adran 22(2).

O safbwynt person sy'n ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru neu'n ddarparwr annibynnol yng Nghymru, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon anfon ei adroddiad at y darparwr (fel yr awdurdod rhestredig) ac at y bobl hynny y mae'r darparwr wedi ymrwymo i gontract â hwy i ddarparu'r gwasanaethau sy'n destun y gŵyn, neu wedi ymrwymo i'w darparu iddynt neu wedi gwneud trefniadau â hwy i ddarparu'r gwasanaethau hynny.
Mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad at bawb y mae (neu yr oedd) y darparwr wedi ymrwymo i gontract â hwy i ddarparu unrhyw wasanaethau, neu y mae (neu yr oedd) wedi ymrwymo i ddarparu unrhyw wasanaethau iddynt neu wedi gwneud trefniadau â hwy i ddarparu unrhyw wasanaethau (adran 22(2)(d) ac (e)).

Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi ei adroddiad os bydd gofynion adran 22(4) yn cael eu bodloni.
Ni chaiff yr Ombwdsmon ond cyhoeddi adroddiad o'r fath os yw o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Wrth ddod i'w farn, rhaid i'r Ombwdsmon roi ystyriaeth i les y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw un arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

Mae adran 22(7) ac (8) yn darparu, pan fo'r Ombwdsmon yn paratoi adroddiad sy'n:

a) enwi unrhyw berson (heblaw'r awdurdod rhestredig dan sylw); neu
b) yn cynnwys unrhyw beth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o olygu bod modd adnabod unrhyw berson ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor o'r adroddiad heb amharu ar ei effeithiolrwydd,

dim ond os yw er budd y cyhoedd i gynnwys enw neu nodi manylion o'r fath y caiff yr Ombwdsmon gynnwys gwybodaeth o'r fath yn y fersiwn o'r adroddiad y mae'n ofynnol iddo ei hanfon neu y mae wedi'i rymuso i'w hanfon neu y mae yn ei chyhoeddi. Wrth ddod i'w farn, rhaid i'r Ombwdsmon roi ystyriaeth i les y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw un arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

Yn achos y fersiwn o'r adroddiad y mae'n ofynnol iddo ei anfon, o dan adran 22(1)(b), at y person a dramgwyddwyd (os oes un) a'r awdurdod rhestredig ac ati, ni ragwelir y byddai'n anodd i'r Ombwdsmon ddangos ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys gwybodaeth o'r fath.
Y rheswm am hyn yw ei bod yn debygol, mewn achosion o'r fath, y bydd budd cyhoeddus cryf yn y ffaith fod y partïon hynny'n gwybod beth yw enwau'r bobl y mae angen cyfeirio atynt yn yr adroddiad ym marn yr Ombwdsmon, a phwy ydynt. Yn wir, mewn llawer o achosion yr unig rai y mae adroddiad o'r fath yn debygol o'u henwi neu o nodi pwy ydynt yw'r person a dramgwyddwyd (os oes un), yr awdurdod rhestredig a gymerodd y camau gweithredu sy'n destun yr adroddiad, a'r cyflogeion perthnasol (e.e. oherwydd mai cyflogai'r awdurdod rhestredig a gymerodd y camau gweithredu sy'n destun yr adroddiad).

**Adran 23: Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau**

Mae adran 23(1) i (4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau rhestredig sy'n cael copi o adroddiad o dan adran 22(1)(b) wneud trefniadau penodol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau o'r fath.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod rhestredig, o fewn terfynau amser penodedig, sicrhau bod copïau o'r adroddiad ar gael yn un neu ragor o'i swyddfeydd a thrwy ei wefan (os oes un). Mae gan y cyhoedd hawl i archwilio'r adroddiad, gwneud copïau ohono, a'i weld ar wefan yr awdurdod (os yn berthnasol), yn rhad ac am ddim. Byddai'r hawl i wneud copïau yn cynnwys llwytho copi electronig oddi ar wefan yr awdurdod. Mae gan y cyhoedd hawl hefyd i fynnu bod yr awdurdod rhestredig yn darparu copïau o'r adroddiad, a chaiff yr awdurdod godi swm rhesymol amdanynt. Mae'n drosedd i unrhyw un rwystro aelod o'r cyhoedd yn fwriadol wrth iddo ef neu hi arfer yr hawliau hyn (adran 23(7) ac (8)).

Ar ôl ystyried budd y cyhoedd a budd y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw un arall sy'n briodol yn ei farn ef, caiff yr Ombwdsmon roi cyfarwyddyd na ddylai'r gofynion cyhoeddusrwydd fod yn berthnasol mewn cysylltiad ag adroddiad penodol (adran 23(9) a (10)).
Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer hefyd i roi cyfarwyddyd i awdurdodau rhestredig o ran cyflawni eu swyddogaethau o dan adran 23 (adran 23(5) a (6)).

**Adran 24: Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau: darparwyr gofal iechyd**

| |
|---|
| Mae adran 24 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymhwyso adran 23 gydag addasiadau yn achos awdurdodau rhestredig sydd wedi'u rhestru yn rhinwedd y ffaith eu bod yn ddarparwyr gwasanaethau iechyd teulu yng Nghymru neu'n ddarparwyr annibynnol yng Nghymru. Effaith yr addasiadau yw mai'r sawl y mae'r darparwr wedi ymrwymo i gontract ag ef neu'r sawl y mae wedi gwneud trefniadau ag ef i ddarparu'r gwasanaethau perthnasol (neu'r sawl y mae wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaethau iddo), yn hytrach na'r awdurdod rhestredig (h.y. y darparwr gwasanaeth iechyd teulu neu'r darparwr annibynnol) sy'n gyfrifol am fodloni'r gofynion cyhoeddusrwydd. |
| **Adran 25: Camau gweithredu ar ôl i adroddiad ddod i law**<br><br>Os yw'r Ombwdsmon yn cyflwyno adroddiad (o dan adran 22), yn dilyn ymchwiliad, fod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r camau gweithredu sy'n destun yr ymchwiliad, mae adran 25 yn darparu ei bod yn ofynnol i'r awdurdod rhestredig dan sylw ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a rhoi gwybod iddo pa gamau y mae wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb, a hefyd o fewn pa gyfnod y bydd yn cymryd unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd. Mae'n rhaid i'r awdurdod rhestredig gyflwyno'r hysbysiad o fewn mis i'r diwrnod y mae'n cael yr adroddiad neu unrhyw gyfnod hwy y mae'r Ombwdsmon yn ei nodi yn ôl ei ddisgresiwn. |
| **Adran 26: Adroddiadau: gweithdrefn amgen**<br><br>Nid yw'r weithdrefn gyflawn o gyflwyno adroddiad o dan adrannau 22 i 25 yn gymwys os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen a nodir yn adran 26.<br><br>Os daw'r Ombwdsmon i'r casgliad, ar ôl ymchwiliad:<br><br>a) nad oes unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater a oedd yn destun yr ymchwiliad; neu<br>b) bod person wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o'r fath a bod yr awdurdod rhestredig dan sylw yn cytuno i weithredu argymhellion yr Ombwdsmon o fewn y cyfnod a ganiateir (fel y'i diffinnir yn adran 26(3)), caiff yr Ombwdsmon benderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen a nodir yn adran 26.<br><br>Fodd bynnag, dim ond os yw'n fodlon nad yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn gyflawn a nodir yn adrannau 22 i 25 y caniateir i'r Ombwdsmon wneud hynny.<br><br>Mae'r un cyfyngiadau o ran enwi neu allu adnabod unigolion yn berthnasol i adroddiad o dan y weithdrefn amgen yn yr adran hon ag i adroddiad o dan adran 22 (adran 26(9) a (10)). |
| **Adran 27: Adroddiadau arbennig** |

O dan adran 27, caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad arbennig os nad yw'r awdurdod rhestredig wedi cymryd y camau gweithredu gofynnol nac wedi gweithredu'r argymhellion gofynnol mewn ymateb i: (a) adroddiad a wneir o dan adran 22, (b) adroddiad a wneir o dan adran 26, neu (c) ar ôl datrys mater.

Er enghraifft, gallai awdurdod rhestredig beidio â rhoi gwybod i'r Ombwdsmon, o fewn mis i gael adroddiad adran 22, am y camau y mae wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad. Mewn achosion o'r fath, caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad arbennig (adran 27(2)(a)).

Caiff yr Ombwdsmon hefyd, er enghraifft, gyhoeddi adroddiad arbennig os yw awdurdod rhestredig wedi rhoi'r hysbysiad o dan adran 25 o fewn yr amserlen a nodir yno ond nad yw'r Ombwdsmon yn fodlon:

a) ar y camau a gymerwyd neu a gynigiwyd gan yr awdurdod rhestredig; neu
b) cyn diwedd pa gyfnod y mae'r awdurdod rhestredig wedi datgan y bydd yn cymryd y camau hynny; neu
c) bod yr awdurdod rhestredig wedi cymryd y camau y dywedodd y byddai'n eu cymryd o fewn y cyfnod penodedig.

Caiff yr Ombwdsmon wneud pa bynnag argymhellion sy'n briodol yn ei farn ef mewn adroddiad arbennig, o ran y camau gweithredu y mae o'r farn y dylid eu cymryd i unioni neu atal yr anghyfiawnder neu'r caledi ac i atal anghyfiawnder neu galedi tebyg rhag cael ei achosi eto (adran 27(8)(b)).

Mae adran 27(9) yn nodi at bwy y mae angen i'r Ombwdsmon anfon copi o adroddiad arbennig. Mae'r gofynion yn dibynnu a oedd yr adroddiad gwreiddiol yn adroddiad llawn o dan adran 22, yn adroddiad a wnaed o dan adran 26 ynteu'n ddatganiad a wnaed ar ôl datrys mater.

**Adran 28: Adroddiadau arbennig: atodol**

Mae adran 28 yn gwneud darpariaethau ychwanegol o safbwynt adroddiadau arbennig. Yn benodol, mae'r un cyfyngiadau o ran enwi neu allu adnabod unigolion yn berthnasol i adroddiad arbennig ag i adroddiad o dan adran 22 (adran 28(4) a (5)) ac mae adran 28(6) yn darparu bod adrannau 23 a 24 (gofynion i roi cyhoeddusrwydd i adroddiadau) yn gymwys i adroddiadau arbennig.

**Adran 29: Adroddiadau arbennig sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rhaid i adroddiad arbennig sy'n ymwneud â Gweinidogion Cymru neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei osod gerbron y Cynulliad.

**Adran 30: Awdurdodau rhestredig**

Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 3, sy'n rhestru'r bobl a'r sefydliadau (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel "awdurdodau rhestredig") y gall yr Ombwdsmon gynnal ymchwiliad iddynt.

Mae adran 30(2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, ddiwygio Atodlen 3 trwy ychwanegu awdurdodau rhestredig, cael gwared arnynt neu newid y disgrifiad ohonynt. Cyn gwneud y rheoliadau hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon ac unrhyw rai eraill sydd, yn eu barn hwy, yn briodol (adran 30(4)). Mae adran 30(3) yn darparu y caiff gorchymyn sy'n ychwanegu awdurdod rhestredig at Atodlen 3 gymhwyso'r Ddeddf i'r unigolyn neu'r sefydliad hwnnw gydag addasiadau.

Mae'r pŵer i wneud gorchymyn o dan yr adran hon yn destun cyfyngiadau penodol a nodir yn adrannau 31 a 32.

**Atodlen 3**

Mae'r Atodlen hon yn rhestru'r rhai sy'n dod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon.

**Adran 31: Cyfyngiadau ar bŵer i ddiwygio Atodlen 3**

Mae adran 31(1) yn atal rheoliadau o dan adran 30(2) rhag newid statws Llywodraeth Cymru na Chynulliad Cenedlaethol Cymru fel awdurdodau rhestredig.

Mae Adran 31(2) yn dweud na chaiff Gweinidogion Cymru ychwanegu awdurdodau rhestredig at Atodlen 3 oni bai bod hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Adran 32: Darpariaethau mewn rheoliadau sy'n ychwanegu personau at Atodlen 3**

Mae adran 32 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth ychwanegu at y rhestr, bennu yn y rheoliadau pa rai o swyddogaethau'r sawl a ychwanegir sy'n dod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon.

**Adran 33: Pŵer i ddyroddi canllawiau**

Mae adran 33(1) yn rhoi pŵer i'r Ombwdsmon roi canllawiau i awdurdodau rhestredig ynglŷn ag arferion gweinyddol da. Bydd hyn yn galluogi'r Ombwdsmon i bennu meincnodau ar gyfer awdurdodau rhestredig. Mae gan yr Ombwdsmon hefyd bŵer i roi canllawiau i awdurdodau rhestredig yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion (gweler adrannau 35 hyd 40).

| |
|---|
| Mae adran 33(3) yn darparu ei bod yn ofynnol i awdurdodau rhestredig roi sylw i ganllawiau'r Ombwdsmon o dan adran 33 wrth gyflawni eu swyddogaethau. Ni ddylai awdurdodau rhestredig wyro oddi wrth y canllawiau hynny oni bai bod rheswm da dros wneud hynny. Wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn cysylltiad â mater o dan y Ddeddf hon, caiff yr Ombwdsmon ystyried i ba raddau y mae awdurdod rhestredig wedi cydymffurfio â'i ganllawiau o dan adran 33, os o gwbl. |
| **Adran 34: Digolledu'r person a dramgwyddwyd**<br><br>Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i awdurdodau rhestredig dalu iawndal i berson sydd wedi gwneud cwyn i'r Ombwdsmon, neu y gwnaed cwyn i'r Ombwdsmon ar ei ran, mewn cysylltiad â'r mater sy'n destun y gŵyn.<br><br>Efallai y bydd gan rai awdurdodau rhestredig bwerau eisoes a fyddai'n ddigon eang at y diben hwn (gweler er enghraifft y pŵer sydd ar gael i amryw gyrff llywodraeth leol sy'n gweithredu o dan adran 92 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000). Bydd adran 34 yn sicrhau y bydd gan bob awdurdod rhestredig bŵer o'r fath. Nid yw'n dibynnu ar fod yr Ombwdsmon yn ymchwilio i'r gŵyn a chyflwyno adroddiad ac felly, er enghraifft, gellid defnyddio'r pŵer pan fo'r Ombwdsmon wedi cynorthwyo'r ddwy ochr i ddod i gytundeb cyfeillgar ynglŷn â datrys y mater. |
| **RHAN 4** |
| **Adran 35: Ymdrin â chwynion: datganiad o egwyddorion**<br><br>Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion sy'n ymwneud â gweithdrefnau'r 'awdurdodau rhestredig' yn Atodlen 3 (adran 35(1)) ar gyfer ymdrin â chwynion. Rhaid i awdurdodau rhestredig fod â gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion sy'n cydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion (adran 35(2)).<br><br>Cyn cyhoeddi'r datganiad cyntaf o egwyddorion, rhaid i'r Ombwdsmon osod datganiad o egwyddorion drafft gerbron y Cynulliad. Bydd y datganiad o egwyddorion drafft yn destun gweithdrefn penderfyniad negyddol. Golyga hyn bod gan y Cynulliad 40 diwrnod i wrthwynebu'r drafft. Os na fydd y Cynulliad yn gwrthwynebu o fewn y 40 diwrnod hwnnw, rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r datganiad o egwyddorion ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad.<br><br>Wedi hynny, caiff yr Ombwdsmon adolygu'r datganiad o egwyddorion. Ond os yw diwygiad yn gwneud unrhyw newidiadau perthnasol i'r datganiad o egwyddorion, yna bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys eto i'r datganiad o egwyddorion diwygiedig.<br><br>Rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori cyn cynnig y datganiad cyntaf o egwyddorion drafft (a chyn ei ddiwygio) o dan yr adran hon. |

| |
|---|
| Yn ôl adran 35(13) ystyr "gweithdrefnau ymdrin â chwynion" yw gweithdrefnau awdurdodau rhestredig ar gyfer archwilio cwynion neu adolygu penderfyniadau mewn cysylltiad â chamau gweithredu a gymerwyd gan awdurdod rhestredig pan fo'r mater dan sylw yn un y ceir gwneud cwyn i'r Ombwdsmon yn ei gylch, ac y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddo o dan y Ddeddf hon. |
| **Adran 36: Gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion**<br><br>Mae'r adran hon yn galluogi'r Ombwdsmon (ar ôl ymgynghori) i gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion (“gweithdrefnau enghreifftiol”) ar gyfer awdurdodau rhestredig. Rhaid i weithdrefnau enghreifftiol hefyd gydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon.<br><br>Ni chaiff gweithdrefn enghreifftiol a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rhestredig wneud rhywbeth os nad oes gan yr awdurdod rhestredig bwerau (heblaw yn rhinwedd y Ddeddf) i gydymffurfio â'r gofyniad (adran 36(5)(a)).<br><br>Hefyd, ni chaiff gweithdrefn enghreifftiol a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon wrthdaro ag unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys codau, canllawiau a chynlluniau ac ati a wnaed o dan ddeddfiad) sy'n gymwys i'r awdurdod rhestredig (adran 36(5)(b)). Er enghraifft, ni all gweithdrefn enghreifftiol fod yn anghyson â'r gofynion statudol a nodir yn y gyfundrefn gwyno 'Gweithio i Wella' sy'n gymwys i gyrff y GIG yng Nghymru.<br><br>Mae is-adran (6) yn sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau rhestredig a bennir o dan adran 37(1) gydymffurfio ag unrhyw newidiadau a gyhoeddir i'r weithdrefn enghreifftiol berthnasol, ond mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a ddylai roi cyfarwyddyd i'r awdurdod rhestredig ailgyflwyno'i weithdrefn ymdrin â chwynion o dan adran 39(1).<br><br>Os bydd yr Ombwdsmon yn tynnu gweithdrefn enghreifftiol yn ôl, mae unrhyw fanylebau cysylltiedig o dan adran 37(1) yn peidio â chael effaith (adran 36(9)(b)(i)). |
| **Adran 37: Gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion: manyleb awdurdodau rhestredig**<br><br>O dan yr adran hon caiff yr Ombwdsmon bennu unrhyw awdurdod rhestredig y mae gweithdrefn enghreifftiol yn berthnasol iddo. Rhaid i awdurdod rhestredig a bennir fod â gweithdrefn ymdrin â chwynion sy'n cydymffurfio â'r weithdrefn enghreifftiol berthnasol. Ar ôl cael ei bennu, rhaid i'r awdurdod rhestredig gyflwyno'i weithdrefn ymdrin â chwynion, gan roi ystyriaeth i'r weithdrefn enghreifftiol, o fewn chwe mis.<br><br>Caiff yr awdurdod rhestredig, gyda chydsyniad yr Ombwdsmon, ddatgymhwyso agweddau ar y weithdrefn enghreifftiol os yw hyn yn |

angenrheidiol er mwyn gallu gweithredu'n effeithiol (adran 37(4)). Caiff yr Ombwdsmon ddirymu manylebau ar unrhyw adeg (adran 37(6)).

**Adran 38: Datganiadau o beidio â chydymffurfio**

Mae'r adran hon yn galluogi'r Ombwdsmon i ddatgan nad yw gweithdrefn awdurdod rhestredig penodol ar gyfer ymdrin â chwynion yn cydymffurfio â'r weithdrefn enghreifftiol berthnasol. Os nad yw'r awdurdod wedi'i enwi caiff yr Ombwdsmon ddatgan nad yw'r weithdrefn yn cydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion. Rhaid i'r Ombwdsmon roi rhesymau ysgrifenedig a chaiff hefyd bennu newidiadau a fyddai'n caniatáu i'r datganiad gael ei dynnu'n ôl. Rhaid i'r awdurdod rhestredig anfon ei weithdrefn ymdrin â chwynion at yr Ombwdsmon o fewn dau fis i'r datganiad, ar ôl ystyried y rhesymau dros beidio â chydymffurfio ac unrhyw newidiadau a bennir gan yr Ombwdsmon.

Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiadau a wnaed o dan is-adrannau (1) a (2) ar wefan yr Ombwdsmon (adran 38(3)) a gallant dynnu'r datganiadau hynny yn ôl ar unrhyw adeg (adran 38(6)).

**Adran 39: Cyflwyno gweithdrefnau ymdrin â chwynion: cyffredinol**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rhestredig gyflwyno'i weithdrefn ymdrin â chwynion cyn pen tri mis neu gyfnod arall a gyfarwyddir gan yr Ombwdsmon. Mae cyfnod byrrach yn cael effaith hyd yn oed os nad yw'r cyfnod a roddir yn adran 37(3) neu 38(5) wedi dod i ben eto.

Hefyd, mae'n ofynnol i awdurdod rhestredig ddarparu gwybodaeth ychwanegol os gofynnir iddo wneud hynny. Mae hyn yn galluogi'r Ombwdsmon i gael disgrifiad digonol o weithdrefn ymdrin â chwynion awdurdod rhestredig.

**Adran 40: Gweithdrefnau ymdrin â chwynion: hybu arferion gorau etc**

Mae'r adran hon yn gosod dyletswyddau ar yr Ombwdsmon mewn cysylltiad â'r modd y mae awdurdodau rhestredig yn ymdrin â chwynion, sef (1) monitro arferion, (2) hybu arferion gorau a (3) annog cydweithrediad a rhannu arferion gorau.

Rhaid i awdurdodau rhestredig gydweithredu â'r Ombwdsmon wrth arfer y dyletswyddau hyn ac eithrio i'r graddau nad oes ganddynt y pwerau angenrheidiol (heblaw yn rhinwedd y Ddeddf) i sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd, neu fod y ddyletswydd yn anghyson ag unrhyw ddeddfiad arall.

**RHAN 5**

**Adran 41: Materion y mae'r Rhan hon yn gymwys iddynt**

Mae adran 41 yn nodi'r tri mater y mae Rhan 5 yn gymwys iddynt: (1) camau gweithredu a gymerwyd gan ddarparwr cartref gofal mewn cysylltiad â

darparu llety, gofal nyrsio neu ofal personol mewn cartref gofal yng Nghymru; (2) camau gweithredu a gymerwyd gan ddarparwr gofal cartref mewn cysylltiad â darparu gofal cartref yng Nghymru; a (3) camau a gymerwyd gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth gofal lliniarol yng Nghymru.

Nid yw Rhan 5 yn gymwys i gwynion y gellir ymdrin â hwy o dan Ran 3 o'r Ddeddf hon, nac i faterion a ddisgrifir yn Atodlen 4 (materion sydd wedi eu heithrio o awdurdodaeth yr Ombwdsmon). Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Atodlen 4 drwy reoliadau, ond rhaid iddynt ymgynghori â'r Ombwdsmon cyn gwneud hynny.

Mae'r termau a ddefnyddir yn yr adran hon yn cael eu diffinio yn adrannau 61 i 63.

**Atodlen 4**

Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth ynghylch materion sydd wedi'u heithrio o awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

**Adran 42: Pŵer i ymchwilio i gwynion**

Mae adran 42 yn adlewyrchu'r dull gweithredu cyffredinol a gymerir yn adran 3. Yn rhinwedd adran 42(1) a (2) caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn sy'n ymwneud â mater y mae Rhan 5 o'r Ddeddf hon yn gymwys iddi, dim ond:

a) os yw'r gŵyn wedi'i gwneud yn briodol neu wedi'i hatgyfeirio'n briodol ato; a
b) yn achos cwynion am ddarparwyr gofal lliniarol annibynnol, os yw'r darparwr gofal lliniarol annibynnol wedi cael cyllid cyhoeddus, o fewn y tair blynedd cyn dyddiad y camau gweithredu y mae'r gŵyn yn ymwneud â hwy.

Mae “cyllid cyhoeddus" yn cael ei ddiffinio yn is-adran (3) a'r ystyr yw cyllid oddi wrth Weinidogion Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, Ymddiriedolaeth GIG neu gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys cyllid grant a ddarperir gan Weinidogion Cymru i'r gwasanaeth gofal lliniarol annibynnol.

Mae adrannau 42(4) a 47 yn nodi ym mha amgylchiadau y mae cwyn wedi cael ei gwneud yn briodol i'r Ombwdsmon. Mae adran 42(5) ac adran 48 yn nodi ym mha amgylchiadau y mae cwyn wedi cael ei hatgyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon gan ddarparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef.

Mae adran 42(7) yn galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i gŵyn os yw o'r farn ei bod yn rhesymol gwneud hynny, hyd yn oed os oes gofynion penodol o ran y modd y dylid gwneud neu atgyfeirio'r gŵyn nad ydynt wedi'u cyflawni.

Mae adran 42(8) a (9) yn rhoi disgresiwn eang i'r Ombwdsmon benderfynu pa un a yw am gychwyn ymchwiliad, parhau ag ymchwiliad neu ddod ag ymchwiliad i ben. Mae adran 42(10) yn ei gwneud yn eglur y caiff yr Ombwdsmon gychwyn neu barhau ag ymchwiliad i gŵyn hyd yn oed os yw'r gŵyn wedi'i thynnu'n ôl. Gall hyn fod yn briodol, er enghraifft, pan fo achwynydd 'arweiniol' wedi gwneud cwyn am gamau gweithredu gan ddarparwr a'r rheini hefyd wedi effeithio ar bobl eraill, ond ei fod wedi hynny wedi tynnu ei gŵyn 'arweiniol' yn ôl. Mewn achosion o'r fath, gall yr Ombwdsmon ystyried ei bod yn briodol cychwyn ymchwiliad neu barhau ag ymchwiliad, er i'r gŵyn 'arweiniol' gael ei thynnu'n ôl, er mwyn diogelu buddiannau'r bobl eraill.

**Adran 43: Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun**

Mae adran 43 yn adlewyrchu adran 4, ond dim ond mewn perthynas ag ymchwiliadau ar ei liwt ei hun o dan Ran 5 o'r Ddeddf.

Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i fater pa un a yw wedi cael cwyn ai peidio. Felly, mae'n caniatáu i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad.

Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y modd y dehonglir y Ddeddf – pan gaiff y gair "ymchwiliad" ei ddefnyddio yn Rhan 5, gall olygu naill ai ymchwiliad o dan adran 42 neu ymchwiliad o dan adran 43. Er enghraifft, mae adran 52 yn gymwys "at ddibenion ymchwiliad o dan y Rhan hon". Felly, mae adran 52 yn gymwys o ran ymchwiliad o dan adran 42 yn ogystal ag ymchwiliad o dan adran 43.

Yn yr un modd â'r pŵer o dan adran 42, dim ond i ymchwilio i faterion y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddynt o dan Ran 5 y caniateir defnyddio'r pŵer yn adran 43. Mae adran 41 yn nodi'r materion y caniateir ymchwilio iddynt.

Mae Adran 43(3) yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall yr Ombwdsmon gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Y gofynion yw:

a) bod yn rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i fudd y cyhoedd wrth gychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun;
b) bod yn rhaid i'r Ombwdsmon fod ag amheuaeth resymol o gamweinyddiaeth systemig;
c) bod yn rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r cyfryw bersonau y mae o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy; a
d) bod yn rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i'r meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gyhoeddir o dan adran 44.

| |
|---|
| **Adran 44: Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun**<br><br>Mae adran 44 yn adlewyrchu adran 5, ond dim ond mewn perthynas ag ymchwiliadau ar ei liwt ei hun o dan Ran 5 o'r Ddeddf.<br><br>Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun (ac o dan adran 43(3), rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i'r meini prawf hyn cyn dechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun).<br><br>Cyn cyhoeddi'r meini prawf, rhaid i'r Ombwdsmon osod drafft o'r meini prawf gerbron y Cynulliad. Bydd y drafft o'r meini prawf yn destun gweithdrefn penderfyniad negyddol. Golyga hyn bod gan y Cynulliad 40 diwrnod i wrthwynebu'r meini prawf. Os na fydd y Cynulliad yn gwrthwynebu o fewn y 40 diwrnod hwnnw, rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad.<br><br>Wedi hynny, caiff yr Ombwdsmon adolygu'r meini prawf. Ond os yw diwygiad yn gwneud unrhyw newidiadau perthnasol i'r meini prawf, yna bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn berthnasol eto i'r meini prawf diwygiedig.<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y meini prawf. Mae rheoliadau o'r fath yn dilyn gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Golyga hyn bod yn rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r rheoliadau – os nad yw'r Cynulliad yn cymeradwyo'r rheoliadau, yna ni fyddant yn dod i rym. Ond os yw'r Cynulliad yn cymeradwyo'r rheoliadau, rhaid i'r Ombwdsmon ddiweddaru'r meini prawf a gyhoeddwyd i adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan y rheoliadau.<br><br>Rhaid i'r Ombwdsmon a Gweinidogion Cymru ymgynghori cyn cynnig meini prawf (neu newidiadau i feini prawf) o dan yr adran hon. |
| **Adran 45: Dulliau amgen o ddatrys materion**<br><br>Mae adran 45 yn adlewyrchu adran 6 o'r Ddeddf hon ac mae'n rhoi pŵer eang i'r Ombwdsmon gymryd camau i ddatrys materion o dan Ran 5 heb symud ymlaen at ymchwiliad ffurfiol.<br>Mae'r pŵer ar gael i'r Ombwdsmon ei ddefnyddio yn lle'r pŵer i ymchwilio neu yn ychwanegol ato. |
| **Adran 46: Pwy sy'n cael cwyno**<br><br>Mae adran 46 yn seiliedig ar adran 7 o'r Ddeddf hon. Mae'n rhestru'r bobl y caniateir iddynt wneud cwyn i'r Ombwdsmon o dan Ran 5 o'r Ddeddf hon.<br><br>Caiff person wneud cwyn os yw ef neu hi yn aelod o'r cyhoedd ("y person a dramgwyddwyd") sy'n honni ei fod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o |

| |
|---|
| ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant mewn gwasanaeth, neu os bydd ef neu hi wedi cael ei awdurdodi i weithredu ar ran person o'r fath, neu fel arall os yw'n ymddangos i'r Ombwdsmon ei bod yn briodol iddo ef neu hi weithredu ar ran person o'r fath.<br><br>Fodd bynnag, nid unigolion yn unig a gaiff gwyno i'r Ombwdsmon: caiff cwmnïau a sefydliadau hefyd gwyno i'r Ombwdsmon am anghyfiawnder neu galedi a ddioddefwyd gan aelodau o'r cyhoedd, cyhyd ag y bodlonir yr amodau yn isadran (1).<br><br>Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i benderfynu a yw gofynion adran 46 wedi eu bodloni mewn achos penodol. |
| **Adran 47: Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon**<br><br>Os bydd person yn dymuno gwneud cwyn i'r Ombwdsmon, rhaid i'r gŵyn fodloni gofynion adran 47(1) (er bod gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn o dan adran 42(7) i ymchwilio i faterion pan nad yw'r gofynion hyn yn cael eu bodloni).<br><br>Nid yw adran 47(1) yn pennu pob un o'r union ofynion wrth wneud cwyn. Heblaw'r gofyniad sy'n ymwneud â therfynau amser yn adran 47(1)(c), bydd y gofynion yn cael eu nodi mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon. Felly, dylai pobl sy'n dymuno gwneud cwyn ddarllen y canllawiau hynny, a fydd yn eu helpu.<br><br>Os bydd y canllawiau yn pennu y caniateir gwneud cwyn ar lafar, mae is-adrannau (4) i (7) yn pennu gofynion ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys egluro wrth yr unigolyn dan sylw oblygiadau gwneud cwyn yn briodol (h.y. y gallai cwyn sy'n cael ei gwneud yn briodol arwain at ddechrau ymchwiliad gan yr Ombwdsmon), a chadarnhau a yw'r unigolyn am i'r gŵyn symud ymlaen i fod yn un sy'n cael ei gwneud yn briodol. Os nad yw'r person yn dymuno i'r gŵyn gael ei thrin yn un sy'n cael ei gwneud yn briodol, yna ni chaiff yr Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad adran 42 i'r mater (ond os yw'r Ombwdsmon eisoes wedi cychwyn ychwiliad i'r mater a bod y person wedi hynny yn tynnu'r gŵyn lafar yn ôl, mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i benderfynu a ddylai barhau â'r ymchwiliad ai peidio). Mewn unrhyw achos, caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater o dan y pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun yn adran 43. |
| **Adran 48: Gofynion: cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon**<br><br>Mae'r adran hon yn darparu y caiff darparwr atgyfeirio cwyn at yr Ombwdsmon, ond dim ond os caiff ei gwneud gan berson a fyddai wedi bod â hawl i wneud y gŵyn honno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon.<br><br>Rhaid i'r gŵyn fod wedi cael ei gwneud i'r darparwr o fewn blwyddyn i'r diwrnod y cafodd y person a dramgwyddwyd ei hysbysu gyntaf o'r mater y |

gwneir cwyn amdano. Rhaid i'r atgyfeiriad hefyd ddigwydd cyn diwedd cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y gŵyn i'r darparwr.

Yn ogystal, rhaid i'r atgyfeiriad fod ar ba ffurf bynnag y mae'r Ombwdsmon yn ei nodi mewn canllawiau a gyhoeddir, a rhaid iddo gynnwys pa wybodaeth bynnag a nodir yn y canllawiau hynny. Felly, dylai darparwyr sydd am atgyfeirio cwyn ddarllen y canllawiau hynny i'w helpu yn hyn o beth.

O dan adran 42(7) mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i dderbyn atgyfeiriad pan nad yw'r naill neu'r llall o'r terfynau amser (neu'r ddau) wedi eu bodloni, pan nad yw'r atgyfeiriad ar y ffurf sy'n ofynnol neu pan nad yw'r atgyfeiriad yn cynnwys y wybodaeth ofynnol.

**Adran 49: Cofnodion o gwynion**

Mae adran 49 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gadw cofrestr o bob cwyn a wneir i'r Ombwdsmon neu a atgyfeirir ato y mae ganddo hawl i ymchwilio iddi o dan Ran 5.

Bydd y gofrestr hon yn cynnwys yr holl gwynion ysgrifenedig, cwynion llafar a chwynion a wneir trwy ddulliau electronig ac ati.

**Adran 50: Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio i gwynion neu i ddod ag ymchwiliadau i ben**

Mae adran 50 yn darparu bod yn rhaid i'r Ombwdsmon baratoi datganiad o'r rhesymau dros unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud i beidio â dechrau ymchwiliad neu i ddod ag ymchwiliad i ben.

Gellir gwneud penderfyniad o'r fath, er enghraifft, pan fo'r Ombwdsmon wedi datrys mater trwy ddulliau amgen o dan adran 45 ac, felly, wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad ffurfiol.

O dan adran 50(2), rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r datganiad hwnnw at:

a) unrhyw berson a wnaeth gŵyn i'r Ombwdsmon; a
b) y darparwr y mae'r mater yn ymwneud ag ef.

O dan adran 50(3), caiff yr Ombwdsmon hefyd anfon copi o'r datganiad at unrhyw un arall.

Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o'r fath os bydd gofynion adran 50(4) yn cael eu bodloni. Ni chaiff yr Ombwdsmon ond cyhoeddi datganiad o'r fath os yw o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Wrth ddod i'w farn, rhaid i'r Ombwdsmon ystyried lles y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw un arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

Mae adrannau 50(7) ac (8) yn gwahardd yr Ombwdsmon rhag anfon neu gyhoeddi datganiad sy'n:

a) enwi unrhyw berson (heblaw'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef); neu
b) yn cynnwys gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o olygu bod modd adnabod person o'r fath ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor o'r datganiad heb amharu ar ei effeithiolrwydd, oni bai bod yr Ombwdsmon o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys enw neu fanylion y gellir eu defnyddio i adnabod rhywun.

Nid yw'r gwaharddiad yn berthnasol o safbwynt y fersiwn o'r datganiad a anfonir at y person a dramgwyddwyd (os oes un).

**Adran 51: Gweithdrefn ymchwilio**

Mae adran 51(1) yn nodi'r gofynion ar gyfer ymchwiliadau o dan adran 42 (h.y. ymchwiliadau yn dilyn cwyn).

Mae adrannau 51(2) i 51(7) yn nodi'r gofynion ar gyfer ymchwiliadau o dan adran 43 (h.y. ymchwiliadau gan ddefnyddio pŵer yr Ombwdsmon i ymchwilio ar ei liwt ei hun), sy'n cynnwys gofyniad i'r Ombwdsmon baratoi 'cynnig ymchwilio' ac anfon y cynnig ymchwilio at y darparwr sy'n destun ymchwiliad, ac unrhyw berson a adwaenir yn y cynnig ymchwilio mewn modd negyddol. Rhaid i'r Ombwdsmon hefyd roi cyfle i'r darparwr a phersonau eraill roi sylwadau ar yr ymchwiliad. O dan adran 51(7), rhaid i gynnig ymchwilio nodi'r rhesymau dros yr ymchwiliad a nodi sut mae meini prawf adran 44 wedi'u bodloni (h.y. y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun).

Ar y llaw arall, nid oes rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio yn yr amgylchiadau a nodir yn adran 51(3) a (4). Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio os yw wedi cychwyn ymchwiliad i fater (naill ai mewn ymateb i gŵyn o dan adran 42 neu ar ei liwt ei hun o dan adran 43) a bod yr Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad i fater o dan adran 43 sydd â chysylltiad sylweddol â'r ymchwiliad blaenorol.

Fodd bynnag, hyd yn oed os nad oes rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio, mae adran 51(6) yn dal i'w gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ddod â'r ymchwiliad i sylw'r rhai sy'n destun yr ymchwiliad a rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau.

Mae adran 51(8) yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymchwiliad gael ei gynnal yn breifat.

Mae adran 51(9) yn darparu mai mater i'r Ombwdsmon, yn amodol ar y gofynion uchod, yw penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad. Er enghraifft, gallai'r Ombwdsmon sefydlu gweithdrefnau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o gwynion a gallai, mewn unrhyw achos penodol, wyro oddi

wrth unrhyw weithdrefnau o'r fath a sefydlwyd os yw o'r farn bod hynny'n briodol.

Mae adran 51(10)(a) yn ei gwneud yn glir y caiff yr Ombwdsmon gynnal unrhyw ymholiadau y mae o'r farn eu bod yn briodol. Mae adran 51(10)(b) yn darparu mai mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a ganiateir i berson gael ei gynrychioli'n gyfreithiol neu gael ei gynrychioli mewn rhyw ffordd arall (e.e. gan eiriolwr annibynnol).

Mae adran 51(12) yn rhoi pŵer i'r Ombwdsmon wneud taliadau tuag at dreuliau pobl sy'n ei gynorthwyo mewn ymchwiliad, ar yr amod yr eir iddynt yn briodol, a thalu lwfansau penodol.
Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a yw'n briodol gwneud taliadau o'r fath neu osod unrhyw amodau ar daliadau o'r fath.

Mae adran 51(14) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau o dan adrannau 42 a 43.

**Adran 52: Gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau**

Mae adran 52 yn rhoi pwerau eang i'r Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i ddangos gwybodaeth neu ddogfennau mewn cysylltiad ag ymchwiliad (adrannau 52(2) a (3)) a'i gwneud yn ofynnol i rai pobl benodol roi iddo unrhyw gyfleusterau y gall yn rhesymol fod arno'u hangen (adran 52(4)). Gall fod angen y ddarpariaeth olaf, er enghraifft, pe byddai ar yr Ombwdsmon angen defnyddio caledwedd neu feddalwedd gyfrifiadurol benodol i edrych ar ddogfennau neu wybodaeth a ddarparwyd.

Mae gan yr Ombwdsmon yr un pwerau â'r Uchel Lys o safbwynt cymryd tystiolaeth gan dystion (adran 52(3)).

Mae adran 52(5) yn amddiffyn y bobl hynny y caiff yr Ombwdsmon fynnu eu bod yn darparu tystiolaeth neu'n dangos gwybodaeth neu ddogfennau.
Ni chaiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson o'r fath roi unrhyw dystiolaeth na chyflwyno unrhyw ddogfennau na ellid gorfodi'r person hwnnw i'w rhoi neu eu cyflwyno gerbron yr Uchel Lys.

Mae adran 52(6) yn atal y Goron rhag dal gwybodaeth yn ôl ar y sail ei bod yn ddarostyngedig i rwymedigaeth i'w chadw'n gyfrinachol neu i gyfyngiad ar ei datgelu.

Effaith adran 52(7) yw na all y Goron, o safbwynt pŵer yr Ombwdsmon i fynnu cael tystiolaeth neu gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennau, ddibynnu ar ei breintiau na'i himiwneddau arbennig i drechu hawl yr Ombwdsmon i weld gwybodaeth o'r fath o dan adran 52(5).

**Adran 53: Rhwystro a dirmygu**

Mae adrannau 53(1) a (2) yn galluogi'r Ombwdsmon i dystio i'r Uchel Lys fod unigolyn, yn ei farn ef, wedi ei rwystro ef (neu aelod o'i staff ac ati) heb esgus cyfreithlon wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 5 neu fod yr unigolyn wedi gweithredu mewn modd a fyddai'n gyfystyr â dirmyg llys, pe byddai'r weithred wedi'i chyflawni mewn cysylltiad ag achos yn yr Uchel Lys.

Os bydd yr Ombwdsmon yn cyhoeddi tystysgrif o'r fath, caiff yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater ac os bydd yr Uchel Lys yn dyfarnu bod yr unigolyn dan sylw wedi rhwystro'r Ombwdsmon, caiff yr Uchel Lys ymdrin ag ef neu hi fel pe bai wedi cyflawni dirmyg o ran yr Uchel Lys (adran 53(4)).

**Adran 54: Adroddiadau am ymchwiliadau**

Mae adran 54(2) yn darparu bod yn rhaid i'r Ombwdsmon baratoi adroddiad ar ei ganfyddiadau, ar ôl cynnal ymchwiliad, ac anfon copi o'r adroddiad hwnnw at y bobl a bennir yn adran 54(3), oni bai ei fod yn penderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen a nodir yn adran 57. Caiff yr Ombwdsmon hefyd anfon copi o'r adroddiad at unrhyw rai eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi ei adroddiad os bydd gofynion adran 54(5) yn cael eu bodloni. Ni chaiff yr Ombwdsmon ond cyhoeddi adroddiad o'r fath os yw o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Wrth ddod i'w farn, rhaid i'r Ombwdsmon roi ystyriaeth i les y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw un arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

Mae adrannau 54(8) a (9) yn gwahardd yr Ombwdsmon rhag anfon neu gyhoeddi adroddiad sy'n:

a) enwi unrhyw berson (heblaw'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef); neu
b) yn cynnwys gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o olygu bod modd adnabod person o'r fath ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor o'r adroddiad heb amharu ar ei effeithiolrwydd, oni bai bod yr Ombwdsmon o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys enw neu fanylion y gellir eu defnyddio i adnabod rhywun.

Nid yw'r gwaharddiad yn berthnasol o safbwynt y fersiynau o'r adroddiad a anfonir at y sawl a dramgwyddwyd (os oes un) neu at Weinidogion Cymru. Wrth benderfynu a yw er budd y cyhoedd i gynnwys y wybodaeth hon yn y fersiynau eraill o'r adroddiad, rhaid i'r Ombwdsmon roi ystyriaeth i les y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw un arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

| |
|---|
| **Adran 55: Cyhoeddusrwydd pellach i adroddiadau am ymchwiliadau**<br><br>Mae adran 55 yn darparu y caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi hysbysiad ynglŷn ag adroddiad ar ymchwiliad mewn papur newydd neu gyfryngau darlledu / electronig eraill. Rhaid i unrhyw benderfyniad i gyhoeddi hysbysiad o'r fath ystyried budd y cyhoedd, budd y person a dramgwyddwyd (os oes un) a buddiannau unrhyw rai eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon (gweler adran 55(4)).<br><br>Caiff yr hysbysiad (ymhlith pethau eraill) gynnwys y materion a bennir yn adran 55(2). Rhaid i'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef ad-dalu i'r Ombwdsmon gostau rhesymol trefnu i gyhoeddi'r hysbysiad, os bydd yr Ombwdsmon yn gofyn iddo wneud hynny. |
| **Adran 56: Camau gweithredu ar ôl i adroddiadau am ymchwiliadau ddod i law**<br><br>Os yw'r Ombwdsmon yn cyflwyno adroddiad (o dan adran 54), yn dilyn ymchwiliad, bod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r camau gweithredu sy'n destun yr ymchwiliad, mae adran 56 yn darparu ei bod yn ofynnol i'r darparwr dan sylw ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a rhoi gwybod iddo pa gamau y mae wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb, a hefyd o fewn pa gyfnod y bydd yn cymryd unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd.<br><br>Mae'n rhaid i'r darparwr dan sylw gyflwyno'r hysbysiad o fewn mis i'r diwrnod y mae'r darparwr yn cael yr adroddiad neu unrhyw gyfnod hwy y mae'r Ombwdsmon yn ei nodi yn ôl ei ddisgresiwn. |
| **Adran 57: Adroddiadau: gweithdrefn amgen**<br><br>Mae adran 57 yn darparu nad yw'r weithdrefn gyflawn o gyflwyno adroddiad o dan adrannau 54 i 56 yn berthnasol os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen a nodir yn yr adran hon.<br>Os daw'r Ombwdsmon i'r casgliad, ar ôl ymchwiliad:<br><br>a) nad oes person wedi dioddef, neu'n debygol o ddioddef, anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r camau gweithredu yr ymchwiliwyd iddynt; neu<br>b) bod person wedi dioddef, neu'n debygol o ddioddef, anghyfiawnder neu galedi o'r fath a bod y darparwr y mae'r mater yn ymwneud ag ef yn cytuno i weithredu argymhellion yr Ombwdsmon o fewn y cyfnod a ganiateir (fel y'i diffinnir yn adran 57(3)), caiff yr Ombwdsmon benderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen a nodir yn adran 57.<br><br>Fodd bynnag, dim ond os yw'n fodlon nad yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn gyflawn a nodir yn adrannau 54 i 56 y caniateir i'r Ombwdsmon wneud hynny. |

| |
|---|
| Mae'r un cyfyngiadau o ran enwi neu allu adnabod unigolion yn berthnasol i adroddiad o dan y weithdrefn amgen yn yr adran hon ag i adroddiad o dan adran 54 (adran 57(9) a (10)). |
| **Adran 58: Amgylchiadau lle caiff adroddiadau arbennig eu paratoi**<br><br>O dan adran 58, caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad arbennig mewn tri achos:<br><br>Achos 1. Mae'r Ombwdsmon wedi dod i'r casgliad mewn adroddiad am ymchwiliad fod person wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi (neu fod person yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi) o ganlyniad i'r mater a oedd yn destun yr ymchwiliad ond:<br>i. nad yw'r Ombwdsmon wedi cael ei hysbysu gan y darparwr, yn unol ag adran 56 (Camau gweithredu ar ôl i adroddiadau am ymchwiliadau ddod i law), o'r camau y mae'r darparwr wedi'u cymryd / y mae'n bwriadu eu cymryd, neu cyn diwedd pa gyfnod y mae'n bwriadu cymryd unrhyw gamau gweithredu, neu<br><br>ii. nad yw'r Ombwdsmon, ar ôl cael ei hysbysu o faterion o'r fath yn unol ag adran 56, yn fodlon ar y camau gweithredu a gymerwyd / y bwriedir eu cymryd neu cyn diwedd pa gyfnod y bwriedir eu cymryd, neu nad yw'n fodlon bod y camau wedi'u cymryd cyn diwedd y cyfnod a ganiateir.<br><br>Achos 2. Mae'r Ombwdsmon wedi paratoi adroddiad o dan adran 57(2) (gweithdrefn amgen) ac nid yw wedi'i fodloni bod y darparwr wedi gweithredu ei argymhellion o fewn y cyfnod a ganiateir; ac<br><br>Achos 3. Mae'r Ombwdsmon wedi dod i'r casgliad, wrth ddatrys mater o dan adran 46 (dulliau amgen o ddatrys materion), fod unrhyw berson wedi dioddef (neu'n debygol o ddioddef) anghyfiawnder neu galedi a bod y darparwr wedi cytuno i gymryd camau gweithredu penodol, ac nid yw'r Ombwdsmon yn fodlon bod y darparwr wedi cymryd y camau gweithredu hynny cyn diwedd y cyfnod a ganiateir. |
| **Adran 59: Adroddiadau arbennig**<br><br>Mae adran 59(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon nodi, mewn adroddiad arbennig, y ffeithiau sy'n rhoi hawl iddo baratoi'r adroddiad hwnnw, ac i wneud yr argymhellion sy'n briodol yn ei farn ef o ran y camau gweithredu y mae o'r farn y dylid eu cymryd i unioni'r anghyfiawnder neu'r caledi a ddioddefwyd gan y person ac i atal anghyfiawnder neu galedi tebyg rhag cael ei achosi eto.<br><br>Mae adran 59(2) a (3) yn nodi at bwy y mae'n rhaid anfon yr adroddiad arbennig. Mae'r gofynion sy'n berthnasol ar ôl i'r Ombwdsmon ystyried y mater yn flaenorol mewn adroddiad cyflawn o dan adran 54 yn wahanol i'r rhai sy'n berthnasol ar ôl iddo ystyried y mater yn flaenorol trwy'r weithdrefn |

| |
|---|
| amgen o dan adran 57 neu drwy gyfrwng dull amgen o ddatrys cwyn o dan adran 45.<br><br>Mae adran 59(4) i (9) yn gwneud darpariaethau ychwanegol o safbwynt adroddiadau arbennig. Yn benodol, mae'r un cyfyngiadau o ran enwi neu allu adnabod unigolion yn berthnasol i adroddiadau arbennig ag i adroddiad o dan adran 54. |
| **Adran 60: Cyhoeddusrwydd pellach i adroddiadau arbennig**<br><br>Mae adran 60 yn rhoi'r pŵer i'r Ombwdsmon gyhoeddi hysbysiad am adroddiad arbennig mewn papur newydd neu trwy gyfryngau darlledu ac electronig.<br><br>Wrth benderfynu cyhoeddi ai peidio, mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ystyried budd y cyhoedd, budd y person a dramgwyddwyd (os oes un) a buddiannau unrhyw un arall sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon. Rhaid i'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef ad-dalu i'r Ombwdsmon gostau rhesymol trefnu i gyhoeddi'r hysbysiad, os bydd yr Ombwdsmon yn gofyn iddo wneud hynny. Os nad yw darparwr yn gwneud hynny, caiff yr Ombwdsmon adennill y costau hyn fel dyled sifil. |
| **Adran 61: Ystyr “cartref gofal” a “darparwr cartref gofal”**<br><br>Mae adran 61 yn darparu diffiniadau o "gofal", "cartref gofal" a "darparwr cartref gofal" trwy gyfeirio at Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae hefyd yn darparu bod camau gweithredu darparwr cartref gofal yn cynnwys camau a gymerwyd gan staff y darparwr ac eraill sy'n gweithredu ar ran y darparwr. |
| **Adran 62: Ystyr "gofal cartref " a "darparwr gofal cartref"**<br><br>Mae adran 62 yn darparu diffiniadau o "gofal cartref" a "darparwr gofal cartref". Mae hefyd yn darparu bod camau gweithredu darparwr gofal cartref yn cynnwys camau a gymerwyd gan staff y darparwr ac eraill sy'n gweithredu ar ran y darparwr. |
| **Adran 63: Ystyr "gwasanaeth gofal lliniarol" a "darparwr gofal lliniarol annibynnol"**<br><br>Mae adran 63 yn darparu diffiniadau o “gwasanaeth gofal lliniarol" a "darparwr gofal lliniarol annibynnol". Nid yw'r term "gofal lliniarol" yn cael ei ddiffinio. Fodd bynnag, mae'n cael ei ddefnyddio yn gyffredinol i ddisgrifio'r broses o liniaru poen pobl â chyflyrau angheuol, lleddfu poen heb ymdrin ag achos y cyflwr, a gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu hoes. Fel rheol, mae cyflyrau sy'n cyfyngu ar oes yn cael eu disgrifio fel rhai lle mae disgwyliad oes rhywun yn debygol o gael ei gwtogi o ganlyniad i gyflwr neu salwch. |

Wrth benderfynu a yw math penodol o ofal yn cyfateb i ofal lliniarol neu beidio, rhagwelir y bydd yr Ombwdsmon yn rhoi rhywfaint o bwys i'r diffiniad o "palliative care" sy'n cael ei ddefnyddio gan Sefydliad Iechyd y Byd. Yn ôl y diffiniad hwnnw, “palliative care is an approach that improves the quality of life of patients and their families facing the problem associated with life-threatening illness, through the prevention and relief of suffering by means of early identification and impeccable assessment and treatment of pain and other problems, physical, psychosocial and spiritual”. Mae'n debygol hefyd y rhoddir pwys i ddiffiniad y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), sef *“palliative care is the active holistic care of patients with advanced progressive illness. Management of pain and other symptoms and provision of psychological, social and spiritual support is paramount. The goal of palliative care is achievement of the best quality of life for patients and their families. Many aspects of palliative care are also applicable earlier in the course of the illness in conjunction with other treatments”.*

Ystyr gwasanaeth gofal lliniarol yw gwasanaeth sydd â'r prif bwrpas o ddarparu gofal lliniarol.
Felly ni fwriedir i'r term gwmpasu gwasanaethau sy'n darparu rhywfaint o ofal lliniarol ond pan fo gofal o'r fath yn atodol i'r prif wasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Fodd bynnag, bwriedir iddo gwmpasu amrywiaeth eang o wasanaethau gofal lliniarol sy'n amrywio o wasanaethau yn y gymuned i ysbytai gofal lliniarol. Mae adran 63 yn darparu bod camau gweithredu darparwr gofal lliniarol annibynnol yn cynnwys camau a gymerwyd gan staff y darparwr ac eraill sy'n gweithredu ar ran y darparwr.

## RHAN 6

**Adran 64: Ymgynghori a chydweithredu ag ombwdsmyn eraill**

Mae adran 64(1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori ag ombwdsmon penodol arall pan fydd o'r farn y gallai mater fod yn destun ymchwiliad gan yr ombwdsmon arall hwnnw.
Pennir yn adran 64(7) â pha ombwdsmyn eraill y mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori. Mae pŵer i Weinidogion Cymru, trwy reoliad, ddiwygio'r rhestr hon o ombwdsmyn penodedig.

Pan fo'n ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori ag ombwdsmon arall ynglŷn â rhyw fater penodol, caiff hefyd gydweithredu â'r ombwdsmon arall hwnnw ar y mater dan sylw (adran 64(3)). Gall yr ymgynghori a'r cydweithredu gynnwys unrhyw beth sy'n ymwneud â'r mater dan sylw. Nodir yn adran 64(4) enghreifftiau o faterion y gellir ymgynghori a chydweithredu yn eu cylch, sef:

a) sut y dylid cynnal ymchwiliad; a
b) ffurf a chynnwys adroddiad yr ymchwiliad a'r broses o'i gyhoeddi.

Mae adrannau 64(5) a (6) yn darparu y caiff yr Ombwdsmon ac unrhyw un o'r ombwdsmyn penodedig (ac eithrio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

| |
|---|
| yr Alban) gynnal ymchwiliadau ar y cyd a chyhoeddi adroddiadau ar y cyd, pan fo ymgynghori o'r fath yn digwydd.<br><br>Pan fydd ymgynghori ynglŷn â mater, bydd yr Ombwdsmon yn gallu defnyddio ei bwerau atodol ym mharagraff 20 o Atodlen 1 i'r Ddeddf hon i anfon gwybodaeth at yr ombwdsmon arall. At hynny, bydd yr Ombwdsmon yn gallu defnyddio'r pwerau atodol hynny i roi gwybod i'r sawl a wnaeth y gŵyn (os oes un) sut y gall ef neu hi wneud cwyn i'r ombwdsmon arall. |
| **Adran 65: Cydweithio â phersonau a bennir**<br><br>Mae adran 65 yn ymdrin â sefyllfaoedd pan fo'r Ombwdsmon, wrth ymdrin â mater, yn canfod materion a allai gael eu harchwilio gan "bersonau a bennir" yn adran 65(2), hynny yw, amryfal gomisiynwyr Cymru, ac, yn achos materion iechyd a gofal cymdeithasol, Gweinidogion Cymru.<br><br>Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon hysbysu ac ymgynghori â'r personau penodol hynny ynghylch y mater. Yna caiff yr Ombwdsmon a rhai o'r personau perthnasol a bennir gydweithredu, a chynnal ymchwiliad ar y cyd, a pharatoi adroddiad ar y cyd am y mater. |
| **Adran 66: Cydlafurio â Chomisiynwyr**<br><br>Mae adran 66 yn cynnwys darpariaeth ychwanegol ynghylch cydlafurio rhwng yr Ombwdsmon a gwahanol Gomisiynwyr Cymru, yn achos materion y gallai'r Ombwdsmon neu'r Comisiynydd perthnasol ymdrin â hwy. |
| **Adran 67: Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br><br>Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon hysbysu ac ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ynglŷn â rhai agweddau ar ymchwiliadau, os yw'r Ombwdsmon yn ystyried bod hynny'n briodol.<br><br>Yna caiff yr Ombwdsmon ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gydweithredu, a chynnal ymchwiliad ar y cyd, a pharatoi adroddiad ar y cyd am y mater. |
| **Adran 68: Datgelu gwybodaeth**<br><br>Mae adran 68 yn darparu bod gwybodaeth a gafwyd yn ystod ymchwiliadau neu a gafwyd gan bersonau eraill a bennir mewn perthynas â materion neu mewn cysylltiad â hwy, i'w chadw'n gyfrinachol ac eithrio mewn rhai amgylchiadau. Yn adran 68(2), ceir rhestr o amgylchiadau pryd y caniateir datgelu gwybodaeth o'r fath.<br><br>Mae adran 68(7) yn darparu na ellir ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon nac aelod o'i staff nac unrhyw un arall sy'n gweithredu ar ei ran nac sy'n ei gynorthwyo, roi tystiolaeth mewn unrhyw achos (ac eithrio achosion a bennir yn adran 68(2)) ynghylch: |

a) gwybodaeth a gafwyd i gynorthwyo'r Ombwdsmon i benderfynu a ddylid ymchwilio, yn ystod ymchwiliad, wrth ddatrys mater, neu mewn cysylltiad â hysbysiad o dan adran 25 neu 56; neu b) gwybodaeth a gafwyd gan ombwdsmon arall wrth ymgynghori a chydweithio â'r Ombwdsmon o dan adran 64.

**Adran 69: Datgeliad niweidiol i ddiogelwch Gwladol neu yn groes i fudd y cyhoedd**

Mae adran 69(1) yn darparu y caiff un o Weinidogion y Goron roi hysbysiad i'r Ombwdsmon y byddai, ym marn y Gweinidog, yn niweidiol i ddiogelwch y Deyrnas Unedig neu fel arall yn groes i fudd y cyhoedd pe byddai unrhyw ddogfen neu wybodaeth neu ddosbarth o ddogfen neu wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad yn cael ei datgelu.
Pan fo hysbysiad o'r fath yn cael ei roi, nid yw'r Ddeddf hon yn awdurdodi'r Ombwdsmon, aelod o'i staff nac unrhyw un arall sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo, i ddatgelu gwybodaeth benodol o'r fath, nac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny.

Os oes dyletswydd ar yr Ombwdsmon neu aelod o'i staff ac ati i ddatgelu'r wybodaeth, yn rhinwedd rhyw ofyniad cyfreithiol arall, nid oes dim yn yr adran hon yn ei atal rhag cydymffurfio â'r rhwymedigaeth honno.

**Adran 70: Diogelu rhag hawliadau difenwi**

Mae adran 70 yn darparu bod braint absoliwt gan y canlynol at ddibenion difenwi:

a) cyhoeddi (a fydd yn dwyn ei ystyr arferol o fewn y gyfraith sy'n ymwneud â difenwi) unrhyw fater gan yr Ombwdsmon, aelod o'i staff neu berson arall sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon;
b) cyhoeddi unrhyw fater mewn unrhyw adroddiad a gyhoeddir gan berson wrth
gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 23 o'r Ddeddf hon, gan gynnwys adran 23 fel y'i haddaswyd gan adran 24, ac adrannau 23 a 24 fel y maent yn gymwys i adroddiadau arbennig yn rhinwedd adran 28(6) (gofyniad ar awdurdodau rhestredig i gyhoeddi adroddiad yr Ombwdsmon ar ymchwiliad); ac
c) cyhoeddi mater mewn cysylltiad a chŵyn, pan fo'r mater yn cael ei gyhoeddi yn un o'r dulliau cyfathrebu a ganlyn:
i. cyfathrebu rhwng awdurdod rhestredig (gan gynnwys aelod neu aelod cyfetholedig, swyddog neu aelod o staff neu rywun arall sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod hwnnw neu'n cynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau) a'r Ombwdsmon (neu ei staff neu bobl sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau);
ii. cyfathrebu rhwng darparwr cartref gofal, darparwr gofal cartref neu ddarparwr gofal lliniarol annibynnol, (gan gynnwys swyddog neu aelod o

staff neu rywun arall sy'n gweithredu ar ran y darparwr neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau) a'r Ombwdsmon (neu ei staff neu bobl sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau);
iii. cyfathrebu rhwng person ac aelod etholedig o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a
iv. cyfathrebu rhwng y person a dramgwyddwyd neu'r sawl sy'n gwneud y gŵyn ar ran y person a dramgwyddwyd (os oes un) a'r Ombwdsmon (neu ei staff, neu bobl sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau).

Mae'r ddarpariaeth hon yn gyffredinol yn ailadrodd amddiffyniad tebyg o dan y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ombwdsmyn eraill.

**RHAN 7**

**Adran 71: Safonau'r Gymraeg**

Mae adran 71 yn dod â'r Ombwdsmon o fewn y gyfundrefn ar gyfer Safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i'r Ombwdsmon a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

Mae'r safonau yn y rheoliadau hynny yn gymwys yn benodol i'r cyrff a restrir yn Atodlen 6 i'r rheoliadau. Mae Adran 71(1) yn ychwanegu'r Ombwdsmon at y rhestr o gyrff yn Atodlen 6 ac yn awdurdodi'r comisiynydd, unwaith y bydd y ddarpariaeth mewn grym, i roi hysbysiad cydymffurfio i'r Ombwdsmon, yn amodol ar ymgynghori.

**Adran 72: Adolygu'r Ddeddf**

Mae Adran 72(1) yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor o'r Cynulliad adolygu'r Ddeddf cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y 5 mlynedd gyntaf y bu'r Ddeddf mewn grym. Mae Adran 72(2) yn rhoi disgresiwn i bwyllgor o'r Cynulliad adolygu'r Ddeddf ar unrhyw adeg arall.

Pan fydd pwyllgor Cynulliad yn cynnal adolygiad o dan adran 72, rhaid iddo gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad, a rhaid iddo ymgynghori wrth baratoi adroddiad.

**Adran 73: Ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 42 a 43 i rym**

Os yw'r Ombwdsmon ran o'r ffordd drwy ymchwiliad ar y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol, mae'r adran hon yn egluro y bydd yr ymchwiliad yn parhau o dan ddarpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

**Adran 74: Diddymiadau, arbedion a diwygiadau canlyniadol**

Mae'r adran hon yn diddymu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, ond:

(a) mae Deddf 2005 yn parhau i fod yn berthnasol i ymchwiliadau a ddechreuwyd cyn i'r Ddeddf hon gael Cydsyniad Brenhinol (gweler adran 73), a
(b) mae amryw ddarpariaethau yn Neddf 2005 yn cael eu harbed, a byddant felly yn parhau i gael effaith (er enghraifft mae'r newidiadau a wnaed gan adran 35 o Ddeddf 2005 mewn cysylltiad ag ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol yn parhau mewn grym ac nid effeithir arnynt).

**Adran 75: Cychwyn**

Mae'r adran hon yn darparu bod adrannau 1 i 74 a'r Atodlenni'n dod i rym drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Daw adrannau 75 i 80 i rym pan gaiff y Bil Gydsyniad Brenhinol.

**Adran 76: Dehongli**

Mae'r adran hon yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Ddeddf.

Mae adran 76(7) yn galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i gamau gweithredu a gymerwyd ar ran awdurdod rhestredig yn yr un modd ag y gall ymchwilio i gamau gweithredu gan yr awdurdod rhestredig ei hun.

**Adran 77: Cyn-ddarparwyr gofal iechyd, cyn-landlordiaid cymdeithasol, cyn-ddarparwyr gofal cymdeithasol a chyn-ddarparwyr gofal lliniarol: addasiadau**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn addasu'r modd y mae'r Ddeddf yn gymwys mewn cysylltiad â chyn-ddarparwyr gwasanaethau iechyd teulu yng Nghymru, cyn-ddarparwyr annibynnol yng Nghymru a chyn-landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru addasu'n briodol y ffordd o gymhwyso'r Ddeddf mewn cysylltiad â darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru, darparwr annibynnol yng Nghymru neu landlord cymdeithasol yng Nghymru, ond sydd wedi peidio â bod yn awdurdod rhestredig o'r fath ers hynny.

Er enghraifft, bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu adrannau 22 (adroddiadau ar ymchwiliadau); adran 24 (fel y mae'n ymwneud â rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau: darparwyr gofal iechyd); ac adran 25 (camau gweithredu ar ôl cael adroddiad) mewn achosion o'r fath.

| |
|---|
| **Adran 78: Darpariaethau canlyniadol, trosiannol etc**<br><br>Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, wneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, atodol, drosiannol, arbed ac ati sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r Ddeddf. |
| **Adran 79: Rheoliadau a chyfarwyddydau**<br><br>Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaeth sy'n berthnasol i unrhyw bŵer yn y Ddeddf i wneud rheoliadau neu i gyhoeddi cyfarwyddyd. Mae adran 79(1) yn darparu y gellir defnyddio offeryn statudol i arfer rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. |
| **Adran 80: Enw byr**<br><br>Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf fydd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2018. |

## ATODIAD B – MYNEGAI O OFYNION Y RHEOLAU SEFYDLOG

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalennau / paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; | Datganiad yr Aelod | Tudalen 2 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Mae'r amcanion polisi wedi'u nodi ym mharagraffau 3.29-3.55 yn gynwysedig ar dudalennau 15 i 22. |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol<br>Pennod 10 - Opsiynau Polisi | Nodir opsiynau eraill ar dudalennau 55 hyd 58. |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil; ac<br>(c) Bil drafft, naill ai'n llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau). | Pennod 4 – Ymgynghori | Nodir crynodeb o'r ymgynghoriad ar dudalennau 26 i 29. |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori<br>Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Mae crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Bil drafft wedi'i nodi ym mharagraffau 4.7 - 4.11 ar dudalennau 27 i 29. |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalennau / paragraffau |
|---|---|---|---|
| | | | Mae paragraff 4.12 a 4.13 ar dudalen 29 yn nodi bod y Bil wedi ei ddiwygio. Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraff 3.22 a Thabl 1 ar dudalennau 11 a 12. |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 – Ymgynghori | Mae paragraff 3.20 ar dudalen 10 yn nodi bod drafft o’r Bil wedi’i gyhoeddi. |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau’r Bil ei wneud (i’r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi’r wybodaeth arall sy’n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil. | Atodiad A: Nodiadau Esboniadol | Ceir crynodeb o’r darpariaethau yn y Nodiadau Esboniadol ar dudalennau 138 i 175. |
| 26.6(viii) | Nodi’r amcangyfrifon gorau o’r canlynol:<br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a’r costau gros eraill y byddai darpariaethau’r Bil yn arwain atynt;<br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br>(e) ar bwy y byddai’r costau’n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol<br>Pennod 9 – Crynodeb, Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Rhoddir crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym mharagraff 9.1 ar dudalennau 49 i 54.<br><br>Rhoddir Crynodeb Gweithredol ym mharagraffau 11.9 hyd 11.23 ar dudalennau 62 i 66.<br><br>Rhoddir costau manwl ym mharagraffau 11.83 i |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalennau / paragraffau |
|---|---|---|---|
| | | | 11.189 ar dudalennau 80 i 123. |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol<br>Pennod 9 – Crynodeb, Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Ceir crynodeb o'r manteision ar dudalennau 49 i 54. Rhoddir rhagor o fanylion yn y paragraffau a ganlyn. Mae'r seren yn dangos ym mha baragraff y nodir manteision yr opsiwn a ffefrir.<br>• Paragraff 11.23<br>• Paragraff 11.94<br>• Paragraff 11.124 ac 11.125*<br>• Paragraff 11.131<br>• Paragraff 11.143*<br>• Paragraff 11.149<br>• Paragraff 11.157 ac 11.158*<br>• Paragraff 11.166<br>• Paragraff 11.172<br>• Paragraff 11.181<br>• Paragraff 11.185 ac 11.186* |
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath: | Pennod 6 - Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Rhoddir crynodeb o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalennau / paragraffau |
|---|---|---|---|
| | (a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | | yn Nhabl 3 ar dudalennau 34 i 43. |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ynghylch a yw'r tâl yn briodol neu beidio. | Pennod 7 - Codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru | Ar dudalen 44 nodir nad yw'r Bil yn codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru. |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Pennod 8 - Tabl tarddiadau | Tudalennau 45 i 48. |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6C ynghylch Atodlen o Ddiwygiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd nad yw'r Bil yn | Amherthnasol |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalennau / paragraffau |
|---|---|---|---|
| | nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | cynnig gwneud diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol. | |

# ATODIAD C - CWYNION AM GYRFF CYHOEDDUS YN ÔL CORFF CYHOEDDUS

## 2015-16

| Sector cyrff cyhoeddus | Math o gorff perthnasol | Corff perthnasol | Nifer y cwynion |
|---|---|---|---|
| Cynghorau Sir/Cynghorau Bwrdeistref Sirol | Cynghorau Sir/Cynghorau Bwrdeistref Sirol | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd Croesty | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Uwchradd Caerdydd | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd Beaufort Hill | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Uwchradd Gatholig y Fair Ddihalog | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd Tŷ Du | 1 |
| | | | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd Llanrhymni | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd Llanelltyd | 1 |
| | | Awdurdod Derbyniadau – Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru | 1 |
| | | Bwrdd Adolygu Ôl-weithredol Cymru Gyfan | 1 |
| | | Panel Apeliadau – Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | 1 |
| | | Panel Apeliadau – Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | 1 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 19 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 38 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 56 |
| | | Cyngor Caerdydd | 137 |
| | | Cyngor Sir Gâr | 40 |
| | | Cyngor Sir Ceredigion | 38 |
| | | Dinas a Sir Abertawe | 48 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 24 |
| | | Cyngor Sir Ddinbych | 39 |
| | | Cyngor Sir y Fflint | 46 |
| | | Cyngor Gwynedd | 25 |
| | | Panel Apeliadau Annibynnol – Ysgol Uwchradd Fitzalan | 1 |
| | | Panel Apeliadau Annibynnol, Ysgol Gynradd Penarlâg | 1 |
| | | Panel Apeliadau Ysgolion Annibynnol – Ysgol Gynradd Mount Stuart | 1 |
| | | Cyngor Sir Ynys Môn | 24 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 14 |
| | | Cyngor Sir Fynwy | 27 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 33 |
| | | Cyngor Dinas Casnewydd | 33 |
| | | Cyngor Sir Penfro | 42 |
| | | Cyngor Sir Powys | 53 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 41 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 16 |
| | | Cyngor Bro Morgannwg | 42 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 55 |
| | Cyfanswm Awdurdodau Lleol | | 906 |

| Sector cyrff cyhoeddus | Math o gorff perthnasol | Corff perthnasol | Nifer y cwynion |
|---|---|---|---|
| Cyrff y GIG | Bwrdd Iechyd Lleol/ Ymddiriedolaeth y GIG | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 126 |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 93 |
| | | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | 156 |
| | | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 79 |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 60 |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 98 |
| | | Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG | 1 |
| | | Bwrdd Addysgu Iechyd Powys | 29 |
| | | Iechyd Cyhoeddus Cymru | 2 |
| | | Ymddiriedolaeth y GIG Felindre | 2 |
| | | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 16 |
| | Bwrdd Iechyd Lleol/ Ymddiriedolaeth y GIG | | 662 |
| | | | |
| | Deintydd | Deintyddion | 31 |
| | Cyfanswm Deintyddion | | 31 |
| | | | |
| | Meddyg teulu | Meddygon teulu | 103 |
| | Cyfanswm meddygon teulu | | 103 |
| | | | |
| | Fferyllydd | Fferyllydd | 1 |
| | Cyfanswm Fferyllwyr | | 1 |
| | | | |
| | Optegydd | Optegwyr | 1 |
| | Cyfanswm Optegwyr | | 1 |
| | Cyfanswm cyrff y GIG | | 798 |

| Sector cyrff cyhoeddus | Math o gorff perthnasol | Corff perthnasol | Nifer y cwynion |
|---|---|---|---|
| Tai Cymdeithasol | Cymdeithasau Tai | Cymdeithas Tai Bro Myrddin | 2 |
| | | Cartrefi Cymunedol Bron Afon Cyf | 10 |
| | | Grŵp Tai Cadarn Cyf | 1 |
| | | Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf | 3 |
| | | Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd Cyf | 5 |
| | | Cartrefi Conwy | 4 |
| | | Cartrefi Cymunedol Gwynedd | 17 |
| | | Cymdeithas Tai Charter | 8 |
| | | Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Cyf | 9 |
| | | Grŵp Tai Coastal Cyf | 2 |
| | | Cymdeithas Tai Cantref | 1 |
| | | Tai Cymunedol Cynon Taf | 1 |
| | | Derwen Cymru | 2 |
| | | Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf | 1 |
| | | Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf | 1 |
| | | Grŵp Cynefin | 1 |
| | | Grŵp Gwalia Cyf | 10 |
| | | Cymdeithas Tai Hafod | 7 |
| | | Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf | 1 |
| | | Cymdeithas Tai Linc-Cymru | 5 |
| | | Cartrefi Melin Cyf | 4 |
| | | Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf | 1 |
| | | Cartrefi Cymoedd Merthyr | 9 |
| | | Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf | 3 |
| | | Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 2 |
| | | Cartrefi Dinas Casnewydd | 8 |
| | | Cymdeithas Tai Newydd | 1 |
| | | Tai Gogledd Cymru | 4 |
| | | Cartrefi Castell-nedd Port Talbot | 16 |
| | | Cymdeithas Tai Sir Benfro Cyf | 4 |
| | | Cartrefi Rhondda Cynon Taf | 5 |
| | | Cymdeithas Tai Rhondda Cyf | 4 |
| | | Tai Calon | 3 |
| | | Tai Ceredigion Cyf | 5 |
| | | Cymdeithas Tai Unedig Cymru | 5 |
| | | Cymoedd i'r Arfordir | 2 |
| | | Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin | 7 |
| | | Eraill | 1 |
| | Cyfanswm Cymdeithasau Tai | | 175 |

| Sector cyrff cyhoeddus | Math o gorff perthnasol | Corff perthnasol | Nifer y cwynion |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi | Llywodraeth Cymru | Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru | 6 |
| | | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 6 |
| | | Ysgrifenyddiaeth Cwynion Annibynnol | 1 |
| | | Arolygiaeth Gynllunio | 6 |
| | | Llywodraeth Cymru | 20 |
| | | Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | 5 |
| | Cyfanswm Llywodraeth Cymru | | 44 |
| | | | |
| | Corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | 1 |
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru | 9 |
| | | Cyllid Myfyrwyr | 4 |
| | Corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru | | 14 |
| | | | |
| | Llywodraeth Cymru – Eraill | Eraill | 1 |
| | Cyfanswm ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi | | 59 |
| | | | |
| Cynghorau Cymuned | Cynghorau Cymuned | Cyngor Tref y Fenni | 1 |
| | | Cyngor Tref Aberystwyth | 1 |
| | | Cyngor Dinas Bangor | 1 |
| | | Cyngor Cymuned De Corneli | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Corris | 1 |
| | | Cyngor Tref Cwmaman | 1 |
| | | Cyngor Tref Glyn-nedd | 3 |
| | | Cyngor Tref Caergybi | 2 |
| | | Cyngor Cymuned Llanddewi Rhydderch | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Llanfynydd [Sir Gâr] | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Llantrisant | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdre | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Llywel | 1 |
| | | Cyngor Tref Castell-nedd | 7 |
| | | Cyngor Tref Penarth | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Sili a Larnog | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Llanddunwyd | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Ynysawdre | 3 |
| | Cyfanswm Cynghorau Cymuned | | 30 |

| Sector cyrff cyhoeddus | Math o gorff perthnasol | Corff perthnasol | Nifer y cwynion |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 6 |
| | | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 2 |
| | | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 0 |
| | Cyfanswm Parciau Cenedlaethol | | 8 |
| | | | |
| Darparwyr annibynnol (iechyd a gofal) | Darparwr Annibynnol y GIG | Leonard Cheshire Disability | 1 |
| | Cyfanswm darparwyr annibynnol y GIG | | 1 |
| | | | |
| | Darparwr gofal hunanariannu | Cartref Nyrsio Lakeside House | 1 |
| | | Loving Care | 1 |
| | | Sevacare | 2 |
| | | Cartref Nyrsio Springbank | 1 |
| | | Cartref Gofal Torestin Cyf (Cartref Gofal Brynderwen Cyf) | 1 |
| | | Cartref Gofal Tŷ Porth | 1 |
| | Cyfanswm darparwyr gofal hunanariannu | | 7 |
| | | | |
| | Darparwyr Gofal Annibynnol | Cartref Gofal Craig y Trwyn | 1 |
| | | Gofal Gwynedd Cyf | 1 |
| | | Marjorie Kirby (Cartref Preswyl Warrendale Cottage) | 1 |
| | | Cartref Gofal Trewythen Hall | 1 |
| | | Cartref Gofal Hallmark Cyf | 1 |
| | | Cartref Preswyl Kinmel Lodge | 1 |
| | Cyfanswm darparwyr gofal annibynnol | | 6 |
| | | | |
| | Cyfanswm darparwyr annibynnol | | 14 |
| | | | |
| Awdurdodau Tân | Awdurdodau Tân | | |
| | | Awdurdod Tân De Cymru | 1 |
| | Cyfanswm Awdurdodau Tân | | 1 |
| | | | |
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 1 |
| | Cyfanswm Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | | 1 |
| Cyfanswm terfynol | | | 1992 |

## 2016-17

| Sector cyrff cyhoeddus | Math o gorff perthnasol | Corff Perthnasol | Nifer y cwynion |
|---|---|---|---|
| Cynghorau Sir/Cynghorau Bwrdeistref Sirol | Cynghorau Sir/Cynghorau Bwrdeistref Sirol | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd Parc y Rhath | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwy | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Santes Brigid | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Uwchradd Caerdydd | 2 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Basaleg | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Uwchradd Caerdydd | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd Pillgwenlly | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd Rhydypennau | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Es | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Uwchradd Penarlâg | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Trecelyn | 2 |
| | | Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Gynradd Eglwys Gadeiriol San Joseff | 1 |
| | | Panel Apeliadau – Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | 1 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 12 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 44 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 54 |
| | | Cyngor Caerdydd | 143 |
| | | Cyngor Sir Gâr | 44 |
| | | Cyngor Sir Ceredigion | 32 |
| | | Dinas a Sir Abertawe | 52 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 28 |
| | | Cyngor Sir Ddinbych | 24 |
| | | Cyngor Sir y Fflint | 39 |
| | | Cyngor Gwynedd | 32 |
| | | Panel Apeliadau Annibynnol – Ysgol Uwchradd Fitzalan | 1 |
| | | Panel Apeliadau Annibynnol – Ysgol Gynradd Garnteg | 3 |
| | | Panel Apeliadau Annibynnol – Ysgol Estyn | 1 |
| | | Panel Apeliadau Derbyniadau Ysgol Annibynnol (Caerdydd) | 1 |
| | | Cyngor Sir Ynys Môn | 24 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 10 |
| | | Cyngor Sir Fynwy | 18 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 38 |
| | | Cyngor Dinas Casnewydd | 26 |
| | | Cyngor Sir Penfro | 29 |
| | | Cyngor Sir Powys | 54 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 47 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 23 |
| | | Cyngor Bro Morgannwg | 41 |
| | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 46 |
| | Cyfanswm Awdurdodau Lleol | | 881 |

| Sector cyrff cyhoeddus | Math o gorff perthnasol | Corff Perthnasol | Nifer y cwynion |
|---|---|---|---|
| Cyrff y GIG | Bwrdd Iechyd Lleol/ Ymddiriedolaeth y GIG | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 94 |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 90 |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 192 |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 91 |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 76 |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 113 |
| | | Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG | 2 |
| | | Bwrdd Addysgu Iechyd Powys | 20 |
| | | Ymddiriedolaeth y GIG Felindre | 1 |
| | | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 19 |
| | Bwrdd Iechyd Lleol/ Ymddiriedolaeth y GIG | | 698 |
| | | | |
| | Cynghorau Iechyd Cymuned | Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg | 1 |
| | | Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg | 1 |
| | | Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf | 1 |
| | Cyfanswm Cynghorau Iechyd Cymuned | | 3 |
| | | | |
| | Deintydd | Deintyddion | 26 |
| | Cyfanswm Deintyddion | | 26 |
| | | | |
| | Meddygon teulu | Meddygon teulu | 133 |
| | Cyfanswm meddygon teulu | | 133 |
| | | | |
| | Fferyllydd | Fferyllwyr | 3 |
| | Cyfanswm Fferyllwyr | | 3 |
| | Cyfanswm cyrff y GIG | | 863 |

| Sector cyrff cyhoeddus | Math o gorff perthnasol | Corff perthnasol | Nifer y cwynion |
|---|---|---|---|
| Tai Cymdeithasol | Cymdeithasau Tai | Cymdeithas Tai Aelwyd | 1 |
| | | Cymdeithas Tai Bro Myrddin | 1 |
| | | Cartrefi Cymunedol Bron Afon Cyf | 16 |
| | | Grŵp Tai Cadarn Cyf | 1 |
| | | Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf | 5 |
| | | Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd Cyf | 6 |
| | | Gofal a Thrwsio Ynys Môn | 1 |
| | | Cartrefi Conwy | 15 |
| | | Cartrefi Cymunedol Gwynedd | 10 |
| | | Cymdeithas Tai Charter | 6 |
| | | Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Cyf | 1 |
| | | Grŵp Tai Coastal Cyf | 4 |
| | | Derwen Cymru | 1 |
| | | Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf | 2 |
| | | Grŵp Cynefin | 1 |
| | | Gwalia Cyf | 5 |
| | | Cymdeithas Tai Hafod | 5 |
| | | Cymdeithas Tai Linc-Cymru | 3 |
| | | Cartrefi Melin Cyf | 6 |
| | | Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf | 1 |
| | | Cartrefi Cymoedd Merthyr | 8 |
| | | Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf | 1 |
| | | Cartrefi Mill Bay | 1 |
| | | Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 4 |
| | | Cartrefi Dinas Casnewydd | 18 |
| | | Cymdeithas Tai Newydd | 7 |
| | | Tai Gogledd Cymru | 5 |
| | | Cartrefi Castell-nedd Port Talbot | 6 |
| | | Cymdeithas Tai Sir Benfro Cyf | 2 |
| | | Cymdeithas Tai Taf | 2 |
| | | Tai Calon | 5 |
| | | Tai Ceredigion Cyf | 1 |
| | | Trivallis | 15 |
| | | Cymdeithas Tai Unedig Cymru | 10 |
| | | Cymoedd i'r Arfordir | 7 |
| | | Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin | 8 |
| | Cyfanswm Cymdeithasau Tai | | 191 |

| **Sector cyrff cyhoeddus** | **Math o gorff perthnasol** | **Corff perthnasol** | **Nifer y cwynion** |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi | Llywodraeth Cymru | Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cyr | 4 |
| | | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 5 |
| | | Yr Arolygiaeth Gynllunio | 11 |
| | | Llywodraeth Cymru | 17 |
| | | Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | 1 |
| | Cyfanswm Llywodraeth Cymru | | 38 |
| | | | |
| | Corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru | Cyngor Gofal Cymru | 1 |
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru | 12 |
| | | Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyf | 15 |
| | | Llywodraeth Cymru – Cadw | 2 |
| | Corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru | | 30 |
| | Cyfanswm ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi | | 68 |
| | | | |
| Cynghorau Cymuned | Cynghorau Cymuned | Cyngor Cymuned Aberdyfi | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Aberporth | 2 |
| | | Cyngor Cymuned Bracla | 2 |
| | | Cyngor Cymuned yr Ystog | 2 |
| | | Cyngor Cymuned Clocaenog | 1 |
| | | Cyngor Tref Dolgellau | 1 |
| | | Cyngor Tref Caergybi | 4 |
| | | Cyngor Cymuned Llanbedr | 1 |
| | | Cyngor Tref Llandudno | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Llandwrog | 2 |
| | | Cyngor Cymuned Llanharan | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Mawr | 1 |
| | | Cyngor Tref Castell-nedd | 1 |
| | | Cyngor Tref Penarth | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Pen-y-cae | 1 |
| | | Cyngor Tref Porthcawl | 1 |
| | | Cyngor Tref Prestatyn | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Rhaglan | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Blaendulais | 1 |
| | | Cyngor Cymuned Ynysawdre | 1 |
| | Cyfanswm Cynghorau Cymuned | | 28 |

| Sector cyrff cyhoeddus | Math o gorff perthnasol | Corff perthnasol | Nifer y cwynion |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 2 |
| | | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 2 |
| | | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 1 |
| | Cyfanswm Parciau Cenedlaethol | | 5 |
| | | | |
| Darparwyr annibynnol (iechyd a gofal) | Darparwr Annibynnol y GIG | Cartref Nyrsio Glasfryn | 1 |
| | | Sant Ioan Cymru – Cymru | 1 |
| | Cyfanswm darparwyr annibynnol y GIG | | 2 |
| | | | |
| | Darparwr gofal hunanariannu | Allied Healthcare | 1 |
| | | Canolfannau gofal Broadway | 1 |
| | | Cartref gofal Tŷ Glanenig | 1 |
| | | Cartref gofal preswyl Hafod | 1 |
| | | HC One Cyf | 1 |
| | | Cartref gofal Hengoed Court | 1 |
| | | MiHomecare Cyf | 1 |
| | | Tŷ Nazareth | 1 |
| | | Q Care Cyf | 1 |
| | | Cartref gofal Castell Tywi | 1 |
| | Cyfanswm darparwyr gofal hunanariannu | | 10 |
| | | | |
| | Eraill | Caldey Grange | 1 |
| | Cyfanswm – eraill | | 1 |
| | | | |
| | Cyfanswm darparwyr annibynnol | | 13 |
| | | | |
| Awdurdodau Tân | Awdurdodau Tân | Gwasanaeth Tān Canolbarth a Gorllewin Cymru | 1 |
| | | Awdurdod Tân De Cymru | 2 |
| | Cyfanswm Awdurdodau Tân | | 3 |
| | | | |
| Awdurdodau Heddlu | Awdurdodau Heddlu | Panel yr Heddlu a Throseddu De Cymru | 3 |
| | Cyfanswm Awdurdodau Heddlu | | 3 |
| | | | |
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 1 |
| | Cyfanswm Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | | 1 |
| Cyfanswm terfynol | | | 2056 |